

CABINET



CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD	Dydd Mawrth, 15fed Medi, 2020
AMSER	1.00 y.h.
LLEOLIAD	Rhith-gyfarfod
PWYNT CYSWLLT	Annes Siôn 01286 679490 cabinet@gwynedd.llyw.cymru

AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

Aelodau	
Dyfrig L. Siencyn	Arweinydd
Dafydd Meurig	Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Tai
Gareth Wyn Griffith	Aelod Cabinet Amgylchedd
Nia Wyn Jeffreys	Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
Gareth Thomas	Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned
Ioan Thomas	Aelod Cabinet Cyllid
Catrin Wager	Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol
Cemlyn Rees Williams	Aelod Cabinet Addysg

RHAGLEN

	Eitem	Cyflwynir gan	Swyddog	Tud.
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYD			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	YSGOL ABERSOCH	Cyng. Cemlyn Williams	Gwern ap Rhisiart	3 - 130
6	ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2019/20	Cyng. Dyfrig Siencyn	Dewi Wyn Jones	131 - 200
7	ADRODDIAD COVID-19 - ADFER	Cyng. Dyfrig Siencyn a Cyng. Dafydd Meurig	Dilwyn Williams	201 - 208

ADRODDIAD I'R CABINET

Dyddiad y cyfarfod:	15 Medi 2020
Aelod Cabinet:	Cynghorydd Cemlyn Rees Williams
Swyddog Cyswllt:	Gwern ap Rhisiart – Swyddog Addysg Ardal Dwyfor Meirionnydd
Teitl yr eitem:	Ysgol Abersoch

Y PENDERFYNIAD A GEISIR:

Ceisir caniatâd Cabinet y Cyngor i gynnal ymgynghoriad statudol, yn unol â gofynion adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ar y cynnig arfaethedig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021 a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021 ymlaen.

1. CYFLWYNIAD


- 1.1. Yn eu cyfarfod ar 17 Medi 2019, bu i'r Cabinet gefnogi argymhelliad i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol Ysgol Abersoch er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol. Daeth y penderfyniad yn sgil pryderon diweddar ynglŷn â lleihad yn niferoedd disgyblion yr ysgol.
- 1.2. Pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd yn ôl ar ganlyniad y trafodaethau lleol, a cheisio caniatâd i gynnal ymgynghoriad statudol ar gynnig i gau Ysgol Abersoch ar 31 Awst 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Medi 2021 ymlaen.

2. CYD-DESTUN STRATEGOL

- 2.1 Mae'r Cyngor wedi gweithredu'r Strategaeth "Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd" ers ei mabwysiadwyd gan y Cyngor Llawn yn Ebrill 2009. Nodir yn y strategaeth fod angen sicrhau modd i fedru rhoi sylw i sefyllfaoedd rhai ysgolion sy'n fregus.
- 2.2 Yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2018, bu i'r Cabinet gymeradwyo egwyddorion "Addysg Addas i Bwrpas" sydd bellach yn sail ar gyfer gwireddu gweledigaeth yr Adran Addysg a datblygu'r gyfundrefn er sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r egwyddorion hyn yn gweithio tuag at resymoli ystod oedran o fewn dosbarthiadau cynradd a sicrhau amser digyswllt digonol i benaethiaid ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth yn yr ysgolion cynradd.

3. SEFYLLFA BRESENNOL YSGOL ABERSOCH

- 3.1 Mae Ysgol Abersoch wedi ei lleoli yng nghanol pentref Abersoch ger Pwllheli, ac yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 8 oed. Trosglwydda'r disgyblion i Ysgol Sarn Bach ar ôl blwyddyn 3 er mwyn cwblhau eu haddysg gynradd.
- 3.2 Mae gan Ysgol Abersoch gapasiti o 42 (meithrin i flwyddyn 3), ac mae 8 disgybl llawn amser, ac 2 disgybl meithrin (rhan amser) ar y gofrestr (Medi 2020).



3.3 Fel y gwelir o'r graff uchod, mae niferoedd disgyblion yr ysgol wedi gostwng yn gyson ers 2016 ac yn fregus ers peth amser. Mae'n debygol felly fod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys:

- **Niferoedd disgyblion** – Yn Medi 2020, roedd 8 disgybl llawn amser, a 2 ddisgybl meithrin
- **Rhagamcanion niferoedd** – Medi 2021 = 10; Medi 2022 = 12; Medi 2023 = 12
- **Canran uchel o lefydd gweigion** – Yn seiliedig ar ffigyrau Medi 2020, mae o ddeutu 76% o lefydd gweigion yn yr ysgol (32 mewn nifer)
- **Maint dosbarthiadau bychain** – 1 dosbarth gyda 10 disgybl (Medi 2020)
- **Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau**
- **Ysgol Abersoch yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol** trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddisgyblion). Cyfanswm y swm yn ystod y flwyddyn ariannol 2020-21 (seiliedig ar niferoedd Medi 2019) yw £52,582
- **Cost fesul disgybl** yn Ysgol Abersoch yn £17,404 (2020-21), y cyfartaledd sirol ar gyfer cost fesul disgybl yw £4,198.

4. DATBLYGIADAU DIWEDDAR

Sefydlu Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi yn Ysgol Abersoch

4.1 Yn ystod tymor yr Hydref 2019, bu i ran-ddeiliad Ysgol Abersoch sefydlu Pwyllgor Rheoli Gwirfoddol i ymgymryd â'r dasg o sefydlu Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi yn yr ysgol.

4.2 Cynhaliwyd y sesiynau cyntaf o'r Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ym mis Chwefror eleni. Erbyn heddiw, mae Cylch Meithrin Abersoch yn rhan o'r cynllun gofal 30 awr am ddim i blant 3 a 4 oed, ac yn cynnal sesiwn cylch meithrin am 2 awr pum gwaith yr wythnos, yn ogystal â sesiwn clwb cinio dair gwaith yr wythnos.

5. TRAFODAETHAU LLEOL

- 5.1 Ym mis Gorffennaf 2019, bu i swyddogion o'r Adran Addysg gyfarfod â Chorff Llywodraethol Ysgol Abersoch er mwyn trafod sefyllfa fregus yr ysgol. Yn ystod y cyfarfod, nodwyd y bwriad i geisio caniatâd y Cabinet i symud y drafodaeth yn ei blaen trwy gynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda'r Corff Llywodraethol a'r rhan-ddeiliad perthnasol i drafod opsiynau ar gyfer yr ysgol.
- 5.2 Yn unol â phenderfyniad y Cabinet (17 Medi 2019), ym mis Hydref 2019 sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol Abersoch (PAY). Gwahoddwyd holl aelodau'r Corff Llywodraethol, rhieni a staff yr ysgol yn ogystal â'r aelod etholedig lleol i ymuno â'r panel a chymryd rhan yn y drafodaeth.
- 5.3 Ar 7 Hydref 2019, cynhaliwyd y cyntaf o dri chyfarfod PAY ymhle cafwyd trafodaeth gychwynnol am opsiynau. Eglurwyd fod angen ystyried opsiynau fyddai'n ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol (fel y manylir ym mharagraff 3.3 uchod).
- 5.4 Cynhaliwyd yr ail gyfarfod PAY ar 13 Tachwedd 2019. Yn ystod y cyfarfod, gwerthuswyd cryfderau, cyfleoedd, gwendidau a bygythiadau'r holl opsiynau. Derbyniwyd sylwadau pellach gan y corff llywodraethol yn dilyn y cyfarfod yn ogystal.
- 5.5 Yn dilyn derbyn mewnbwn aelodau'r PAY, gwerthuswyd yr holl opsiynau yn erbyn ffactorau'r Strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*, a'r heriau a nodir uchod (paragraff 3.3). Ystyriwyd casgliadau'r gwerthusiad, a mireiniwyd y rhestr o opsiynau i 3. Cyflynwyd yr opsiynau hyn yn ystod y trydydd cyfarfod PAY ar 6 Ionawr 2020 a nodwyd y bwriad i gynnal asesiadau pellach cyn dod i benderfyniad ar yr opsiwn a ffafrir.

6. GWERTHUSO OPSIYNAU

- 6.1 Yn unol â strategaeth "*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*" ystyriwyd nifer o ffactorau wrth werthuso'r opsiynau ar gyfer y sefyllfa, gan gynnwys:
- Maint dosbarthiadau
 - Niferoedd disgyblion
 - Arweinyddiaeth a Staffio
 - Y Gymuned
 - Adnoddau Ariannol
 - Yr Iaith Gymraeg
 - Ffactorau Daearyddol
- 6.2 Gyda mewnbwn aelodau'r PAY yn ystod y cyfarfodydd lleol, crëwyd rhestr o opsiynau i'w hystyried ar gyfer yr ysgol:
- Gwneud dim (parhau hefo'r status quo)
 - Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 i 3-11 oed
 - Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 i 3-9 oed
 - Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos
 - Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen ar safle Ysgol Abersoch, a CA2 ar safle'r ysgol gyfagos
 - Ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen + Blwyddyn 3 a 4 + Blwyddyn 5 a 6 ar safle 3 ysgol wahanol
 - Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol amgen

- Lleoli Canolfan Iaith ar safle Ysgol Abersoch
- Sefydlu cylch meithrin yn Ysgol Abersoch
- Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 i 3-9 oed + sefydlu Cylch Meithrin yn Ysgol Abersoch

6.3 Yn dilyn gwerthuso manteision ac anfanteision yr opsiynau uchod yn erbyn y ffactorau yn y strategaeth *Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*, daeth 3 o opsiynau i'r amlwg fel y rhai a fyddai fwyaf hyfyr a realistig i gyfarch sefyllfa'r ysgol, sef:

- Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11
- Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos
- Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol amgen

6.4 Gellir gweld cymhariaeth bellach o'r holl opsiynau yn erbyn ffactorau'r strategaeth yn Atodiad 1 (Tabl Gwerthusiad Opsiynau). Fel yr eglurir ym mharagraff 4.1 uchod, mae sefyllfa'r ysgol wedi datblygu ers Medi 2019 yn sgil agor Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle'r ysgol. Er mwyn sicrhau cymhariaeth deg, noder fod datblygiad y Cylch Meithrin a'i effeithiau posib wedi derbyn ystyriaeth o dan yr holl opsiynau, gan gynnwys y Status Quo.

7. CYMHARU OPSIYNAU

7.1 Gwneud dim – parhau hefo'r Status Quo:

- 7.1.1 Er bod yr achos dros newid eisoes wedi ei sefydlu, mae'r model 'Gwneud Dim' wedi ei gynnwys at ddiben cymharu.
- 7.1.2 Byddai'r model yma yn golygu na fyddai newid i'r ddarpariaeth bresennol yn nalgylch Ysgol Abersoch.
- 7.1.3 Fel y nodir uchod, agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle'r ysgol ym mis Chwefror 2020. Serch hynny, ac er yn cydnabod yr effaith gadarnhaol bosib gall lleoli Cylch Meithrin ar safle Ysgol Abersoch gael ar y niferoedd, nid oes modd gwarantu y byddai'n arwain at gynnydd sylweddol yn y niferoedd.
- 7.1.4 Wedi pwyso a mesur sefyllfa ddiweddaraf yr ysgol yn erbyn y ffactorau perthnasol, deuir i'r casgliad nad yw'r model yma yn ymateb yn ddigonol i sefyllfa fregus yr ysgol. Trwy wneud dim, byddai'r her o leihad mewn niferoedd, maint dosbarthiadau bychain a'r heriau cyllidol sy'n wynebu'r ysgol yn parhau.

7.2 YR OPSIYNAU I'W HYSTYRIED YMHELLACH

7.3 Newid ystod oed Ysgol Abersoch

- 7.3.1 Trafodwyd 2 opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol, sef ymestyn i 3-9 ac ymestyn i 3-11.
- 7.3.2 Dylid nodi mai'r opsiwn a ffafriwyd yn lleol oedd yr opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-9, gan gynnwys datblygiad y cylch meithrin. Ffafriwyd yr opsiwn yma yn lleol am resymau ymarferol megis gwell defnydd o'r gofod gwag yn adeilad yr ysgol yn sgil darparu lleoliad ar gyfer y Cylch Meithrin, ac i liniaru'r effaith bosib allasai'r newid ei gael

ar niferoedd Ysgol Sarn Bach (yr ysgol sydd yn darparu addysg i ddisgyblion 9-11 dalgylch Abersoch).

- 7.3.3 Wrth gymharu'r ddau opsiwn, daethpwyd i'r canlyniad mai'r opsiwn gorau ar gyfer ystyriaeth bellach oedd yr opsiwn i ymestyn yr ystod oed i 3-11. Diystyriwyd yr opsiwn 3-9 am sawl rheswm, yn benodol:
- Ni ragwelir y byddai ychwanegu blwyddyn addysgol yn arwain at gynnydd digonol yn y niferoedd. O ganlyniad, byddai'r heriau sy'n wynebu'r ysgol yn parhau.
 - Ni fyddai'r ystod oed yn gyson gyda mwyafrif ysgolion cynradd y sir.
 - Ni fyddai'n caniatáu i'r ysgol gynnig darpariaeth CA2 cyflawn. Byddai'r disgyblion yn parhau i drosglwyddo i Ysgol Sarn Bach er mwyn cwblhau eu haddysg gynradd.
- 7.3.4 Credir y byddai'r opsiwn i ymestyn yr ystod oed i 3-11 yn cynnig mwy o fanteision o safbwynt cyfle i godi niferoedd yr ysgol. Byddai'r opsiwn hefyd yn cysoni'r ystod oed gyda gweddill ysgolion y sir, ac yn golygu fod yr ysgol yn cynnig darpariaeth CA2 cyflawn.
- 7.3.5 Er mwyn i'r opsiwn ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol, byddai'n rhaid i'r cynnydd hwn fod yn un sylweddol. Serch hynny, mae'n debygol y byddai unrhyw gynnydd yn y niferoedd Ysgol Abersoch o ganlyniad i ymestyn yr ystod oed, yn achosi lleihad yn niferoedd Ysgol Sarn Bach, ac o bosib, yr ysgolion cyfagos.
- 7.3.6 Yn dilyn ystyriaeth bellach, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yn ddatrysiad cynaliadwy i'r dyfodol ar gyfer yr ysgol, a gall gael effaith ar niferoedd disgyblion yr ysgolion cyfagos.

7.4 Ffederaleiddio:

- 7.4.1 Fel y gwelir uchod (para. 6.2) trafodwyd ac ystyriwyd 3 math gwahanol o ffederaleiddio. Daethpwyd i'r casgliad mai'r opsiwn oedd fwyaf rhesymol i'w hystyried ymhellach oedd yr opsiwn i ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos.
- 7.4.2 Byddai'r model yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Abersoch trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol gyfagos dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, TG, adeiladau, ac arbenigedd.
- 7.4.3 Fodd bynnag, mae'n annhebygol y byddai'r opsiwn yn cyfarch yr her o leihad mewn niferoedd, ac o ganlyniad, byddai heriau cyllidol yr ysgol yn parhau.
- 7.4.4 Wrth ystyried y model hwn, rhaid asesu beth fyddai unrhyw effaith ar sut byddai'r ddwy ysgol yn gweithredu. Gan nodi'r heriau sy'n wynebu Ysgol Abersoch, byddai'n rhaid sicrhau byddai trefniant o'r fath yn medru cynnig manteision i holl blant a phobl ifanc yr ysgolion sy'n ffedereiddio drwy wella'r ddarpariaeth addysgol.

7.4.5 Bu trafodaethau gyda phenaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr y ddwy ysgol gyfagos (Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Llanbedrog), parthed yr opsiwn i sefydlu ffederasiwn gydag Ysgol Abersoch.

7.4.6 Yn dilyn pwyso a mesur y manteision a'r anfanteision, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yn ddatrysiad cynaliadwy ar gyfer yr ysgol. Pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei wireddu, rhagwelir y byddai'r her o niferoedd isel o ddisgyblion, maint dosbarthiadau bychain a'r heriau cyllidol sy'n wynebu'r ysgol yn parhau.

7.5 Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol amgen

7.5.1 Byddai'r model yma'n golygu cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion gael eu haddysgu yn Ysgol Sarn Bach.

7.5.2 Ystyrir Ysgol Sarn Bach fel yr 'ysgol amgen' am y rhesymau canlynol:

- Ysgol Sarn Bach yw'r ysgol ddaearyddol agosaf at Ysgol Abersoch. Mae'r ysgol wedi ei lleoli 1.4 milltir o safle Ysgol Abersoch.
- Mae Ysgol Sarn Bach eisoes yn derbyn disgyblion o Ysgol Abersoch ym mlwyddyn 4.
- Mae 40% o blant (3-8 oed) dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach.
- Mae gan Ysgol Sarn Bach gapasiti i dderbyn disgyblion presennol Ysgol Abersoch.

7.5.3 Manylir ar y cynnig yma ymhellach yn yr adran ddilynol.

8. YR OPSIWN A FFAFRIR

8.1 O'r opsiynau a ystyriwyd, yr opsiwn a gaiff ei ffafrio ar gyfer ymgynghoriad pellach yw cau Ysgol Abersoch a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Sarn Bach. Caiff yr opsiwn hwn ei ffafrio am y rhesymau a ganlyn:

8.2 Maint dosbarthiadau:

8.2.1 Mae gan Ysgol Abersoch un dosbarth, gyda 10 disgybl rhwng 3 ac 8 oed (Medi 2020). Cyfartaledd maint dosbarthiadau presennol Ysgol Sarn Bach yw 23. Byddai gwireddu'r cynnig yn golygu fod disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy hyfyw, a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran.

8.2.2 Yn Ysgol Sarn Bach, ceir dau ddosbarth, un gyda 22 disgybl rhwng 3 a 8 oed, ac un gyda 24 disgybl rhwng 8 ac 11 oed (Medi 2020). Os gweithredir y cynnig, bydd rhaid rhoi sylw priodol i unrhyw effeithiau posib ar faint dosbarthiadau er mwyn sicrhau'r cyfleodd a'r profiadau gorau i'r plant.

8.3 Niferoedd Disgyblion

8.3.1 Mae niferoedd disgyblion Ysgol Abersoch wedi amrywio dros y blynyddoedd, ond yn gyffredinol mae gostyngiad o 50% wedi bod yn y 5 mlynedd ddiwethaf. Yn ôl y rhagamcanion a grëwyd yn Medi 2020, rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau'n isel dros y tair blynedd nesaf. Gwelir isod (tabl 1) niferoedd Ysgol Abersoch ers Medi 2014 hyd at

ragamcanion Medi 2023. Nid yw'r ffigyrau isod yn cynnwys effaith bosib y Cylch Meithrin yn yr ysgol.

Tabl 1: Niferoedd Ysgol Abersoch (M – Bl.3)

Gwir Niferoedd (Ffynhonnell: Cyfrifiad Blynyddol – Medi)							Rhagamcanion (Medi 2020)		
2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023
22	20	24	17	13	9	10	10	12	12

8.3.2 Mae gan Ysgol Sarn Bach gapasiti o 72 (M – Bl. 6), ac ym mis Medi 2020 roedd ganddi 45 disgybl llawn amser (derbyn – Bl.6) a 3 disgybl rhan amser (Meithrin). Gyda 24 o lefydd gweigion (M-Bl6), mae gan Ysgol Sarn Bach gapasiti digonol i dderbyn holl ddisgyblion presennol Ysgol Abersoch.

8.3.3 O ganlyniad i'r niferoedd isel, mae nifer o lefydd gweigion hefyd yn Ysgol Abersoch- o ddeutu 76% (32 mewn nifer). Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) Llywodraeth Cymru yn nodi fod "gormod o leoedd gwag, y gellid eu dileu, yn golygu bod adnoddau'n cael eu gwastraffu'n ddiangen... Diffinnir lefel sylweddol o ddarpariaeth dros ben fel 25% neu fwy o gapasiti ysgol". Ar hyn o bryd, rhwng Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, mae 56 (49%) o lefydd gweigion yn yr ardal. Byddai gwireddu'r opsiwn a ffafir yn gostwng cyfanswm llefydd gweigion yr ardal i 14 (19%).

8.4 Arweinyddiaeth a Staffio

8.4.1 Mae strwythur staffio presennol Ysgol Abersoch yn cynnwys un pennaeth llawn amser, athrawes rhan amser, athrawes CPA rhan amser, a chymhorthydd rhan amser. Mae gan y pennaeth ymrwymiad dysgu 70% o'r amser ac yn derbyn 30% o amser di gyswllt ar gyfer materion rheolaethol ac arweinyddiaeth.

8.4.2 Yn Ysgol Sarn Bach, ceir pennaeth, dwy athrawes rhan amser (cyfwerth ag athrawes llawn amser 1.0), a tri chymhorthydd rhan amser. Mae'r pennaeth yn dysgu 80% o'r amser ac yn derbyn 20% o amser digyswllt ar gyfer materion rheolaethol ac arweinyddiaeth.

8.5 Adnoddau Ariannol

8.5.1 Mae amrediad eang yng nghost y disgybl yn yr ardal:

- Ysgol Abersoch - £17,404
- Ysgol Sarn Bach - £4,683
- Ysgol Foel Gron - £4,984
- Ysgol Llanbedrog - £4,274

(Cyllideb 2020-21 – Seiliedig ar niferoedd Medi 2019)

8.5.2 Golygai hyn fod y gost o addysgu disgybl yn Ysgol Abersoch dros £10,000 yn uwch na'r ysgolion cyfagos.

8.5.3 Yn ogystal, o safbwynt cost y disgybl, Ysgol Abersoch yw'r uchaf yn y sir. Cyfartaledd cost y disgybl yng Ngwynedd yw £4,198.

8.5.4 Gweler isod grynodedb o ddyraniad cyllidol Ysgol Abersoch o'i gymharu ag Ysgol Sarn Bach.

	Ysgol Abersoch	Ysgol Sarn Bach
Dyraniad 2020-21	£84,558	£228,890
£ Gwarchodaeth Lleiafswm Staffio (2020-21)	£52,582	-
Cyfanswm Dyraniad 2020-21	£137,140	£228,890
£ y disgybl (seiliedig ar niferoedd Medi 2019)	£17,404	£4,683

8.5.5 Mae Ysgol Abersoch yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ym mhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddisgyblion). Cyfanswm y swm hwn eleni (2020-21) yw £52,582.

8.5.6 Nid yw Ysgol Sarn Bach yn derbyn swm ychwanegol trwy'r polisi gwarchodaeth. Mae niferoedd disgyblion presennol yr ysgol yn denu cyllideb ddigonol i gynnal lefel staffio priodol.

8.5.7 Yn y flwyddyn ariannol 2020-21, dyrannwyd cyfanswm o £366,030 i'r ddwy ysgol. O safbwynt costau refeniw, rhag amcenir y byddai'r cynnig arfaethedig yn creu arbediad blynyddol o £110,062, llai costau anghenion cludiant ychwanegol (£14,000) - sef oddeutu £96,062 y flwyddyn.

8.6 Amgylchedd Dysgu

8.6.1 Mae gan Ysgol Sarn Bach gapasiti ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch. Nodir asesiad cyflwr diweddaraf yr Adran Eiddo fod categori cyflwr Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach yn 'B'.

8.6.2 Mae'r ddwy ysgol yn ysgolion cymunedol ac yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg.

8.7 Y Gymuned

8.7.1 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018) yn nodi bod angen cynnal asesiad effaith cymunedol fel rhan o unrhyw gynnig i ad-drefnu ysgolion. Cwblhawyd asesiad effaith cymunedol ar y rhestr o opsiynau a nodir ym mharagraff 6.3. **Gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad 2.**

8.7.2 Yn gryno, nodai'r asesiad y byddai peth effaith negyddol ar y gymuned yn deillio o gau'r ysgol. Serch hynny, nodir fod 25 o'r disgyblion (M-BI.6) sydd yn byw yn nalgylch Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach, ac felly, deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgol â'r ardal ehangach eisoes.

- 8.7.3 I liniaru unrhyw effaith negyddol bosib ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, mae'r asesiad yn nodi pwysigrwydd sicrhau fod cymuned Abersoch yn cael eu cynnwys yng ngweithgarwch yr ysgol amgen, ac i annog cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.

8.8 Yr Iaith Gymraeg

- 8.8.1 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018) yn nodi bod angen cynnal asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg fel rhan o unrhyw gynnydd i ad-drefnu ysgolion. Cwblhawyd asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg ar y rhestr o opsiynau a nodir ym mharagraff 6.3. **Gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad 2.**
- 8.8.2 Nodir yr asesiad na ragwelir effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Fe ymddengys fod sefyllfa ieithyddol Ysgol Sarn Bach yn gryf iawn. Gyda 57% o ddisgyblion Ysgol Sarn Bach yn dod o gartrefi sydd yn gallu siarad Cymraeg. O gymharu, 33% o ddisgyblion Ysgol Abersoch sy'n dod o gartrefi sydd yn gallu siarad Cymraeg.
- 8.8.3 Mae Ysgol Abersoch wedi gweithio'n galed i ddatblygu sgiliau dwyieithog y plant a hyrwyddo pwysigrwydd diwylliant Cymraeg. Yn ogystal, yn 2019, llwyddodd yr ysgol i sicrhau gwobr aur Siarter Iaith Gymraeg. Mae'n bwysig felly bod y cynnig yn cydnabod yr angen i gefnogi a pharhau â'r gwaith hwn.

8.9 Ffactorau Daearyddol

- 8.9.1 Nodir y Strategaeth "Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd" y dylid ceisio cyfyngu teithio i uchafswm o 30 munud o deithio unffordd rhwng y cartref a'r ysgol. O weithredu'r cynnig, rhagwelir y byddai pob disgybl presennol yr ysgol o fewn cyrraedd rhesymol (llai na 30 munud o deithio) i'r ysgol amgen, sef Ysgol Sarn Bach.
- 8.9.2 Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu byddai disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Abersoch yn derbyn cludiant i Ysgol Sarn Bach yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion y Sir.

9. GOBLYGIADAU'R CYNNIG

9.1 Dalgylchoedd mynediad i Ysgolion

- 9.1.1 Dylid nodi fod Ysgol Sarn Bach eisoes yn derbyn disgyblion dalgylch Ysgol Abersoch ar ddechrau'r mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 8 oed.
- 9.1.2 Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu byddai dalgylch Ysgol Sarn Bach yn cael ei addasu i gynnwys ardal dalgylch presennol Ysgol Abersoch.

Map 1: Dalgylchoedd presennol yr ardal



Map 2: Dalgylch Ysgol Sarn Bach os gweithredir y cynnig



9.2 Cludiant

- 9.2.1 Fel nodir yn para. 8.9.2 uchod, pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu byddai disgyblion sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Abersoch yn derbyn cludiant i Ysgol Sarn Bach yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion y Sir.

9.3 Ystyriaethau Staffio

- 9.3.1 Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai goblygiadau staffio allasai arwain at ddiswyddiadau. Ymgynghorir yn benodol â staff a chynrychiolwyr yr Undebau fel rhan o'r cyfnod ymgynghori statudol. Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio manwl, ar y cyd ag Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau fyddai'n deillio o'r cynnig hwn gyd-fynd â'r polisi hwnnw. Bydd cyfathrebu clir ac agored yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynigion.

10. YSTYRIAETHAU ERAILL

10.1 Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018

10.1.1 Bydd unrhyw broses statudol yn cael ei gynnal yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru (Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018).

10.1.2 Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r cynnig, ystyriwyd a gwerthuswyd ystod o opsiynau ar gyfer yr ysgol, a cynhaliwyd cyfres o asesiadau effaith, gan gynnwys:

- Asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg (gweler para. 8.8)
- Asesiad o'r effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg
- Asesiad o'r effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio
- Asesiad o'r effaith debygol ar y gymuned (gweler para 8.7)

10.1.3 Mae'r asesiadau uchod i'w gweld yn **atodiad 2**.

10.2 Asesiad Cydraddoldeb

10.2.1 Cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb ar y cynnig - **gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad 2**.

10.2.2 Mae'r asesiad yn rhoi sylw penodol i elfennau cydraddoldeb gwahanol megis hil, rhyw, anabledd, iaith, crefydd neu gred ac oedran. Mae'r asesiad yn nodi'r sefyllfa bresennol ac yn dangos fod polisiau a threfniadau mewn lle a fyddai'n sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal.

10.2.3 Wedi pwysu a mesur y ffactorau perthnasol deuir i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar nodweddion cydraddoldeb. Nodir fod mesurau eisoes mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol ac aflonyddu.

10.2.4 Bydd y Cyngor yn dilyn prosesau arferol trwy gefnogi a monitro, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth pob ysgol â'r nodweddion cydraddoldeb.

10.3 Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

10.3.1 Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg disgyblion y sir drwy ei weithgareddau a'i brosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella llesiant yn "Cynllun Gwynedd 2018-23".

10.3.2 Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, deuir i'r casgliad fod y cynnig arfaethedig (fel y nodir yn para 8.1) yn cyd-fynd a 7 nod llesiant y Ddeddf, ynghyd

ag amcanion llesiant y Cyngor. Bydd y cynnig arfaethedig yn caniatáu i ni ymateb i a diwallu anghenion y plant heddiw, yn ogystal â chryfhau eu llesiant i'r dyfodol.

10.3.3 Gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad 2.

11. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

11.1 Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu cefnogi'r argymhelliad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn bydd angen cynnal cyfnod o ymgynghori statudol yn unol â'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a chanllawiau'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. Rhagwelir y bydd y cyfnod hwnnw yn cael ei gynnal yn yr wythnosau nesaf.

11.2 Wedi hynny, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet er mwyn adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r ymgynghoriad. Bydd yn ofynnol wedyn i'r Cabinet ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad, a phenderfynu a ddylid cyhoeddi Rhybudd Statudol ai peidio. Pe byddai Rhybudd Statudol yn cael ei gyhoeddi, caniateir cyfnod o 28 diwrnod i unrhyw un gyflwyno gwrthwynebiad. Yn dilyn hyn, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad terfynol. Bydd yr adroddiad hwnnw'n cynnwys crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd ynghyd ag ymatebion iddynt.

12. BARN SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

"Mae cynnwys yr adroddiad yma wedi bod yn destun cyngor cyfreithiol gan y Gwasanaeth Cyfreithiol.

Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb."

Y Pennaeth Cyllid:

"Mae rhesymau amlwg (gan gynnwys rhai ariannol) yn cefnogi'r cynnig i gau Ysgol Abersoch. Cadarnhaf fod y ffigyrau ariannol sydd yn rhan 3.3 a 8.5.1-8.5.7 o'r adroddiad ac yn rhan 'Adnoddau Ariannol' o Atodiad 1 unai yn wir gostau cywir, neu yn amcangyfrifon teg (lle'n briodol). Byddai sefydlu'r drefniadaeth newydd (cau Ysgol Abersoch a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach) yn arbed £110,062 llai anghenion cludiant ychwanegol (amcangyfrifir ar hyn o bryd oddeutu £14,000), sy'n golygu arbedion net blynyddol o tua £96,062 (fel nodir yng nghymal 8.5.7 o'r adroddiad)."

Atodiadau

Atodiad 1: Tabl Gwerthusiad Opsiynau

Atodiad 2: Asesiadau Effaith:

- Asesiad Effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg
- Asesiad Effaith debygol ar drefniadau teithio
- Asesiad Effaith debygol ar y Gymuned
- Asesiad Effaith leithyddol
- Asesiad Llesiant
- Asesiad Cydraddoldeb

Atodiad 3: Pecyn cefndirol gan gynnwys cyflwyniadau a chofnodion y cyfarfodydd lleol.

Atodiad 1



Gwerthusiad Opsiynau Ysgol Abersoch

Allwedd

Ffont Glas– Manteision

Ffont Coch –

Anfanteision

Ffont Du – Ffeithiau /

Sylwadau

	1	2 (a)	2 (b)	3	4
	Status Quo	Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed	Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-9 oed	Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos	Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan leoli’r Cyfnod Sylfaen ar safle Ysgol Abersoch, a CA2 ar safle’r ysgol gyfagos
Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran	Maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch yn parhau yn fach – 1 dosbarth o 10 (Medi 2020). Amrediad oedran hyd at 5 mlynedd yn parhau yn y dosbarth.	Maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch yn parhau yn fach – 1 dosbarth o 10 (Medi 2020). Amrediad oedran hyd at 5 mlynedd yn parhau yn y dosbarth.	Maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch yn parhau yn fach – 1 dosbarth o 10 (Medi 2020). Amrediad oedran hyd at 5 mlynedd yn parhau yn y dosbarth.	Maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch yn parhau yn fach – 1 dosbarth o 10 (Medi 2020). Amrediad oedran hyd at 5 mlynedd yn parhau yn y dosbarth.	Disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy hyfyw. Disgyblion yn cael eu haddysgu gyda mwy o blant o’r un grŵp oedran. Amrediad oedran hyd at 4 mlynedd yn y dosbarth CS a’r dosbarth CA2.
Niferoedd Disgyblion	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Abersoch. 32 o lefydd gweigion (76%) Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran niferoedd. Agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle’r ysgol yn mis Chwefror 2020, gallai hyn arwain at gynnydd yn niferoedd y disgyblion.	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Abersoch. 32 o lefydd gweigion (76%) Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran niferoedd. Mae’n debygol y byddai ymestyn y ddarpariaeth hyd flwyddyn 6 yn arwain at gynnydd yn niferoedd disgyblion, ac o ganlyniad yn lleihau’r llefydd gweigion. Agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle’r ysgol yn mis Chwefror 2020, gallai hyn arwain at gynnydd yn niferoedd y disgyblion.	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Abersoch. 32 o lefydd gweigion (76%) Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran niferoedd. Mae’n debygol y byddai ymestyn y ddarpariaeth hyd flwyddyn 4 yn arwain at gynnydd yn niferoedd disgyblion, ac o ganlyniad yn lleihau’r llefydd gwegion, ond nid cymaint ag opsiwn 2 (a). Agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle’r ysgol yn mis Chwefror 2020, gallai hyn arwain at gynnydd yn niferoedd y disgyblion.	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Abersoch. 32 o lefydd gweigion (76%) Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran niferoedd. Agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle’r ysgol yn mis Chwefror 2020, gallai hyn arwain at gynnydd yn niferoedd y disgyblion.	Niferoedd disgyblion yr ysgol yn debygol o gynyddu gan mai Ysgol Abersoch fyddai’r ddarparwr addysg CS ar gyfer disgyblion dalgylch y 2 ysgol. Byddai cyfyngu’r ysgol gyfagos i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion CA2 yn unig yn arwain at leihad yn niferoedd disgyblion CS yr ysgol honno. Agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle’r ysgol yn mis Chwefror 2020, gallai hyn arwain at gynnydd yn niferoedd y disgyblion.
Arweinyddiaeth a Staffio	Dim newid yn amser digyswllt y pennaeth.	Dim newid yn amser di-gyswllt y pennaeth.	Dim newid yn amser digyswllt y pennaeth.	Cyfleodd i rannu staff a rhannu arbenigeddau ar draws yr ysgolion. Cyfleodd i gydweithio ar faterion cwricwlaidd a datblygu cynlluniau ar y cyd.	Cyfleodd i rannu staff a rhannu arbenigeddau ar draws yr ysgolion. Cyfleodd i gydweithio ar faterion cwricwlaidd a datblygu cynlluniau ar y cyd.
Y Gymuned	Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol – golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a’r gymuned leol. Ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynladwyedd hir dymor yr ysgol. Canran uchel o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch.	Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol – golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a’r gymuned leol. Os na fyddai’r niferoedd yn cynyddu, byddai’r ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynladwyedd hir dymor yr ysgol. Canran uchel o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch.	Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol – golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a’r gymuned leol. Os na fyddai’r niferoedd yn cynyddu, byddai’r ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynladwyedd hir dymor yr ysgol. Canran uchel o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch.	Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol – golygu na fyddai’n effeithio ar y berthynas rhwng yr ysgol a’r gymuned leol. Ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynladwyedd hir dymor yr ysgol. Canran uchel o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch.	Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol – golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a’r gymuned leol.
Adnoddau Ariannol	Ysgol Abersoch yn parhau’n anghynnaladwy yn ariannol ac yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol (£52,582 yn 2020-21) gan yr awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Cyfartaledd cost y disgybl yn parhau’n uchel, £17,404, dros bedair gwaith yn uwch na’r cyfartaledd sirol, a’r uchaf yn y sir.	Ysgol Abersoch yn parhau’n anghynnaladwy yn ariannol ac yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol (£52,582 yn 2020-21) gan yr awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Cyfartaledd cost y disgybl yn parhau’n uchel, £17,404, dros bedair gwaith yn uwch na’r cyfartaledd sirol, a’r uchaf yn y sir.	Ysgol Abersoch yn parhau’n anghynnaladwy yn ariannol ac yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol (£52,582 yn 2020-21) gan yr awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Cyfartaledd cost y disgybl yn parhau’n uchel, £17,404, dros bedair gwaith yn uwch na’r cyfartaledd sirol, a’r uchaf yn y sir.	Ysgol Abersoch yn parhau’n anghynnaladwy yn ariannol ac yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol (£52,582 yn 2020-21) gan yr awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Cyfartaledd cost y disgybl yn parhau’n uchel, £17,404, dros bedair gwaith yn uwch na’r cyfartaledd sirol, a’r uchaf yn y sir.	Ysgol Abersoch yn parhau’n anghynnaladwy yn ariannol ac yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol (£52,582 yn 2020-21) gan yr awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Cost y disgybl yn debygol o barhau i fod yn uchel. Cyfle i rannu adnoddau a chyfle i ddefnyddio cyllidebau ar draws ysgolion y ffederasiwn.

	Yn sgil agor Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle Ysgol Abersoch, mae potensial i gynhyrchu incwm drwy godi ffi ar y darparwyr gofal plant am y defnydd o'r ysgol.	Yn sgil agor Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle Ysgol Abersoch, mae potensial i gynhyrchu incwm drwy godi ffi ar y darparwyr gofal plant am y defnydd o'r ysgol.	Yn sgil agor Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle Ysgol Abersoch, mae potensial i gynhyrchu incwm drwy godi ffi ar y darparwyr gofal plant am y defnydd o'r ysgol.	Byddai unrhyw arbediad rheolaethol fyddai'n deillio o'r trefniant yn cael ei gadw gan yr ysgolion i redeg y ffederasiwn. Yn sgil agor Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle Ysgol Abersoch, mae potensial i gynhyrchu incwm drwy godi ffi ar y darparwyr gofal plant am y defnydd o'r ysgol.	Pe byddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'n arwain at leihad yng nghost y disgybl. Byddai unrhyw arbediad rheolaethol fyddai'n deillio o'r trefniant yn cael ei gadw gan yr ysgolion i redeg y ffederasiwn. Yn sgil agor Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle Ysgol Abersoch, mae potensial i gynhyrchu incwm drwy godi ffi ar y darparwyr gofal plant am y defnydd o'r ysgol.
Yr Iaith Gymraeg	Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol. Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned.	Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol. Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned.	Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol. Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned.	Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol. Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned.	Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol. Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned.
Ffactorau Daearyddol	Dim newid. Ysgol o fewn pellter cerdded o gartref mwyafrif o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch.	Dim newid. Ysgol o fewn pellter cerdded o gartref mwyafrif o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch.	Dim newid. Ysgol o fewn pellter cerdded o gartref mwyafrif o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch.	Dim newid. Ysgol o fewn pellter cerdded o gartref mwyafrif o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch.	Dim newid i ddisgyblion y CS. Ysgol yn parhau i fod o fewn pellter cerdded o'r cartref i mwyafrif o ddisgyblion CS dalgylch Ysgol Abersoch. Byddai'n rhaid i rai disgyblion deithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd – angen ystyried yr effaith amgylcheddol fyddai'n deillio o hyn.
Ysbyriaethau pellach Tud. 18		Dim torri ar draws darpariaeth CA2 yr ysgol – gall arwain at well parhad o'r cwricwlwm gan fod yr ysgol yn cynnig addysgu 2 gyfnod cyflawn (CS + CA2). Ystod oed yr ysgol yn gyson gyda'r mwyafrif o ysgolion cynradd y sir. Ni fyddai'r adeilad/safle presennol, heb addasiadau yn addas ar gyfer cynnydd mawr yn niferoedd y disgyblion.	Ni fyddai ystod oed yr ysgol yn gyson gyda'r mwyafrif o ysgolion cynradd y sir. Ni fyddai'r adeilad/safle presennol, heb addasiadau yn addas ar gyfer cynnydd mawr yn niferoedd y disgyblion.	Ffederasiwn yn fodel sy'n ddibynnol ar barodrwydd ysgolion eraill i ymuno â'r trefniant i gyd-weithio.	Ffederasiwn yn fodel sy'n ddibynnol ar barodrwydd ysgolion eraill i ymuno â'r trefniant i gyd-weithio. Posibilrwydd y byddai angen cynnal proses statudol i newid ystod oed yr ysgolion fyddai'n rhan o'r ffederasiwn. Posib y byddai'n arwain at ostyngiad yn niferoedd yr ysgol gyfagos, gan y byddai'n ei chyfyngu i ddarparu addysg CA2 yn unig.
Rhai sylwadau gan aelodau'r PAY	Gall dosbarthiadau bychain fod yn fantais. Potensial i'r niferoedd gynyddu trwy fenter tai lleol. Cyfleoedd parhaus i gryfhau'r Gymraeg yn yr ysgol a'r gymuned. Dyfarnwyd Gwobr Aur Siarter Iaith Gwynedd i Ysgol Abersoch	Gall dosbarthiadau bychain fod yn fantais. Dyfarnwyd Gwobr Aur Siarter Iaith Gwynedd i Ysgol Abersoch	Gall dosbarthiadau bychain fod yn fantais. Disgyblion yn cael yr opsiwn i barhau i gael eu haddysgu am flwyddyn ychwanegol yn Ysgol Abersoch. Dyfarnwyd Gwobr Aur Siarter Iaith Gwynedd i Ysgol Abersoch	Gall dosbarthiadau bychain fod yn fantais. Pryder am ddiffyg cynrychiolaeth lawn o'r cymunedau ar y corff llywodraethu ffederal. Dyfarnwyd Gwobr Aur Siarter Iaith Gwynedd i Ysgol Abersoch	Pryder am ddiffyg cynrychiolaeth lawn o'r cymunedau ar y corff llywodraethu ffederal. Gall dosbarthiadau rhy fawr o ran niferoedd disgyblion fod yn anfanteisiol - ond, onid yw'n wir y byddai lle i ddau ddosbarth CS yn Ysgol Abersoch a thri dosbarth CA2 yn Ysgol Sarn Bach? Gallasai'r newid arwain at rieni'n dewis peidio ag anfon eu plant i'r ysgol. Dyfarnwyd Gwobr Aur Siarter Iaith Gwynedd i Ysgol Abersoch

	5	6	7	8 (a)	8 (b)
	Ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen + Blwyddyn 3 a 4 + Blwyddyn 5 a 6 ar safle 3 ysgol wahanol	Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol amgen	Lleoli canolfan iaith ar safle Ysgol Abersoch	Sefydlu Cylch Meithrin yn Ysgol Abersoch	Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-9 oed + sefydlu Cylch Meithrin Ysgol Abersoch
Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran	Disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy hyfyw. Disgyblion yn cael eu haddysgu gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran.	Disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy hyfyw. Disgyblion yn cael eu haddysgu gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran. Amrediad oedran hyd at 4 mlynedd yn y dosbarth CS + dosbarth CA2.	Maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch yn parhau yn fach – dosbarth o 10 (Medi 2020). Amrediad oedran hyd at 5 mlynedd yn parhau yn y dosbarth.	Maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch yn parhau yn fach – dosbarth o 10 (Medi 2020). Amrediad oedran hyd at 5 mlynedd yn parhau yn y dosbarth.	Maint dosbarthiadau Ysgol Abersoch yn parhau yn fach – dosbarth o 10 (Medi 2020). Amrediad oedran hyd at 5 mlynedd yn parhau yn y dosbarth.
Niferoedd Disgyblion	Niferoedd disgyblion yr ysgol yn debygol o gynyddu gan mai Ysgol Abersoch fyddai'r darparwr addysg CS disgyblion dalgylch y 3 ysgol Byddai cyfyngu'r ysgolion cyfagos i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion 3 a 4 + 5 a 6 yn unig yn arwain at leihad yn niferoedd disgyblion yr ysgolion hynny. Agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle'r ysgol yn mis Chwefror 2020, gallai hyn arwain at gynnydd yn niferoedd y disgyblion.	Niferoedd disgyblion yr ysgol fyddai'n darparu addysg ar gyfer yr ardal yn fwy cadarn a chynaliadwy i'r dyfodol. Lleihad yng nghanran y llefydd gweigion yn yr ardal.	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Abersoch. Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran niferoedd. Agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle'r ysgol yn mis Chwefror 2020, gallai hyn arwain at gynnydd yn niferoedd y disgyblion.	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Abersoch. 32 o lefydd gweigion (76%) Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran niferoedd. Agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle'r ysgol yn mis Chwefror 2020, gallai hyn arwain at gynnydd yn niferoedd y disgyblion.	Niferoedd isel yn parhau yn Ysgol Abersoch. 32 o lefydd gweigion (76%) Rhagamcanion yr ysgol yn parhau i ymddangos yn fregus o ran niferoedd. Mae'n debygol y byddai ymestyn y ddarpariaeth hyd flwyddyn 4 yn arwain at gynnydd yn niferoedd disgyblion, ac o ganlyniad yn lleihau'r llefydd gwegion, ond nid cymaint ag opsiwn 2 (a). Agorwyd Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle'r ysgol yn mis Chwefror 2020, gallai hyn arwain at gynnydd yn niferoedd y disgyblion.
Amweinyddiaeth a Staffio	Cyfleodd i rannu staff a rhannu arbenigeddau ar draws yr ysgolion. Cyfleodd i gydweithio ar faterion cwricwlaidd a datblygu cynlluniau ar y cyd.	Diswyddiadau staff.	Dim newid i amser digyswllt y pennaeth.	Dim newid i amser digyswllt y pennaeth.	Dim newid i amser digyswllt y pennaeth.
Y Gymuned	Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol – golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol.	Colli presenoldeb ysgol ym mhentref Abersoch Noder fod canran uchel o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch, felly mae cyswllt rhwng yr ysgolion cyfagos a'r gymuned yn Abersoch eisoes yn bodoli.	Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol – golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Os na fyddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'r ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynnaladwyedd hir dymor yr ysgol. Canran uchel o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch.	Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol – golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Os na fyddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'r ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynnaladwyedd hir dymor yr ysgol. Canran uchel o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch.	Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol – golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Os na fyddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'r ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynnaladwyedd hir dymor yr ysgol. Canran uchel o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch.
Adnoddau Ariannol	Cyfle i rannu adnoddau a chyfle i ddefnyddio cyllidebau ar draws ysgolion y ffederasiwn. Pe byddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'n arwain at leihad yng nghost y disgybl. Byddai unrhyw arbediad rheolaethol fyddai'n deillio o'r trefniant yn cael ei gadw gan yr ysgolion i redeg y ffederasiwn. Yn sgil agor Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle Ysgol Abersoch, mae potensial i gynhyrchu	Gall arwain at gynnydd yng nghostau cludiant i'r awdurdod (os yw'r ysgol amgen fwy na 2 filltir o gartrefi'r disgyblion) Ni fyddai'r ysgol yn parhau yn y rhwyd diogelu staffio. Cost y disgybl o addysgu yn agosach at y cyfartaledd sirol.	Ysgol Abersoch yn parhau'n anghynnaladwy yn ariannol ac yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol (£52,582 yn 2020-21) gan yr awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Cyfartaledd cost y disgybl yn parhau'n uchel, £17,404, dros bedair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd sirol, a'r uchaf yn y sir. Ni fyddai gweithredu'r opsiwn yn cynhyrchu incwm i'r ysgol o safbwynt y ganolfan iaith.	Potensial i gynhyrchu incwm drwy godi ffi ar y darparwyr gofal plant. Ysgol Abersoch yn parhau'n anghynnaladwy yn ariannol ac yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol (£52,582 yn 2020-21) gan yr awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Cyfartaledd cost y disgybl yn parhau'n uchel, £17,404, dros bedair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd sirol, a'r uchaf yn y sir.	Potensial i gynhyrchu incwm drwy godi ffi ar y darparwyr gofal plant. Ysgol Abersoch yn parhau'n anghynnaladwy yn ariannol ac yn derbyn dyraniad gwarchodaeth ychwanegol (£52,582 yn 2020-21) gan yr awdurdod i sicrhau lefelau staffio priodol. Cyfartaledd cost y disgybl yn parhau'n uchel, £17,404, dros bedair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd sirol, a'r uchaf yn y sir.

	incwm drwy godi ffi ar y darparwyr gofal plant am y defnydd o’r ysgol. Posib y byddai’r 3 ysgol angen dyraniad ychwanegol er mwyn sicrhau lefelau staffio priodol.		Yn sgil agor Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle Ysgol Abersoch, mae potensial i gynhyrchu incwm drwy godi ffi ar y darparwyr gofal plant am eu defnydd o’r ysgol. Pe byddai’r niferoedd yn cynyddu, byddai’n arwain at leihad yng nghost y disgybl.	Pe byddai’r niferoedd yn cynyddu, byddai’n arwain at leihad yng nghost y disgybl.	Pe byddai’r niferoedd yn cynyddu, byddai’n arwain at leihad yng nghost y disgybl.
Yr Iaith Gymraeg	Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol. Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned.	Colli darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ym mhentref Abersoch. Darpariaeth addysg Cymraeg cyffelyb yn cael ei gynnig yn yr ysgol amgen.	Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol. Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned.	Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol. Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned.	Dim newid yn y sefyllfa ieithyddol. Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg yn lleol/ o fewn y gymuned.
Ffactorau Daearyddol	Dim newid i ddisgyblion y CS. Ysgol yn parhau i fod o fewn pellter cerdded o’r cartref i mwyafrif o ddisgyblion CS dalgylch Ysgol Abersoch. Byddai’n rhaid i rai disgyblion deithio ymhellach i’r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd – angen ystyried yr effaith amgylcheddol fyddai’n deillio o hyn.	Ni fydd unrhyw ddisgybl yn yr ardal yn teithio pellter afresymol i’r ysgol. Byddai’n rhaid i rai disgyblion deithio ymhellach i’r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd – angen ystyried yr effaith amgylcheddol fyddai’n deillio o hyn.	Dim newid. Ysgol o fewn pellter cerdded o gartref mwyafrif o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch.	Dim newid. Ysgol o fewn pellter cerdded o gartref mwyafrif o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch.	Dim newid. Ysgol o fewn pellter cerdded o gartref mwyafrif o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch.
Ystyriaethau pellach	Ffederasiwn yn fodel sy’n ddibynnol ar barodrwydd ysgolion eraill i ymuno â’r trefniant i gyd-weithio. Nid yw’n bosib ffederaleiddio ysgolion sydd â statws cyfreithiol gwahanol. Posibilrwydd y byddai angen cynnal proses statudol i newid ystod oed yr ysgolion fyddai’n rhan o’r ffederasiwn. Posib y byddai’n arwain at ostyngiad yn niferoedd yr ysgolion cyfagos, gan y byddai’n eu cyfyngu i ddarparu addysg CA2 yn unig. Disgyblion yn trosglwyddo 3 gwaith yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol gynradd.		Aberthu gofod dysgu er mwyn lleoli’r ganolfan. Pryderon ynglŷn â’r diffyg galw am ddarpariaeth canolfan iaith ychwanegol yn yr ardal.	Aberthu gofod dysgu er mwyn lleoli’r Cylch Meithrin.	Aberthu gofod dysgu er mwyn lleoli’r Cylch Meithrin.
Tud. 20					
Rhai sylwadau gan aelodau’r PAY	Pryder am ddiffyg cynrychiolaeth lawn o’r cymunedau ar y corff llywodraethu ffederal. Gall dosbarthiadau rhy fawr o ran niferoedd disgyblion fod yn anfanteisiol. Gallasai’r newid arwain at rieni’n dewis peidio ag anfon eu plant i’r ysgol. Dyfarnwyd Gwobr Aur Siarter Iaith Gwynedd i Ysgol Abersoch	Bydd cau’r ysgol yn arwain at gau Cylch Meithrin, Ti a Fi, Cangen o’r Urdd, Clwb Crefft Hunaniaith a phob menter gymunedol arall mae'r ysgol yn ymwneud â hi gan gynnwys: • defnyddio'r gwasanaeth bws i’r Ganolfan Hamdden yn wythnosol (pryna'r plant eu tocynnau eu hunain, dysgu sut i drin arian, defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus) • beirniadu cystadlaethau addurno ffenestri siopau/busnesau ar gyfer y Nadolig a Gŵyl Ddewi • cyngherddau Nadolig a Gŵyl Ddewi • canu ym moreau Paned Gwener Age Cymru, siopau lleol a mudiadau eraill • ymweliadau â'r traeth	Gall dosbarthiadau bychain fod yn fantais. Dyfarnwyd Gwobr Aur Siarter Iaith Gwynedd i Ysgol Abersoch	Gall dosbarthiadau bychain fod yn fantais. Dyfarnwyd Gwobr Aur Siarter Iaith Gwynedd i Ysgol Abersoch	Gall dosbarthiadau bychain fod yn fantais. Dyfarnwyd Gwobr Aur Siarter Iaith Gwynedd i Ysgol Abersoch

		• a llawer mwy! Y Gymuned: Nid oes gan ysgolion cyfagos bresenoldeb arwyddocaol na chyswllt â chymuned leol Abersoch. Nid yw'n bosibl efelychu cyfraniad y gymuned os nad yw'r ysgol wedi'i lleoli yn y pentref, e.e. cost trafnidiaeth o ran yr effaith ar arian ac amgylchedd yn erbyn cerdded Effaith ar gyswllt dyddiol â rhieni wrth i bob plentyn gael ei ollwng a'i gasglu yn Ysgol Abersoch y hytrach na dal bws, gan ganiatáu ar gyfer cyfathrebu a datblygu parhaus amhrisiadwy a hanfodol, yn annog dysgwyr Cymru i wella eu Cymraeg. Yr Iaith Gymraeg: Byddai colli addysg cyfrwng Cymraeg yn Abersoch a'r gymuned ehangach yn effeithio ar ddefnydd o'r Gymraeg fel iaith fyw a gwaith (gweler Atodiad Hunaniaith Gwynedd – Cynllun Gweithredu Hyrwyddo'r Gymraeg yn Abersoch). Colli bod yn rhan o weithgareddau megis Shwmae Su'mae i ddosbarthu taflenni i'r siopau/ busnesau			
--	--	--	--	--	--

Atodiad 2



Asegiadau Effaith Ysgol Abersoch

Asegiad Effaith Debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg	1
Asegiad Effaith Debygol ar Drefniadau Teithio	11
Asegiad Effaith Debygol ar y Gymuned	19
Asegiad Effaith Ieithyddol	33
Asegiad Llesiant	46
Asegiad Cydraddoldeb	55



Adroddiad Asesu Ansawdd a Safonau Addysg - Ysgol Abersoch

- Medi 2020

1. CYFLWYNIAD
2. CRYNODEB
3. ASESIAD O EFFAITH AR SAFONAU AC ANSAWDD ADDYSG
4. CASGLIADAU

DRAFT

1. CYFLWYNIAD

Yn ei gyfarfod ar 17 Medi 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd roi caniatâd i'r Adran Addysg "gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill Ysgol Abersoch yn sgil pryderon ynghylch niferoedd yr ysgol, i alluogi llunio ystod o opsiynau posibl yn ymwneud a dyfodol yr ysgol."

Fel rhan o'r broses o ddatblygu cynnig/cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgol/ysgolion, mae'n ofynnol i'r awdurdod gynnal asesiad o effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu addysg o'r ansawdd gorau bosibl a fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn.

Mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i ddarparu'r profiadau dysgu gorau bosibl - ar gyfer pob dysgwr o fewn y Sir, yn sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang, yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol sy'n eu hysgogi i ddysgu a deall, a fydd yn arwain at wella safonau.

2. CRYNODEB

Yn dilyn arolygiad Estyn diwethaf yn 2017 daethpwyd i'r casgliad fod perfformiad presennol Ysgol Abersoch yn Dda.

Yn 2019, gosodwyd yr ysgol yng nghategori cefnogaeth Melyn gan y consortia rhanbarthol o dan System Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl eu safonau addysgol cyfredol a'u gofynion gwella. Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio ysgol categori 'Melyn' fel "ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac yn gwybod pa feysydd sydd angen iddi eu gwella".

Gweler isod grynodeb o arolygon diweddaraf ysgolion cyfagos, neu ysgolion sydd yn destun unrhyw un o'r modelau posib ar gyfer dyfodol Ysgol Abersoch.

2.1 Ysgol Abersoch

Mae Ysgol Abersoch wedi ei lleoli yng nghanol pentref Abersoch ger Pwllheli, ac yn darparu addysg ar gyfer disgyblion 3-8 oed. Yn dilyn blwyddyn 3, mae disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Sarn Bach, sef yr ysgol gyfagos. Pan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2017, roedd 21 disgybl ar y gofrestr, gan gynnwys 6 disgybl meithrin rhan amser.

Ysgol	Blwyddyn yr archwiliad	Pa mor dda yw'r deilliannau?	Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Categori Cefnogaeth Llywodraeth Cymru 2019
Abersoch	Mehefin 2017	Da	Da	Da	Melyn

2.2 Ysgolion eraill yr ardal

Ysgol	Blwyddyn yr archwiliad	Pa mor dda yw'r deilliannau?	Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Categori Cefnogaeth Llywodraeth Cymru 2019
Llanbedrog	Mai 2014	Da	Da	Da	Gwyrdd
Foel Gron	Hydref 2015	Da	Da	Da	Melyn

Mae'r tabl isod yn crynhoi adroddiad arolwg Estyn yr ysgol sydd wedi cael eu harolygu ers Medi 2017, pan fu i Estyn gyflwyno'r pum maes adolygu:

Ysgol	Blwyddyn yr archwiliad	Safonau	Lles ac agweddau at ddysgu	Addysgu a phrofiadau dysgu	Gofal, cymorth ac arweiniad	Arweinyddiaeth a rheolaeth	Categori Cefnogaeth Llywodraeth Cymru 2019
Sarn Bach	Hydref 2017	Da	Da	Da	Da	Da	Melyn

3. YR OPSIYNAU DAN SYLW

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

Noder, er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r model Gwneud dim wedi ei gynnwys yn yr asesiad at ddiben cymharu.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng ysgol/ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynyddu ar gyfleoedd y disgyblion i gymdeithasu a chydwethio gyda chyfoedion.

Yn yr achos yma, am resymau daearyddol, ystyriwyd Ysgol Sarn Bach, ac Ysgol Llanbedrog fel opsiynau rhesymol ar gyfer y trefniant cydweithiol. Ni ystyriwyd Ysgol Foel Gron gan nad yw hi'n bosib ffederaleiddio ysgolion sydd â statws elusennol, gyda rhai sydd â statws Cymunedol.

- *Ymestyn ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed*

Ar hyn o bryd, mae ystod oed Ysgol Abersoch yn golygu fod darpariaeth addysg yr ysgol yn dod i ben ar ddiwedd blwyddyn 3. Byddai ymestyn ystod yr oedran i 3-11 yn golygu fod yr ysgol yn cael parhau i addysgu disgyblion hyd ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, sef diwedd blwyddyn 6. Byddai hyn yn gyson gydag ystod oedran y mwyafrif o ysgolion cynradd y sir.

- *Cau Ysgol Abersoch a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol gyfagos*

Golygai'r opsiwn yma y byddai Ysgol Abersoch yn cau, ac y byddai disgyblion presennol yn cael cynnig lle yn Ysgol Sarn Bach (yr ysgol amgen).

GWNEUD DIM - ASESIAD O'R EFFAITH AR ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG

Positif	Niwtral	Negyddol
----------------	----------------	-----------------

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Dim newid	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Dim newid	Niwtral
Profiadau addysgu a dysgu	Dim newid	Niwtral
Arweiniad a chymorth gofal	Dim newid	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Dim newid	Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Dim newid	Niwtral
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Dim newid	Niwtral

Mae'r asesiad uchod wedi'i wneud yn seiliedig ar wybodaeth adroddiad Estyn Ysgol Abersoch Mehefin 2017.

**YMESTYN YSTOD OED YR YSGOL O 3-8 OED I 3-11 OED –
ASESIAD O'R EFFAITH AR ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG**

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ymestyn ystod oed yr ysgol.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ymestyn ystod oed yr ysgol.	Niwtral
Profiadau addysgu a dysgu	Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ymestyn ystod oed yr ysgol.	Niwtral
Arweiniad a chymorth gofal	Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ymestyn ystod oed yr ysgol.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ymestyn ystod oed yr ysgol.	Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ymestyn ystod oed yr ysgol.	Niwtral
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ymestyn ystod oed yr ysgol.	Niwtral

Mae'r asesiad uchod wedi'i wneud yn seiliedig ar wybodaeth adroddiad Estyn Ysgol Abersoch Mehefin 2017.

FFEDERALEIDDIO - ASESIAD O'R EFFAITH AR ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG

Positif	Niwtral	Negyddol
----------------	----------------	-----------------

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos. Mae pob un o'r ysgolion dan sylw wedi eu gosod yn yr un categori ac Abersoch, fan lleiaf.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos. Mae pob un o'r ysgolion dan sylw wedi eu gosod yn yr un categori ac Abersoch, fan lleiaf.	Niwtral
Profiadau addysgu a dysgu	Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos. Byddai model ffederal yn debygol o gynnwys yr un cyfleon, gyda'r posibilrwydd o ehangu ar hyn.	Positif
Arweiniad a chymorth gofal	Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos. Mae pob un o'r ysgolion dan sylw wedi eu gosod yn yr un categori ac Abersoch, fan lleiaf.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Yn ddibynol ar yr union fodel ffederal, gall arwain at arbed amser y Pennaeth drwy gynllunio ar draws y ffederasiwn yn hytrach nac ar gyfer ysgolion unigol.	Positif
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Ni fyddai darpariaethau i grwpiau agored i niwed yn newid o dan fodel ffederal.	Niwtral
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Dim newid gan y bydd Ysgol Abersoch yn parhau.	Niwtral

Mae'r asesiad uchod wedi'i wneud yn seiliedig ar wybodaeth adroddiad Estyn Ysgol Abersoch Mehefin 2017; Ysgol Sarn Bach Hydref 2017, ac Ysgol Llanbedrog Mai 2014.

**CAU YSGOL ABERSOCH A CHYNNIG LLE I'R DISGYBLION MEWN YSGOL AMGEN - ASESIAD O'R EFFAITH AR
ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG**

Positif	Niwtral	Negyddol
----------------	----------------	-----------------

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau	Roedd canlyniad arolwg estyn ar gyfer y dangosyddion safonau Ysgol Abersoch yn 'Dda', fel ag yr oedd canlyniad arolwg Ysgol Sarn Bach. Yn seiliedig ar wybodaeth yr arolygon diwethaf (2017) ni ragwelir unrhyw effaith drwy addysgu'r plant yn Ysgol Sarn Bach.	Niwtral
Llesiant ac agweddau at ddysgu	'Digonol' oedd canlyniad y dangosydd 'Lles' ar gyfer Ysgol Abersoch, yn eu harolwg diwethaf yn 2017, tra bod y canlyniad yn Ysgol Sarn Bach yn 'Dda'. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, deuir i'r casgliad y byddai addysgu'r plant yn Ysgol Sarn Bach yn cael effaith positif.	Positif
Profiadau addysgu a dysgu	'Digonol' oedd canlyniad y dangosydd 'profiadau dysgu' yn Ysgol Abersoch, a 'da' oedd canlyniad y dangosydd 'addysgu'. Roedd canlyniad arolwg estyn ar gyfer dangosyddion 'Addysgu a phrofiadau dysgu' yn 'Dda' yn Ysgol Sarn Bach yn 2017. O ganlyniad, bernir y byddai'r opsiwn o bosib yn cael effaith positif ar brofiadau addysgu a dysgu'r disgyblion. Gall Ysgol Sarn Bach gynnig cyfle i addysgu mewn grwpiau mwy a gyda chyfoedion i ehangu ar eu profiadau.	Positif
Arweiniad a chymorth gofal	Roedd canlyniad y dangosyddion 'Arweiniad a chymorth gofal' yn 'Dda' yn arolwg diwethaf Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach. Yn seiliedig ar y wybodaeth yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar y maes yma trwy addysgu'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach.	Niwtral
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Nodwyd yn adroddiad Estyn diwethaf Ysgol Abersoch fod yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn yr ysgol yn 'Dda'. Rhoddwyd Ysgol Sarn Bach yn y categori 'Da' yn ogystal.	Niwtral
Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, fel ym mhob ysgol yng Ngwynedd.	Niwtral
Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY)	Roedd canlyniad arolwg estyn ar gyfer y dangosyddion safonau Ysgol Abersoch yn 'Dda', fel ag yr oedd canlyniad arolwg Ysgol Sarn Bach. Yn seiliedig ar wybodaeth yr arolygon diwethaf (2017) ni ragwelir unrhyw effaith drwy addysgu'r plant yn Ysgol Sarn Bach.	Niwtral


Mae'r asesiad uchod wedi'i wneud yn seiliedig ar wybodaeth adroddiad Estyn Ysgol Abersoch Mehefin 2017, ac Ysgol Sarn Bach Hydref 2017.

4. CASGLIADAU

Yn seiliedig ar ganlyniad yr asesiadau uchod, deuir i'r casgliad fod safon yr addysg a ddarparer yn Ysgol Sarn Bach ar yr un lefel â safon yr addysg yn Ysgol Abersoch. O ganlyniad felly, ni ragwelir y byddai unrhyw effaith negyddol o safbwynt ansawdd a safonau addysg yn deillio o'r cynnig i ffederaleiddio neu gau Ysgol Abersoch a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Sarn Bach. Yn yr un modd, ni ragwelir effeithiau negyddol o safbwynt ansawdd a safonau'r addysg yn deillio o'r opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol o 3-8 i 3-11.

Mae'r wybodaeth yn yr asesiad hwn yn dilyn arolygon diweddaraf Estyn yn yr ysgolion dan sylw yn nodi fod pob un o'r ysgolion wedi eu gosod mewn categori cyfatebol fan lleiaf i Ysgol Abersoch, a phob un o'r ysgolion wedi eu gosod yn y categori melyn, neu wyrdd o safbwynt categori cefnogaeth Llywodraeth Cymru.

DRAFT



Adroddiad Asesiad ar yr Effaith Debygol ar Drefniadau Teithio - Ysgol Abersoch

- Medi 2020

	Tudalen
1. CYFLWYNIAD	
1.1 Polisi Cludiant Cyngor Gwynedd	
1.2 Cyd-destun Ysgol Abersoch	
2. Opsiynau	
3. ASESIAD O'R EFFAITH AR DREFNIADAU TEITHIO	
3.1 Lleoliad yr ysgol amgen	
3.2 Opsiynau cludiant di-dâl	
3.3. Effaith ariannol	
4. CASGLIADAU	

1. CYFLWYNIAD

Yn ei gyfarfod ar 17 Medi 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd roi caniatâd i'r Adran Addysg *“gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill Ysgol Abersoch yn sgil pryderon ynghylch niferoedd yr ysgol, i alluogi llunio ystod o opsiynau posibl yn ymwneud a dyfodol yr ysgol.”*

Fel rhan o'r broses o ddatblygu cynnig/cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgol/ysgolion, mae'n ofynnol i'r awdurdod gynnal asesiad o effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu addysg o'r ansawdd gorau bosibl a fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn.

Mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i ddarparu'r profiadau dysgu gorau bosibl - ar gyfer pob dysgwr o fewn y Sir, yn sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang, yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol sy'n eu hysgogi i ddysgu a deall, a fydd yn arwain at wella safonau.

1.1 Polisi Cludiant Cyngor Gwynedd

Mae strategaeth 'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd' yn anelu at gyfyngu teithio o'r cartref i'r ysgol i daith un ffordd sydd heb fod yn fwy na 30 munud.

Mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant di-dâl i ddysgwyr sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (ddim yn cynnwys disgyblion meithrin). Disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd. Mae'r polisi cludiant i'w weld yn y llawlyfr i rieni: <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dogfennau-trigolion/Ysgolion-a-dysgu---dogfennau/Talu-eich-ysgol/Gwybodaeth-i-Rieni-2019-20-2.pdf>

1.2 Cyd-destun Ysgol Abersoch

Mae Ysgol Abersoch wedi ei lleoli yng nghanol pentref Abersoch ger Pwllheli, ac yn darparu addysg ar gyfer disgyblion 3-8 oed. Yn dilyn blwyddyn 3, mae disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Sarn Bach, sef yr ysgol gyfagos.

Yn Medi 2019, roedd 25 o ddisgyblion rhwng 3-8 oed yn byw yn dalgylch Ysgol Aberoch – 9 o'r disgyblion hynny oedd yn mynychu Ysgol Abersoch. Golyga hyn fod 18 o ddisgyblion y dalgylch (rhwng 3-8 oed) yn mynychu ysgolion all-dalgylch. Yn ogystal, roedd 2 o ddisgyblion Ysgol Abersoch yn byw all-dalgylch. Ceir mwy o wybodaeth yn y tabl isod:

		Byw yn Dalgylch / Home Catchment Area (Medi / September 2019)					
		Abersoch	Sarn Bach	Llanbedrog	Foel Gron	Arall Other	Cyfanswm Ysgol School Total (M-BI3 / N-Y3)
Mynychu Ysgol / School Attending (Medi / September 2019)	Abersoch	7	1	-	-	1	9
	Sarn Bach	10	4	2	-	5	21
	Llanbedrog	6	-	30	9	17	62
	Foel Gron	1	-	3	15	3	22
	Arall / Other	1	-	-	-	-	-
Cyfanswm Total		25	5	35	24		

Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2019
Source: Census September 2019

*Er diben cymharu, mae'r tabl uchod yn adlewyrchu sefyllfa mewn perthynas â disgyblion 3-8 oed yn unig.

2. YR OPSIYNAU DAN SYLW

- Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.
(Er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r model yma wedi ei gynnwys yn yr asesiad er diben cymharu.)

Gan y byddai'r model yma'n golygu fod disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Abersoch, ni ragwelir y byddai'r model hwn yn cael unrhyw effaith ar y trefniadau teithio presennol.

- Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng ysgol/ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynnig mwy o gyfleoedd y disgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

Yn yr achos yma, am resymau daearyddol, ystyriwyd Ysgol Sarn Bach, ac Ysgol Llanbedrog fel opsiynau rhesymol ar gyfer y trefniant cydweithiol. Ni ystyriwyd Ysgol Foel Gron gan nad yw hi'n bosib ffederaleiddio ysgolion sydd â statws elusennol, gyda rhai sydd â statws Cymunedol.

Gan y byddai'r model yma'n golygu fod disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Abersoch, ni ragwelir y byddai'r model hwn yn cael unrhyw effaith ar y trefniadau teithio presennol.

- *Ymestyn ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed*

Ar hyn o bryd, mae ystod oed Ysgol Abersoch yn golygu fod darpariaeth addysg yr ysgol yn dod i ben ar ddiwedd blwyddyn 3. Byddai ymestyn ystod yr oedran i 3-11 yn golygu fod yr ysgol yn cael parhau i addysgu disgyblion hyd ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, sef diwedd blwyddyn 6. Byddai hyn yn gyson gydag ystod oedran y mwyafrif o ysgolion cynradd y sir.

Gan y byddai'r model yma'n golygu fod disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Abersoch, ni ragwelir y byddai'r model hwn yn cael effaith ar drefniadau teithio disgyblion presennol yr ysgol. Fodd bynnag, pe byddai'r opsiwn yn cael ei weithredu, byddai'n rhaid ystyried ymhellach yr effaith all newid y dalgylchoedd ei gael ar drefniadau cludiant presennol disgyblion 8-11 oed dalgylch Abersoch sydd eisoes yn dewis mynychu Ysgol Sarn Bach.

- *Cau Ysgol Abersoch a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol amgen*

Golygai'r model yma y byddai Ysgol Abersoch yn cau, ac y byddai'r disgyblion presennol yn cael cynnig lle yn Ysgol Sarn Bach (yr ysgol amgen).

Mae Ysgol Sarn Bach wedi ei lleoli 1.4 milltir o Ysgol Abersoch. Yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd byddai'r awdurdod yn darparu cludiant i ddisgyblion dalgylch presennol Ysgol Abersoch fyddai'n dewis mynychu Ysgol Sarn Bach ac yn byw mwy na 2 filltir o'r ysgol.

Yn ogystal, o ran y disgyblion fyddai'n dewis mynychu Ysgol Sarn Bach ond yn byw llai na 2 filltir i ffwrdd o'r ysgol, ac nad oes ganddynt felly hawl i gludiant di-dâl, ond yn teithio i ysgol ar hyd ffordd mae'r Cyngor yn ei hystyried yn beryglus iawn, darperir cludiant di-dâl.

3. ASESIAD O'R EFFAITH AR DREFNIADAU TEITHIO

3.1. Lleoliad yr ysgol amgen

Mae Ysgol Sarn Bach wedi ei lleoli ym mhentref Sarn Bach, tua 1.4 milltir i lawr y ffordd o bentref Abersoch. Dyma'r ysgol ddaearyddol agosaf at Ysgol Abersoch.

3.2. Opsiynau cludiant di-dâl

Yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd, disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd neu uwchradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar hyd y llwybr byrraf.

Y llwybr byrraf sydd ar gael yw'r un nad yw'r Cyngor yn ei ystyried yn arbennig o beryglus, ar ôl asesu'r llwybrau eraill y gellid eu defnyddio, a byddai'r llwybrau hyn yn cael eu hasesu yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

Ysgol Sarn Bach yw'r ysgol dalgylch ar gyfer disgyblion rhwng 8 ac 11 oed dalgylch Abersoch. Gan fod y llwybr i'r ysgol yn cael ei hystyried fel un peryglus, mae'r awdurdod eisoes yn darparu cludiant di-dâl i rai disgyblion cymwys.

Noder felly fod bws ysgol gynradd eisoes yn rhedeg rhwng Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, a rhagwelir y byddai digon o seddi gweigion ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Abersoch.

Yn unol â'r trefniadau presennol, mae'r disgyblion yn teithio i'r ysgol ar fws gwasanaeth ac yn teithio adref ar fws ysgol bwrpasol. Gweler isod amserlen bws presennol Ysgol Sarn Bach:

ABERSOCH - YSGOL SARN BACH		320
Clynnog & Trefor - 01286 660 208 (320)		
Cerbydau Berwyn - 01286 660 315 (18)		
Gwasanaeth cyhoeddus / Public service:18		
Abersoch	0843	Ysgol Sarn Bach 1535
Ysgol Sarn Bach	0850	Abersoch 1540

Pe byddai holl ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch yn dewis manteisio ar y cludiant di-dâl, rhagwelir y byddai angen addasu'r trefniadau presennol i gael bws ysgol benodol. Mae'r amcan gostau ychwanegol fyddai'n deillio o'r newid hwn wedi ei nodi isod.

3.3. Effaith ariannol

Mae crynodeb isod o'r effaith ariannol ar drefniadau teithio:

	Yr effaith debygol ar drefniadau teithio i ddysgwyr	Yr effaith debygol ariannol blyneddol ar drefniadau teithio i'r Awdurdod
Gwneud dim	Dim newid	£0
Ymestyn ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed	Dim newid	£0
Ffederaleiddio yn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill	Dim newid	£0
Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach	Ymgynnull mewn man cytunedig ar gyfer dal y bws.	Darparu cludiant i'r 8 disgybl presennol: £0 Dim costau ychwanegol – seddi gweigion eisoes ar gael ar fws Ysgol Sarn Bach.
		Darparu cludiant i holl ddisgyblion 3-8 dalgylch Ysgol Abersoch (25 disgybl): £14,000 Byddai angen addasu trefniadau cludiant presennol Ysgol Sarn Bach - gall olygu fod angen bws penodol ar gyfer

		Ysgol Sarn Bach (bore a phrynhawn).
--	--	-------------------------------------

Pe gweithredir y cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach, amcangyfrif:

- Na fyddai unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm a darparu cludiant ar gyfer 8 disgybl presennol Ysgol Abersoch yn ogystal â'r disgyblion o ddalgylch Abersoch sydd eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. Mae bws eisoes yn cludo disgyblion o Abersoch i Ysgol Sarn Bach, a deallwn y byddai lle i ddisgyblion presennol Ysgol Abersoch ar y bws hwnnw. Gellir dadlau y byddai gweithredu'r cynnig yn gwneud defnydd mwy cost effeithiol o'r trefniadau cludiant sydd eisoes yn bodoli ar gyfer cludo disgyblion i Ysgol Sarn Bach.
- Y byddai costau ychwanegol cludiant oddeutu £14,000 y flwyddyn pe byddai holl ddisgyblion 3-8 oed dalgylch presennol Ysgol Abersoch yn dewis mynychu Ysgol Sarn Bach yn y dyfodol.

DRAFT

4. CASGLIAD

I grynhoi, rhagwelir na fyddai'r opsiwn i Ffederaleiddio yn effeithio ar drefniadau teithio a chludiant presennol gan y byddai'r disgyblion yn parhau i dderbyn eu haddysg yn Ysgol Abersoch.

Gyda'r opsiwn i ymestyn ystod oed yr ysgol i 3-11 oed, ni ragwelir unrhyw effaith ar drefniadau teithio a chludiant disgyblion presennol yr ysgol. Fodd bynnag, gan gofio mai Ysgol Sarn Bach yw'r ysgol dalgylch presennol ar gyfer disgyblion 8-11 oed dalgylch Abersoch, byddai'n rhaid ystyried ymhellach yr effaith allai'r cynnig ei gael ar drefniadau cludiant disgyblion 8-11 oed dalgylch Abersoch.

Pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach, rhagwelir y byddai'r dysgwyr yn dal bws ysgol bresennol Ysgol Sarn Bach - ni fyddai hyn yn arwain at gost ychwanegol i'r awdurdod.

Pe byddai holl ddisgyblion 3-8 oed dalgylch Ysgol Abersoch angen cludiant i Ysgol Sarn Bach, rhagwelir y byddai angen addasu trefniadau cludiant presennol Ysgol Sarn Bach trwy drefnu bws mwy. Amcangyfrif y byddai hyn yn arwain at gostau ychwanegol o £14,000 y flwyddyn.



Adroddiad Asesu Effaith ar y Gymuned Ysgol Abersoch

- Medi 2020

1. CYFLWYNIAD
2. OPSIYNAU
3. CRYNODEB O'R DALGYLCH
4. YSGOLION Y DALGYLCH
5. ASESIAD O'R EFFAITH DEBYGOL AR Y GYMUNED
6. CASGLIADAU

1. CYFLWYNIAD

Fel rhan o'r broses statudol, wrth ddatblygu cynnig/cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgol/ysgolion, mae rhaid i'r Awdurdod gynnal asesiad o effaith debygol ar y gymuned, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae'r asesiad hwn yn deillio o ganllawiau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer ad-drefnu ysgolion, yn cynnwys ystyriaethau ynglŷn ag anghenion unigryw ardaloedd gwledig. Fe nodir yn y Cod:

"Mewn rhai ardaloedd, efallai mai ysgol fydd y prif ganolbwynt ar gyfer gweithgarwch cymunedol hefyd, a gallai ei chau arwain at oblygiadau y tu hwnt i ddarparu addysg. Gall hyn fod yn nodwedd benodol mewn ardaloedd gwledig os defnyddir adeiladau ysgolion fel man i ddarparu gwasanaethau i'r gymuned leol."

"Dylai'r achos a gaiff ei baratoi gan y rhai sy'n cyflwyno'r cynigion ddangos bod effaith cau'r ysgol ar y gymuned wedi'i hasesu drwy lunio Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, a dangos sut y gellid cynnal unrhyw gyfleusterau cymunedol a ddarperir gan yr ysgol ar hyn o bryd."

Ffynhonnell: Cod Trefniadaeth Ysgolion 011 /2018

1.1 Cefndir

Mae Ysgol Abersoch wedi ei lleoli yng nghanol pentref Abersoch ger Pwllheli, ac yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 8 oed. Trosglwydda'r disgyblion i Ysgol Sarn Bach ar ôl blwyddyn 3 er mwyn cwblhau eu haddysg gynradd.

Mae gan Ysgol Abersoch gapasiti o 42 (meithrin i flwyddyn 3), ac ym mis Ionawr 2020, roedd ganddi 7 disgybl llawn amser, ac 2 disgybl meithrin (rhan amser) ar y gofrestr. Erbyn heddiw (Medi 2020), mae 8 disgybl llawn amser, ac 2 disgybl rhan amser.

Yn eu cyfarfod ar 17 Medi 2019, bu i'r Cabinet gefnogi argymhelliad i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol Ysgol Abersoch er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol. Daeth y penderfyniad yn sgil pryderon diweddar ynglŷn â lleihad yn niferoedd disgyblion yr ysgol.

Rhwng Hydref 2019 ac Ionawr 2020, cynhaliwyd 3 cyfarfod lleol gyda rhan-ddeiliaid Ysgol Abersoch ymhle cynigiwyd a thrafodwyd nifer o opsiynau. Yn dilyn gwerthuso'r opsiynau hynny, mireiniwyd y rhestr i 3 opsiwn i'w hystyried ymhellach, yn ogystal â'r model Gwneud dim.

2. YR OPSIYNAU

Cynigiwyd a thrafodwyd nifer o opsiynau yn ystod y cyfarfodydd lleol. Yn dilyn cynnal gwerthusiad o'r opsiynau hyn yn erbyn ffactorau'r Strategaeth, mireiniwyd y rhestr i 3 opsiwn i'w hystyried ymhellach, yn ogystal â'r model Gwneud dim.

- Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.
- Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng ysgol/ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynyddu ar gyfleoedd y disgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

Yn yr achos yma, am resymau daearyddol, ystyriwyd Ysgol Sarn Bach, ac Ysgol Llanbedrog fel opsiynau rhesymol ar gyfer y trefniant cydweithiol. Ni ystyriwyd Ysgol Foel Gron gan nad yw hi'n bosib ffederaleiddio ysgolion sydd â statws elusennol, gyda rhai sydd â statws Cymunedol.

- *Ymestyn ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed*

Ar hyn o bryd, mae ystod oed Ysgol Abersoch yn golygu fod darpariaeth addysg yr ysgol yn dod i ben ar ddiwedd blwyddyn 3. Byddai ymestyn ystod yr oedran i 3-11 yn golygu fod yr ysgol yn cael parhau i addysgu disgyblion hyd ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, sef diwedd blwyddyn 6. Byddai hyn yn gyson gydag ystod oedran y mwyafrif o ysgolion cynradd y sir.

- *Cau Ysgol Abersoch a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol gyfagos*

Golygai'r opsiwn yma y byddai Ysgol Abersoch yn cau, ac y byddai disgyblion presennol yn cael cynnig lle yn Ysgol Sarn Bach (yr ysgol amgen).

3. CRYNODEB O'R DALGYLCH

3.1 Yr Ardal

Pentref yng nghymuned Llanengan yw Abersoch a leolir ar benrhyn Llŷn yng Ngwynedd, gyda thua 800 o drigolion. Mae wedi ei leoli 11 km (7 milltir) o dref Pwllheli a 43 km (27 milltir) o Gaernarfon.

Yn ôl cyfrifiad 2011, mae 783 o bobl yn byw yn ward Abersoch.

3.2 Yr Economi

Mae 75.6% o bobl rhwng 16 a 74 mlwydd oed o fewn ward Abersoch yn weithgar yn economaidd, a 3.7% o'r rhain yn ddi-waith. Mae 24.4% o bobl yn yr un grŵp oedran yn anweithgar yn economaidd gyda 3.6% o'r rhain yn sâl neu'n anabl am gyfnod hir.

Mae'r math o ddiwydiant y mae'r boblogaeth yn weithgar ynddo yn amrywiol yn yr ardal, gyda'r gyfradd uchaf (23.7%) yn gweithio yn y maes Manwerthu a Chyfanwerthu.

Yn ôl data 'Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014)' mae cyfradd cyflogaeth ward Abersoch o gymharu â wardiau eraill yng Nghymru yn rhoi ranc o 1404 allan o 1909 o wardiau. Nid yw ward Abersoch felly o fewn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae nifer o fusnesau yn weithredol yn y pentref, gan gynnwys, amrywiaeth o siopau, bwytai, caffis, tafarndai, llety hunanarlwyo, atyniadau twristaidd a garej.

3.3 Amddifadedd

Nid yw ward Abersoch (sydd yn ardal ehangach nac arwynebedd daearyddol dalgylch yr ysgol) o fewn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (ranc o 1417 allan o 1909 o wardiau).

Mae nifer o feysydd yn llunio'r mynegai cyffredinol yma, gan gynnwys incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad i wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai.

Nodir fod ward Abersoch o fewn y 40% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'Tai'. Dangosyddion y maes hwn yw'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi gorlawn (defnydd ystafelloedd gwely), a'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi heb wres canolog.

Yn ogystal, mae ward Abersoch o fewn y 40% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'mynediad i wasanaethau', h.y. amddifadedd am nad yw pobl yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer byw o ddydd i ddydd. Mae'r dangosyddion yn cynnwys cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i nifer o wasanaethau megis siopau bwyd, meddygfa, ysgolion cynradd ac uwchradd, swyddfa bost, llyfrgell gyhoeddus, fferyllfa, canolfan hamdden ac amser teithio preifat i orsaf betrol.

Mae crynodeb isod o sut mae ardal Abersoch wedi ei leoli yng nghyd-destun ardaloedd eraill yng Nghymru yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2014):

Maes	Ranc yng Nghymru, allan o 1909 o ardaloedd. 1 = mwyaf difreintiedig 1909 = lleiaf difreintiedig	Mwyaf difreintiedig % yng Nghymru
Cyflogaeth	1404	
Incwm	1327	
Iechyd	1312	
Addysg	1472	
Tai	577	O fewn y 40-50% mwyaf difreintiedig
Amgylchedd ffisegol	1725	
Mynediad i wasanaethau	593	O fewn y 40-50% mwyaf difreintiedig
Diogelwch cymunedol	821	O fewn 50% mwyaf difreintiedig

3.4 Y Gymuned

Mae nifer o weithgareddau yn cael eu cynnal yn Abersoch, gan gynnwys;

- Gŵyl Abersoch
- Cymraeg i Oedolion
- Diwrnod Shwmae / Su'mae
- Cylch Ti a Fi a Chylch Meithrin
- Gweithgareddau glanhau traethau
- Prosiect Hunaniaeth
- Merched y Wawr

Yn ogystal, mae nifer o gyfleusterau yn y pentref, gan gynnwys neuadd y pentref, amrywiaeth o siopau, fferyllfa, banc symudol, swyddfa bost, garej, caffis, tafarndai, llyfrgell symudol, atyniadau twristaidd, trafndiaeth gyhoeddus a chae chwarae plaen.

4. YSGOLION Y DALGYLCH

4.1 Cyd-destun yr ysgolion yn ôl Adroddiadau Arolygon Estyn

Fel rhan o adroddiadau Estyn bydd awduron yr adroddiadau, sef yr arolygwyr, yn gosod yr ysgolion o fewn cyd-destun ac yn manylu ar eu cysylltiadau cymunedol. Dyma'r cyd-destun a roddwyd i Ysgol Abersoch gan arolygwyr Estyn.

Ysgol Abersoch

“Mae Ysgol Abersoch ym mhentref Abersoch ger Pwllheli, yn awdurdod lleol Gwynedd, ac mae’n gwasanaethu’r pentref a’r ardal gyfagos”

Ffynhonnell: Adroddiad Estyn, Mehefin 2017

4.2 Gwybodaeth ystadegol yr ysgolion

Dengys y tabl isod niferoedd Ysgol Abersoch (M-BI3), a’r ysgolion cyfagos eraill, o Flwyddyn Meithrin i Flwyddyn 6. Gwelir yn ogystal yn y tabl hwn beth yw capasiti’r ysgolion, a’r nifer o lefydd gweigion. Mae pob un o’r ysgolion hyn yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ysgol	Capasiti Llawn (M – BI6)	Nifer ar y gofrestr Ionawr 2020 (M – BI6)	Nifer o Lefydd Gwag Ionawr 2020 (M – BI6)	Categori Cyfreithiol
Abersoch (*M-BI.3)	42	9	33	Ysgol Gymunedol (Babanod)
Sarn Bach	73	48	25	Ysgol Gymunedol
Llanbedrog	83	95	0	Ysgol Gymunedol
Foel Gron	61	44	17	CWR – Eglwys yng Nghymru

Ffynhonnell: PLASC Ionawr 2020

4.3 Gwybodaeth lleoliad annedd a dewis ysgolion disgyblion

Mae gan bob ysgol ddalgylch penodol y mae’n gwasanaethu ac sydd yn bwysig o ran polisi mynediad a chludiant y Cyngor. Nid oes rhaid i ddisgyblion fynychu eu hysgol dalgylch, mae’r dewis i fyny i rieni (yn unol â’r polisi mynediad).

I gymharu â dalgylchoedd eraill yr ardal, mae nifer o ddisgyblion sy’n mynychu ysgol all-dalgylch yn uchel. Gan fod Ysgol Abersoch yn ysgol 3-8 oed rydym wedi edrych ar yr ystod oed yma’n benodol. Dengys data diweddaraf fod 25 o blant yn byw yn nalgylch Abersoch sydd yn 3-8 oed (data Medi 2019); 7 ohonynt sy’n mynychu’r ysgol. Golyga hyn fod 72% o blant sy’n byw yn nalgylch Ysgol Abersoch yn mynychu ysgolion all-dalgylch, yn unol â data 2019.

		Byw yn Nalgylch / Home Catchment Area (Medi / September 2019)					Cyfanswm Ysgol <i>School Total</i> (M-B13 / N-Y3)
		Abersoch	Sarn Bach	Llanbedrog	Foel Gron	Arall <i>Other</i>	
Mynychu Ysgol / School Attending (Medi / September 2019)	Abersoch	7	1	-	-	1	9
	Sarn Bach	10	4	2	-	5	21
	Llanbedrog	6	-	30	9	17	62
	Foel Gron	1	-	3	15	3	22
	Arall / <i>Other</i>	1	-	-	-		
Cyfanswm <i>Total</i>		25	5	35	24		

Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2019

Dengys data diweddaraf fod 48 o blant yn byw yn nalgylch Abersoch sydd yn 3-11 oed (*data Medi 2019*), ac mae 7 ohonynt yn mynychu'r ysgol. Golyga hyn fod 85% o blant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Abersoch yn mynychu ysgolion all-dalgylch, yn unol â data 2019.

		Byw yn Nalgylch / Home Catchment Area (Medi / September 2019)					Cyfanswm Ysgol <i>School Total</i> (M-B16 / N-Y6)
		Abersoch	Sarn Bach	Llanbedrog	Foel Gron	Arall <i>Other</i>	
Mynychu Ysgol / School Attending (Medi / September 2019)	Abersoch	7	1	-	-	1	9
	Sarn Bach	25	14	2	1	8	50
	Llanbedrog	12	-	43	14	23	92
	Foel Gron	1	-	4	29	6	40
	Arall / <i>Other</i>	3	-	3	-		
Cyfanswm <i>Total</i>		48	15	52	44		

Ffynhonnell: Cyfrifiad Medi 2019

Mae'r tablau uchod yn dangos y wybodaeth gyflawn o ran lleoliadau byw disgyblion a'i dewis ysgol.

4.4 Crynodeb o'r amrywiol gyfleusterau sydd yn y cymunedau gwledig (Ionawr 2020)

Mae'r wybodaeth isod wedi ei gasglu ar ardaloedd yr ysgolion a all gael ei effeithio gan unrhyw un o'r opsiynau.

	Abersoch	Sarn Bach	Llanbedrog
Canolfan Gymuned / Neuadd Bantref	✓	✓	✓
Capel/Eglwys	✓	✓	✓
Trafnidiaeth Gyhoeddus	✓	✓	✓
Siop	✓	✓	✓
Caffi/Tafarn	✓	✓	✓
Swyddfa Bost	✓		
Fferyllfa	✓	✓	✓
Llyfrgell	✓ (Llyfrgell Symudol)		
Cae Chwarae Plant	✓	✓	✓
Banc	✓ (Banc Symudol)		
Cartref Henoed			✓
Canolfan Hamdden			
Garej	✓	✓	✓
Atyniad Twristaidd	✓	✓	✓
Cylch Ti a Fi + Meithrin	✓		✓

Ffynhonnell: Holiaduron Penaethiaid Ionawr 2020

Nodwyd mewn holiadur o'r ardrawiad ar y gymuned fod aelodau'r gymuned yn ymweld ag Ysgol Abersoch yn rheolaidd i gynorthwyo gyda'r profiadau dysgu. Mae aelodau o gymuned pob un o'r ysgolion sydd yn rhan o'r asesiad hwn yn ymweld â'r ysgolion i gynnal gweithgareddau gyda'r disgyblion megis clwb garddio, darllen a ffair iechyd. Yn ogystal, gan nad oes neuadd yn Ysgol Abersoch mae'r ysgol yn gwneud defnydd cyson o'r neuadd gymunedol sydd gyfagos.

4.5 Crynodeb o ddefnydd yr ysgolion y tu allan i oriau craidd yr ysgol (Ionawr 2020)

Mae crynodeb o ddefnydd cymunedol neu all-gwricwlaidd o adeiladau'r ysgolion lleol isod:

	Abersoch	Sarn Bach	Llanbedrog
Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)			
Aelwyd yr Urdd	✓	✓	
Dramâu			
Grwpiau Gwirfoddol			
Bore/Noson Goffi			
Arwerthiant Cymunedol			
Llyfrgell Gymunedol	Tud. 48		

Ymarfer Côr			
Cymraeg i Oedolion			
Cyfarfod Cyngor Tref/Gymuned			
Cylch/Ysgol Feithrin	✓		✓
Clwb/Gweithgaredd Chwaraeon	✓	✓	✓
Clwb ar ôl Ysgol			
Clwb Diddordeb Lleol			

Ffynhonnell: Holiaduron Penaethiaid Ionawr 2020

4.6 Crynodeb o weithgareddau neu grwpiau y mae'r ysgol yn ymwneud yn rheolaidd a nhw:

	Abersoch	Sarn Bach	Llanbedrog
Cylchoedd Meithrin/Ti a Fi	✓	<i>Trafodaethau i sefydlu Cylch</i>	✓
Eisteddfodau (Lleol/Sirol/Cenedlaethol)	✓	✓	✓
Adrannau'r Urdd	✓	✓	✓
Ymweliadau a Glan Llyn / Llangrannog / Caerdydd		✓	✓
Gweithgareddau eraill (chwaraeon, clybiau)	✓	✓	✓

Ffynhonnell: Holiaduron Penaethiaid Ionawr 2020

4.7 Os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol ar ran y gymuned, ble y byddent yn cael eu darparu os caiff ysgol ei chau?

Ysgol	Ble darparir cyfleusterau pe bai'n cau
Abersoch	Cynhelir Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi yn adeilad yr ysgol. Pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, byddai rhaid ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd.

4.8 Gwybodaeth am bellter ac amser teithio i ysgolion eraill y dalgylch

Mae'r tabl isod yn nodi pellter ac amser teithio rhwng ysgolion yr ardal. Gwelwn mai Ysgol Sarn Bach yw'r agosaf at Ysgol Abersoch, gydag Ysgol Llanbedrog yr agosaf wedi hynny. Mae'r amseroedd teithio isod yn ystyried natur y lonydd a'r effaith y gall hynny ei gael ar amser teithio mewn ardal wledig.

Ysgol		Sarn Bach	Llanbedrog	Foel Gron
Llanbedrog	Milltir	4.2		
	Munudau	10		
Foel Gron	Milltir	3.9	1.6	
	Munudau	11	4	
Abersoch	Milltir	1.4	3.3	3.2
	Munudau	5	7	9

5. ASESIAD O EFFAITH DEBYGOL AR Y GYMUNED

Er mwyn asesu effaith cymunedol y modelau posib, penderfynwyd creu meini prawf yn unol ag argymhellion ystyriaethau asesiad cymunedol y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

MODEL 1 – Gwneud Dim

Positif	Niwtral	Negyddol
---------	---------	----------

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar lechyd a llesiant	Dim newid	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Dim newid	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Dim newid	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Dim newid	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Dim newid	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Dim newid	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Dim newid	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Dim newid	Niwtral

MODEL 2 – NEWID YSTOD OED YSGOL ABERSOCH O 3-8 OED I 3-11 OED

Positif	Niwtral	Negyddol
---------	---------	----------

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a llesiant	Dim newid	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Dim newid	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Dim newid	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Dim newid	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Dim newid	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Dim newid	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Dim newid	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Dim newid	Niwtral

MODEL 3 – FFEDERALEIDDIO GYDAG YSGOL GYFAGOS

Positif	Niwtral	Negyddol
---------	---------	----------

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar Iechyd a Llesiant	Dim newid o'r sefyllfa bresennol	Niwtral
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Dim newid o'r sefyllfa bresennol	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Dim newid o'r sefyllfa bresennol	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Dim newid o'r sefyllfa bresennol	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Dim newid o'r sefyllfa bresennol	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Dim newid o'r sefyllfa bresennol	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Dim newid o'r sefyllfa bresennol	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Dim newid o'r sefyllfa bresennol, ond nodir cyfleoedd i gymuned Abersoch a'r ysgol arall a fyddai'n rhan o'r model ffederal i ddod at ei gilydd.	Niwtral

MODEL 4 – CAU YSGOL ABERSOCH A'R PLANT I'W HADDYSGU MEWN YSGOL GYFAGOS

Positif

Niwtral

Negyddol

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith
Effaith ar lechyd a llesiant	Gan fod yr ysgol amgen tua milltir a hanner o Ysgol Abersoch a chartrefi'r disgyblion, ni fyddant yn debygol o gerdded i'r ysgol. Mae posib i ollwng plant yn y maes parcio, boed hynny mewn car neu dacs / bws mini, ac mae safle bws (gwasanaeth bws cyhoeddus) tu allan i ffiniau'r ysgol. Felly, os yw disgyblion yn llai abl i gerdded neu feicio, ni ragwelir anhawster i gyrraedd yr ysgol.	Negyddol
Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus	Mae bws cyhoeddus (rhif 18) yn rhedeg rhwng pentref Abersoch a'r ysgol amgen. Gall rhai teuluoedd fod yn ddibynol ar gludiant cyhoeddus i gyrraedd yr ysgol amgen, er hynny, ni ragwelir effaith sylweddol ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan mai 10 disgybl sydd yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd.	Niwtral
Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol	Lleolir Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi ar safle Ysgol Abersoch. Pe byddai'r ysgol yn cau, byddai'n rhaid ystyried y gwasanaethau hyn wrth drafod ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol.	Niwtral
Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Ni ragwelir effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach	Niwtral
A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned	Gan fod nifer uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill eisoes, ni ragwelir y byddai teuluoedd a phlant ifanc yn gadael y gymuned.	Niwtral
Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol	Gan fod nifer uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill eisoes, ni ellir ddod i gasgliad y byddai cau yr ysgol yn cael effaith ar wasanaethau eraill.	Niwtral
Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned	Eto, gan fod y rhan fwyaf o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill, ni ragwelir y byddai cau'r ysgol yn cael effaith ar economi ehangach y gymuned.	Niwtral
Effaith gyffredinol ar y gymuned leol	Byddai'r ysgol leol yn bellach o gartrefi o fewn dalgylch presennol Ysgol Abersoch, ac o safbwynt amddifadedd – golyga fod un o ddangosyddion 'mynediad i wasanaethau' yn pellhau oddi wrth drigolion y pentref. Gan fod canran uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill eisoes, ni allwn fynegi yn gadarnhaol y byddai cau'r ysgol yn cael effaith negyddol na phositif ar y gymuned leol.	Negyddol

6. CASGLIADAU

Gwelir yn yr asesiad hwn fod yr ysgol yn ymwneud â'i chymuned ac yn defnyddio cyfleusterau'r gymuned, megis y neuadd yn gyson. Mae'r gymuned hefyd yn gwneud defnydd o adeilad yr ysgol, ac yn ei ddefnyddio fel lleoliad ar gyfer y Cylch Meithrin a'r Cylch Ti a Fi.

Dengys o'r wybodaeth a gyflwynwyd na fyddai'r opsiwn i barhau gyda'r sefyllfa bresennol, neu ffederaleiddio gydag ysgol arall, yn cael effaith ar y gymuned. Golygai'r ddau opsiwn y byddai presenoldeb ysgol yn parhau yng nghymuned Abersoch gan ymgymryd â'r un gweithgareddau a defnyddio'r un cyfleusterau ac y maent yn bresennol.

Pe byddai'r opsiwn o gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion mewn ysgol gyfagos yn cael ei wireddu, rhagwelir y byddai'n cael peth effaith ar rai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol. O ganlyniad, bydd yn ofynnol fel rhan o'r broses i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen a rhieni disgyblion Ysgol Abersoch fel bod modd i rieni a disgyblion fanteisio ar eu cyfleusterau a gweithgareddau ar ôl ysgol, ac i annog yr ysgol amgen i fanteisio ar gyfleusterau cymuned Abersoch yn ogystal.

Dengys yr asesiad hwn y bydd peth effaith negyddol o gau'r ysgol ar y gymuned. I liniaru'r effaith ar y gymuned nodir cyfleon i sicrhau fod cymuned Abersoch yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.



Adroddiad Asesiad Effaith Ieithyddol Ysgol Abersoch

- Medi 2020

1. CYFLWYNIAD

1.1 Y Sefyllfa yng Ngwynedd

1.2 Polisi Iaith

1.3 Cefndir Addysgol

2. PROFFIL IEITHYDDOL DALGYLCH ABERSOCH

2.1 Cefndir Proffil Iaith Gwynedd

2.2 Wardiau

2.3 Ysgol Abersoch

2.4 Ysgolion Cyfagos

2.5 Lefelau Cyrhaeddiad

2.6 Gweithgareddau ar ôl ysgol

2.7 Gweithgareddau Cymunedol

2.8 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020

2.9 Tystiolaeth Ychwanegol

3. EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG

3.1 Opsiynau

3.2 Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith

4. CASGLIAD

1. CYFLWYNIAD

Mae cefnogi a datblygu gallu plant Gwynedd i ddysgu a defnyddio eu sgiliau iaith yn allweddol bwysig i strategaethau addysg y Sir.

1.1 Y Sefyllfa yng Ngwynedd

Mae ffigyrau yng Nghyfrifiad 2011 yn nodi fod 65,900 (56%) o bobl dros dair oed yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg. Mae Cyfrifiad 2011 hefyd yn nodi bod 65% yn siarad Cymraeg sydd yn ostyngiad ers y cyfrifiad blaenorol, pan oedd y ffigwr yn 69%.

Yng Ngwynedd, fel mewn sawl Awdurdod Lleol eraill yng Nghymru, mae cryn wahaniaeth yng nghanran y siaradwyr Cymraeg o fewn gwahanol wardiau. Ar un eithaf, mewn wardiau megis Aberdyfi, Tywyn a ward Menai ym Mangor, mae rhwng 18% a 38% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, tra bod cymaint â 78% yn siarad Cymraeg yn yr ardaloedd mwyaf Cymreig e.e. Llanrug.

1.2 Polisi Iaith

Cynradd

Yr un yw nod y Polisi Iaith ar draws holl ysgolion cynradd y Sir, sef datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyfedr yn y ddwy iaith erbyn diwedd CA2. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen. Yn CA2, parheir i ddatblygu gfael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

Uwchradd

Yn yr uwchradd, disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd y lefel angenrheidiol, sef lefel 3+ ar ddiwedd y CA2 ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Y gobaith yw y gall y disgyblion hyn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd blwyddyn 11.

Mae ysgolion uwchradd yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau fod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw'r Sir yn diffinio ysgolion uwchradd yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un disgwyliad mewn perthynas â'r Polisi Iaith, sef rhoi cyfle i holl ddisgyblion y Sir fod yn hyfedr ddwyieithog.

1.3 Cefndir Addysgol

Mabwysiadwyd strategaeth "Addysg Gynradd o Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd" gan y Cyngor yn Ebrill 2009. Datblygwyd a chefnogwyd uwch strategaeth "Rhaglen Strategol - Tuag at 2025" gan y Cyngor yn Hydref 2010. Darparwyd y ddogfen fel sylfaen strategol i osod cyfeiriad i ddatblygiadau ym maes addysg a hyfforddiant yng Ngwynedd am y 15 mlynedd nesaf. Cyflwynwyd y rhaglen yng nghyd-destun y polisiâu a chynlluniau sydd ar y gweill, yn lleol a chenedlaethol i drawsnewid gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Cyhoeddwyd "Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2017-2020" yn Rhagfyr 2017 sydd yn gosod gweledigaeth, ymrwymiad a chyfeiriad ar gyfer sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol.

2. PROFFIL IAITH DALGYLCH ABERSOCH

2.1 Cefndir Proffil Iaith Gwynedd

Mae bron i dri chwarter poblogaeth y Sir wedi eu geni yng Nghymru (66.8%). Mae 65.4% o'r boblogaeth sydd dros dair oed yn siaradwyr Cymraeg – sylweddol uwch na'r ffigwr trwy Gymru gyfan o 19%. Yn gyffredinol, ceir cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg a'r rheini a gaiff eu geni yng Nghymru tuag at y gorllewin a symud yn fewndirol o'r ardaloedd mwy poblog ar yr arfordir. Yng Ngwynedd, mae'r gallu i siarad Cymraeg uchaf yn ward Llanrug (mae 87.8% yn siarad Cymraeg), ac ar ei isaf yn ardal Menai o Fangor (18.6%).

2.2 Wardiau

2.2.1 Wardiau Abersoch, Llanengan a Llanbedrog

Mae dalgylch presennol Ysgol Abersoch, o fewn ward Abersoch gyda dalgylch Ysgol Sarn Bach o fewn ward Llanengan a dalgylch Ysgol Llanbedrog o fewn ward Llanbedrog (Swyddfa Ystadegol Gwladol). Mae proffil ieithyddol wardiau'r ysgolion hyn wedi ei grynhoi yn y tabl isod:

	Abersoch	Llanengan	Llanbedrog	Gwynedd	Cymru
Hunaniaeth Gymreig yn unig	266 (34%)	670 (55.6%)	453 (45.2%)	71,931 (59.0%)	1,761,673 (57.5%)
Dim hunaniaeth Gymreig	473 (60.4%)	480 (39.8%)	504 (50.3%)	42,566 (34.9%)	1,045,775 (34.1%)
Aelwydydd ble mae gan o leiaf un person iaith gyntaf arall i Gymraeg neu Saesneg	4 (0.5%)	6 (0.5%)	93 (9.5%)	1,463 (1.2%)	42,581 (1.4%)
Poblogaeth 3+ mlwydd oed	773 (98.7%)	1164 (96.5%)	974 (97.2%)	117,789 (96.6%)	2,955,841 (96.5%)
Gallu siarad Cymraeg	336 (43.5%)	738 (63.4%)	526 (54%)	77,000 (65.4%)	562,016 (19%)
Dim sgiliau Cymraeg	370 (47.9%)	360 (30.9%)	400 (41.1%)	31,177 (26.5%)	2,167,987 (73.3%)
Gallu deall Cymraeg ar lafar yn unig	60 (7.8%)	58 (5%)	44 (4.5%)	8,125 (6.9%)	157,792 (5.3%)
Gallu siarad Cymraeg ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg	39 (5%)	50 (4.3%)	43 (4.4%)	6,838 (5.8%)	80,429 (2.7%)
Gallu siarad a darllen Cymraeg ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg	21 (2.7%)	22 (1.9%)	22 (2.3%)	3,947 (3.4%)	45,524 (1.5%)
Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg	275 (35.6%)	666 (57.2%)	460 (47.2%)	65,921 (56%)	430,717 (14.6%)
Cyfuniad arall o sgiliau Cymraeg	8 (1%)	8 (0.7%)	5 (0.5%)	1,781 (1.5%)	73,392 (2.5%)

2.3 Ysgol Abersoch

Mae'r wybodaeth a geir yn y tabl isod yn amlinellu cefndir ieithyddol disgyblion Ysgol Abersoch.

Dengys y tabl mai 1 disgybl sy'n siarad Cymraeg yn rhugl gartref. (PLASC 2020).

Ysgol	Siarad Cymraeg yn rhugl gartref	Dim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl	Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg gartref a dim yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg o gwbl	Cyfanswm
Abersoch	0	0	3 (33%)	3 (33%)	3 (33%)	9

Ffynhonnell: Data gan Benaethiaid PLASC Ionawr 2020

2.4 Ysgolion cyfagos

Mae data ieithyddol ar gyfer Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Llanbedrog i'w gweld isod:

Ysgol	Siarad Cymraeg yn rhugl gartref	Dim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl	Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg gartref a dim yn rhugl	Dim yn siarad Cymraeg o gwbl	Cyfanswm
Sarn Bach	25 (53%)	4 (9%)	2 (4%)	11 (23%)	5 (11%)	47
Llanbedrog	32 (35%)	26 (29%)	3 (3%)	21 (23%)	9 (10%)	91

Ffynhonnell: Data gan Benaethiaid PLASC Ionawr 2020

2.5 Lefel Cyrrhaeddiad


Ysgolion	% y disgyblion sydd wedi cyrraedd y lefel disgwyledig – Cymraeg (iaith gyntaf)					
	Cyfnod Sylfaen (Cyrraedd canlyniad 5+)			CA2 (cyrraedd o leiaf lefel 4)		
	2017	2018	2019	2017	2018	2019
Abersoch	100%	100%	50%	-	-	-
Sarn Bach	77.8%	66.7%	50%	100%	100%	75%
Llanbedrog	94.1%	100%	77.8	81.8%	90%	88.9%

Ffynhonnell: GwE (Medi 2019)


Gwelwn fod amrediad eang o lwyddiant pan mae'n dod i gyrraeddiad academaidd ysgolion yr ardal. Mae dros 75% o ddisgyblion CA2 wedi llwyddo i gyrraedd y lefel disgwyledig (Cymraeg – iaith) yn Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Llanbedrog llynedd. Mae plant dalgylch Ysgol Abersoch yn bwydo i lefel cyrraeddiad Ysgol Sarn Bach ar ôl blwyddyn 3.

Fel rhan o weithredu'r Siarter Iaith, mae holl ddisgyblion CA2 pob ysgol gynradd yng Ngwynedd yn cwblhau holiadur gwe iaith am eu defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol ddwywaith y flwyddyn. Dyma ystadegau Hydref 2019 am y defnydd mae'r disgyblion yn ei wneud o'r Gymraeg gyda'u hathrawon:


% y plant sy'n siarad Cymraeg efo'r cymorthyddion (ar wahan i wersi Saesneg)




% y plant sy'n siarad Cymraeg efo gweddill staff yr ysgol




% y plant sy'n siarad Cymraeg efo plant yn y dosbarth




% y plant sy'n siarad Cymraeg efo'r plant ar y coridor ac yn y neuadd ginio




% y plant sy'n siarad Cymraeg ar iard yr ysgol



% y plant sy'n hyderus wrth siarad Cymraeg





Gwelwn yn ôl y data uchod fod defnydd o'r Gymraeg yn amrywio yn ysgolion yr ardal. Fe ymddengys fod plant Abersoch sydd yng nghyfnod allweddol 2 yn hyderus iawn wrth siarad Cymraeg ac yn defnyddio'r Gymraeg wrth siarad gyda'r athrawon, cymhorthyddion a staff. O safbwynt Ysgol Sarn Bach, gwelwn fod canran uchel o blant yn Ysgol Sarn Bach yn gwneud defnydd anffurfiol o'r Gymraeg - gyda'i gilydd ar y coridor, yn y neuadd ginio ac ar yr iard, yn ogystal â gyda staff yr ysgol. Rhagwelir felly na fyddai trosglwyddo i Ysgol Sarn Bach yn debygol o gael effaith negyddol ar yr iaith ac y byddai'n cynnig yr un cyfleoedd i blant Abersoch i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gymdeithasu.

Dyma nifer o ymatebion a dderbyniwyd gan ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer cwblhau'r Siarter Iaith:

Abersoch: 2

Sarn Bach: 33

Llanbedrog: 46

2.6 Gweithgareddau ar ôl ysgol ([Sefyllfa Ionawr 2020](#))

Cynhelir gweithgareddau ar ôl ysgol yn adeilad Ysgol Abersoch megis Aelwyd yr Urdd. Mae llawer o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal yn neuadd bentref Abersoch yn ogystal.

Dyma grynodeb o'r hyn mae Ysgol Abersoch a'r ysgolion eraill cyfagos yn eu cynnig ar ôl ysgol:

	Abersoch		Sarn Bach		Llanbedrog	
	Adeilad yr Ysgol	Neuadd Bentref	Adeilad yr ysgol	Neuadd Bentref	Adeilad yr ysgol	Neuadd Bentref
Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)						
Aelwyd yr Urdd	✓		✓			✓
Bore/Noson Goffi		✓	✓			✓
Cylch/Ysgol Feithrin	✓					✓
Clwb/Clwb ar ôl ysgol / Gweithgaredd Chwaraeon		✓			✓	

Gwelir yn y tabl uchod fod nifer o ysgolion yr ardal, gan gynnwys Ysgol Abersoch yn cynnig clybiau gyda'r Urdd ar ôl ysgol. Golygai hyn gallai'r disgyblion fanteisio arnynt fel cyfle ychwanegol i ddefnyddio a datblygu'r Gymraeg. O ran darpariaethau tymor byr, deallwn hefyd fod Hunaniaith yn cynnal Clwb Crefft yn wythnosol yn Ysgol Abersoch ar ôl ysgol i blant cynradd yr ardal yn Ysgol Abersoch er mwyn hybu'r defnydd o'r Gymraeg.

2.7 Gweithgareddau Cymunedol

Mae neuadd ym mhentref Abersoch, ac mae'r Ysgol yn gwneud defnydd rheolaidd o'r gofod hwn yn ogystal. Deallwn hefyd fod Ysgol Abersoch yn cefnogi gweithgareddau Hunaniaith megis Diwrnod Su'mae i hyrwyddo gwerth y Gymraeg mewn busnes.

2.8 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020

Mae'r ddwy ysgol, Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach, yn gweithredu amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 Cyngor Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys:

- Gosod sylfaen gadarn yn y Gymraeg yn y Blynyddoedd Cynnar, gan sicrhau bod disgyblion o gefndir Saesneg yn cael y cyfle i ddysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosib.
- Yn y cyfnod sylfaen, adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cyfnod meithrin a derbyn drwy barhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses o ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg. Yn ymarferol, golyga hyn y bydd y mwyafrif o'r ysgolion yn cychwyn cyflwyno'r Saesneg fel pwnc yn y tymor olaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen gan roi sylw i ddatblygu sgiliau darllen, siarad ac ysgrifennu yn yr iaith honno. Y Gymraeg fydd iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.
- Yn CA2, parhau i ddatblygu meistrolaeth disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith. Asesir cynnydd disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ddiwedd y cyfnod allweddol.

Fe fyddai gweithredu'r cynnig arfaethedig yn cyd-fynd ag amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20.

2.9 Tystiolaeth Ychwanegol

Ysgol Abersoch

Mae adroddiad Estyn yn 2017 yn dweud:

"Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a'r addysgu ac fe addysgir Saesneg yn ffurfiol ym Mlwyddyn 3. Daw 39% o'r disgyblion o gartrefi ble siaredir Cymraeg. Mae eu medrau sylfaenol wrth ddechrau'r ysgol yn is na'r disgwyl, gyda'r Gymraeg yn iaith newydd i'r mwyafrif ohonynt."

<https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Ysgol%20Gynradd%20Abersoch.pdf>

Ysgol Sarn Bach

Mae gwefan yr ysgol yn dweud:

"Ein bwriad ar gobaith yw i bob plentyn allu a dewis siarad Cymraeg graenus ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol, i ymfalchïo yn iaith, diwylliant a thraddodiadau Cymreig."

Mae adroddiad Estyn 2017 yn dweud:

"Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol ac fe gyflwynir Saesneg fel pwnc yng nghyfnod allweddol 2...Tua 47% o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref"

(<https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Ysgol%20Sarn%20Bach%20cydocx.pdf>)

Ysgol Llanbedrog:

Mae gwefan yr ysgol yn dweud:

“I hybu nawws Gymreig yr ysgol, disgwylir mai’r Gymraeg a ddefnyddir i sgwrsio’n anffurfiol yn y dosbarth ac ar y buarth.”

Mae adroddiad Estyn 2014 yn dweud:

“Mae oddeutu chwarter o’r disgyblion o gartrefi lle y siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf.”

(https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Adroddiad%20arolygiad%20Ysgol%20Llanbedrog%202014_0.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf)

3. EFFAITH AR YR IAITH GYMRAEG

3.1 Opsiynau

Cynigiwyd a thrafodwyd nifer o opsiynau yn ystod y cyfarfodydd lleol. Yn dilyn cynnal gwerthusiad o’r opsiynau hyn yn erbyn ffactorau’r Strategaeth, mireiniwyd y rhestr i 3 opsiwn i’w hystyried ymhellach, yn ychwanegol i’r opsiwn Gwneud Dim.

- *Gwneud dim* – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.

Rhagwelir y byddai’r opsiwn yma’n niwtral o ran ei effaith ar yr iaith Gymraeg, gan y byddai’n golygu parhau efo’r sefyllfa bresennol.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos*

Byddai’r opsiwn yma’n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng ysgol/ysgolion cyfagos. Byddai’r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynyddu cyfleoedd y disgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

Yn yr achos yma, am resymau daearyddol, ystyriwyd Ysgol Sarn Bach, ac Ysgol Llanbedrog fel opsiynau rhesymol ar gyfer y trefniant cydweithio. Ni ystyriwyd Ysgol Foel Gron gan nad yw hi’n bosib ffederaleiddio ysgolion sydd â statws elusennol, gyda rhai sydd â statws Cymunedol.

Rhagwelir y byddai’r opsiwn yma’n niwtral o ran ei effaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddai Ysgol Abersoch yn parhau. Byddai’r opsiwn hefyd yn cynnig cyfle i gyd-gynllunio’r cwricwlwm a chydrrannu adnoddau ar draws ysgolion y ffederasiwn.

- *Ymestyn ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed*

Ar hyn o bryd, mae ystod oed Ysgol Abersoch yn golygu fod darpariaeth addysg yr ysgol yn dod i ben ar ddiwedd blwyddyn 3. Byddai ymestyn ystod yr oedran i 3-11 yn golygu fod yr ysgol yn parhau i addysgu disgyblion hyd ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, sef diwedd blwyddyn 6. Byddai hyn yn gyson gydag ystod oedran y mwyafrif o ysgolion cynradd y sir.

Rhagwelir y byddai'r opsiwn yma'n niwtral o ran ei effaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddai Ysgol Abersoch yn parhau. Ac eithrio newid posib i'r strwythur staffio, rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth yn yr ysgol yn parhau yn yr un modd.

- *Cau Ysgol Abersoch a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol gyfagos*

Golygai'r opsiwn yma y byddai Ysgol Abersoch yn cau, ac y byddai disgyblion presennol yn cael cynnig lle yn Ysgol Sarn Bach (yr ysgol amgen).

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn cynnwys asesiad o'r effaith ieithyddol o gau Ysgol Abersoch, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol. Mae'r tabl hefyd yn amlinellu cyfleoedd i gryfhau'r iaith Gymraeg a dulliau i liniaru unrhyw effaith negyddol bosib all ddeillio o'r model.

Asesu effaith ieithyddol cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol

Positif	Niwtral	Negyddol
----------------	----------------	-----------------

Meini Prawf Effaith	Disgrifiad	Statws o'r effaith a'r gwaith	Oes unrhyw fesurau wedi'u hadnabod i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i greu mwy o gyfleoedd positif	Effaith derfynol (yn dilyn dulliau lliniaru)
Iaith yr ysgol	Gan fod yr ysgol amgen (Ysgol Sarn Bach) fel Ysgol Abersoch yn ysgol Cymraeg ei chyfrwng, deuir i'r casgliad na fyddai'r cynnig yn cael effaith ar iaith addysg y plant. Gan y byddai'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, gallasai'r cynnig gryfhau'r cyfleoedd i ddisgyblion gymdeithasu yn y Gymraeg gyda'u cyfoedion.	Niwtral Dim effaith ar sefyllfa iaith yr ysgol	Amherthnasol	Amherthnasol
Fynediad at addysg cyfrwng Cymraeg	Mae'r ysgol amgen yn ysgol Cymraeg ei chyfrwng, fel Ysgol Abersoch. Ni ragwelir felly y byddai'r cynnig yn effeithio ar y meini prawf hwn.	Niwtral Dim effaith ar sefyllfa'r iaith	Amherthnasol	Amherthnasol
Darpariaeth anstatudol	Byddai gan ddisgyblion fynediad at gyflenwad uwch yn nhermau staffio, a byddent yn rhan o grŵp mwy o gyfoedion o'r un oedran.	Positif	Amherthnasol	Amherthnasol
Gweithgareddau cyn / ar ôl ysgol	Mae'r ysgol amgen yn ysgol fwy o ran niferoedd o ddisgyblion felly bydd y grwpiau cyfoedion yn fwy. Mae'n bosib bydd rhaid i rai rhieni deithio ymhellach (i Ysgol Sarn Bach) er mwyn i'r disgyblion gael mynychu gweithgareddau cyn ac ar ôl ysgol.	Niwtral	Gallai'r Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Ysgol Sarn Bach ystyried unrhyw gyfleoedd ychwanegol ar gyfer cynnal gweithgareddau ar ôl ysgol, gan sicrhau fod trefniadau mor hygyrch a bo modd i'r holl ddisgyblion.	Positif

Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned	Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd 43.5% o boblogaeth ward Abersoch yn siaradwyr Cymraeg. Mae Ysgol Abersoch wedi gweithio'n galed i ddatblygu sgiliau dwyieithog y plant a hyrwyddo pwysigrwydd diwylliant Cymraeg o fewn y gymuned. O ganlyniad, gallai cau Ysgol Abersoch gael effaith negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned leol.	Negyddol	Gall yr Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol yr ysgol amgen ystyried dulliau o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yng nghymunedau Abersoch a Sarn Bach trwy gyfrwng gweithgareddau ar ôl ysgol.	Niwtral
--	---	------------------------	---	-----------------------

4. CASGLIAD

Ein disgwyliadau yw bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys, oed perthnasol er mwyn iddynt fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog maent yn rhan ohoni. Bydd angen i'r cynigion ar gyfer newid trefniadau lleol gymryd ystyriaeth lawn o'r holl effeithiau ieithyddol. Bydd cynnal a gwell defnydd o'r Gymraeg fel iaith addysgol a chymdeithasol ymhlith plant yn ystyriaeth allweddol wrth lunio cynigion o fewn yr ardal.

Nodwyd yn yr asesiad y byddai'r opsiynau i wneud dim (parhau efo'r sefyllfa bresennol), ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos, ac ymestyn ystod oed yr ysgol yn niwtral o ran eu heffaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddent yn golygu y byddai'r ysgol yn parhau ym mhentref Abersoch.

O safbwynt y cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach, ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar allu ieithyddol y plant. Mae Ysgol Abersoch wedi gweithio'n galed i ddatblygu sgiliau dwyieithog y plant a hyrwyddo pwysigrwydd y diwylliant Cymraeg. Mae'n bwysig felly bod y cynnig i symud y plant yn cydnabod yr angen i gefnogi a pharhau gyda'r gwaith hwn. Byddai'r opsiwn yn golygu fod disgyblion Ysgol Abersoch yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg. Nodir fod canran uwch o ddisgyblion yn dod o gartrefi sydd yn gallu siarad Cymraeg yn Ysgol Sarn Bach (57%), o'i gymharu ag Ysgol Abersoch (33%). Fel canlyniad, o wireddu'r cynnig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Abersoch ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth.



Adroddiad Asesiad Llesiant Ysgol Abersoch

- Medi 2020

1. CYFLWYNIAD
2. SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?
3. A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?
4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY
5. CASGLIAD

1. CYFLWYNIAD

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd.

Gweledigaeth y Cyngor yw:

Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amcanion llesiant sydd yn ategu'r nodau llesiant cenedlaethol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg
- Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyswllt rhwng ein hamcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol.

Byddwn yn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn:	Llewyrchus	Cydnherth	Iachach	Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu	Yn gyfrifol ar lefel byd-eang
Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel							
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau							
Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd							
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud							
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl							
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg							
Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir.							

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg disgyblion drwy eu gweithgareddau a'u prosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella yn "Cynllun Gwynedd 2018-2023".

1.1 Cyd-destun Ysgol Abersoch

Yn ei gyfarfod ar 17 Medi 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd roi caniatâd i'r Adran Addysg

“gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill Ysgol Abersoch yn sgil pryderon ynghylch niferoedd yr ysgol, i alluogi llunio ystod o opsiynau posibl yn ymwneud a dyfodol yr ysgol.”

Rhwng Hydref 2019 ac Ionawr 2020, cynhaliwyd 3 cyfarfod lleol gyda rhan-ddeiliaid Ysgol Abersoch ymhle cynigiwyd a thrafodwyd nifer o opsiynau. Yn dilyn gwerthuso'r opsiynau hynny, mireiniwyd y rhestr i 3 opsiwn i'w hystyried ymhellach, yn ychwanegol i'r model Gwneud Dim. Mae'r opsiynau hynny wedi eu manylu isod:

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

Noder, er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r model Gwneud dim wedi ei gynnwys at ddiben cymharu.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng ysgol/ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynyddu ar gyfleoedd y disgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

Yn yr achos yma, am resymau daearyddol, ystyriwyd Ysgol Sarn Bach, ac Ysgol Llanbedrog fel opsiynau rhesymol ar gyfer y trefniant cydweithiol. Ni ystyriwyd Ysgol Foel Gron gan nad yw hi'n bosib ffederaleiddio ysgolion sydd â statws elusennol, gyda rhai sydd â statws Cymunedol.

- *Ymestyn ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed*

Ar hyn o bryd, mae ystod oed Ysgol Abersoch yn golygu fod darpariaeth addysg yr ysgol yn dod i ben ar ddiwedd blwyddyn 3. Byddai ymestyn ystod yr oedran i 3-11 yn golygu fod yr ysgol yn cael parhau i addysgu disgyblion hyd ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, sef diwedd blwyddyn 6. Byddai hyn yn gyson gydag ystod oedran y mwyafrif o ysgolion cynradd y sir.

- *Cau Ysgol Abersoch a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol gyfagos*

Golygai'r opsiwn yma y byddai Ysgol Abersoch yn cau, ac y byddai disgyblion presennol yn cael cynnig lle yn Ysgol Sarn Bach (yr ysgol amgen).

2. SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?

Ystyriwyd amcanion llesiant Cyngor Gwynedd wrth werthuso'r opsiynau.

Gwneud dim – parhau gyda'r sefyllfa bresennol.	
Amcanion	Manylion:
Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel	Dim effaith
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau	Dim effaith
Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd	Dim effaith
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud	Dim effaith
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl	Dim effaith
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg	Dim effaith
Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir	Dim effaith.

Ymestyn ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed	
Amcanion	Manylion:
Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel	Dim effaith
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau	Dim effaith
Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd	Dim effaith
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud	Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn effeithio ar y nod hwn. Byddai proses statudol ynghlwm ag ymestyn yr ystod oed. Ni ragwelir effaith ar drefniadau llywodraethol presennol.
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl	Dim effaith
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg	Dim effaith
Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir	Dim effaith.

Ffederaleiddio gydag Ysgol gyfagos	
Amcanion	Manylion:
Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel	Dim effaith
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau	Dim effaith
Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd	Dim effaith
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud	Dim effaith. Byddai proses statudol ynghlwm a sefydlu ffederasiwn ffurfiol a sefydlu corff llywodraethol ffederal. Byddai'r opsiwn yn cynnig cyfleodd i rannu staff a rhannu arbenigeddau ar draws yr ysgolion. Byddai hefyd yn cynnig cyfleoedd i gydweithio ar faterion cwricwlaidd a datblygu cynlluniau ar y cyd.
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl	Dim effaith

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg	Dim effaith
Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir	Dim effaith.

Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach	
Amcanion	Manylion:
Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel	Dim effaith
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau	Dim effaith
Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd	Rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n arwain at ddiswyddiadau staff. Datblygwyd polisi staffio manwl gan Gyngor Gwynedd mewn cydweithrediad ag Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd y polisi yn sail i unrhyw newid i gyflogaeth staff sy'n deillio o unrhyw gynnig. Bydd cyfathrebu eglur ac agored yn greiddiol i weithrediad llwyddiannus unrhyw gynigion.
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud	Bydd sicrhau fod y disgyblion yn derbyn addysg o'r radd flaenaf yn greiddiol i'r cynnig, gan sicrhau y byddant yn derbyn addysg o'r un ansawdd a safon, fan lleiaf, yn yr ysgol amgen.
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl	Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn.
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg	Cynhaliwyd asesiad ardrawiad ieithyddol. Mae disgyblion Ysgol Abersoch yn byw mewn cymdeithas Gymraeg ac yn cael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, fel Ysgol Sarn Bach. Nodir yr asesiad ardrawiad ieithyddol fod sefyllfa'r ysgol amgen yn gryf, gyda 57% o ddisgyblion yn dod o gartrefi sydd yn gallu siarad Cymraeg. O'i gymharu, mae 33% o ddisgyblion Ysgol Abersoch yn dod o gartrefi sydd yn gallu siarad Cymraeg.
Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y Sir	Dim effaith

3. A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?

Nod	Yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod yma?	Mesurau lliniaru effeithiau negyddol ar y nod yma:
Cymru lewyrchus Cymdeithas arloesol sy'n defnyddio adnoddau'n ddarbodus, pobl addysgedig, sy'n creu cyfoeth a gwaith.	Byddai'r cynnig yn golygu fod disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran. Rhagwelir felly y byddai'n cyfoethogi profiadau dysgu a chymdeithasol y disgyblion. Yn ogystal, mae'r cynnig yn cyfrannu at y nod trwy wneud defnydd darbus o adnoddau. Gallasai gweithredu'r opsiwn yma arwain at staff yn colli eu swyddi.	Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen hefo'r cynnig, bydd ymgynghoriad statudol yn cael ei gynnal hefo holl ran-ddeiliad, gan gynnwys y staff a chynrychiolwyr undebau. Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio manwl, ar y cyd ac Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau o ganlyniad i'r cynnig hwn gyd-fynd a'r polisi hwnnw. Bydd cyfathrebu clir ac agored yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynigion.
Cymru gydnerth Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch a gyda'r gallu i baddasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).	Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn.	Dim effaith
Cymru iachach Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall beth sy'n effeithio ar eu hiechyd.	Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn.	Dim effaith
Cymru sy'n fwy cyfartal Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).	Datblygwyd y cynnig o fewn cyd-destun y Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd. Mae'r strategaeth yn amlinellu'r weledigaeth: <i>"Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn"</i>	Nodai'r asesiad cydraddoldeb na ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar gydraddoldeb. Yn ogystal, nodwyd fod polisiâu a threfniadau cadarn mewn lle a fyddai'n sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd a hawliau cyfartal. Nodir fod mesurau eisoes mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol ac aflonyddu.
Cymru o gymunedau gydlynus Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.	Yn dilyn cynnal asesiad effaith ar y gymuned, daethpwyd i'r casgliad y bydd peth effaith negyddol ar y gymuned pe byddai'r ysgol yn cau.	Wrth gydnabod yr effaith negyddol gallasai cau'r ysgol gael ar gymuned Abersoch, nodir fod 25 o ddisgyblion (3-8) sy'n byw yn nalgylch Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach. Credir felly fod cyswllt eisoes yn bodoli rhwng yr ysgol amgen a'r gymuned yn Abersoch. O weithredu'r cynnig bydd cyfle i adeiladu ar y cysylltiadau hyn sydd rhwng y gymuned yn Abersoch ac Ysgol Sarn

		Bach trwy gynnal trafodaethau fyddai'n hybu cynnwys cymuned Abersoch yng ngweithgarwch cymunedol yr ysgol.
Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.	Ni ragwelir effaith ar y nod hwn gan y byddai'r cynnig yn golygu y byddai'r disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Gymraeg.	-
Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.	Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn.	Dim effaith.

4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY


Egwyddorion Datblygu cynaliadwy	A yw'r cynnig yn ystyried yr egwyddor?
Hirdymor Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.	Mae patrwm o niferoedd isel yn Ysgol Abersoch ers rhai blynyddoedd, a bellach mae'r sefyllfa yn fregus iawn. Gyda rhagamcanion yn dangos niferoedd yn parhau'n isel, deuir i'r casgliad fod yr heriau sy'n wynebu'r ysgol yn rhai hir dymor, ac felly mae'r achos dros newid yn glir.
Atal Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion?	Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu gweithredu ymhellach, bydd anghenion y plant yn flaenoriaeth wrth ymgymryd ag unrhyw broses ad-drefnu.
Integreiddio Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.	Bu i'r awdurdod gychwyn y broses o adolygu sefyllfa'r ysgol yn sgil sefyllfa argyfyngus sy'n wynebu'r ysgol.
Cydweithio Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.	Fel rhan o'r broses o werthuso'r opsiynau bu i'r adran Addysg dderbyn mewnbwn gan nifer o adrannau eraill o fewn y Cyngor. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd lleol er mwyn derbyn mewnbwn cychwynnol rhan-ddeiliaid.
Cynnwys Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y maent yn gwasanaethu.	Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen hefo'r cynnig, bydd yr awdurdod yn cynnal ymgynghoriad statudol gyda'r rhan-ddeiliaid perthnasol megis rhieni, staff, undebau, a'r gymuned ehangach. Bydd yr ymgynghoriad hwn hefyd yn cynnwys ymgynghoriad penodol gyda plant a phobl ifanc. Bydd yr awdurdod yn cydymffurfio â'r gofynion ymgynghori a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru.

5. CASGLIAD

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i gasgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion. Bydd y cynnig hwn yn caniatáu i ni ymateb i a diwallu anghenion y plant heddiw, a hefyd cryfhau eu llesiant i'r dyfodol.

Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda'r cynnig hwn, gall arwain at golli ysgol yng nghymuned Abersoch, fodd bynnag mae nifer helaeth o'r plant sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys yr ysgol amgen, ac felly mae cyswllt rhwng Ysgol Sarn Bach a chymuned Abersoch eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau. Pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Sarn Bach yn cynnwys cymuned Abersoch, ble'n briodol.

Bydd y cynnig arfaethedig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd o gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.



Adroddiad Asesiad Cydraddoldeb Ysgol Abersoch

- Medi 2020

1. CYFLWYNIAD
2. OPSIYNAU
3. EFFAITH UNRHYW NEWID
4. DADANSODDI'R CANLYNIADAU
5. CASGLIAD

Draft

1. CYFLWYNIAD

Mae Ysgol Abersoch wedi ei lleoli yng nghanol pentref Abersoch ger Pwllheli, ac yn darparu addysg ar gyfer disgyblion 3-8 oed. Mae gan yr ysgol gapasiti o 42 (Meithrin i Flwyddyn 3), ac ym mis Ionawr 2020, roedd ganddi 7 disgybl llawn amser (rhwng 4-8 oed), a 2 ddisgybl meithrin. Erbyn heddiw (Medi 2020), mae ganddi 8 disgybl llawn amser (rhwng 4-8 oed), a 2 ddisgybl meithrin.

Yn ei gyfarfod ar 17 Medi 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd roi caniatâd i'r Adran Addysg *“gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill Ysgol Abersoch yn sgil pryderon ynghylch niferoedd yr ysgol, i alluogi llunio ystod o opsiynau posibl yn ymwneud a dyfodol yr ysgol.”*

Fel rhan o'r broses o ddatblygu cynnig/cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgol/ysgolion, mae'n ofynnol i'r Cyngor (yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd warchodedig).

2. OPSIYNAU

Cynigiwyd a thrafodwyd nifer o opsiynau yn ystod y cyfarfodydd lleol. Yn dilyn cynnal gwerthusiad o'r opsiynau hyn yn erbyn ffactorau'r Strategaeth, mireiniwyd y rhestr i 3 opsiwn i'w hystyried ymhellach, yn ychwanegol i'r opsiwn Gwneud Dim.

- *Gwneud dim – parhau gyda strwythur presennol yr ysgol.*

Noder, er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r model Gwneud dim wedi ei gynnwys at ddiben cymharu.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng ysgol/ysgolion cyfagos. Byddai'r ysgolion hyn yn rhannu un corff llywodraethu, ond ar yr un pryd yn cadw eu statws cyfreithiol fel endidau ar wahân, eu dyraniad cyllidol, enw a gwisg ysgol, ac yn parhau i gael arolwg Estyn eu hunain.

Byddai ffurfio ffederasiwn ffurfiol gydag ysgol neu ysgolion eraill yn cryfhau sefyllfa arweinyddiaeth yr ysgol, ac yn cynyddu ar gyfleoedd y disgyblion i gymdeithasu a chydweithio gyda chyfoedion.

Yn yr achos yma, am resymau daearyddol, ystyriwyd Ysgol Sarn Bach, ac Ysgol Llanbedrog fel opsiynau rhesymol ar gyfer y trefniant cydweithiol. Ni ystyriwyd Ysgol Foel Gron gan nad yw hi'n bosib ffederaleiddio ysgolion sydd â statws elusennol, gyda rhai sydd â statws Cymunedol.

- *Ymestyn ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed*

Ar hyn o bryd, mae ystod oed Ysgol Abersoch yn golygu fod darpariaeth addysg yr ysgol yn dod i ben ar ddiwedd blwyddyn 3. Byddai ymestyn ystod yr oedran i 3-11 yn golygu fod yr ysgol yn cael parhau i addysgu disgyblion hyd ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, sef diwedd blwyddyn 6. Byddai hyn yn gyson gydag ystod oedran y mwyafrif o ysgolion cynradd y sir.

- *Cau Ysgol Abersoch a'r disgyblion i gael eu haddysgu mewn ysgol gyfagos*

Golygai'r opsiwn yma y byddai Ysgol Abersoch yn cau, ac y byddai disgyblion presennol yn cael cynnig lle yn Ysgol Sarn Bach (yr ysgol amgen).

Yn dilyn cynnal asesiad manylach o'r opsiynau uchod, daethpwyd i'r casgliad mai'r opsiwn a gaiff ei ffafrio fel cynnig ar gyfer ymgynghoriad statudol yw'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach.

3. EFFAITH UNRHYW NEWID

Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar y nodweddion hyn?

Nodweddion	Sut fath o effaith? *	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)	Dim	Mae gan ysgolion Gwynedd bolisiau perthnasol ar waith i amddiffyn unigolion rhag unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar hil, megis Polisiau Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Gwrth-fwlio. Mae'r polisi Gwrth-fwlio a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn nodi canllawiau a gweithdrefnau gwrth-fwlio yn seiliedig ar ffactorau megis hil yn yr ysgol. Yn ogystal, fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei gweithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn <i>"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."</i> Ni ragwelir felly y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y nodwedd yma.
Yr Iaith Gymraeg	Dim	Mae Cynllun Addysg Gymraeg y Cyngor yn gosod yr un gofynion ar bob ysgol, ac felly o ran gweithredu'r polisi, ni ragwelir y byddai effaith pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Cynhaliwyd asesiad effaith ieithyddol ar y cynnig yn ogystal.
Anabledd	Dim	Dan ofynion Polisi'r Cyngor, mae gofyn i ysgolion ddarparu Polisi Gwrth-fwlio, ac felly bydd disgwyl i'r ysgol amgen warchod yn erbyn bwllo ar sail anabledd, ac yn wir, ar unrhyw sail arall. Yn ogystal, mae gan ysgolion Gwynedd Gôd Ymarfer Cludiant. Bydd angen i staff yr ysgol amgen ddarparu'r un lefel o ofal a bod yn ymwybodol o holl anghenion y disgyblion.
Rhyw	Dim	Ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith o safbwynt rhyw gan fod pob ysgol a effeithir yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn: <i>"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."</i>
Oedran	Dim – lled bositif.	Mae Ysgol Abersoch yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3-8 oed. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'n golygu fod y disgyblion yn trosglwyddo i ysgol gydag ystod oed o 3 i 11 ar un safle. Fodd bynnag, ni ragwelir y byddai hyn cael effaith negyddol – mae pob ysgol a effeithir yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn: <i>"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."</i>
Cyfeiriadedd Rhywiol	Dim	Fe nodir yn y polisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei gweithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn

		<i>“..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion.”</i>
Crefydd neu Gred (neu ddiffyg cred)	Dim	Mae Ysgol Abersoch a’r ysgol amgen, sef Ysgol Sarn Bach yn ysgolion cymunedol – nid yw’r cynnig yn awgrymu newid hyn. Mae gan bob ysgol Bolisi Cynhwysiad a fyddai’n delio ag unrhyw ddigwyddiad gwahaniaethol a allai godi yn yr ysgol, sy’n gysylltiedig â chrefydd neu gred.
Ailbennu Rhywedd	Dim	Fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei gweithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn <i>“..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion.”</i>
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Dim	-
Priodas a Phartneriaeth Sifil	Dim	-

Mae’n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu’n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth.

Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb	A yw’n cael effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw’r dystiolaeth?
Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth	Nac ydi	Ni fyddai gweithredu’r cynnig yn newid dyletswydd statudol yr ysgolion a effeithir arnynt i amddiffyn disgyblion rhag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth. Y nod yw rhoi cyfle i’r disgyblion leisio’u barn mewn ffordd sy’n addas ac yn briodol o ystyried unrhyw ffactorau sy’n effeithio arnynt. Byddant yn parhau i ddefnyddio’r Cyngor Ysgol, gwersi ABCh, polisiâu gwrth-fwlio a dulliau eraill i sicrhau bod yr ysgol yn gwahardd gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth.
Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal	Nac ydi	Rhagwelir y bydd yr ysgol amgen yn parhau i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal.
Meithrin perthnasau da	Nac ydi	Gan fod rhai o ddisgyblion dalgylch Ysgol Abersoch eisoes yn mynychu Ysgol Sarn Bach mae’n deg nodi fod cysylltiad rhwng Ysgol Sarn Bach a chymuned Abersoch eisoes yn bodoli. Serch hynny, gallai cyfleoedd i adeiladu ymhellach ar y berthynas â’r gymuned yn Abersoch ddeillio o weithredu’r cynnig.

4. DADANSODDI'R CANLYNIADAU

- 4.1 Ydi'r cynnig felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Gan fod Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach yn gweithredu'r un polisiâu mewn perthynas â chydraddoldeb a gwrth fwlio, ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith sylweddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a gyfeirir atynt yn y ddogfen hon.

- 4.2 Ydi'r cynnig felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol? Beth yw'r rheswm am hyn?

Gan fod Ysgol Abersoch ac Ysgol Sarn Bach yn gweithredu'r un polisiâu mewn perthynas â chydraddoldeb a gwrth fwlio, ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith sylweddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a gyfeirir atynt yn y ddogfen hon.

- 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	✓
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau â'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	

- 4.4 Os yn parhau â'r cynllun, pa gamau byddwch yn eu cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

I liniaru'r effaith ar y gymuned nodir cyfleon i sicrhau fod cymuned Abersoch yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng yr ysgol amgen a chymuned Abersoch, lle'n briodol.

- 4.5 Monitro – pa gamau byddwch yn eu cymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu'r gwasanaeth (cynllun gweithredu)?

Cyfrifoldeb yr ysgol (a'r Corff Llywodraethol) yw gweithredu'r polisiâu cydraddoldeb, ac bydd yr Awdurdod, drwy ei weithdrefnau cymorth a monitro arferol, yn sicrhau cydymffurfiaeth.

5. CASGLIAD

Ni ragwelir y byddai'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i ddisgyblion Ysgol Sarn Bach yn achosi effeithiau negyddol o safbwynt cydraddoldeb. Mae ysgolion cynradd Gwynedd eisoes yn gweithredu polisi Cydraddoldeb sy'n nodi fod yr ysgolion yn *"..gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu parhau a'r cynnig hwn, ac os tynnir sylw at unrhyw effaith yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y Cyngor yn ceisio ffyrdd i'w lliniaru gan edrych yn benodol ar unrhyw awgrymiadau a gynhigir yn yr ymatebion.

DRAFT

Atodiad 3



Pecyn Cefndirol Ysgol Abersoch

Cyfarfod Lleol 1 – 7 Hydref, 2019	
Cyflwyniad	1
Cofnodion y Cyfarfod	12
Cyfarfod Lleol 2 – 13 Tachwedd, 2019	
Agenda	15
Cyflwyniad	16
Cofnodion y Cyfarfod	26
Cyfarfod Lleol 3 – 6 Ionawr, 2020	
Agenda	31
Cyflwyniad	32
Cofnodion y Cyfarfod	40
Mewnbwn yn dilyn Cyfarfodydd Lleol	44

PANEL ADOLYGU YSGOL ABERSOCH YSGOL ABERSOCH REVIEW PANEL

7 Hydref 2019
7 October 2019



Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

AGENDA

- | | |
|---|--|
| 1. Gair o groeso gan y Pennaeth Addysg | 1. <i>Welcome from the Head of Education</i> |
| 2. Cefndir a phwrpas y cyfarfod | 2. <i>Background and purpose of the meeting</i> |
| 3. Pam ystyried Ysgol Abersoch? | 3. <i>Why consider Ysgol Abersoch?</i> |
| 4. Ystyriaethau | 4. <i>Considerations</i> |
| 5. Sesiwn drafod – rhannu syniadau/opsiynau | 5. <i>Discussion session - sharing ideas / options</i> |
| 6. Camau Nesaf | 6. <i>Next Steps</i> |



Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

CEFNDIR BACKGROUND

- Ar 17 Medi 2019, penderfynodd **Cabinet Cyngor Gwynedd** roi caniatâd i'r Adran Addysg gynnal trafodaethau lleol i **ystyried opsiynau** ar gyfer dyfodol Ysgol Abersoch.
- **Pwrpas** ein cyfarfod heddiw yw:
 - Edrych ar y sefyllfa bresennol; a
 - Trafod a chychwyn ystyried opsiynau posib.
- **Camau Nesaf** :
 - Cynnal **cyfarfodydd pellach** er mwyn ystyried a chymharu'r opsiynau; ac
 - **Adrodd yn ôl i'r Cabinet** ar ganlyniadau'r trafodaethau lleol.
- On 17 September 2019, Gwynedd Council's **Cabinet** resolved to allow the Education Department to hold local discussions to **consider options** for the future of Ysgol Abersoch.
- The **purpose** of our meeting today is to:
 - Consider the current situation; and
 - Discuss and begin to consider possible options.
- **Next Steps** :
 - Hold **further meetings** to consider and compare the options; and
 - **Report to Cabinet** on the result of the local discussions.

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money




PAM YSTYRIED YSGOL ABERSOCH? WHY CONSIDER YSGOL ABERSOCH?

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



NIFEROEDD DISGYBLION PUPIL NUMBERS



Niferoedd M-Bl. 3 (Medi 2019) Numbers N-Yr 3 (January 2019)	9
Capasiti (M – Bl. 3) Numbers (N – Yr. 3)	42
Llefydd Gweigion Surplus Places	33 (79%)

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



MAINT DOSBARTHIADAU CLASS SIZES

	Meithrin Nursery	Derbyn Reception	Bl 1 Yr 1	Bl 2 Yr 2	Bl 3 Yr 3	Cyfanswm Total
Dosbarth 1 Class 1	-	-	-	2	-	2
Dosbarth 2 Class 2	2	1	1	3	-	7

Ffynhonnell : Cyfrifiad Medi 2019


Source : September 2019 Census

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



RHAGAMCANION PROJECTIONS

Rhagamcanion 2020-2022 Projections
(M - Bl. 3 / N - Yr. 3)



	Meithrin Nursery	0	1	2	3	Cyfanswm Total
Medi 2020 September 2020	1	2	1	1	3	8
Medi 2021 September 2021	1	1	2	1	1	6
Medi 2022 September 2022	1	1	1	2	1	6

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



CYLLIDEB YR YSGOL (2019-20) SCHOOL BUDGET (2019-20)

	Ysgol Abersoch	Cyfartaledd Sirol County Average
Dyraniad 2019-2020 Allocation 2019-2020	£89,041	-
Gwarchodaeth Lleiafswm Staffio* Minimum Staffing Protection*	£37,853	-
Cyfanswm Dyraniad Total Allocation	£126,894	£404,000
Cyfartaledd y Disgybl Average per Pupil	*£10,200	£3,884

Ffynhonnell: Dyraniad Cyllidol 2019-2020
Source: Financial Allocation 2019-2020

• Rhagamcanion 2020-21 = £15,800
• 2020-21 Projections = £15,800

- Defnyddio £3,065 o arian wrth gefn i fantoli'r diffyg yn y gyllideb eleni
- O 2020-21 ymlaen, ni fydd y dyraniad yn ddigonol i gynnal y strwythur staffio presennol

- £3,065 of reserves have been used to offset the deficit this year
- From 2020-21, the allocation will not sustain the current staffing structure.

DYRANIAD YSGOL ABERSOCH ALLOCATION
(2019-20)




- Dyraniad / Allocation
- Gwarchodaeth Lleiafswm Staffio / Minimum Staffing Protection

**Mae'r polisi gwarchodaeth yn sicrhau o leiaf pennaeth ac athro/athrawes ym mhob ysgol gyda mwy na 15 disgybl, a pennaeth a chymhorthydd dosbarth mewn ysgolion gyda llai na 15 disgybl.

**The minimum staffing protection policy ensures a minimum of headteacher and teacher at every school which has more than 15 pupils, and a headteacher and a classroom assistant in a school with fewer than 15 pupils.

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

COST Y DISGYBL (2019-20) COST PER PUPIL (2019-20)



Ffynhonnell : Dyranid Cyllidol 2019-2020
Source : Financial Allocation 2019-2020

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



STRWYTHUR STAFFIO STAFFING STRUCTURE

Pennaeth <i>Headteacher</i>	Llawn Amser Full Time
Athrawes <i>Teacher</i>	2.5 diwrnod yr wythnos 2.5 days per week
Cymhorthydd <i>Teaching Assistant</i>	12.25 awr yr wythnos 12.25 hours per week
Llanw <i>Supply</i>	1 diwrnod yr wythnos 1 day per week
Swyddog Cefnogi Ysgol <i>School Support Officer</i>	3 awr yr wythnos 3 hours a week

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



DISGYBLION DALGYLCH YSGOL ABERSOCH (Medi 2018) YSGOL ABERSOCH CATCHMENT PUPILS (September 2018)

		Disgyblion dalgyrch Abersoch (3-8 oed) (Medi 2018) Abersoch catchment pupils (3-8 years) (September 2018)
Mynychu Ysgol / School Attending (Medi / September 2018)	Abersoch	10
	Arall / Other	24
Cyfanswm Total		34

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



POLISI MYNEDIAD ADMISSION POLICY

Yn unol a'r Cod derbyn i ysgolion (005/2013):

Rhaid i Awdurdodau Lleol beidio ag awgrymu y dylai rhieni ddweud mai ysgol eu dalgyrch lle y maent yn byw sydd orau ganddynt, na bod lle wedi'i neilltuo iddynt yn yr ysgol honno cyn iddynt fynegi eu dewis.

Nid oes hawl gan yr awdurdod i geisio dylanwadu ar ddewis rhieni.

In accordance with the School Admissions Code (005/2013):

LAs must not suggest that parents should express a preference for the school in whose catchment area they live, or that they have been allocated a place at that school before they have expressed a preference.

The authority has no right to seek to influence parental choice

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



POLISI GOSOD TAI CYFFREDIN COMMON HOUSING ALLOCATION POLICY

Oes posib i Gyngor Gwynedd ddylanwadu ar bwy sydd yn symud i fyw i'r pentref?

Mae Polisi Gosod Tai Cyffredin wedi ei gosod ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd, Cartrefi Cymunedol Gwynedd, Grŵp Cynefin a Thai Gogledd Cymru.

Mae meini prawf dyraniad tai wedi ei fanylu yn y polisi hwn. Mae tenantiaid yn cael cynnig tai sydd o faint addas i'w amgylchiadau nhw (e.e. fel arfer tai tair llofft i deuluoedd gyda dau neu dri o blant). Mae pwy sydd yn cael cynnig tai yn y pentref felly yn ddibynnol ar y polisi ac hefyd ar stoc tai yr ardal a beth sydd yn dod yn wag i'w osod.

Is it possible for Gwynedd Council to influence who moves to the village?

A Common Lettings Policy has been set up jointly by Gwynedd Council, Cartrefi Cymunedol Gwynedd, Grŵp Cynefin and North Wales Housing.

A housing allocation criteria can be seen in the policy. Tenants will be offered houses of a size suitable for their circumstances (e.g. typically three-bedroom houses for families with two or three children). A person who is offered a house in the village is therefore dependent on the policy and also on the housing stock in the area and what becomes vacant to let.

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



CRYNODEB O BRIF HERIAU YSGOL ABERSOCH SUMMARY OF MAIN CHALLENGES AT YSGOL ABERSOCH

- Nifer disgyblion ymysg yr isaf yn y sir.
- Rhagamcanion yn dangos lleihad pellach yn y niferoedd.
- Nifer uchel o lefydd gweigion.
- Cost y disgybl (£10,200) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol.
- Ysgol yn derbyn swm sylweddol drwy'r rhwyd diogelu er mwyn ei gwneud yn gyllidol hyfyw.
- Cyllideb ragamcanol (2020-21) yn awgrymu na fydd modd parhau â'r strwythur staffio presennol yn dilyn y flwyddyn ariannol hon (2019-20).
- Pupil numbers amongst the lowest in the county.*
- Projections show further decline in numbers.*
- High number of surplus places.*
- Cost per pupil (£10,200) significantly higher than the county average.*
- School receives a significant amount through the 'Minimum Staffing Protection' funding to make it financially viable.*
- Projected budget (2020-21) suggests that the current staffing structure will not be sustainable following this financial year (2019-20).*

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



CRYNODEB O BRIF HERIAU YSGOL ABERSOCH SUMMARY OF MAIN CHALLENGES AT YSGOL ABERSOCH

- Gyda niferoedd isel iawn yn Ysgol Abersoch ar hyn o bryd a rhagamcanion yn dangos cwymp pellach dros y blynyddoedd nesaf, mae dyletswydd arnom i ystyried y sefyllfa a gweld beth ydi'r opsiynau gorau ar gyfer y dyfodol.
- Prif bwrpas y cyfarfodydd hyn yw rhoi cyfle i chi roi mewnbwn i'r broses ac ein cynorthwyo wrth lunio cynigion penodol ar gyfer Ysgol Abersoch.
- With very low numbers at Ysgol Abersoch at present and projections showing a further fall over the next few years, we have a duty to consider the situation and see what are the best options for the future.*
- The main purpose of these meetings is to provide you with an opportunity to input into the process and assist us in formulating specific proposals for Ysgol Abersoch.*

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



YSTYRIAETHAU CONSIDERATIONS

Wrth lunio a chymharu opsiynau, byddwn yn rhoi ystyriaeth i sawl ffactor, gan gynnwys:

- Niferoedd disgyblion
- Maint dosbarthiadau ac Amrediad Oedran
- Arweinyddiaeth a Staffio
- Cymuned
- Iaith
- Adnoddau Ariannol
- Ffactorau Daearyddol
- Ffactorau sy'n berthnasol i'r rhagdybiaeth yn erbyn cau Ysgolion Gwledig

In formulating and comparing options, we will take into account several factors, including:

- Pupil numbers*
- Class sizes and Age Range*
- Leadership and Staffing*
- Community*
- Language*
- Financial Resources*
- Geographical Factors*
- Factors relating to the presumption against closure of Rural Schools*

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



RHAI OPSIYNAU POSIB SOME POSSIBLE OPTIONS

Dyma rai opsiynau y byddwn yn eu hystyried:

Here are some options we'll be considering:

- Status Quo** – Parhau hefo'r sefyllfa bresennol
- Ffederaleiddio** gydag ysgol gyfagos/arall
- Cau Ysgol Abersoch** a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol amgen.

- Status Quo** – Continue with the current situation
- Federation** with neighbouring / other school
- Close Ysgol Abersoch** and offer pupils a place at an alternative school.

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



ENGHRAIFFT GWERTHUSIAD OPSIYNAU OPTIONS APPRAISAL EXAMPLE

O fewn y tablau yma mae'r ysgrifen mewn bold yn dangos manteision, ysgrifen *italics* yn dangos anfanteision a'r ysgrifen arferol yn dangos ffeithiau neu sylwadau

Ystyriaethau	1 Gwneud Dim	2 "Collaboration trust" rhwng Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Ysgol Aml-Safle yn Friog a Llanelltyd ac Ysgol Aml-safle yn Ieuan Gwynedd (Rhydymain) a Dinas Mawddwy	3 Rhwydwaith Cydweithio rhwng Ysgol Clogau Ysgol Friog Ysgol Ganolwyl Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain) Ysgol Dinas Mawddwy Ysgol Gynradd Dolgellau ac Ysgol Y Gader	4 Ysgol Ddilynol yn nhref Dolgellau Ysgol Aml-safle yn Friog a Llanelltyd Ysgol Aml-safle yn Ieuan Gwynedd (Rhydymain) a Dinas Mawddwy
Safon Addysg	Safon addysg bresennol yn parhau. Parhau i fod yn siâlens i sicrhau cyfleoedd cyfartal a mynediad at gwrwllwm eang a chytbwys ar gyfer disgyblion y dalgylch.	Byddai cyfleoedd i rannu arbenigedd rhwng gwahanol staff safle yn yr ysgolion ardal aml-safle. Cyffe i gael gwell dilyniant ar gyfer addysg rhwng ystod oedran cynradd ac uwchradd oddi fewn yr ysgol ddilynol. Ni fyddai sicrwydd o gydweithrediad ymysg y gwahanol staff yn yr ysgolion gwahanol. Dim ffordd i warantu fod yr un cyfleoedd yn cael eu cynnig i ddisgyblion cynradd yr ysgol ddilynol a disgyblion cynradd yr ysgolion ardal - ni fydd unrhyw fecanwaith ffurfiol i sicrhau fod arbenigedd ac adnoddau yn cael eu rhannu.	Bwriad y rhwydwaith cydweithio yw caniatáu amserlennu cwrwllwm yr ysgolion cynradd ar draws y dalgylch fel bod pob disgybl wedi cyflawni'r un gwaith. Ni fyddai sicrwydd o gydweithrediad ymysg y gwahanol staff yn yr ysgolion gwahanol. Dim ffordd i warantu fod yr un cyfleoedd yn cael eu cynnig i ddisgyblion cynradd yr ysgol ddilynol a disgyblion cynradd yr ysgolion ardal - ni fydd unrhyw fecanwaith ffurfiol i sicrhau fod arbenigedd ac adnoddau yn cael eu rhannu.	Byddai mecanwaith ffurfiol yn ogystal â chyfleoedd i rannu adnoddau rhwng staff gwahanol safleoedd yn yr ysgolion ardal aml-safle. Cyffe i gael gwell parhad ar gyfer addysg rhwng ystod oedran cynradd ac uwchradd oddi fewn yr ysgol ddilynol. Ni fyddai sicrwydd o gydweithrediad ymysg y gwahanol staff yn yr ysgolion gwahanol. Dim ffordd i warantu fod yr un cyfleoedd yn cael eu cynnig i ddisgyblion cynradd yr ysgol ddilynol a disgyblion cynradd yr ysgolion ardal - ni fydd unrhyw fecanwaith ffurfiol i sicrhau fod arbenigedd ac adnoddau yn cael eu rhannu.
Cyfeithio Dalgylch	Dim newid i'r sefyllfa bresennol - mae'r ysgolion presennol wedi cael sawl cyffe i gydweithio, prin yw'r enghreifftiau o gydweithio.	Dim ond cytundeb anffurfiol i gydweithio byddai'n bodoli, fyddai'n bosib i unrhyw un o'r ysgolion dynnu'n ôl o'r 'collaboration trust' ar unrhyw adeg.	Dim ond rhwydwaith cydweithio anffurfiol fyddai rhwng yr ysgolion. Mae'r ysgolion presennol wedi cael sawl cyffe i gydweithio a rhannu arbenigedd yn anffurfiol ond prin yw'r enghreifftiau o gydweithio. Ni fyddai unrhyw ffordd o orfod'r cydweithio.	Ni fyddai unrhyw ffordd o warantu cydweithio rhwng y tair ysgol.
Cyflwr ar Adnoddau Adreiliau	Byddai 10 ysgol yn parhau. Dim buddsoddiad Cyfaliad, safleoedd ysgolion presennol wedi eu defnyddio, nid yw rhai o'r safleoedd hyn yn addas i bwrpas yn y 21ain ganrif ac nid ydynt yn darparu'r holl adnoddau perthnasol i bob oedol o staff a disgyblion e.e. ystafell athrawon, ardaloedd chwarae awyr agored, neuadd aml bwrpas addas ayyb.	Adreiliau a chyfeusterau sydd yn newydd, modern ac addas i bwrpas i blant yn yr ardal. Gwaith uwchraddio ac allfodelu, gyda'r holl elfennau perthnasol ar gael i staff a disgyblion; neuadd amibwrpas, ardal cyfnod sylfaen, man chwarae awyr agored, ystafell athrawon ayyb. Disgyblion dalgylch y Gader yn gallu manteisio ar ddarpariaeth fodern. Byddai 4 ysgol a 6 safle.	Byddai 7 ysgol. Dim Buddsoddiad Cyfaliad, defnyddio safleoedd yr ysgolion presennol, nid yw rhai o'r safleoedd yn addas i bwrpas yn y 21ain ganrif ac nid ydynt yn darparu'r holl adnoddau perthnasol i staff a disgyblion e.e. ystafell athrawon, ardaloedd chwarae awyr agored, neuadd aml bwrpas addas ayyb.	Adreiliau a chyfeusterau sydd yn newydd, modern ac addas i bwrpas i blant yn yr ardal. Gwaith uwchraddio ac allfodelu, gyda'r holl elfennau perthnasol ar gael i staff a disgyblion; neuadd amibwrpas, ardal cyfnod sylfaen, man chwarae awyr agored, ystafell athrawon ayyb. Disgyblion dalgylch y Gader yn gallu manteisio ar ddarpariaeth fodern. Byddai 3 ysgol a 6 safle.

Within these tables bold text indicates advantages, <i>italic text indicates disadvantages</i> and regular text indicates facts or comments				
Considerations	1 Do Nothing	2 "Collaboration trust" between Ysgol Y Gader, Ysgol Gynradd Dolgellau, Multi-site school in Friog and Llaneltyd and a Multi-site school in Ieuan Gwynedd (Rhydymain) and Dinas Mawddwy	3 Collaboration Network between Ysgol Clogau, Ysgol Friog, Ysgol Ganolwyd, Ysgol Ieuan Gwynedd (Rhydymain), Ysgol Dinas Mawddwy, Ysgol Cynradd Dolgellau and Ysgol Y Gader	4 All-through School in Dolgellau town Multi-site school in Friog and Llaneltyd Multi-site school in Ieuan Gwynedd (Rhydymain) and Dinas Mawddwy
Education Standard	The present educational standard continues. <i>It will remain a challenge to ensure equal opportunity and access to a broad and balanced curriculum for the pupils of the catchment area.</i>	There would be opportunities to share expertise between the different site staff of the multi-site area schools. Opportunity for improved continuation for education between the primary and secondary age range within the all-through school. <i>No guarantee of co-operation between the different staff at the different schools. No way to guarantee that the opportunities given to the primary children of the all-through school are also given to the primary children of the area schools' - there will be no formal mechanism to ensure sharing of expertise and resources.</i>	The collaboration network intends to allow for timetabling the primary schools' curriculum across the catchment so that all pupils have completed the same work. <i>No guarantee of co-operation between the different staff at the different schools. No way to guarantee that the opportunities given to the primary children of the all-through school are also given to the primary children of the area schools' - there will be no formal mechanism to ensure sharing of expertise and resources.</i>	There would be a formal mechanism an opportunity to share expertise and resources between the different site staff at the multi-site area schools. Opportunity for improved continuation for education between the primary and secondary age range within the all-through school. <i>No guarantee of co-operation between the different staff at the different schools. No way to guarantee that the opportunities given to the primary children of the all-through school are also given to the primary children of the area schools' - there will be no formal mechanism to ensure sharing of expertise and resources.</i>
Catchment Co-operation	<i>No change to the present situation – the present schools have had ample opportunity to co-operate, examples of co-operation are very limited.</i>	<i>There would only be an informal agreement to co-operate, any of the schools would be able to withdraw from the collaboration trust at any point.</i>	<i>There would only be an informal network of collaboration between the schools. The present schools have had ample opportunity to co-operate and share expertise informally examples of co-operation are very limited. There would be no way of enforcing the co-operation.</i>	<i>There would be no way of guaranteeing co-operation between the three schools.</i>
Completion and Suitability of Buildings	10 schools would remain. <i>No capital investment, current school sites used, some of these are not fit for purpose in the 21st century and do not provide all the relevant resources to all staff and pupils e.g. staff rooms, outdoor playing areas, suitable multi-purpose hall etc.</i>	Buildings and facilities that are new, modern, and fit for purpose for children in the area. Upgrading and remodelling work, with all the relevant elements available for staff and pupils; multi-purpose hall, foundation phase area, outdoor play area, staff room etc. Gader catchment pupils able to take advantage of modern provision. There would be 4 schools and 6 sites.	There would be 7 schools. <i>No Capital investment, current school sites used, some of these are not fit for purpose in the 21st century and do not provide all the relevant resources to all staff and pupils e.g. staff rooms, outdoor playing areas, suitable multi-purpose hall etc.</i>	Buildings and facilities that are new, modern, and fit for purpose for children in the area. Upgrading and remodelling work, with all the relevant elements available for staff and pupils; multi-purpose hall, foundation phase area, outdoor play area, staff room etc. Gader catchment pupils able to take advantage of modern provision. There would be 3 schools and 6 sites.

Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd – Dogfen Ymghyngori Statudol Ysgolion Dalgylch Y Gader (2014)
Source: Gwynedd Council – Statutory Consultation Document Schools in the Gader Catchment Area (2014)

TRAFODAETH DISCUSSION

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



CAMAU NESAF NEXT STEPS

- **16 Hydref** - Dyddiad cau derbyn cwestiynau a/neu sylwadau pellach – dylid eu hanfon at moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru
- **16 October** - Deadline to receive further questions and / or comments - should be sent to modernisingeducation@gwynedd.llyw.cymru
- **23 Hydref** - Cyfarfod Panel Adolygu 2
- **23 October** - Review Panel Meeting 2

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



Cyfarfod Adolygu Ysgol Abersoch

Addysg

Cyfarfod:	Adolygu Ysgol Abersoch	Dyddiad: 07/10/2019 6:00yh
		Lleoliad: Neuadd y Pentref, Abersoch

Presennol:	Swyddogion: Garek Jackson (GJ); Gwern ap Rhisiart (GapRh); Cyng. Cemlyn Williams (CW); Gwenno Haf Evans (GHE); Rhian Hughes (RH); Ar ran Llywodraethwyr, Staff a Rhieni Ysgol Abersoch: Linda Jones; Llinos Haf Owen; Gwenlli Williams; Annwen Parry Hughes; Cyng. Dewi Roberts; Owen Hefin Roberts; Margot Jones; Anna E. Jones; Eifiona Wood; Einir Wyn; Lee Scott Embury; Nancisa Embury; M. Marinas; Louise Overfield;
Ymddiheuriadau:	Dawn Marie Jones; Wendy Jones.

Crynodeb weithredol				
Rhif Eitem	Eitem / Pwnc	Gweithrediad	Gan	Erbyn
3	Cyflwyniad ar y sefyllfa bresennol	Gyrru copi electronig o'r cyflwyniad at y Llywodraethwyr, Rhieni a Staff.	Adran Addysg	Hydref 11
3	Cyflwyniad ar y sefyllfa bresennol	Adran Addysg i wirio bod rhieni yn talu ffi ar gyfer y plant o dan 8 oed sydd yn mynd ar y bws i Ysgol Sarn Bach.	Adran Addysg	*Hydref 23
5	Camau Nesaf	Rhannu dadansoddiad o'r opsiynau ar ffurf 'SWOT Analysis' o flaen llaw er mwyn sicrhau trafodaeth gadarn yn y cyfarfod nesaf.	Adran Addysg	*Hydref 23
5	Camau Nesaf	Agor tudalen ar safle Moderneiddio Addysg ar wefan Cyngor Gwynedd gyda'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r broses gydag Ysgol Abersoch.	Adran Addysg	Hydref 11

Rhif Eitem	Eitem / Pwnc	Gweithrediad
1.	Croeso	- Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Garek Jackson, Pennaeth Addysg, Cyngor Gwynedd. - Cadarnhawyd fod Y Cabinet wedi cymeradwyo i adolygu'r sefyllfa a dyfodol yr ysgol ar 17 Medi 2019 yn sgil cwmpas yn niferoedd disgyblion yr ysgol. - Nodwyd ei bod hi'n bwysig nodi nad yw Cyngor Gwynedd wedi dod i benderfyniad am ddyfodol yr ysgol. Pwrpas y cyfarfod lleol yw trafod opsiynau posib. - Eglurwyd er nad yw Ysgol Abersoch wedi ei dynodi fel ysgol wledig gan Lywodraeth Cymru, bydd yr adran Addysg yn ymdrin ag Ysgol Abersoch yn yr un modd os byddai yn ysgol wledig. Nodwyd ei bod yn ofynnol i'r adran Addysg ddilyn a chyd-ymffurfio â'r broses sy'n cael ei osod gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

2.	Geiriau agoriadol yr Aelod Cabinet dros Addysg	• Ategwyd geiriau'r Pennaeth Addysg. • Eglurwyd mai bwriad y cyfarfod yw agor trafodaethau ynglŷn â'r heriau sydd yn wynebu'r ysgol yn sgil y nifer isel o ddisgyblion, gan ddechrau meddwl am opsiynau posib i'r dyfodol. • Pwysleisiwyd pwysigrwydd mewnbwn rhanddeiliad. • Mewn ymateb i'r cwestiwn pam bod y Cyngor wedi mynd yn gyhoeddus ynglŷn â'r sefyllfa mor fuan, eglurwyd fod pob adroddiad Cabinet yn gyhoeddus, felly nid oes posib osgoi'r sylw gan y wasg. Pwysleisiwyd nad oes gan y Cyngor reolaeth dros sut mae'r wasg yn dehongli'r hyn rydym yn ei gyhoeddi. • Gofynnwyd pwy fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â dyfodol yr ysgol. Nodwyd bod rhaid cymharu unrhyw opsiwn yn erbyn y status quo. Bydd yr argymhelliad yn cael ei wneud gan yr Aelod Cabinet ond y Cabinet sydd yn gwneud y penderfyniad i dderbyn yr argymhelliad ai peidio. • Pwysleisiodd y rhan-ddeiliad byddai tynnu'r ysgol o ganol y gymuned yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg.
3.	Cyflwyniad ar y sefyllfa bresennol	• Aethpwyd drwy'r cyflwyniad a oedd yn dangos sefyllfa bresennol yr ysgol. • Eglurwyd y bydd dau gyfarfod pellach yn cael eu cynnal er mwyn ystyried yr opsiynau posib. • Gweithred: Gyrru copi electronig o'r cyflwyniad at y Llywodraethwyr, Rhieni a Staff. • Nodwyd bod cwmp sylweddol wedi bod yn nifer y disgyblion ers 2016. • Cadarnhawyd mai ond 9 disgybl sydd ar y gofrestr (Cyfrifiad Medi 2019). • Nodwyd nad yw'n ymddangos y bydd cynnydd yn niferoedd genedigaethau yn yr ardal yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae diboblogi gwledig yn bryder i sawl ysgol wledig yng Ngwynedd. • Aethpwyd drwy gyllideb yr ysgol gan egluro bod rhwyd diogelu staff yn sicrhau gallu'r ysgol i barhau i addysgu'r plant. • Nodwyd fod cost y disgybl yn yr ysgol ymysg yr uchaf yn y sir. • Nodwyd, ar sail data Medi 2018, fod 24 plentyn oedd yn byw yn nalgylch Ysgol Abersoch wedi dewis mynychu ysgol all-dalgylch. Eglurwyd nad oes gan y Cyngor yr hawl i orfodi rhieni i yrru plant i'r ysgol dalgylch. • Mewn ymateb i'r sylwad ynglŷn â'r bws sy'n cludo plant y dalgylch i Ysgol Sarn Bach, eglurwyd bod Polisi Seddi Gweigion y Sir yn rhoi cyfle i rieni wneud cais am sedd wag ar fws ysgol, a bod gofyn i rieni dalu ffi am y cludiant. • Gweithred: Adran Addysg i wirio bod rhieni yn talu ffi ar gyfer y plant o dan 8 oed sydd yn mynd ar y bws i Ysgol Sarn Bach. • Eglurwyd bod gwybodaeth yn y llawlyfr blynyddol gwybodaeth i rieni yn nodi bod gan rieni hawl i wneud cais i'w plentyn fynychu unrhyw ysgol. • Eglurwyd yn fras effaith Polisi Tai Cyffredin a Pholisi Mynediad ar ardaloedd bach megis Abersoch. • Aethpwyd drwy'r ffactorau bydd angen i'r Cyngor ystyried wrth edrych ar opsiynau posib ar gyfer dyfodol yr ysgol. • Nodwyd fod yr Adran Addysg yn dymuno gweld mwy o opsiynau posib yn cael eu cynnig gan ran-ddeiliad yr ysgol. • Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r opsiynau sydd wedi eu cynnig mewn ardaloedd eraill, nodwyd bod 8 opsiwn wedi cael ei ystyried yn sefyllfa Ysgol Llanaelhaearn ond bellach mae'r rhestr fer lawr i 3.
4.	Trafodaeth	• Cytunwyd os bydd rhywbeth arwyddocaol yn digwydd yn ystod y broses megis teulu newydd yn symud i'r ardal bydd hyn yn cael ei adlewyrchu ac yn derbyn ystyriaeth wrth adrodd i'r Cabinet ym mis Rhagfyr. • Amgylchiadau Polisi Tai yn bryder yn Abersoch gan nad yw pobl ifanc yn gallu symud

		i'r ardal. Nodwyd bod tai bach fforddiadwy yn yr ardal yn costio tua £200,000. Nid yw hyn yn fforddiadwy fel tŷ cyntaf i ddenu teulu ifanc. - Nid oes gan yr Adran Addysg reolaeth i ddylanwadu ar y Polisi Tai ond awgrymwyd os oes gan y gymuned bryderon ynglŷn â'r polisi dyrannu tai, y gallent gysylltu gydag Adran Tai y Cyngor. - Nodwyd bod yr Aelod Lleol eisoes wedi codi'r pryder yma. - Dywedwyd bod Ysgol Abersoch wedi derbyn Gwobr Aur gyda'r Siarter Iaith Ychwanegwyd bod Adran bentref Yr Urdd hefyd yn cael ei gynnal yn Ysgol Abersoch. - Cyngor Plwy wedi datgan eu cefnogaeth i gefnogi dyfodol Ysgol Abersoch ac yn teimlo dylai'r Cyngor ymrwymo i roi cefnogaeth ariannol i'r ysgol gan ei bod yn hanfodol er lles y gymuned a'r iaith Gymraeg. - Gofynnwyd pa opsiynau mae Cyngor Gwynedd wedi gweld sydd yn gweithio mewn sefyllfaoedd tebyg. Nodwyd mai ffederaleiddio yw'r prif un sydd yn sefyll allan ar hyn o bryd ond rhaid cofio bod gan eraill ddylanwad dros yr opsiwn ffederaleiddio boed yn gefnogaeth neu yn wrthwynebiad. - Pwysleisiwyd bydd Asesiad Cymunedol ac Ieithyddol yn cael ei wneud fel rhan o'r broses. - Nodwyd fod cysylltiad pwysig rhwng yr ysgol a neuadd y pentref. Mae'r neuadd yn gyfleuster sydd yn rhad ac am ddim i'r ysgol ac felly yn adnodd i'r Adran Addysg. - Cynigwyd 4 opsiwn newydd i ystyried: 1) Newid ystod oedran yr ysgol i fod yn 3-11. 2) Sefydlu Cylch yn Ysgol Abersoch. Trafodaethau wedi bod i ailsefydlu Ysgol Feithrin yn Llanengan. Cylch yn yr ardaloedd cyfagos megis Llanbedrog yn hynod o boblogaidd. Nodwyd y broblem fwyaf gyda'r opsiwn yma fyddai denu plant i wneud y sefydliad yn gynaliadwy. 3) Sefydlu Canolfan Iaith i blant Pen Llŷn. Nodwyd byddai rhaid mesur bod y galw yno yn enwedig gan fod rhai tebyg yng Ngwynedd yn barod. 4) Ffederaleiddio gan leoli Cyfnod Sylfaen yn unig ar safle Ysgol Abersoch.
5.	Camau Nesaf	- Nodwyd byddem yn ystyried yr holl opsiynau sydd wedi cael eu trafod heno ymhellach a bydd modd gyrru sylwadau at Swyddfa Moderneiddio Addysg erbyn 16 Hydref. Gweithred: Cyngor Gwynedd i rannu 'SWOT Analysis' o'r opsiynau o flaen llaw er mwyn sicrhau trafodaeth gadarn yn y cyfarfod nesaf. Gweithred: Agor tudalen ar safle Moderneiddio Addysg ar wefan Cyngor Gwynedd gyda'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r broses gydag Ysgol Abersoch.
6.	Cloi	Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod a bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn yr Ysgol ar 23 o Fedi*.

***Ers y cyfarfod, gwnaethpwyd y penderfyniad i ganiatáu mwy o amser i gyflwyno ymatebion a sylwadau pellach, sef erbyn 23 Hydref 2019, ac fe fydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal nos Fercher, Tachwedd 13 2019 am 6yh yn Ysgol Abersoch.**

Adolygu Ysgol Abersoch

18:00, Dydd Mercher, 13 Tachwedd 2019

Ysgol Abersoch

1. **CROESO (Garem Jackson, Pennaeth Addysg)**
2. **GEIRIAU AGORIADOL YR AELOD CABINET DROS ADDYSG (Cyng. Cemlyn Williams)**
3. **CYFLWYNIAD AR Y RHESTR O OPSIYNAU (DDADANSODDIAD SWOT)**
(Gwern ap Rhisiart, Swyddog Addysg Ardal Dwyfor a Meirionnydd)
4. **TRAFODAETH - Cyfle i ychwanegu at neu gynnig sylwadau ar gynnwys y dadansoddiad SWOT**
5. **CAMAU NESAF**
6. **DIOLCH A CHLOI**

PANEL ADOLYGU YSGOL ABERSOCH

13 Tachwedd 2019

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



AGENDA

1. **CROESO** (Garem Jackson, Pennaeth Addysg)
2. **GEIRIAU AGORIADOL YR AELOD CABINET DROS ADDYSG** (Cyng. Cemlyn Williams)
3. **CYFLWYNIAD AR Y RHESTR O OPSIYNNAU (DADANSODDIAD SWOT) –** (Gwern ap Rhisiart, Swyddog Addysg Ardal Dwyfor a Meirionnydd)
4. **TRAFODAETH – Cyfle i ychwanegu at neu gynnig sylwadau ar gynnwys dadansoddiad SWOT**
5. **CAMAU NESAF**
6. **DIOLCH A CHLOI**

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



YMATEB I GWESTIYNAU CYFARFOD 7 HYDREF 2019

1. Sefyllfa Cludiant all-dalgylch	- Mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant di-dâl i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (dim yn cynnwys disgyblion dosbarth meithrin). - Fel rhan o'r Cynllun Seddi Gwag, mae'r Cyngor yn fodlon ystyried ceisiadau gan ddysgwyr sy'n mynychu ysgol (neu safle ysgol) heblaw ysgol (neu safle ysgol) y dalgylch ar gyfer manteisio ar unrhyw seddi gwag ar gerbydau cytundeb trwy dalu ffi gyfredol tu allan i'r dalgylch. - Mae manteisio ar y cynllun yn amodol ar: - Bod seddi gwag ar gael - Nid oes angen i'r cerbyd wyro oddi ar ei daith arferol - Dim costau ychwanegol i'r Cyngor - Dalu'r ffi gyfresol am seddi gwag - Codir ffi o £63.00 y flwyddyn ar gyfer disgyblion llawn amser dan 8 oed, a ffi o £31.50 y flwyddyn ar gyfer disgyblion meithrin.
2. Ble mae llais y plentyn yn y broses yma?	Mae llais y plentyn yn ffactor bwysig i'r Cyngor. Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu cynnal proses ymgynghori statudol ar unrhyw gynnydd, yn unol a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, byddai'r Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau ein bod yn derbyn barn y plant a phobl ifanc ar y cynnydd hwnnw.
3. Beth sy'n cael ei wneud i annog pobl i ddanfôn eu plant i'r ysgol agosaf, neu ysgol eu dalgylch?	<i>"Rhaid i Awdurdodau Lleol beidio ag awgrymu y dylai rhieni ddweud mai ysgol eu dalgylch lle y maent yn byw sydd orau ganddynt, na bod lle wedi'i neilltuo iddynt yn yr ysgol honno, cyn iddynt fynegi eu dewis. Er y dylid esbonio canlyniadau posibl peidio â gwneud hynny, rhaid i ALI ei gwneud yn glir bod gan rieni'r hawl i enwi unrhyw ysgol fel yr un sydd orau ganddynt."</i>

-Para 2.54, Cod derbyn i ysgolion (005/2013)

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



YMATEB I GWESTIYNAU CYFARFOD 7 HYDREF 2019

4. Sut mae dyfodol Ysgol Abersoch yn ffitio i'r darlun strategol ehangach wrth ystyried addysg yn ne Llyn?	Fel nodwyd yn yr adroddiad Cabinet ar 17 Medi 2019, daeth y penderfyniad i gychwyn trafodaeth leol ynglŷn a dyfodol yr ysgol o ganlyniad i'r cwymp diweddar yn y niferoedd, yng nghyd a pryderon ynglŷn a'r rhagamcanion oedd yn rhagweld gostyngiad pellach yn y niferoedd. Nid yw'r sefyllfa hon yn ran o strategaeth ehangach ar gyfer addysg yn ne Llyn, ond yn hytrach, yn ymateb i sefyllfa ysgol unigol.
5. Allwch chi amlinellu sut mae'r broses yma yn cyd-fynd a'r 7 nod llesiant a'r 5 egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn Deddf Llesiant cenedlaethau'r dyfodol 2015?	Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg disgyblion y sir drwy ei weithgareddau a'i brosiectau. Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn gosod dyletswydd ar gyffwrdd cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella llesiant yn "Cynllun Gwynedd 2018-2023".
6. Sut a phryd mae'r asesiad o 'effaith y cynnydd ar y Gymraeg' yn cael ei wneud?	Fel rhan o'r broses o werthuso'r opsiynau, byddwn yn cynnal asesiad yn unol a gofynion y Ddeddf Llesiant. Yn unol a gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (011/2018), byddwn yn cynnal asesiadau effaith, gan gynnwys asesiad o'r effaith ar yr iaith yn dilyn cadarnhau opsiynau'r rhestr fer. Bydd yr adroddiadau perthnasol yn cael eu cynnwys fel atodiad i'r adroddiad i'r Cabinet yn y flwyddyn newydd.
7. Beth yw'r fformiwla a ddefnyddiwyd ar draws y Sir er mwyn rhagamcanu niferoedd ysgolion cynradd?	Mae rhagamcanion yr ysgolion cynradd yn cael eu cyfrifo a'u hadrodd i'r awdurdod gan y penaethiaid cynradd fel rhan o broses cyfrifiad blynyddol Medi.

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



RHESTR O OPSIYNAU

Yn seiliedig ar y drafodaeth a'r mewnbwn a dderbyniwyd yn ystod ac yn dilyn y cyfarfod a gafwyd ar 7 Hydref 2019, lluniwyd rhestr o opsiynau:

1.	Status Quo – Parhau hefo'r sefyllfa bresennol
2.	Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed
3.	Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos
4.	Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen ar safle Ysgol Abersoch, a CA2 ar safle'r ysgol gyfagos
5.	Ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen + Blwyddyn 3 a 4 + Blwyddyn 5 a 6 ar safle 3 ysgol wahanol
6.	Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol amgen
7.	Lleoli canolfan iaith ar safle Ysgol Abersoch
8.	Sefydlu cylch meithrin yn Ysgol Abersoch

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



DADANSODDIAD O'R OPSIYNAU

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



Opsiwn 1 - Status Quo – Parhau hefo'r sefyllfa bresennol

*Ffont coch – sylwadau aelodau a dderbyniwyd yn ystod y cyfarfod 13/11/19.

CRYFDERAU	GWENDIDAU	CYFLEOEDD	BYGYTHIADAU
- Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol - golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol - Dim newid i bellteroedd teithio disgyblion yr ysgol. - Dosbarthiadau bychain - Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/o fewn y gymuned - Ysgol o fewn pellter cerdded o'r cartref – manteision cymdeithasol.	- Niferoedd isel o ddisgyblion yn parhau - Ysgol Abersoch yn parhau yn y rhwyd diogelu staffio - Canran sylweddol o lefydd gweigion yn parhau - Ni fyddai dyraniad cyllidol yr ysgol yn cynnal y strwythur staffio presennol - Diffyg amser digyswllt i'r pennaeth - dim ond 1.5 diwrnod digyswllt yr wythnos - Dosbarthiadau bychain - Cost y disgybl uchel		- Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd gostyngiad pellach yn y niferoedd - Ansicrwydd yn parhau ynglŷn â chynnaladwyedd hir dymor yr ysgol - Canran uchel o ddisgyblion eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch.

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

Opsiwn 2a - Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed

*Ffont coch – sylwadau aelodau a dderbyniwyd yn ystod y cyfarfod 13/11/19.

CRYFDERAU	GWENDIDAU	CYFLEOEDD	BYGYTHIADAU
- Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol - golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol - Ystod oed yr ysgol yn gyson gyda'r mwyafrif o ysgolion cynradd y sir - Dim torri ar draws darpariaeth CA2 yr ysgol – gall arwain at well parhad o'r cwricwlwm gan fod yr ysgol yn cynnig addysgu 2 gyfnod cyflawn (CS + CA2) - Dim newid i bellteroedd teithio disgyblion presennol yr ysgol. - Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/o fewn y gymuned - Disgyblion yn cael dewis parhau i dderbyn eu haddysg gynradd yn Ysgol Abersoch. - Dosbarthiadau bychain.	- Ni fyddai'r adeilad/ safle presennol, heb addasiadau yn addas ar gyfer cynnydd mawr yn niferoedd y disgyblion - Ehangu ystod oed o fewn y dosbarthiadau - Mae'n debygol na fyddai dyraniad yr ysgol yn cynnal y strwythur staffio presennol - Diffyg amser digyswllt i'r pennaeth - Ysgol Abersoch yn parhau yn y rhwyd diogelu staffio - Cost y disgybl yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd sirol.	- Gall arwain at gynnydd yn niferoedd disgyblion yr ysgol - Pe byddai niferoedd yr ysgol yn cynyddu, byddai'n arwain at leihad yn nifer y llefydd gweigion.	- Pe byddai'r disgyblion yn penderfynu parhau yn Ysgol Abersoch hyd blwyddyn 6, mae'n bosib y byddai'n cael effaith negyddol ar niferoedd disgyblion Ysgol Sarn Bach, sef yr ysgol sydd ar hyn o bryd yn darparu addysg ar gyfer disgyblion 8-11 oed y dalgylch - Canran uchel o ddisgyblion eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch – ni fyddai modd gwarantu y byddai disgyblion yn dewis mynychu Ysgol Abersoch yn dilyn ymestyn yr ystod oed - Os na fyddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'r ansicrwydd ynglŷn â chynnaladwyedd hir dymor yr ysgol yn parhau.

Opsiwn 2b - Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-9 oed

*Ffont coch – sylwadau aelodau a dderbyniwyd yn ystod y cyfarfod 13/11/19.

CRYFDERAU	GWENDIDAU	CYFLEOEDD	BYGYTHIADAU
- Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol - golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol - Dim newid i bellteroedd teithio disgyblion presennol yr ysgol. - Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/o fewn y gymuned - Disgyblion yn cael dewis parhau i gael eu haddysgu am flwyddyn ychwanegol yn Ysgol Abersoch. - Dosbarthiadau bychain	- Ni fyddai'r adeilad/ safle presennol, heb addasiadau yn addas ar gyfer cynnydd mawr yn niferoedd y disgyblion - Ehangu ystod oed o fewn y dosbarthiadau - Mae'n debygol na fyddai dyraniad yr ysgol yn cynnal y strwythur staffio presennol - Diffyg amser digyswilt i'r pennaeth - Ysgol Abersoch yn parhau yn y rhwyd diogelu staffio - Cost y disgybl yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd sirol.	- Gall arwain at gynnydd yn niferoedd disgyblion yr ysgol - Pe byddai niferoedd yr ysgol yn cynyddu, byddai'n arwain at leihad yn nifer y llefydd gweigion.	- Pe byddai'r disgyblion yn penderfynu parhau yn Ysgol Abersoch hyd blwyddyn 4, mae'n bosib y byddai'n cael effaith negyddol ar niferoedd disgyblion Ysgol Sarn Bach, sef yr ysgol sydd ar hyn o bryd yn darparu addysg ar gyfer disgyblion 8-11 oed y dalgylch - Canran uchel o ddisgyblion eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch – ni fyddai modd gwarantu y byddai disgyblion yn dewis mynychu Ysgol Abersoch yn dilyn ymestyn yr ystod oed - Os na fyddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'r ansicrwydd ynglŷn â chynnalwydded hir dymor yr ysgol yn parhau.

Opsiwn 3 - Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos

*Ffont coch – sylwadau aelodau a dderbyniwyd yn ystod y cyfarfod 13/11/19.

CRYFDERAU	GWENDIDAU	CYFLEOEDD	BYGYTHIADAU
- Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol yn golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol - Dim newid i bellteroedd teithio'r disgyblion presennol - Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/o fewn y gymuned - Dosbarthiadau bychain - Ysgol yn fwy cynaliadwy	- Niferoedd isel o ddisgyblion yn parhau - Ysgol Abersoch yn parhau yn y rhwyd diogelu staffio - Canran sylweddol o lefydd gweigion yn parhau - Mae'n debygol na fyddai'r dyraniad cyllidol yn galluogi'r ysgol barhau gyda'r strwythur staffio presennol - Dosbarthiadau bychain - Cost y disgybl uchel. - Un corff llywodraethu	- Rhannu pennaeth - Rhannu staff - Rhannu adnoddau a chyfle i ddefnyddio cyllidebau ar draws y ddwy ysgol. - Mewn rhai sefyllfaoedd, gall ffederaleiddio gydag ysgol arall olygu fod y pennaeth dderbyn mwy o amser digyswilt.	- Canran uchel o ddisgyblion eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch, yn unol â dewis y rhieni - dim gwarant y byddai'r opsiwn yn denu mwy o ddisgyblion i Ysgol Abersoch - Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd gostyngiad pellach yn y niferoedd - Ffederasiwn yn fodel sy'n ddibynnol ar barodrwydd ysgolion eraill i ymuno â'r trefniant i gyd-weithio.

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

Opsiwn 4 - Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen ar safle Ysgol Abersoch, a CA2 ar safle'r ysgol gyfagos

*Ffont coch – sylwadau aelodau a dderbyniwyd yn ystod y cyfarfod 13/11/19.

CRYFDERAU	GWENDIDAU	CYFLEOEDD	BYGYTHIADAU
- Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol - golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol - Dim newid i bellteroedd teithio disgyblion CS Ysgol Abersoch - Dosbarthiadau o faint mwy hyfyw/addas - Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/o fewn y gymuned	- Rhai disgyblion yn gorfod teithio ymhellach – angen ystyried yr effaith amgylcheddol fyddai'n deillio o hyn. - Niferoedd yn parhau yn isel yn y ddwy safle - Amrediad ystod oed o fewn dosbarthiadau yn parhau i fod yn uchel - Cost y disgybl yn parhau yn uchel. - Angen ystyried costau ynghlwm ag ail brandio'r ysgolion. Un corff llywodraethu Dosbarthiadau mwy o ran niferoedd disgyblion	- Rhannu pennaeth - Rhannu staff - Rhannu adnoddau a chyfle i ddefnyddio cyllidebau ar draws y ddwy ysgol. - Mewn rhai sefyllfaoedd, gall ffederaleiddio gydag ysgol arall olygu fod y pennaeth dderbyn mwy o amser digyswllt.	- Ffederasiwn yn fodel sy'n ddibynnol ar barodrwydd ysgolion eraill i ymuno â'r trefniant i gyd-weithio - Byddai'n rhaid newid ystod oed yr ysgol gyfagos fel eu bod yn derbyn disgyblion CA2 yn unig. Angen cyngor gan L.L.C i weld os byddai gweithredu ar y model hwn yn bosib - Trwy gyfyngu'r ysgol gyfagos i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion CA2 yn unig, mae'n bosib y byddai'n arwain at ostyngiad yn nifer y disgyblion yn yr ysgol honno. Gallasai'r newid arwain at rieni'n dewis peidio ag anfon eu plant i'r ysgol – bygythiad i'r niferoedd.

Opsiwn 5 - Ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen + Blwyddyn 3 a 4 + Blwyddyn 5 a 6 ar safle 3 ysgol wahanol

*Ffont coch – sylwadau aelodau a dderbyniwyd yn ystod y cyfarfod 13/11/19.

CRYFDERAU	GWENDIDAU	CYFLEOEDD	BYGYTHIADAU
- Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol - golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol - Dim newid i bellteroedd teithio disgyblion CS Ysgol Abersoch - Dosbarthiadau o faint mwy hyfyw/addas - Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/o fewn y gymuned	- Rhai disgyblion yn gorfod teithio ymhellach – angen ystyried yr effaith amgylcheddol fyddai'n deillio o hyn. - Angen ystyried costau ynghlwm ag ail brandio'r ysgolion - Disgyblion yn trosglwyddo 3 gwaith yn ystod eu haddysg gynradd - Cost y disgybl y 3 ysgol yn debygol o fod yn uwch na'r cyfartaledd sirol o £3,884. Dosbarthiadau mwy o ran niferoedd disgyblion Un corff llywodraethol	- Rhannu pennaeth - Rhannu staff - Rhannu adnoddau a chyfle i ddefnyddio cyllidebau ar draws y 3 ysgol. - Mewn rhai sefyllfaoedd, gall ffederaleiddio gydag ysgol arall olygu fod y pennaeth dderbyn mwy o amser digyswllt.	- Ffederasiwn yn fodel sy'n ddibynnol ar barodrwydd ysgolion eraill i ymuno â'r trefniant i gyd-weithio - Byddai'n rhaid newid ystod oed yr ysgol gyfagos fel eu bod yn derbyn disgyblion Blwyddyn 3+4 neu Flwyddyn 5+6 yn unig - Trwy gyfyngu'r ysgolion cyfagos i ddarparu addysg ar gyfer disgyblion CA2 yn unig, mae'n bosib y byddai'n arwain at ostyngiad yn nifer y disgyblion yn yr ysgolion hynny - Nid yw'n bosib ffederaleiddio ysgolion sydd â statws cyfreithiol gwahanol. Gallasai'r newid arwain at rieni'n dewis peidio ag anfon eu plant i'r ysgol – bygythiad i'r niferoedd.

Opswn 6 - Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol amgen

*Ffont coch – sylwadau aelodau a dderbyniwyd yn ystod y cyfarfod 13/11/19.

CRYFDERAU	GWENDIDAU	CYFLEOEDD	BYGYTHIADAU
- Disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy hyfyw/addas - Ni fyddai'n rhaid i'r un disgybl deithio pellter afresymol i'r ysgol - Lleihad yng nghanran y llefydd gweigion - Lleihad yng nghost y disgybl.	- Colli presenoldeb ysgol ym mhentref Abersoch - Byddai'n rhaid i rai disgyblion deithio ymhellach i'r ysgol - Diswyddiadau staff. - Colli addysg cyfrwng Cymraeg ym mhentref Abersoch	- Cyfle i'r gymuned gyd-weithio a meithrin perthynas gyda'r ysgol gyfagos/amgen - Dosbarthiadau o faint mwy - cyfle i blant gael eu haddysgu gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran - Niferoedd disgyblion yr ysgol fyddai'n darparu addysg ar gyfer disgyblion y dalgylch yn fwy hyfyw i'r dyfodol.	- Colli Addysg cyfrwng Cymraeg ym mhentref Abersoch – byddai'r awdurdod yn cynnal asesiad er mwyn mesur unrhyw effaith all ddeillio o'r cynnig - Angen ystyried unrhyw effaith ar gangen lleol yr Urdd. - Angen ystyried unrhyw effaith ar gynlluniau i sefydlu cylch meithrin a ti a fi yn yr ysgol.

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

Opswn 7 - Lleoli canolfan iaith ar safle Ysgol Abersoch

*Ffont coch – sylwadau aelodau a dderbyniwyd yn ystod y cyfarfod 13/11/19.

CRYFDERAU	GWENDIDAU	CYFLEOEDD	BYGYTHIADAU
- Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol - golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol - Dim newid i bellteroedd teithio'r disgyblion presennol - Lleihau llefydd gweigion. - Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/o fewn y gymuned	- Sefyllfa gyda nifer isel o ddisgyblion yn parhau gan nad yw lleoli canolfan iaith yn arferol yn denu disgyblion i'r ysgol - Ni fyddai'n creu incwm i'r ysgol - Ysgol Abersoch yn parhau yn y rhwyd diogelu staffio - Ni fyddai dyraniad cyllidol yr ysgol yn cynnal y strwythur staffio presennol - Diffyg amser digyswllt i'r pennaeth - dim ond 1.5 diwrnod digyswllt - Dosbarthiadau bychain - Cost y disgybl uchel - Pryderon ynglŷn â'r diffyg galw am ddarpariaeth canolfan iaith ychwanegol yn yr ardal.		- Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd gostyngiad pellach yn y niferoedd - Aberthu gofod dysgu er mwyn lleoli'r ganolfan - Byddai angen mesur y galw am ddarpariaeth canolfan iaith ychwanegol yn yr ardal.

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

Opsiwn 8a - Sefydlu cylch meithrin yn Ysgol Abersoch

*Ffont coch – sylwadau aelodau a dderbyniwyd yn ystod y cyfarfod 13/11/19.

CRYFDERAU	GWENDIDAU	CYFLEOEDD	BYGYTHIADAU
- Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol - golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol - Dim newid i bellteroedd teithio'r disgyblion - Lleihau llefydd gweigion. - Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/o fewn y gymuned - Dosbarthiadau bychain	- Niferoedd isel o ddisgyblion yn parhau yn Ysgol Abersoch - Ysgol Abersoch yn parhau yn y rhwyd diogelu staffio - Ni fyddai dyraniad cyllidol yr ysgol yn cynnal y strwythur staffio presennol - Diffyg amser digyswllt i'r pennaeth - dim ond 1.5 diwrnod digyswllt - Dosbarthiadau bychain - Cost y disgybl uchel.	Gallai cynnal cylch meithrin yn yr ysgol ddenu mwy o ddisgyblion i'r ysgol.	- Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd gostyngiad pellach yn y niferoedd - Byddai'n rhaid gwirio'n swyddogol os yw'r adeilad yn cyd-fynd a gofynion cofrestru gyda AGC. - Aberthu gofod dysgu er mwyn lleoli'r cylch meithrin - Byddai angen mesur y galw am ddarpariaeth cylch meithrin ychwanegol yn yr ardal. - Angen cyflogi isafswm o 2 aelod o staff ar gyfer cynnal Cylch – byddai'n rhaid sicrhau fod incwm y Cylch yn cyfarch y costau cyflogaeth yma.

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

Opsiwn 8b - Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-9 oed + Sefydlu cylch meithrin yn Ysgol Abersoch

*Ffont coch – sylwadau aelodau a dderbyniwyd yn ystod y cyfarfod 13/11/19.

CRYFDERAU	GWENDIDAU	CYFLEOEDD	BYGYTHIADAU
- Parhad ym mhresenoldeb yr ysgol - golygu na fyddai unrhyw effaith ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned leol - Dim newid i bellteroedd teithio disgyblion presennol yr ysgol. - Lleihau llefydd gweigion - Addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau ym mhentref Abersoch – parhau i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol/o fewn y gymuned - Disgyblion yn cael dewis parhau i gael eu haddysgu am flwyddyn ychwanegol yn Ysgol Abersoch. - Dosbarthiadau bychain.	- Ni fyddai'r adeilad/ safle presennol, heb addasiadau yn addas ar gyfer cynnydd mawr yn niferoedd y disgyblion - Ehangu ystod oed o fewn y dosbarthiadau - Mae'n debygol na fyddai dyraniad yr ysgol yn cynnal y strwythur staffio presennol - Diffyg amser digyswllt i'r pennaeth - Ysgol Abersoch yn parhau yn y rhwyd diogelu staffio - Cost y disgybl yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd sirol.	- Gallai cynnal cylch meithrin yn yr ysgol ddenu mwy o ddisgyblion i'r ysgol. - Pe byddai niferoedd yr ysgol yn cynyddu, byddai'n arwain at leihad yn nifer y llefydd gweigion.	- Pe byddai'r disgyblion yn penderfynu parhau yn Ysgol Abersoch hyd blwyddyn 4, mae'n bosib y byddai'n cael effaith negyddol ar niferoedd disgyblion Ysgol Sarn Bach, sef yr ysgol sydd ar hyn o bryd yn darparu addysg ar gyfer disgyblion 8-11 oed y dalgylch - Canran uchel o ddisgyblion eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch – ni fyddai modd gwarantu y byddai disgyblion yn dewis mynychu Ysgol Abersoch yn dilyn ymestyn yr ystod oed - Os na fyddai'r niferoedd yn cynyddu, byddai'r ansicrwydd ynglŷn â chynnaladwyedd hir dymor yr ysgol yn parhau. - Rhagamcanion yr ysgol yn awgrymu y bydd gostyngiad pellach yn y niferoedd - Byddai'n rhaid gwirio'n swyddogol os yw'r adeilad yn cyd-fynd a gofynion cofrestru gyda AGC. - Aberthu gofod dysgu er mwyn lleoli'r cylch meithrin - Byddai angen mesur y galw am ddarpariaeth cylch meithrin ychwanegol yn yr ardal. - Angen cyflogi isafswm o 2 aelod o staff ar gyfer cynnal Cylch – byddai'n rhaid sicrhau fod incwm y Cylch yn cyfarch y costau cyflogaeth yma.

RHESTR O OPSIYNAU

*Ffont coch – sylwadau aelodau a dderbyniwyd yn ystod y cyfarfod 13/11/19.

1.	Status Quo – Parhau hefo'r sefyllfa bresennol
2. (a)	Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed
2. (b)	Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-9 oed
3.	Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos
4.	Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen ar safle Ysgol Abersoch, a CA2 ar safle'r ysgol gyfagos
5.	Ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen + Blwyddyn 3 a 4 + Blwyddyn 5 a 6 ar safle 3 ysgol wahanol
6.	Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol amgen
7.	Lleoli canolfan iaith ar safle Ysgol Abersoch
8. (a)	Sefydlu cylch meithrin yn Ysgol Abersoch
8. (b)	Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-9 oed + Sefydlu cylch meithrin yn Ysgol Abersoch

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



TRAFODAETH

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



CAMAU NESAF

- Yn dilyn diweddaru'r dadansoddiad SWOT **o'r rhestr o opsiynau**, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau a dderbyniwyd, byddwn yn mynd ati i **werthuso'r opsiynau** yn erbyn yr ystyriaethau/ffactorau a nodir yn y Strategaeth, **"Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd"**, sef:

1) Maint dosbarthiadau ac amrediad oedran

2) Niferoedd disgyblion

3) Amgylchedd Dysgu

4) Arweinyddiaeth a Staffio

5) Y Gymuned

6) Adnoddau Ariannol

7) Sefyllfa eithriadol

8) Iaith

9) Ffactorau Daearyddol.

- Unwaith eto, bydd cyfle i chi gynnig sylwadau ar gynnwys y ddogfen Gwerthusiad Opsiynau yn ystod ac yn dilyn y trydydd cyfarfod lleol.

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

*Wedi ei diystyru

Amserlen Amlinellol

Camau	Amserlen Amlinellol	
	Opsiwn A	Opsiwn B
Dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau ar y dadansoddiad SWOT	20 Tachwedd 2019	2 Rhagfyr 2019
Cyfarfod (3/3): • Trafod canlyniad y gwerthusiad opsiynau	4 Rhagfyr 2019	w/c 2 Ionawr 2020
Cynnal Asesiadau Effaith ar yr opsiynau	Rhagfyr 2019 - Ionawr 2020	Ionawr 2020
Cabinet - Aelod Cabinet i gyflwyno argymhelliad i'r Cabinet	Chwefror 2020	Chwefror 2020

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



Cyfarfod Adolygu Ysgol Abersoch

Addysg

Cyfarfod:	Adolygu Ysgol Abersoch	Dyddiad: 13/11/2019 6:00yh
		Lleoliad: Ysgol Abersoch

Presennol:	Swyddogion: Garek Jackson (GJ); Gwern ap Rhisiart (GapRh); Cyng. Cemlyn Williams (CW); Gwenno Haf Evans (GHE); Rhian Hughes (RH); Ar ran Llywodraethwyr, Staff a Rhieni Ysgol Abersoch: Linda Jones; Llinos Haf Owen; Cyng. Dewi Roberts; Owen Hefin Roberts; Margot Jones; Anna E. Jones; Eifiona Wood; Einir Wyn; Lee Scott Embury; M. Marinas; Louise Overfield; Dawn Marie Jones; Wendy Jones; Annwen Parry Hughes; Sue Frizby; Laura Thornicroft; Dylan Evans; Tamsyn Armishaw.
-------------------	--

Crynodeb weithredol				
Rhif Eitem	Eitem / Pwnc	Gweithrediad	Gan	Erbyn
3.	Cyflwyniad	Ychwanegu is-benawdau ar gyfer y cryfderau sydd yn cyfleu'r ochr leithyddol a chymunedol.	Adran Addysg	Tachwedd
3.	Cyflwyniad	Rhannu opsiwn 2 i ddau opsiwn sef 2a ac 2b i gyfle opsiwn o newid oedran ysgol Abersoch i 3-9 oed.	Adran Addysg	Tachwedd
3.	Cyflwyniad	Cysylltu gyda Phennaeth Ysgol Abersoch i gael y manylion llawn ynglŷn â'r trafodaethau sydd wedi cael eu cynnal i sefydlu'r Cylch.	Adran Addysg	Tachwedd
3.	Cyflwyniad	Cynnwys opsiwn i newid ystod oed yr Ysgol i fod yn oedran Cylch hyd at Flwyddyn 4 (uno'r opsiwn os yn bosib).	Adran Addysg	Tachwedd
4.	Camau Nesaf	Cais gan y Llywodraethwyr i weld yr amserlen posib os mai'r argymhelliad fyddai i gau. Angen gweld sgil effaith yr amserlen wrth ystyried sefydlu Cylch Meithrin ar y safle.	Adran Addysg	Ionawr

Rhif Eitem	Eitem / Pwnc	Gweithrediad
1.	Croeso	- Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Pennaeth Addysg a diolchwyd i Bennaeth Ysgol Abersoch am gael cynnal y cyfarfod yn yr ysgol. - Nodwyd mai pwrpas yr ail gyfarfod yw mynd drwy'r dadansoddiad SWOT gan esbonio'r camau nesaf.
2.	Geiriau agoriadol yr Aelod Cabinet dros Addysg	- Ategwyd geiriau'r Pennaeth Addysg gan egluro mai bwriad y cyfarfod yw manylu ar yr opsiynau. - Nododd yr Aelod Cabinet ei bod hi'n hanfodol ein bod yn derbyn mewnbwn rhan-ddeiliaid Ysgol Abersoch. - Nodwyd bod yr Adran Addysg wedi ychwanegu opsiynau pellach i'r rhai a nodwyd yn y cyfarfod blaenorol.
3.	Cyflwyniad	- Pwysleisiwyd pwysigrwydd cyfraniad rhan ddeiliad Ysgol Abersoch wrth drafod yr opsiynau. - Cafwyd amlinelliad o gynnwys y cyflwyniad, sef: - Ymateb i sylwadau/cwestiynau a godwyd yn y cyfarfod diwethaf - Dadansoddiad o'r opsiynau – nodwyd y bwriad i wahodd sylwadau'r rhan ddeiliaid ar gynnwys y dadansoddiad.

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

Tud. 111

	<u>Rhan 1 - Ymateb i'r cwestiynau a godwyd o'r cyfarfod blaenorol</u> Cwestiwn 1 - Cludiant - Nodwyd bod proses ar y gweill ar draws yr Awdurdod ar hyn o bryd sydd yn gofyn i'r ysgolion sicrhau bod y plant sydd yn mynd ar y bus yn cyd-fynd â'r rhestr sydd gan Adran Cludiant. Nodwyd byddai hyn yn helpu i sicrhau mai ond y plant sy'n gymwys am gludiant sydd ar y bus. Cwestiwn 3 – Dalgylch - Esboniwyd nad oes gan yr Awdurdod hawl i orfodi rhieni i anfon eu plant i'r ysgol dalgylch. Mewn ymateb i'r cwestiwn ynglŷn â phwrpas dalgylchoedd os nad yw'n sicrhau fod plant yn mynychu'r ysgol dalgylch, nodwyd mai trefn hanesyddol yn bennaf sydd wrth wraidd y drefn, ond hefyd, dyma'r drefn bresennol a ddefnyddir ar gyfer Cludiant. Cwestiwn 5 a 6 – Asesiadau - Nodwyd y bydd copi o'r holl asesiadau effaith yn cael eu cynnwys fel atodiad i'r adroddiad a gyflwynir i'r Cabinet. - Gofynnwyd beth yw'r drefn / patrwm gyda'r Asesiadau? Nodwyd bydd yr Adran Addysg yn parhau gyda'r drefn arferol gan bwysu a mesur pob model. Cwestiwn 7 - Rhagamcanion - Cytunwyd â'r datganiad nad yw'r rhagamcanion yn wyddonol gywir. Eglurwyd mai ffigwr cyfrifiad Ionawr 2020 fydd yr Adran Addysg yn adrodd arno yn yr adroddiad ym mis Chwefror. <u>Rhan 2 - Trafodaeth ar yr Opsiynau SWOT</u> 1) Status Quo - Parhau hefo'r sefyllfa bresennol - Nodwyd bod modd dadlau y gall dosbarthiadau bychain fod yn gryfder yn ogystal â gwendid, felly cytunwyd i'w gynnwys yn y ddwy golofn. - Cadarnhawyd bod capasiti Ysgol Abersoch yn cynnwys niferoedd y Meithrin. - Nodwyd bod y gallu i gerdded i'r Ysgol yn gryfder a theimlad croesawgar i'r ysgol (agweddau cymdeithasol). - Eglurwyd fod y golofn cyfleoedd wedi ei gadael yn wag gan nad oes unrhyw newid i'r sefyllfa bresennol o ran cyfleoedd. Yn sgil gwrthwynebiad i hyn, cytunwyd i gynnwys rhywbeth yn y golofn os gall y rhanddeiliaid adnabod cyfle newydd. - Mynegwyd bod angen cynnwys mwy o gryfderau megis defnyddio safle bus yn ddyddiol, cefnogi canolfan hamdden leol drwy'r flwyddyn, ymweliadau drws i ddrws - Ambell un yn dadlau bod y pwyntiau bwled sydd yn cyfleu cryfderau'r ysgol rhy sych. - Mynegwyd siom nad oedd unrhyw gyfeiriad at yr iaith Gymraeg trwy'r ddogfen. - Nododd un rhiant bod ei phlentyn bellach yn rhugl yn y Gymraeg ers cychwyn yn yr ysgol. Gweithred: Ychwanegu is-benawdau ar gyfer y cryfderau sydd yn cyfleu'r ochr leithyddol a chymunedol. - Bu i rai rhan-ddeiliaid gwestiynu gwerth y broses gan awgrymu nad yw'r Adran Addysg yn gwrando ar eu sylwadau. - Eglurodd y Swyddog Ardal bod y Deilydd Portffolio yn bresennol yn y cyfarfodydd er mwyn gallu adrodd yn ôl i'r Cabinet gan mai'r Cabinet fydd yn penderfynu ar y mater. Ychwanegwyd fod y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013 yn rhoi'r pŵer i'r awdurdod ddilyn proses fyrrach i gau ysgolion sydd â llai na 10 disgybl yn y cyfrifiad ym mis Ionawr, ond yn yr achos yma, mae'r awdurdod yn bwriadu dilyn y broses statudol lawn. - Gofynnwyd y cwestiwn o ran pwy sydd yn penderfynu os yw ysgol yn ysgol wledig.
--	--

		Nodwyd nad oes gan yr Adran Addysg ddylanwad ar y broses. Meini prawf gan Lywodraeth Cymru sydd yn penderfynu. 2) Newid Ystod Oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed - Nododd swyddogion yr adran Addysg fod pryderon ynglŷn ag addasrwydd y gofod chwarae tu allan hefyd yn anfantais ar gyfer y model yma. - Cwestiynwyd pam fod yr effaith bosib ar niferoedd Ysgol Sarn Bach wedi ei nodi fel bygythiad. Eglurwyd y byddai'n fygythiad i'r ddarpariaeth leol yn ei gyfanrwydd felly dylid ei nodi. - Mynegodd sawl rhiant buasai eu plant yn dewis aros yn Ysgol Abersoch pe byddai'r ysgol yn darparu addysg i blant hyd 11 oed. - Gofynnwyd y cwestiwn os oes modd cael rhieni i arwyddo dogfen o flaen llaw i fynegi diddordeb mewn mynychu'r ysgol fel rhan o'r broses gofrestru. Nodwyd na fyddai'n bosib gan y byddai'n mynd yn groes i drefn arferol yr Awdurdod. - Cwestiynwyd os yw diffyg amser digyswllt y Pennaeth yn wendid yn yr achos yma. Cadarnhaodd y Pennaeth fod hwn yn wendid. - Nodwyd mai 80% o amser digyswllt ydi'r targed i Benaethiaid yn ôl yr egwyddorion. - Mewn ymateb i'r sylwad mai'r ffordd i gyfarch cynyddu amser digyswllt y Pennaeth fyddai cyflogi mwy o athrawon – nodwyd fod posib cyfarch hyn hefyd drwy fodelau gwahanol. - Cadarnhawyd fod cost y disgybl yn Ysgol Abersoch ymysg yr uchaf yn y Sir a bod yr ysgol derbyn cefnogaeth trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio. - Cynigwyd opsiwn ychwanegol, sef i gynnig blwyddyn ychwanegol yn Ysgol Abersoch, hyd at Flwyddyn 4 (3-9 oed) Gweithred: Ychwanegu opsiwn 2b, sef newid ystod oed Ysgol Abersoch i 3-9 oed. 3) Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos - Nodwyd bod 3 model ffederaleiddio wedi cael ei adnabod. - Pwysleisiwyd nad oes trafodaeth wedi bod gyda'r ysgolion cyfagos hyd yma. - Nodwyd y byddai'n debygol mai'r ysgolion cyfagos fyddai'r ysgolion sydd yn ffinio efo dalgylch Abersoch. Pwysleisiwyd na fyddai modd ffederaleiddio yn ffurfiol gydag ysgol o statws cyfreithiol gwahanol. Awgrymwyd y byddai Ysgol Sarn Bach yn ddewis naturiol o ystyried y ffaith fod disgyblion eisoes yn trosglwyddo i'r ysgol yn dilyn BL3. - Nodwyd gall cael un corff llywodraethol dros y ddwy ysgol fod yn wendid. Nodwyd fod yr adran Addysg o'r farn y gallai fod yn gyfle a chryfder oherwydd bod sawl ysgol yn cael trafferth penodi llywodraethwyr. Eglurwyd fod Rheoliadau LL.C yn gosod canllawiau clir ar gyfer penodi llywodraethwyr i gorff llywodraethu ffederal er mwyn sicrhau cynrychiolaeth deg o'r ysgolion. - Eglurwyd na fyddai'r model yn cynnig arbediad cyllidol, ond yn hytrach byddai'n arwain at wella profiad y disgybl trwy'r cyfleoedd i rannu adnoddau a staff yn ogystal â chynnig mwy o amser digyswllt i'r Pennaeth. - Cytunwyd i ychwanegu cryfder sef gwella cynladwyedd i'r ddwy ysgol. - Eglurwyd fod rhai ysgolion wedi ffederaleiddio'n feddal/anffurfiol, trwy drefniant rhannu pennaeth. Nodwyd fod ffederaleiddio meddal/anffurfiol fel arfer yn codi os oes problem recriwtio Pennaeth. - Cynigiwyd y dylid ychwanegu gwendid sef effaith amgylcheddol o ganlyniad i ddefnydd cynyddol o'r bysiau i gludo'r plant. - Dywedwyd mai'r cam nesaf rhwng rŵan a'r cyfarfod nesaf fydd trafod yr opsiwn yma gyda'r ysgolion cyfagos a bydd angen i'r Awdurdod bwysu a mesur y cryfderau a'r heriau pob model. - Nodwyd ei fod yn hanfodol bod ysgolion eraill yn gweld yr opsiwn fel mantais - gall gorfodi ffederasiwn fod yn risg i lwyddiant y model.
--	--	---

	4) Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen ar safle Ysgol Abersoch, a CA2 ar safle'r ysgol gyfagos • Ychwanegwyd eto bod dosbarthiadau o faint mwy yn wendid. • Ychwanegu bygythiad – rhieni yn diystyru Ysgol Sarn Bach ac Ysgol Abersoch oherwydd gormod o symud safleoedd. 5) Ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen + Blwyddyn 3 a 4 + Blwyddyn 5 a 6 ar safle 3 ysgol wahanol • Gofynnwyd a oes tystiolaeth bod model fel hyn yn bodoli yn rhywle arall. Nodwyd nad yw'r Adran Addysg yn ymwybodol o fodel tebyg parhaol ond yn ymwybodol bod sir gyfagos wedi defnyddio model tebyg dros dro tra bod ysgol newydd yn cael ei adeiladu, ond gyda niferoedd disgyblion mwy sylweddol. • Nodwyd bod angen ychwanegu gwendid – teithio / effaith amgylcheddol • Nodwyd hefyd nad oes modd ffederaleiddio yn ffurfiol gydag ysgol o statws gwahanol felly byddai angen ystyried pa ysgolion fyddai'n gallu bod yn rhan o'r model yma. • Nodwyd nad yw'r Llywodraethwyr yn ffafrio'r opsiwn 5. • Pwysleisiodd yr Adran Addysg nad pwrpas y cyfarfod yw gwerthu'r opsiynau, ond yn hytrach, ystyried eu cryfderau a'u gwendidau. 6) Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol amgen • Cynigiwyd eto bod dosbarthiadau o faint mwy yn wendid. • Ychwanegu gwendid – Colli Urdd Cangen Tudwal, Cylch Ti a Fi a Meithrin • Mewn ymateb i ymholiad gan y Llywodraethwyr ynglŷn a sut mae'r adran Addysg yn ymdrin â ceisiadau mynediad i'r ysgol, nodwyd nad oes gan yr adran Addysg hawl i ddylanwadu ar ddewis rhieni. Derbyniwyd y sylwad fod angen i'r awdurdod fod yn sensitif i sefyllfa'r ysgol, ond amlygwyd fod gwybodaeth ynglŷn a'r broses/adolygiad sydd yn mynd rhagddi eisoes yn gyhoeddus. Cytunwyd i drafod y mater ymhellach yn dilyn y cyfarfod. • Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chynlluniau'r awdurdod ar gyfer y safle pe byddai'n dod yn wag - nodwyd ei fod yn gynamserol trafod cynlluniau ar gyfer y safle ar y pwynt yma, gan nad ydym wedi cytuno ar opsiwn. Eglurwyd y drefn sydd wedi ei ddilyn yn y gorffennol, sef bod y safle'n cael ei gynnig i'r gymuned yn y lle cyntaf. • Pwysleisiodd y gynulleidfa mai'r bygythiad mwyaf fyddai colli cymuned Gymraeg Abersoch. Yn ychwanegol nid ydynt yn teimlo bod y ddogfen yn cyfleu gwir gymeriad Abersoch ond yn hytrach bod yr Awdurdod yn gweld Abersoch fel pentref di-gymraeg. 7) Lleoli canolfan iaith ar safle Ysgol Abersoch • Wrth drafod pryderon ynglŷn â'r diffyg galw yn lleol, cadarnhawyd nad yw Canolfan Iaith Llangybi wedi bod yn llawn ddim un tymor ers iddi agor. 8) Sefydlu cylch meithrin yn Ysgol Abersoch • Datganodd y rhan ddeiliaid bod bygythiadau'r ddogfen ar opsiwn 8 yn annilys. Nodwyd bod sawl un eisoes wedi datgan diddordeb i fynychu'r cylch. • Ychwanegwyd hefyd fod yr ysgol eisoes wedi derbyn cadarnhad fod y safle'n addas ar gyfer darparu cylch. • Cyfeiriwyd at y posibilrwydd i sefydlu Cylch Ti a Fi yn ychwanegol er mwyn cynyddu niferoedd. • Nodwyd mai'r tuedd fel arfer yw bod Cylch yn gweithio yn well ar safle gydag ysgol. • Gweithred: Cysylltu gyda Phennaeth Ysgol Abersoch i gael y manylion llawn ynglŷn â'r trafodaethau sydd wedi cael eu cynnal i sefydlu'r Cylch. • Gweithred: Ychwanegu opsiwn - sef sefydlu cylch meithrin a newid ystod oed i 3 i 9 oed. Sylwadau Cyffredinol
--	--

		- Gyda'r modelau ffederaleiddio bydd modd edrych ar ffyrdd o gyfuno opsiynau gwahanol i gryfhau'r opsiwn. - Cytunodd yr Adran Addysg i rymuso'r testun ieithyddol a chymunedol ar draws yr 8 opsiwn.
4.	Camau Nesaf	- Eglurwyd mai'r cam nesaf fydd diweddarau'r dadansoddiad SWOT o'r rhestr o opsiynau, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw sylwadau a dderbyniwyd, gan fynd ati wedyn i werthuso'r opsiynau yn erbyn yr ystyriaethau/ffactorau a nodir yn y Strategaeth, "Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd". - Cynigwyd dau opsiwn i'r rhan ddeiliad o ran amserlen i ymateb a chynnal y trydydd cyfarfod. Y teimlad cyffredinol oedd mynd gydag opsiwn B er mwyn cael mwy o amser i ystyried a threfnu'r trydydd cyfarfod ym mis Ionawr yn hytrach na mis Rhagfyr. Gofynnwyd pam bod yr Adran Addysg yn mynd a'r adroddiad i Gabinet ym mis Chwefror 2020. Nodwyd fod yr awdurdod eisoes wedi ymestyn dyddiad adrodd i'r Cabinet er mwyn caniatáu mwy amser ar gyfer y trafodaethau lleol, a hynny ar gais y llywodraethwyr – ond er mwyn rhoi eglurder i ran-ddeiliaid yr ysgol, mae'r awdurdod wedi penderfynu y dylid adrodd i'r Cabinet ym mis Chwefror. - Pryderodd yr Aelod Lleol am ddiffyg barn a mewnbwn y gymuned ar y broses. Eglurodd yr Adran Addysg nad ydym yn ceisio rhagdybio unrhyw sefyllfa, ond pe byddai'r Cabinet yn penderfynu cynnal ymgynghoriad statudol ar gynnig penodol, yna bydd gan y cyhoedd hawl i ddatgan eu barn yn ystod y broses honno. - Mewn ymateb i gais i swyddogion fynychu cyfarfod cyhoeddus yn Abersoch er mwyn dod i ddeall y farn yn lleol, nodwyd, pe byddai proses ymgynghori yn cael ei dilyn, byddai cyfle bryd hynny i'r cyhoedd a'r gymuned leol gyflwyno eu barn yn ffurfiol. Nid yw hi'n ofynnol, yn unol â'r Cod TY, i'r awdurdod gynnal cyfarfodydd cyhoeddus fel rhan o brosesau statudol. - Cadarnhawyd mai un opsiwn fydd yn cael ei argymhell i'r Cabinet ond bydd yr holl opsiynau sydd wedi cael eu trafod fel rhan o'r broses yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r adroddiad a'r ddogfennaeth gefndirol. Gan y Cabinet fydd y pŵer i benderfynu os ydynt yn cytuno â'r argymhelliad gwreiddiol ai peidio. - Nododd yr Aelod Lleol gan ei fod yn rhan o'r Pwyllgor Craffu, y byddai'n gofyn i fater Abersoch gael ei alw mewn ar gyfer craffu pe byddai yn dod i'r sefyllfa yma. - Gofynnwyd y cwestiwn pe bai cynnig i gau'r ysgol yn cael ei cyflwyno fel argymhelliad, pryd byddai'r ysgol yn cau yn swyddogol. Pwysleisiwyd ei bod yn gyn amserol trafod dyddiad cau, gan ystyried ein bod yn y broses o geisio canfod opsiynau posib ar gyfer yr ysgol. Er hynny, eglurwyd, pe byddai penderfyniad i gynnal ymgynghoriad ar gynnig i gau'r ysgol, mae'n annhebygol y byddai'n argymhell cau erbyn Medi 2020 oherwydd gofynion amserlen y broses statudol. Nodwyd byddai hyn yn cael ei drafod mewn mwy o fanylder yn Cyfarfod 3. - Nododd yr Aelod Lleol ei fod wedi bod mewn cysylltiad gyda'r teulu sydd wedi rhoi tir yr ysgol fel rhodd. Nododd eu bod hwy yn siomedig ac yn bwriadu edrych ar eu sefyllfa o ran y rhodd. Gweithred: Cais gan y Llywodraethwyr i weld yr amserlen posib os mai'r argymhelliad fyddai i gau. Angen gweld sgil effaith yr amserlen wrth ystyried sefydlu Cylch Meithrin ar y safle.
5.	Cloi	- Diolchwyd i bawb am fynychu. - Cadarnhawyd bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn fuan ym mis Ionawr 2020.

Cyfarfod Adolygu Ysgol Abersoch

Ysgol Abersoch Review Meeting

Addysg

18:00 – 19:00, Dydd Llun, 6 Ionawr 2020
18:00 – 19:00, Monday, 6 January 2020

Neuadd Bentref Abersoch
Abersoch Village Hall

1. **CROESO**
WELCOME
2. **CRYNODEB O'R BROSES**
SUMMARY OF THE PROCESS
3. **GWERTHUSIAD OPSIYNAU**
OPTIONS APPRAISAL
4. **CAMAU NESAF + AMSERLEN AMLINELLOL**
NEXT STEPS + OUTLINE TIMETABLE
5. **DIOLCH A CHLOI**
THANKS AND CLOSE

YSGOL ABERSOCH

6 Ionawr 2020
6 January 2020



Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

AGENDA

- | | |
|---------------------------------------|--|
| 1. Croeso | 1. <i>Welcome</i> |
| 2. Y Broses | 2. <i>The Process</i> |
| 3. Gwerthusiad Opsiynau | 3. <i>Options Appraisal</i> |
| 4. Camau Nesaf ac Amserlen Amlinellol | 4. <i>Next Steps and the Outline Timetable</i> |
| 5. Cloi | 5. <i>Close</i> |



Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

Y BROSES / THE PROCESS

Camau Steps	Amserlen Amlinellol Outline Timetable
Adroddiad Cabinet – Cais i gynnal trafodaethau lleol <i>Cabinet Report - Request to hold local discussions</i>	17.09.2019
Cyfarfod Lleol 1 – Trafod ac ystyried opsiynau <i>Local Meeting 1 – Discuss and consider options</i>	07.10.2019
Cyfarfod Lleol 2 – Dadansoddiad SWOT o'r holl opsiynau <i>Local Meeting 2 - SWOT analysis of all options</i>	13.11.2019
Cyfarfod Lleol 3 – Gwerthusiad Opsiynau + Yr opsiynau sy'n welliant ar y 'Status Quo' <i>Local Meeting 3 - Options Appraisal + Options that are an improvement to the 'Status Quo'</i>	06.01.2020
Gwaith Ymchwil – Asesiadau Effaith ar y Iaith, y Gymuned a Cydraddoldeb + Asesiad yn erbyn y Ddeddf Llesiant <i>Research - Language, Community and Equality Impact Assessments + Assessment against the Well-being Act</i>	Ionawr / January 2020
Cyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd <i>Gwynedd Council Cabinet Meeting</i>	18.02.2020
Cyfnod Ymgynghori Statudol / <i>Statutory Consultation Period</i>	Mawrth – Mai 2020 <i>March – May 2020</i>
Adroddiad i'r Cabinet yn dilyn Ymgynghoriad Statudol / <i>Report to Cabinet following Statutory Consultation</i>	Mehefin 2020 / <i>June 2020</i>
Cyfnod Gwrthwynebu - Cyhoeddi Rhybudd Statudol a chyfle i ran-ddeiliaid wrthwynebu'r cynnig <i>Objection Period - Publication of Statutory Notice and opportunity for stakeholders to object the proposal</i>	Mehefin – Gorffennaf 2020 <i>June – July 2020</i>
Cabinet – Adrodd yn ôl yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu + penderfyniad terfynol <i>Cabinet – Report back following objection period + final decision</i>	Medi 2020 / <i>September 2020</i>

** Yn ddibymod ar benderfyniad
y Cabinet 18/2/20 **
** Subject to Cabinet decision on
18/2/20 **

GWERTHUSIAD OPSIYNAU / OPTIONS APPRAISAL

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



GWERTHUSIAD OPSIYNAU / OPTIONS APPRAISAL

Er mwyn dadansoddi'r opsiynau ymhellach, gwerthuswyd yr opsiynau yn erbyn ffactorau'r Strategaeth, "Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd", sef:

- 1) Maint Dosbarthiadau ac Amrediad Oedran
- 2) Niferoedd Disgyblion
- 3) Amgylchedd Dysgu
- 4) Arweinyddiaeth a Staffio
- 5) Y Gymuned
- 6) Adnoddau Ariannol
- 7) Sefyllfa Eithriadol
- 8) Iaith
- 9) Ffactorau Daearyddol

In order to further analyse the options, the options were evaluated against the factors of the Strategy, "Excellent Primary Education for Children in Gwynedd", namely:

- 1) Class Sizes and Age Range
- 2) Pupil Numbers
- 3) Learning Environment
- 4) Leadership and Staffing
- 5) The Community
- 6) Financial Resources
- 7) Exceptional Situation
- 8) Language
- 9) Geographical Factors

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money



YR OPSIYNAU A YSTYRIWYD / OPTIONS CONSIDERED

Yn sgil y mewnbwn a dderbyniwyd yn ystod, ac yn dilyn y ddau gyfarfod lleol, cynhyrchwyd rhestr o opsiynau i'w hystyried. Er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r opsiwn 'Gwneud Dim' wedi ei gynnwys at ddiben cymharu.

As a result of the input received during, and following the two local meetings, a list of options was produced for consideration. Although the case for change has been established, the 'Do Nothing' option is included for comparison purposes.

1	Status Quo – Parhau hefo'r sefyllfa bresennol
2 (a)	Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed
2 (b)	Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-9 oed
3	Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos
4	Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen ar safle Ysgol Abersoch, a CA2 ar safle'r ysgol gyfagos
5	Ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen + Blwyddyn 3 a 4 + Blwyddyn 5 a 6 ar safle 3 ysgol wahanol
6	Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol amgen
7	Lleoli Canolfan Iaith ar safle Ysgol Abersoch
8 (a)	Sefydlu Cylch Meithrin yn Ysgol Abersoch
8 (b)	Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-9 oed + Sefydlu Cylch Meithrin Ysgol Abersoch

1	Status Quo – Continue with the current situation
2 (a)	Change the age range of Ysgol Abersoch from 3-8 years to 3-11 years
2 (b)	Change the age range of Ysgol Abersoch from 3-8 years to 3-9 years
3	Federalise with a nearby school
4	Federalise with a nearby school locating the Foundation Phase on the site of Ysgol Abersoch, and KS2 on the site of the nearby school
5	Federalise with neighboring schools locating Foundation Phase + Years 3 and 4 + Years 5 and 6 on 3 different school sites
6	Close Ysgol Abersoch and offer pupils a place at a nearby school
7	Locate a Language Centre on the site of Ysgol Abersoch
8 (a)	Establish a Cylch Meithrin at Ysgol Abersoch
8 (b)	Change the age range of Ysgol Abersoch from 3-8 years to 3-9 years and establish a Cylch Meithrin at Ysgol Abersoch

PRIF HERIAU'R SEFYLLFA BRESENNOL / MAIN CHALLENGES OF THE CURRENT POSITION

1	Nifer disgyblion yr ysgol ymysg yr isaf yn y sir <i>The number of pupils at the school is among the lowest in the county</i>
2	Rhagamcanion yn dangos lleihad pellach yn y niferoedd <i>Projections show further decline in numbers</i>
3	Nifer uchel o lefydd gweigion <i>High number of surplus places</i>
4	Maint dosbarthiadau bychain <i>Small class sizes</i>
5	Amrediad ystod oed eang o fewn dosbarthiadau <i>Broad age range within classes</i>
6	Cost y disgybl (Medi 2019: £10,200 + Rhagamcan 2020-21 £15,800) – ymysg yr uchaf yn y sir, 4 gwaith uwch na'r cyfartaledd sirol (£3,884), 3 gwaith uwch na'r cyfartaledd dalgylchol (£4,854). <i>Cost per pupil (September 2019: £10,200 + Projected 2020-21 £15,800) - amongst the highest in the county, 4 times higher than the county average (£3,884) + 3 times higher than the catchment average (£4,854)</i>
7	Ysgol yn derbyn swm ychwanegol o £37,853 (Medi 2019) trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio <i>School receives an additional £37,853 (September 2019) through the minimum staffing protection</i>

YR OPSIYNAU I'W HYSTYRIED YMHELLACH OPTIONS TO BE CONSIDERED FURTHER

1	Status Quo – Parhau hefo'r sefyllfa bresennol*	1	Status Quo – Continue with the current situation*
2 (a)	Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed	2 (a)	Change the age range of Ysgol Abersoch from 3-8 years to 3-11 years
2 (b)	Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-9 oed	2 (b)	Change the age range of Ysgol Abersoch from 3-8 years to 3-9 years
3	Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos	3	Federalise with a nearby school
4	Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen ar safle Ysgol Abersoch, a CA2 ar safle'r ysgol gyfagos	4	Federalise with a nearby school locating the Foundation Phase on the site of Ysgol Abersoch, and KS2 on the site of the nearby school
5	Ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen + Blwyddyn 3 a 4 + Blwyddyn 5 a 6 ar safle 3 ysgol wahanol	5	Federalise with neighboring schools locating Foundation Phase + Years 3 and 4 + Years 5 and 6 on 3 different school sites
6	Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol amgen	6	Close Ysgol Abersoch and offer pupils a place at a nearby school
7	Lleoli Canolfan Iaith ar safle Ysgol Abersoch	7	Locate a Language Centre on the site of Ysgol Abersoch
8 (a)	Sefydlu Cylch Meithrin yn Ysgol Abersoch	8 (a)	Establish a Cylch Meithrin at Ysgol Abersoch
8 (b)	Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-9 oed + Sefydlu Cylch Meithrin Ysgol Abersoch	8 (b)	Change the age range of Ysgol Abersoch from 3-8 years to 3-9 years and establish a Cylch Meithrin at Ysgol Abersoch

*Er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r opsiwn 'Gwneud Dim' wedi ei gynnwys at ddiben cymharu.

*Although the case for change has been established, the 'Do Nothing' option is included for comparison purposes.

2 (b) Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-9 oed / 2 (b) Change the age range of Ysgol Abersoch from 3-8 years to 3-9 years

		Ymateb i'r her / Responding to the challenge	Sylwadau / Comments
1	Nifer disgyblion yr ysgol ymysg yr isaf yn y sir <i>The number of pupils at the school is among the lowest in the county</i>		Ychwanegu 1 blwyddyn ysgol yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar niferoedd disgyblion, rhagamcanion a'r llefydd gweigion / <i>Adding 1 school year is unlikely to have a significant impact on pupil numbers, projections and surplus places.</i>
2	Rhagamcanion yn dangos lleihad pellach yn y niferoedd <i>Projections show further decline in numbers</i>		
3	Nifer uchel o lefydd gweigion <i>High number of surplus places</i>		
4	Maint dosbarthiadau bychain <i>Small class sizes</i>		Os na fyddai'n arwain at gynydd yn niferoedd disgyblion, byddai maint y dosbarthiadau'n parhau'n fychan a gyda ystod oed eang / <i>If it does not result in an increase in pupil numbers, class sizes would remain small and have a broad age range.</i>
5	Amrediad ystod oed eang o fewn dosbarthiadau <i>Broad age range within classes</i>		
6	Cost y disgybl (Medi 2019: £10,200 + Rhagamcan 2020-21 £15,800) – ymysg yr uchaf yn y sir, 4 gwaith uwch na'r cyfartaledd sirol (£3,884), 3 gwaith uwch na'r cyfartaledd dalgylchol (£4,854). <i>Cost per pupil (September 2019: £10,200 + Projected 2020-21 £15,800) - amongst the highest in the county, 4 times higher than the county average (£3,884) + 3 times higher than the catchment average (£4,854)</i>		Ni fyddai'r opsiwn yn welliant ar y sefyllfa ariannol bresennol / <i>The option would not be an improvement on the current financial position</i>
7	Ysgol yn derbyn swm ychwanegol o £37,853 (Medi 2019) trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio <i>School receives an additional £37,853 (September 2019) through the minimum staffing protection</i>		

Sylwadau pellach / Further Comments:

- Torri ar draws darpariaeth CA2 / *Interruption KS2 provision*
- Ni fyddai ystod oed yr ysgol yn gyson â gweddill ysgolion y sir / *Age range of the school would not be consistent with the rest of the county's schools*
- Dim newid i amser di-gyswilt y pennaeth / *No change to the headteacher's non-contact time*

4. Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen ar safle Ysgol Abersoch, a CA2 ar safle'r ysgol gyfagos 4. Federalise with a nearby school locating the Foundation Phase on the site of Ysgol Abersoch, and KS2 on the site of the nearby school

		Ymateb i'r her / Responding to the challenge	Sylwadau / Comments
1	Nifer disgyblion yr ysgol ymysg yr isaf yn y sir <i>The number of pupils at the school is among the lowest in the county</i>		Byddai'n arwain at gynydd yn niferoedd disgyblion CS yn Ysgol Abersoch, ond yn lleihau niferoedd yr ysgol gyfagos / <i>It would lead to an increase in FPh pupil numbers at Ysgol Abersoch, but reduce the numbers of the neighboring school</i>
2	Rhagamcanion yn dangos lleihad pellach yn y niferoedd <i>Projections show further decline in numbers</i>		Cynydd yn rhagamcanion Ysgol Abersoch, ond yn effeithio'n negyddol ar ragamcanion yr ysgol gyfagos / <i>Increased projections at Ysgol Abersoch, but negatively affecting projections for neighboring school</i>
3	Nifer uchel o lefydd gweigion <i>High number of surplus places</i>		Lleihad yn llefydd gweigion Ysgol Abersoch, ond yn cynyddu'r nifer o lefydd gweigion yn yr ysgol gyfagos / <i>A reduction in the surplus places at Ysgol Abersoch, but increasing the number of surplus places at the nearby school</i>
4	Maint dosbarthiadau bychain <i>Small class sizes</i>		Dosbarth CS o faint mwy hyfwrdd / addas – disgyblion yn cael eu haddysgu gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran / <i>More viable / suitable FPh class - pupils being taught with more children of the same age group</i>
5	Amrediad ystod oed eang o fewn dosbarthiadau <i>Broad age range within classes</i>		Amrediad oedran hyd at 4 mlynedd yn y dosbarth CS + dosbarth CA2 <i>Age range up to 4 years in FPh class + KS2 class</i>
6	Cost y disgybl (Medi 2019: £10,200 + Rhagamcan 2020-21 £15,800) – ymysg yr uchaf yn y sir, 4 gwaith uwch na'r cyfartaledd sirol (£3,884), 3 gwaith uwch na'r cyfartaledd dalgylchol (£4,854). <i>Cost per pupil (September 2019: £10,200 + Projected 2020-21 £15,800) - amongst the highest in the county, 4 times higher than the county average (£3,884) + 3 times higher than the catchment average (£4,854)</i>		Lleihad yng nghost y disgybl, ond yn parhau'n uwch na'r cyfartaledd sirol / <i>Reduction in cost per pupil, but still above the county average</i>
7	Ysgol yn derbyn swm ychwanegol o £37,853 (Medi 2019) trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio <i>School receives an additional £37,853 (September 2019) through the minimum staffing protection</i>		Lleihad yn y swm gwarchodaeth, ond yn parhau yn y rhwyd diogelu . Posib y byddai'r ddwy ysgol yn derbyn dyraniad ychwanegol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio / <i>Reduction in the protection amount, but still in the minimum staffing protection. Possible that both schools would receive additional support through the scheme</i>

Sylwadau Pellach / Further Comments:

- Effaith negyddol ar niferoedd disgyblion yr ysgol gyfagos fyddai'n rhan o'r ffederasiwn / *Negative effect on the pupil numbers of the neighboring school that is part of the federation*
- Byddai angen dilyn proses statudol i newid ystod oed y ddwy ysgol ac i sefydlu'r ffederasiwn / *Follow a statutory process to change the age range of both schools and to establish the federation*

5. Ffederalieiddio gydag ysgolion cyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen + Blwyddyn 3 a 4 + Blwyddyn 5 a 6 ar safle 3 ysgol wahanol
5. Federalise with neighboring schools locating Foundation Phase + Years 3 and 4 + Years 5 and 6 on 3 different school sites

	Ymateb i'r her / Responding to the challenge	Sylwadau / Comments
1 Nifer disgyblion yr ysgol ymysg yr isaf yn y sir <i>The number of pupils at the school is among the lowest in the county</i>		Byddai'n arwain at gynydd yn niferoedd disgyblion CS yn Ysgol Abersoch, ond yn lleihau niferoedd y 2 ysgol gyfagos / <i>It would lead to an increase in pupil numbers at Ysgol Abersoch, but reduce the numbers of the 2 neighboring schools.</i>
2 Rhagamcanion yn dangos lleihad pellach yn y niferoedd <i>Projections show further decline in numbers</i>		Cynydd yn rhagamcanion Ysgol Abersoch, ond yn effeithio ar ragamcanion y 2 ysgol gyfagos / <i>Increase in the projections of Ysgol Abersoch, but affecting the projections of the 2 neighboring schools</i>
3 Nifer uchel o lefydd gweigion <i>High number of surplus places</i>		Lleihad yn llefydd gweigion Ysgol Abersoch, ond yn gwaethgu sefyllfa yn y 2 ysgol gyfagos / <i>A reduction in the surplus places at Ysgol Abersoch, but worsening the situation in the 2 neighboring schools</i>
4 Maint dosbarthiadau bychain <i>Small class sizes</i>		Dosbarth CS, 3 a 4 + 5 a 6 o faint mwy hyfwrdd/ addas – disgyblion yn cael eu haddysgu gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran / <i>More viable / suitable FPh, 3 and 4 + 5 & 6 class - pupils being taught with more children of the same age group</i>
5 Amrediad ystod oed eang o fewn dosbarthiadau <i>Broad age range within classes</i>		Amrediad ystod oed hyd a 2 flynedd o fewn dosbarthiadau / <i>Age range up to 2 years within classes</i>
6 Cost y disgybl (Medi 2019: £10,200 + Rhagamcan 2020-21 £15,800) – ymysg yr uchaf yn y sir, 4 gwaith uwch na'r cyfartaledd sirol (£3,884), 3 gwaith uwch na'r cyfartaledd dalgylchol (£4,854). <i>Cost per pupil (September 2019: £10,200 + Projected 2020-21 £15,800) - amongst the highest in the county, 4 times higher than the county average (£3,884) + 3 times higher than the catchment average (£4,854)</i>		Lleihad yng nghost y disgybl, ond yn parhau'n uwch na'r cyfartaledd sirol. Cynyddu cost y disgybl yn y 2 ysgol gyfagos / <i>Reduction in cost per pupil, but still above the county average. Increase the cost per pupil in the 2 neighboring schools</i>
7 Ysgol yn derbyn swm ychwanegol o £37,853 (Medi 2019) trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio <i>School receives an additional £37,853 (September 2019) through the minimum staffing protection</i>		Lleihad yn y swm gwarchodaeth, ond yn parhau yn y rhwyd diogelu. Posib y byddai'r 3 ysgol yn derbyn cefnogaeth ychwanegol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio / <i>Reduction in the protection amount, but still in the minimum staffing protection. Possible that both schools would receive additional support through the scheme</i>

Sylwadau Pellach / Further Comments:

- Effaith negyddol ar niferoedd disgyblion y 2 ysgol gyfagos fyddai'n rhan o'r ffederasiwn / *Negative effect on the pupil numbers of the 2 neighboring schools who are part of the federation*
- Byddai angen dilyn proses statudol i newid ystod oed 3 ysgol ac i sefydlu'r ffederasiwn / *Follow a statutory process to change the age range of 3 schools and to establish the federation*
- Nid yw'n bosib ffederalieiddio gyda ysgolion sydd â statws gwahanol / *It is not possible to federate with schools of different status*

7. Lleoli Canolfan Iaith ar safle Ysgol Abersoch
7. Locate a Language Centre on the site of Ysgol Abersoch

	Ymateb i'r her / Responding to the challenge	Sylwadau / Comments
1 Nifer disgyblion yr ysgol ymysg yr isaf yn y sir <i>The number of pupils at the school is among the lowest in the county</i>		Nid yw lleoli darpariaeth canolfan iaith ar safle ysgol fel arfer yn effeithio ar niferoedd disgyblion / <i>Locating a language centre provision on a school site does not usually affect pupil numbers</i>
2 Rhagamcanion yn dangos lleihad pellach yn y niferoedd <i>Projections show further decline in numbers</i>		
3 Nifer uchel o lefydd gweigion <i>High number of surplus places</i>		
4 Maint dosbarthiadau bychain <i>Small class sizes</i>		Gan na fyddai'n arwain at gynydd yn niferoedd disgyblion, byddai maint y dosbarthiadau'n parhau'n fychan a gydag ystod oed eang. / <i>As it would not lead to an increase in pupil numbers, class sizes would remain small and with a broad age range.</i>
5 Amrediad ystod oed eang o fewn dosbarthiadau <i>Broad age range within classes</i>		
6 Cost y disgybl (Medi 2019: £10,200 + Rhagamcan 2020-21 £15,800) – ymysg yr uchaf yn y sir, 4 gwaith uwch na'r cyfartaledd sirol (£3,884), 3 gwaith uwch na'r cyfartaledd dalgylchol (£4,854). <i>Cost per pupil (September 2019: £10,200 + Projected 2020-21 £15,800) - amongst the highest in the county, 4 times higher than the county average (£3,884) + 3 times higher than the catchment average (£4,854)</i>		Ni fyddai'r opsiwn yn welliant ar y sefyllfa ariannol bresennol / <i>The option would not be an improvement on the current financial position</i>
7 Ysgol yn derbyn swm ychwanegol o £37,853 (Medi 2019) trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio <i>School receives an additional £37,853 (September 2019) through the minimum staffing protection</i>		

Sylwadau Pellach / Further Comments:

- Dim newid i amser di-gyswilt y pennaeth / *No change to the headteacher's non-contact time*
- Dim newid i niferoedd disgyblion yr ysgol / *No change in pupil numbers at the school*
- Ni fyddai'r opsiwn yn denu incwm i'r ysgol / *This option would not attract income to the school*

YR OPSIYNAU I'W HYSTYRIED YMHELLACH OPTIONS TO BE CONSIDERED FURTHER

1	Status Quo – Parhau hefo'r sefyllfa bresennol* <i>Status Quo – Continue with the current situation*</i>
2 (a)	Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed <i>Change the age range of Ysgol Abersoch from 3-8 years to 3-11 years</i>
3	Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos <i>Federalise with a nearby school</i>
6	Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol amgen <i>Close Ysgol Abersoch and offer pupils a place at a nearby school</i>

*Er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r opsiwn 'Gwneud Dim' wedi ei gynnwys at ddiben cymharu.
*Although the case for change has been established, the 'Do Nothing' option is included for comparison purposes.

FFEDERALEIDDIO FFURFIOL FORMAL FEDERATION

- Proses statudol
- Rhwng 2 a 6 o ysgolion
- Un corff llywodraethu
- 1-2 riant llywodraethwyr o bob ysgol
- Ysgolion yn cadw eu hunaniaeth (gwisg ysgol, enw, ethos), os yn dymuno
- Cyllidebau yn parhau ar wahân
- Cyfleon i rannu adnoddau, pontio disgyblion a mwy
- Opsiwn i gyflogi staff ar draws y ffederasiwn
- Statutory Process
- Between 2 and 6 schools
- One governing body
- 1-2 parent governors from each school
- Schools retain their identity (school uniform, name, ethos), if desired.
- Budgets remain separate
- Opportunities to share resources, transition pupils and more
- Option to employ staff across the federation.

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

Cyfarfod Adolygu Ysgol Abersoch

Addysg

Cyfarfod:	Adolygu Ysgol Abersoch	Dyddiad: 06/01/2020 6:00yh
		Lleoliad: Neuadd y Pentref, Abersoch

Presennol:	<u>Swyddogion:</u> Garem Jackson (GJ); Gwern ap Rhisiart (GapRh); Cyng. Cemlyn Williams (CW); Gwenno Haf Evans (GHE); Rhian Hughes (RH); <u>Ar ran Llywodraethwyr, Staff a Rhieni Ysgol Abersoch:</u> Linda Jones; Llinos Haf Owen; Gwenlli Williams; Annwen Parry Hughes; Owen Hefin Roberts; Margot Jones; Anna E. Jones; Eifiona Wood; Einir Wyn; Mikee Marinas; Louise Overfield; Dylan Evans; Sue Frisby; Tamsyn Armshaw; Dawn Marie Jones; Cyng. Dewi Roberts.
-------------------	--

Crynodeb weithredol				
Rhif Eitem	Eitem / Pwnc	Gweithrediad	Gan	Erbyn
2	Gwerthusiad Opsiynau	Adran Addysg i yrru Asesiad effaith ieithyddol a chymunedol enghreifftiol ymlaen ar e-bost i'r rhan-ddeiliad.	Adran Addysg	Ionawr 2020
2	Gwerthusiad Opsiynau	Cynnwys yn yr adroddiad Cabinet gymhariaeth cost y pen Ysgol Abersoch gyda'r ysgolion sydd yn nalgylch Ysgol Abersoch.	Adran Addysg	Chwefror 10, 2020

Rhif Eitem	Eitem / Pwnc	Gweithrediad
1.	Croeso / Y Broses	- Croesawyd pawb i'r trydydd cyfarfod gan Garek Jackson, Pennaeth Addysg, Cyngor Gwynedd. - Aethpwyd drwy'r broses hyd yma gan egluro beth fydd y camau nesaf yn ogystal â rhedeg drwy'r rhestr o opsiynau. - Nodwyd bod yr Adran Addysg, yn dilyn gwerthuso'r holl opsiynau, wedi adnabod 3 opsiwn (yn ychwanegol i'r status quo), ar gyfer ystyriaeth bellach. - Eglurwyd mai'r camau nesaf fydd gwneud gwaith ymchwil manylach ar yr opsiynau a chynnal asesiadau effaith. - Nodwyd bydd yr Adran Addysg yn adrodd yn ôl i'r Cabinet ar 18 Chwefror 2020.
2.	Gwerthusiad Opsiynau	- Eglurwyd, er mwyn dadansoddi'r opsiynau ymhellach, fod yr opsiynau wedi eu gwerthuso yn erbyn ffactorau Strategaeth Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd. Eglurwyd bod 2 ffactor eisoes wedi'u diystyru sef (i) Amgylchedd Dysgu – am nad yw'r sefyllfa hon yn un lle cynigir adeilad newydd, a (ii) Sefyllfa Eithriadol – gan mai sefyllfa fregus niferoedd yn yr ysgol yw'r rheswm dros gynnal y cyfarfodydd lleol. - Nodwyd bod y Panel Adolygu wedi trafod 10 opsiwn yn ystod y trafodaethau blaenorol. - Eglurwyd, gan fod y gwaith o sefydlu Cylch Meithrin yn yr ysgol bellach yn mynd rhagddo, fod yr opsiwn gwreiddiol wedi ei ymgorffori yn y status quo. Nodwyd fod yr opsiwn wedi ei gynnwys ar wahân yn y Gwerthusiad Opsiynau, ond wedi ei liwio mewn llwyd am ei fod bellach yn cael ei ystyried fel rhan o'r sefyllfa bresennol/status quo. Nodwyd bydd y datblygiadau parthed y Cylch Meithrin yn derbyn sylw penodol yn yr adroddiad Cabinet. - Aethpwyd drwy'r opsiynau fydd yn derbyn ystyriaeth bellach, sef: - Status Quo – Parhau gyda'r sefyllfa bresennol - Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed - Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

Tud. 125

		○ Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol amgen • Yn dilyn cynnal gwaith cefndirol wrth asesu'r opsiynau, cadarnhawyd fod yr opsiynau isod wedi eu diystyru am nad oedd yr Adran Addysg o'r farn y byddent yn ychwanegu gwerth sylweddol i'r sefyllfa bresennol: ○ Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-9 oed ○ Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen ar safle Ysgol Abersoch, a CA2 ar safle'r ysgol gyfagos ○ Ffederaleiddio gydag ysgolion cyfagos gan leoli'r Cyfnod Sylfaen + Blwyddyn 3 a 4 + Blwyddyn 5 a 6 ar safle 3 ysgol wahanol ○ Lleoli Canolfan Iaith ar safle Ysgol Abersoch ○ Sefydlu Cylch Meithrin yn Ysgol Abersoch (Cylch yn y broses o gael ei sefydlu ac yn weithredol o Chwefror 2020) ○ Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-9 oed + Sefydlu Cylch Meithrin Ysgol Abersoch (Cylch yn y broses o gael ei sefydlu ac yn weithredol o Chwefror 2020) • Nodwyd y byddai copi caled o'r gwerthusiad opsiynau yn cael ei rannu ar ddiwedd y cyfarfod a gofynnwyd i aelodau'r PAY i gyflwyno sylwadau ar gywirdeb y ddogfen erbyn Ionawr 13, 2020. • Eglurwyd y camau arferol wrth ffederaleiddio. • Eglurwyd nad oes modd ffederaleiddio ysgolion sydd â statws cyfreithiol gwahanol. • Nodwyd y bydd cofnodion o'r 3 cyfarfod adolygu Ysgol Abersoch yn cael eu cynnwys fel atodiad i'r adroddiad Cabinet. • Nododd fod bwriad i gyfarfod gyda'r Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr cyn 10/2 i gyflwyno'r adroddiad Cabinet drafft. <u>Asesiadau Effaith</u> • Gofynnodd y Llywodraethwyr beth yw'r canllawiau sydd rhaid i'r Adran Addysg ei dilyn wrth wneud yr asesiadau effaith. Eglurwyd bod templed i'w dilyn sy'n cyd-fynd a gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. • Gweithred: Adran Addysg i yrru Asesiad Iaith enghreifftiol ymlaen ar e-bost i'r rhan-ddeiliaid er mwyn iddynt gael gweld esiampl. • Cadarnhawyd bydd yr adroddiad a'r asesiadau yn gyhoeddus ar y 10/02/2020. • Yn dilyn ymholiad gan y Llywodraethwyr / rhieni, nododd y Pennaeth Addysg bydd y tystysgrifau iaith yn cael eu rhannu gyda'r ysgolion mor fuan â phosib. • Nodwyd bydd y Siarter Iaith yn rhan o'r asesiad ond ddim yn elfen statudol. <u>Status Quo (gan gynnwys y Cylch Meithrin)</u> • Nid oedd y corff llywodraethol yn cyd weld a phenderfyniad yr Adran Addysg i ymgorffori'r opsiwn i sefydlu Cylch Meithrin o fewn y status quo. Cafwyd cais i gynnwys dau opsiwn status quo yn y Gwerthusiad Opsiynau, un i egluro'r sefyllfa yn Medi 2019, ac un ychwanegol i adrodd ar y sefyllfa bresennol. • Eglurwyd fod rhaid i'r opsiwn status quo egluro sefyllfa ddiweddaraf yr ysgol, ac o'r herwydd bydd datblygiadau parthed y Cylch Meithrin wedi eu nodi fel rhan o'r opsiwn status quo. • Cadarnhawyd bydd y Cylch Meithrin yn derbyn sylw penodol yn yr adroddiad Cabinet gan nodi'r effaith bosib gall gael ar niferoedd. • Gofynnodd yr Aelod Lleol os oedd posib gohirio'r trafodaethau a rhoi gwarant i'r ysgol weld effaith cadarnhaol y Cylch Meithrin ar yr ysgol. • Eglurwyd nad oes modd rhoi gwarant – Adran Addysg eisoes wedi derbyn cyngor cyfreithiol gan y Swyddog Monitro ar fater tebyg. • Nodwyd y bydd trafodaethau pellach gyda Phennaeth Ysgol Abersoch i wirio
--	--	---

		niferoedd diweddaraf. - Cytunwyd y byddai modd cynnwys yn yr adroddiad sut oedd y sefyllfa ym mis Medi 2019 gan gymharu gyda'r sefyllfa bresennol sef yr opsiwn 'Status Quo + Cylch Meithrin'. <u>Ffederaleiddio</u> - Cafwyd eglurhad pellach o brif nodweddion ffederasiwn, a'r broses fyddai'n rhaid ei dilyn er mwyn ei sefydlu. Eglurwyd mai Ysgol Sarn Bach neu Ysgol Llanbedrog fyddai'r ddwy ysgol leol a ellir eu hystyried ar gyfer ffederaleiddio, gan fod Ysgol Foel Gron yn ysgol sydd â statws eglwysig. - Cafwyd trafodaeth am gapasiti'r ysgolion cyfagos ac eglurwyd bod Ysgol Llanbedrog mwy neu lai yn llawn. - Pwysleisiodd yr Adran Addysg fod y Cod Derbyn i Ysgolion 2013 yn rhoi'r hawl i rieni wneud cais i unrhyw ysgol. - Codwyd y cwestiwn os oes trafodaethau wedi bod gydag ysgolion cyfagos. Eglurwyd nad oes trafodaeth ffurfiol wedi bod gydag ysgolion cyfagos. Nodwyd bod trafodaeth anffurfiol wedi bod gyda Pennaeth Ysgol Sarn Bach. Bydd cyfarfod ffurfiol yn cael ei gynnal yn ystod mis Ionawr gyda'r Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr. Pwysleisiwyd na fyddai'n deg nodi beth oedd teimlad cychwynnol Pennaeth Ysgol Sarn Bach ar y mater. - Trafodwyd cost y disgybl Ysgol Abersoch gan egluro ei fod ymysg yr uchaf yn y sir, 4 gwaith uwch na'r cyfartaledd sirol a 3 gwaith uwch na'r cyfartaledd dalgylchol. Cytunwyd i gynnwys yn yr adroddiad Cabinet gymhariaeth cost y pen Ysgol Abersoch gyda'r ysgolion sydd yn nalgylch Ysgol Abersoch (ysgolion sydd yn rheulu cymhariaeth Ysgol Abersoch). <u>Trafodaeth Bellach</u> - Eglurwyd bydd gwaith manylach yn cael ei wneud ar yr opsiynau sydd yn cael eu hystyried ymhellach. Nodwyd mai dadansoddiad lefel uchel sydd wedi cael ei wneud ar hyn o bryd. - Cadarnhawyd mai Llywodraeth Cymru sydd yn penderfynu pa ysgolion sydd yn cael eu categoreiddio yn wledig - Ychwanegodd y Pennaeth Addysg bod yr Awdurdod yn dilyn yr un prosesau yn achos Ysgol Abersoch ac sy'n cael eu dilyn yn achos ysgolion bach a gwledig. - Mynegodd y Llywodraethwyr nad oeddent yn hapus bod yr Adran Addysg wedi diystyru'r opsiwn roeddent yn ei ffafrio sef 'Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-9 oed ac agor Cylch Meithrin a Ti a Fi yn Ysgol Abersoch.' Eglurwyd mai'r prif reswm am ddiystyru'r opsiwn oedd gan na fyddai newid ystod oedran i 3-9 oed yn debygol o arwain at gynnydd sylweddol yn y niferoedd disgyblion. Pwysleisiwyd unwaith eto bydd effaith y Cylch Meithrin yn cael ei ystyried fel rhan o'r status quo. - Ychwanegwyd bydd yr opsiwn mae'r Llywodraethwyr yn ei ffafrio yn cael ei nodi yn yr adroddiad. - Teimlad cyffredinol y rhanddeiliaid oedd bod y broses yn cael ei rhuthro. - Codwyd y cwestiwn os yw'n briodol i'r pwyllgor lleol benodi staff i'r Cylch Meithrin. - Dywedwyd bydd gan yr Aelod Lleol gyfle i gyflwyno sylwadau ar ran y gymuned leol yn ystod y cyfarfod Cabinet. - Eglurwyd, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu cynnal ymgynghoriad statudol ar gynnig penodol, bydd gan y gymuned gyfle i gyflwyno sylwadau ffurfiol yn ystod y broses honno. - Eglurwyd y prosesau fyddai ynghlwm a'r opsiynau a ganlyn: Status Quo (gan gynnwys y Cylch Meithrin) – ni fydd proses statudol
--	--	---

		ynghlwm ○ Newid ystod oed Ysgol Abersoch o 3-8 oed i 3-11 oed - proses statudol ynghlwm i newid ystod oed ○ Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos – proses statudol ○ Cau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion mewn ysgol amgen - proses statudol
3.	Camau Nesaf	• Eglurwyd mai'r camau nesaf fydd cynnal asesiadau effaith ar yr opsiynau cyn adrodd yn ôl i'r Cabinet gydag argymhelliad ar y ffordd ymlaen. • Nodwyd bydd yr holl ddogfennaeth yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ar 10 Chwefror 2020.
4.	Cloi	• Daethpwyd â'r cyfarfod i ben gan ddiolch i bawb am eu mewnbwn yn ystod y cyfarfodydd.

Gweler isod grynodedb o'r sylwadau a dderbyniwyd yn dilyn y 3 cyfarfod lleol gyda Ysgol Abersoch

Gohebiaeth a dderbyniwyd yn dilyn cyfarfod 1 (7 Hydref 2019)	
1	E-bost yn nodi bod gan blant allu Mathemateg uchel o ganlyniad i'r gymhareb athro i'r disgybl yn Ysgol Abersoch.
2	E-bost yn cyflwyno sylwadau a chwestiynau yn dilyn y cyfarfod cyntaf, yn bennaf am yr amserlen, rhagamcanion niferoedd, Deddf Llesiant 2015 a chynllun seddi gweigion y Cyngor.
3	E-bost yn datgan pryder am yr amserlen dyn, nodi nad yw'n caniatáu digon o amser i dderbyn adborth gan Gymdeithasau Tai.
4	E-bost yn gwneud cais i ohirio amserlen y cyfarfodydd, a chais i gynnal cyfarfod cyhoeddus er mwyn derbyn barn y gymuned ar y sefyllfa. Cais pellach am wybodaeth am y broses a ddilynir ar gyfer asesu'r effaith ar y Gymraeg. Nodir hefyd fod yr ysgol wedi derbyn cadarnhad bod dau ddisgybl newydd yn dod i ymweld â'r ysgol yn fuan.
5	Ymateb ffurfiol y corff llywodraethol i'r cyfarfod 7 Hydref 2019. Nodir y canlynol: • Bod pwyllgor wedi ei sefydlu er mwyn agor Cylch Meithrin a Ti a Fi yn yr ysgol • Eu bod yn aros am ateb gan Cadw ynglŷn â hanes yr adeilad. • Cais am enghreifftiau o ysgolion sydd wedi ffederaleiddio. • Gwahodd unrhyw Aelod Cabinet i ddod i ymweld ag Ysgol Abersoch
Gohebiaeth a dderbyniwyd yn dilyn cyfarfod 2 (13 Tachwedd 2019)	
6	Gohebiaeth gan y Corff Llywodraethol, llythyr a chyflwyno sylwadau pellach ar y dadansoddiad SWOT o'r opsiynau.
Gohebiaeth a dderbyniwyd yn dilyn cyfarfod 3 (6 Ionawr 2020)	
7	E-bost gan y corff llywodraethol yn cynnwys llythyr, sylwadau ar gywirdeb y Gwerthusiad Opsiynau a chopi o gynllun gweithredu hunaniaeth Ysgol Abersoch.
8	E-bost gan yr Aelod Lleol parthed y cyfarfod lleol a gynhaliwyd ar 6 Ionawr 2020.
9	E-bost pellach gan y corff llywodraethol parthed y broses o adolygu sefyllfa Ysgol Abersoch.

****Noder bod yr holl ohebiaeth a dderbyniwyd yn dilyn y cyfarfodydd lleol wedi eu rhannu yn llawn gyda Aelodau'r Cabinet.**

ATODIAD 4

Sylwadau'r Aelod Lleol:

"Rwyf wedi derbyn adroddiad terfynol i'r Cabinet ynglŷn a Ysgol Abersoch am 18.16 Dydd Gwener 4ydd Medi 2020 gyda y gofyn i ymateb erbyn 10.00 yn Dydd Llun 6ed Medi 2020.

Mae y gofyn i mi ymateb mewn fer amser wedi bod yn patrwm cyson ac annheg yn ystod y trafodaethau.

Rwyf yn diolch i adran am oedi rhywfaint ar y broses oherwydd amgylchiadau trist y brif athrawes.

Mae Cadeirydd y Llywodraethwyr wedi ymateb i'r Adroddiad ac nid rwyf am ail adrodd pwyntiau hollol cywir a teg yr ymateb yma, ond mi rwyf yn llwyr gytyn ar ffeithiau at teimladau sydd yn cael ei cyhoeddi yn yr ymateb.

Dros y penwythnos rwyf wedi siarad gyda un o'r rhieni disgybl yr ysgol sydd yn dorcalonnus dros y penderfyniad ar argymhelliad yr adran ac rwyf yn disgwyl ymateb y rhiant yma i'r adroddiad.

Mae yn pwysig cael sylwadau pawb dros y fater yn cynnwys y Staff, Rhieni, Llywodraethwyr ar plant.

Nid yw hyn yn cael ei cyflwyno yn yr adroddiad sydd yn gofyn i ddechrau y broses gan yr adaran addysg.

Nid yw yr Adroddiad yn cyfeirio at Llwyddiant yr ysgol o gwbl ar gwaith caled gan y brif athrawes ar staff dros y blynyddoedd diwethaf.

Nid yw yr Adroddiad yn wir cyflwyno y datblygiadau fel yr Mudiad Meithrin a Ti a Fi yr effaith positif i'r ysgol yn y dyfodol na yr effaith negyddol bydd at y y cymuned yr iaith ar diwylliant y pentref.

Nid rwyf yn teimlo fod yr adroddiad yn llwyr fanwl ac mae yn gam arweiniol.

Rwyf or farn fod parhau gyda y broses yn yr amgylchiadau arbennig y Pandemic COVID yn hollol annheg oherwydd y rhwystrau sydd yn ei lle rhan cyfarfodydd a cyfathrebu ar hyn o brud.

Mi fyddai yn cyflwyno y rhesymau yn llawn yn Cyfarfod y Cabinet."

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	15fed Medi 2020
Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn
Swyddog Cyswllt:	Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor
Rhif Ffôn Cyswllt:	32233
Teitl yr Eitem:	Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2019/20

1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 1.1. Cymeradwyo Adroddiad Perfformiad Gwynedd 2019/20 ac argymhell i'r Cyngor Llawn ei fod yn ei fabwysiadu

2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

- 2.1. Yn unol â chyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor, cyflwynir Adroddiad Perfformiad Gwynedd 2019/20 i'r Cabinet yn gyntaf am gymeradwyaeth.

3. CYFLWYNIAD

- 3.1. Mae gofyn i ni fel Cyngor gyhoeddi adroddiad yn flynyddol sy'n mesur ein perfformiad yn erbyn ein blaenoriaethau.
- 3.2. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried yr adroddiad wrth baratoi ei asesiad ar berfformiad y Cyngor. Yn ôl yr arfer, byddant yn chwilio am adroddiad cytbwys, sy'n rhoi sylw i'r agweddau na lwyddwyd i'w cyflawni yn ogystal ag i'r agweddau llwyddiannus.
- 3.3. Mae Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2019/20 (Atodiad 1) wedi ei strwythuro er mwyn adlewyrchu fformat Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23. Yn y rhan gyntaf canolbwyntir ar berfformiad prosiectau Blaenoriaethau Gwella Cynllun y Cyngor tra mae'r ail ran yn edrych ar ein gwaith dydd i ddydd fesul Adran.
- 3.4. Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi bod yn cyhoeddi'r Adroddiad blynyddol yn yr haf ond, yn anffodus, mae'r amserlen wedi llithro i'r Hydref eleni oherwydd argyfwng Covid-19. Mae gofyn statudol ar awdurdodau lleol i gyhoeddi adroddiad ar berfformiad y flwyddyn ariannol flaenorol erbyn y 31 Hydref.
- 3.5. Mae'r adroddiad wedi ei baratoi yn seiliedig ar adroddiadau perfformiad unigol Aelodau'r Cabinet a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn.

- 3.6. Fel y flwyddyn ddiwethaf mae'r prif fesurau wedi eu cynnwys o fewn corff yr adroddiad fel eu bod yn rhan o gyflew'r stori yn hytrach nag o fewn tabl mesurau ar wahân.
- 3.7. Nodir fod angen cadarnhau cynnwys Rhagair yr Arweinydd a bydd hyn yn digwydd cyn cyflwyno'r fersiwn derfynol o'r adroddiad i'r Cyngor Llawn.
- 3.8. Er mwyn cwrdd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae angen i ni adrodd ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud i gyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf ac yn benodol yr amcanion llesiant sydd wedi eu mabwysiadu gennym. O ganlyniad, fe welir bod yr amcanion llesiant y mae prosiectau a gwaith dydd i ddydd yr Adrannau yn cyfrannu tuag atynt wedi eu hamlygu yn yr adroddiad.
- 3.9. Mae'r adroddiad drafft a gyflwynir yn **Atodiad 1** wedi ei gyflwyno yn yr un fformat a'r arfer ond y bwriad yw paratoi fersiwn wedi ei ddylunio ar gyfer ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn. Oherwydd amserlen dynn nid yw wedi bod yn bosibl gwneud y gwaith dylunio ar yr adroddiad cyfan ond ceir enghraifft o'r clawr a chynnwys ar gyfer yr Adran Plant a Theuluoedd yn **Atodiad 2**.

4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 4.1. Bydd y Cyngor yn trafod ac yn derbyn, neu beidio, yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 1af o Hydref 2020. Pan fydd yr adroddiad terfynol wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor bydd yn cael ei gyhoeddi.
- 4.2. Trefnir hysbysu'r cyhoedd o'r adroddiad drwy gyfathrebu'r adroddiad a'r prif lwyddiannau yn weledol ar gyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â thrwy argraffu a rhannu copïau drwy gyfryngau a lleoliadau arferol y Cyngor e.e. llyfrgelloedd.

Barn y Swyddogion Statudol

Y Swyddog Monitro:

Mae adroddiad ar berfformiad ac allbynnau Cynllun y Cyngor yn rhan o gyfundrefn llywodraethu priodol. Mae hefyd yn cyfarch dyletswydd y Cyngor i adrodd yn flynyddol ar berfformiad dan Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac ar gyrhaeddiad yn erbyn yr Amcanion Llesiant fel y nodir yn yr adroddiad.

Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf wedi cydweithio gyda'r awdur i baratoi'r agweddau a ffigyrau ariannol sy'n yr Adroddiad Perfformiad a'i atodiadau, ac rwy'n cadarnhau cywirdeb y cynnwys perthnasol (mae'r ffigyrau ariannol yn gyson gyda'r Datganiad o Gyfrifon 2019/20). Roedd y Cyngor wedi cyflawni llawer ar 'daith' 2019/20 cyn yr argyfwng diweddar, tra'n isafu'r effaith niweidiol o doriadau grant y Llywodraeth, wrth gyflawni £29miliwn o arbedion dros y 5 mlynedd diwethaf (gweler tudalen 58).



Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd 2019/20 **DRAFFT**



Cynnwys

Cynnwys	Tudalen
Rhagair Arweinydd Cyngor Gwynedd	2
Cyflwyniad	3
Ein Gwariant	6
Rhan 1 - Blaenoriaethau Gwella	7
Rhan 2 - Adroddiadau'r Adrannau	
Addysg	31
Oedolion, Iechyd a Llesiant	34
Plant a Chefnogi Teuluoedd	37
Economi a Chymuned	40
Prifffyrdd a Bwrdeistrefol	43
Tai ac Eiddo	46
Amgylchedd	49
Ymgynghoriaeth Gwynedd	53
Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth	56
Cefnogaeth Gorfforaethol	59
Gwasanaeth Cyfreithiol	63

Os ydych chi angen y ddogfen yma mewn iaith neu fformat arall
ffoniwch 01766 771000 neu ebostiwch cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru



Graffeg "designed
by Freepik"

Os ydych chi angen mwy o wybodaeth am yr
Adroddiad hwn cysylltwch â Thîm Cefnogi Busnes
y Cyngor drwy ffonio 01766 771000
neu cynlluncyngor@gwynedd.llyw.cymru

RHAGAIR YR ARWEINYDD

Bydd y Rhagair i ddilyn ar ôl cyfarfod y Cabinet ar 15/09/2020.

Cyflwyniad

Cyhoeddodd y Cyngor 'Gynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023' ym mis Mawrth 2018 sy'n gosod ein huchelgais a'n blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod dan sylw. Mae'r adroddiad hwn yn adrodd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y blaenoriaethau hynny ar draws y Cyngor yn ystod 2019/20.

Daeth diwedd 2019/20 ag argyfwng Covid-19 i'n taro, a bu holl ymdrechion Adrannau'r Cyngor yn cael eu cyfeirio tuag at ymateb i'r argyfwng o ganol mis Mawrth.

Yn ystod y cyfnod clo bu i'r Cyngor ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau yn y meysydd canlynol:

- Darparu gofal plant ar gyfer gweithwyr allweddol
- Cefnogi plant a phobl fregus
- Casglu sbwriel o dai
- Chwarae ein rhan i gefnogi busnesau
- Unrhyw beth arall sy'n hyrwyddo diogelwch cymunedol / achub bywydau.

Bu'n rhaid i'r Cyngor hefyd gyflawni rhai dyletswyddau na fyddai'n arfer ei gyflawni ac mae swyddogion ar draws amrywiol wasanaethau wedi trosglwyddo o'u swyddi arferol i gyflawni'r dyletswyddau hynny. Mae wedi bod yn galonogol gweld parodrwydd nifer fawr o unigolion i ailgyfeirio a throsglwyddo eu sgiliau er mwyn cynorthwyo oedolion bregus a theuluoedd, boed hynny fel aelod o'r Tîm Cymorth Covid o fewn y Cynllun Gwydnwch Cymunedol, gwirfoddoli o fewn y maes gofal neu gynorthwyo i sefydlu cynlluniau ar gyfer dosbarthu offer diogelwch personol i swyddogion rheng flaen. Yn amlwg bydd hyn yn parhau am beth amser i'r dyfodol.

Mae adroddiadau perfformiad y gwahanol Adrannau (rhan 2) yn amlygu'r camau cychwynnol y bu iddyn nhw eu cymryd er mwyn ymateb i'r argyfwng ar ddiwedd 2019/20. Dylid nodi hefyd y bydd adroddiadau perfformiad yn ystod 2020/21 a'r adroddiad blynyddol nesaf yn rhoi gwell darlun o'r effaith a gafodd yr argyfwng ar Adrannau'r Cyngor gan hefyd sôn am y camau a gymerwyd er mwyn ymateb.

Ceir dau ran i'r adroddiad: yn y rhan cyntaf rydym yn canolbwyntio ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni gan y prosiectau yr ydym wedi penderfynu canolbwyntio arnynt er mwyn gwneud y gwahaniaeth i gymunedau Gwynedd (ein Blaenoriaethau Gwella).

Mae ail ran yr adroddiad yn canolbwyntio ar berfformiad gwaith dydd i ddydd a ddarperir i drigolion Gwynedd gan y gwahanol Adrannau o fewn y Cyngor. Adroddir hefyd ar y Blaenoriaethau Lleol a gafodd eu hadnabod gan yr aelodau etholedig.

Fel yr ydym wedi adrodd yn y gorffennol mae ein sefyllfa ariannol fel Cyngor wedi newid cryn dipyn dros y blynyddoedd diwethaf a bydd yn parhau i osod cryn her i ni wrth gynllunio ein gwasanaethau i'r dyfodol. Rydym wedi llwyddo i gyflawni ein prosiectau a darparu ein gwasanaethau er gwaethaf gorfod wynebu toriadau sylweddol o £29m mewn grant gan y Llywodraeth ers 2013/14.



*wedi addasu ffigur 2019/20 er mwyn adlewyrchu effaith chwyddiant a throsglwyddiadau er mwyn dangos gwir effaith

Mae cynnydd Cynllun Cyngor Gwynedd yn cael ei fonitro yn gyson yn ystod y flwyddyn mewn cyfarfodydd herio perfformiad adrannol. Yn y cyfarfodydd hyn mae'r Aelod Cabinet, gyda chefnogaeth y Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, yn adolygu cynnydd prosiectau'r Blaenoriaethau Gwella a gwaith dydd i ddydd yr Adran. Yn ogystal, mae aelodau o'r Pwyllgorau Craffu perthnasol yn bresennol fel eu bod yn gallu adrodd yn ôl i weddill yr aelodau ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni.

Yn dilyn y cyfarfodydd herio perfformiad, caiff adroddiadau unigol eu paratoi gan yr Aelodau Cabinet sy'n crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran perfformiad y meysydd y maent yn gyfrifol amdanynt. Caiff yr adroddiadau hyn eu trafod mewn cyfarfodydd rheolaidd o'r Cabinet er mwyn adolygu ein gwaith yn gyson a sicrhau ein bod ar y trywydd cywir.

Yna, ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, mae Adroddiad Perfformiad Blynnyddol fel hwn yn cael ei baratoi sy'n adrodd ar gynnydd Cynllun Cyngor Gwynedd. Mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ac i'r Cyngor Llawn ar gyfer ei gymeradwyo yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf fel arfer ond oherwydd yr argyfwng Covid-19 mae wedi llithro i fis Hydref yn 2020.

Gyda dyfodiad **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)** (Y Ddeddf) mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodedig weithio'n unigol a chyda'i gilydd i wella llesiant Cymru.

Yn unol â gofynion y Ddeddf, mabwysiadodd y Cyngor saith o Amcanion Llesiant ar gyfer 2018/19 sy'n cyfrannu tuag at y saith nod llesiant cenedlaethol ac roedd y rhain ynparhau'n weithredol ar gyfer 2019/20. Mae'r amcanion yn seiliedig ar yr asesiad llesiant a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Gwynedd a Môn ynghyd â sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd wrth ddatblygu'r Cynllun.

Nodir hefyd yr angen i weithredu yn unol â'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy gan


- ystyried y tymor hir
- atal rhag digwydd
- gweithio'n integredig
- gweithio'n gydweithredol
- a chynnwys pobl o bob oed.

Mae disgwyliad arnom i adrodd ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud i gyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf a cheir gwybodaeth ynghylch nifer o'r gweithgareddau hyn yng nghorff yr adroddiad. Yn ogystal, nodir pa Amcanion Llesiant y mae prosiectau unigol yn cyfrannu tuag atynt ynghyd â gwaith dydd i ddydd yr Adrannau ar ddiwedd pob pennod.

Rydym wedi cytuno mai'r ffordd orau i wreiddio'r cyfrifoldeb am weithredu yn unol â'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy yw fod Timau Rheoli Adrannau yn talu sylw i'r egwyddorion wrth gynllunio ymlaen. Mae rhywfaint o dystiolaeth fod hyn yn digwydd ond cydnabyddir bod angen asesu os yw'r ffordd yma yn llwyddo a'i peidio. Byddwn yn parhau i edrych ar sut y gellir gwreiddio'r 5 ffordd o weithio o fewn yr Adrannau.

Amcanion Llesiant Cyngor Gwynedd	Nodau Llesiant Cenedlaethol						
	Llewyrchus	Cydnherth	Iachach	Cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu	Yn gyfrifol ar lefel byd-eang
Byddwn yn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn:							
Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel							
Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau							
Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd							
Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud							
Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl							
Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg							
Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir.							

Ein Gwariant



Blaenoriaethau Gwella

Mae 7 o Flaenoriaethau Gwella wedi eu hadnabod o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023. Rhain yw'r prif feysydd y credwn y mae angen i ni weithredu ynddynt er mwyn gwneud gwahaniaeth bositif i fywydau pobl Gwynedd. O dan y 7 Blaenoriaeth Gwella isod y mae disgrifiad o'r prosiectau fydd yn cyfrannu at wireddu'r uchelgais y mae'r Blaenoriaethau Gwella yn eu disgrifio. Ar y tudalennau nesaf ceir adroddiad ar gynnydd y prosiectau hynny yn ystod 2019/20 yn ogystal â nodi'r amcanion llesiant y maent yn cyfrannu tuag atynt.

Ceir gwybodaeth bellach ynghylch yr hyn y byddwn yn ei wneud i'r dyfodol yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023 trwy ymweld a www.gwynedd.llyw.cymru/cynllun/cyngor



Blaenoriaeth Gwella

I



Gwella'r amodau ar gyfer creu economi hyfyw a ffyniannus gan anelu at fwy o swyddi sy'n cynnig cyflogau da.

Cynllun Twf Gogledd Cymru

Blaenoriaeth Gwella I



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Ar ddiwedd 2017 bu i bartneriaeth sy'n cynnwys chwe chynghor gogledd Cymru, partneriaid busnes, colegau a phrifysgolion lansio Cais Twf Gogledd Cymru yn ffurfiol. Nod y cais yw denu buddsoddiad busnes i Ogledd Cymru, gan helpu cwmnïau lleol i fanteisio ar gyfleoedd y gadwyn gyflenwi, ac annog sgiliau cysylltiedig â gwaith yn y rhanbarth. Gallai dros 5,000 o swyddi gael eu creu, yn ogystal â busnesau a thai newydd (gan gynnwys tai fforddiadwy).

Rydym fel Cyngor yn aelod gweithgar o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) sy'n arwain ar **Weledigaeth Twf Gogledd Cymru**. I'r dyfodol, byddwn yn parhau â'n gwaith gyda'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod Gwynedd yn elwa'n deg o fuddsoddiad a ddaw i ranbarth Gogledd Cymru, ac yn parhau i gydweithio â'n partneriaid er mwyn gwneud y gorau o'r buddsoddiad hwnnw.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

- Mae BUEGC wedi ei sefydlu fel endid cyfreithiol gyda Chynghor Gwynedd yn gweithredu fel y Corff Arweiniol yn gwasanaethu'r Bwrdd
- Mae BUEGC wedi cytuno ar 5 rhaglen o brosiectau buddsoddi i greu'r seiliau i drawsnewid economi Gogledd Cymru yn cynnwys Isadeiledd Digidol; Ynni Carbon Isel; Tir ac Eiddo; Gweithgynhyrchu Uwch; Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth

- Mae manylion Penawdau'r Telerau yn nodi y bydd Cytundeb y Cynllun Terfynol ar gyfer tymor o 15 mlynedd hyd at 2035 gyda £240m o gyllid mewn rhannau cyfartal gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gyda'r potensial i ddiogelu hyd at 4,300 o swyddi, cefnogi cynnydd o 5% mewn GVA a denu £500m ychwanegol mewn buddsoddiad gan y sector preifat.

Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Derbydd addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.

Cadw'r Budd yn Lleol

Blaenoriaeth Gwella I



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am brynu nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn aros yn lleol. Yn 2017/2018, fe lwyddwyd i gynyddu'r canran o wariant lleol i 62% o'i gymharu â 58% y flwyddyn flaenorol. I'r dyfodol byddwn yn parhau â'r gwaith o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth busnesau am drefn caffael y Cyngor gan ddarganfod ffyrdd pellach i'w cefnogi i gyflawni'r gwasanaethau rydym eu hangen.

Pa gynydd wnaed yn 2019/20?

Mae'r canran o wariant lleol wedi gostwng o 60% i 57% o'i gymharu â'r ganran am y flwyddyn ariannol flaenorol. Serch y gostyngiad a'r wasgfa ariannol, llwyddwyd i wario £4m yn fwy yn ystod 2019/20 gyda busnesau lleol.

Mae'r gostyngiad o 3% ynghlwm â'r ffaith bod llai o waith cynnal a chadw wedi'i gomisiynu o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn ogystal a'r angen i gomisiynu ychwaneg o becynnau gofal preswyl i blant gan gwmni tu hwnt i ffiniau'r sir (nid oes darpariaeth lleol ar gael).

Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Creu Swyddi Gwerth Uchel (Cyflog £26,500 neu fwy)

Blaenoriaeth Gwella I



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae cyflogau isel yn nodwedd amlwg yng Ngwynedd, gyda thâl wythnosol trigolion y sir (£478) ymysg yr isaf yng Nghymru, a thâl isel ar ei waethaf yn ein cymunedau gwledig (£418), sef yr ail isaf yn y Deyrnas Unedig.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yw gweithio gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i greu mwy o **swyddi gwerth uchel**. I'r dyfodol, byddwn yn parhau i geisio creu'r amodau i ddenu buddsoddiad i mewn i safleoedd strategol megis Atomfa Trawsfynydd, Maes Awyr Llanbedr a Pharc Bryn Cegin/Parc Menai. Rydym yn targedu sectorau sy'n talu'n dda trwy greu amgylchedd sy'n cefnogi busnesau newydd a thyfu busnesau presennol, a sicrhau fod y gweithlu lleol yn gallu manteisio ar y cyfleoedd sy'n bodoli.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

- Darbwyllwyd perchnogion Atomfa Trawsfynydd i barhau i ddadgomisiynu'r safle. Gyda chytundeb y Trysorlys, bydd hyd at tua 250 o swyddi da i bobl Gwynedd yn cael eu gwarchod o ganlyniad.
- Y gwaith o greu gofod gwaith safonol i 31 o fusnesau bach a chanolig all arwain at 165 o swyddi i bobl Gwynedd wedi cychwyn yng Nghanolfan Awyrfod Eryri yn Llanbedr.
- £850,000 wedi ei sicrhau i ymchwilio i ddatblygu porth gofod yn y dyfodol ar safle Canolfan Awyrfod Eryri ac i brofi defnyddio dronau i gludo diffibrilwyr i gymunedau gwledig
- Y cynllun STEM Gogledd wrthi'n paratoi 150 o bobl ifanc Gwynedd i fod yn barod ar gyfer y swyddi gwerth uwch fydd yn deillio o'r cynllun yn y dyfodol.

Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Arloesi Gwynedd Wledig

Blaenoriaeth Gwella I



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae natur ein heconomi wledig yn golygu mai un person yn unig sy'n gweithio yn 78% o fusnesau Gwynedd, ac mae gormod o waith o fewn sectorau nad ydynt yn talu'n dda. Mae hyn yn arwain at fygythiadau o ran cynaladwyedd ein cymunedau gwledig.

Mae sicrhau cysylltedd ddigidol i'n cymunedau gwledig, a bod gan y gweithlu a busnesau gwledig y sgiliau i fanteisio arnynt, yn fater sydd angen ymateb iddo os ydym am sicrhau cymunedau llewyrchus.

Rydym eisoes wedi denu £4miliwn o arian Rhaglen Datblygu Gwledig i Wynedd i ddatblygu dulliau arloesol o weithio, gan dreialu nifer o syniadau newydd cyffrous. Gallwn symud ymlaen bellach i ddatblygu ein prosiectau fydd yn annog arloesedd yn y sectorau traddodiadol (megis amaeth a thwristiaeth), a gwella isadeiledd ddigidol cymunedau gwledig. Byddwn yn parhau i gydweithio â Grŵp Llandrillo Menai a'r sector breifat er mwyn sefydlu hwb arloesi gwledig yng Nglynllifon fydd yn arwain ar y gwaith. Byddwn hefyd yn cydweithio gyda siroedd Môn, Ceredigion a Sir Gâr i ddysgu sut ellid datblygu'r economi wledig a thrwy hynny gynnal yr iaith Gymraeg. Rydym hefyd yn dylanwadu a lobïo yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ar ran anghenion Gwynedd wledig.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

- Cyflawnwyd rhaglen o weithgareddau i ddatblygu'r economi er mwyn cefnogi'r Gymraeg gan gynnwys grantiau i fusnesau a gweithgaredd i annog pobl ifanc i aros yn yr ardal. Bydd 88 o swyddi i bobl Gwynedd yn cael eu creu o ganlyniad i'r gwaith
- Gweithiwyd yn agos gyda Grŵp Llandrillo Menai i ddatblygu eu cynigion i sefydlu hwb arloesedd gwledig yng Nglynllifon drwy law Cynllun Twf Gogledd Cymru
- Parhawyd i gynorthwyo pobl, mentrau a sefydliadau Gwynedd i ddarganfod ffyrdd newydd i gwrdd â'u hanghenion. Fe gymerodd 150 ran mewn gweithgareddau yn ystod y flwyddyn
- Mae sicrhau cysylltedd digidol da i Wynedd wledig wedi parhau i fod yn flaenoriaeth. Yn ystod y flwyddyn cyflwynwyd gwasanaeth wi-fi cyhoeddus mewn 8 o gymunedau, sicrhawyd arian i ymestyn y ddarpariaeth o fandean da i fwy o bobl a busnesau Gwynedd ac fe barhawyd i weithio ar gyflwyno technoleg rhyngwyd y pethe yn y sir.

Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.

Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion

Blaenoriaeth Gwella I



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae digwyddiadau cyhoeddus yn cynnig cyfle masnachol i fusnesau lleol gyflenwi neu ddarparu gwasanaethau. Mae cynnal digwyddiadau mawrion yn fodd i godi proffil Gwynedd a'i marchnata fel lle cyffrous a byrlymus i fyw, i ymweld, ac yn leoliad delfrydol i fusnesau fuddsoddi.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau i weithio i sicrhau bod busnesau lleol yn elwa o ddigwyddiadau proffil uchel, a arweiniodd at fuddsoddiad o £5.7m yng Ngwynedd yn 2018/19. Bydd hyn yn arwain at gyfleoedd i hyrwyddo'r sir, cynnydd yn nifer yr ymwelwyr, a chynnydd yn nifer y cyfleoedd i gwmnïau lleol weithio neu gynnig gwasanaethau i'r digwyddiadau.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Llwyddodd y digwyddiadau a gefnogwyd i ddenu **£5,470,143** o fuddsoddiad yn economi'r sir. Daeth y llwyddiant yma er bod Gŵyl Rhif 6 wedi ei ganslo a fyddai wedi buddsoddi o leiaf £1.5 miliwn ychwanegol yn yr economi. Arweiniodd y digwyddiadau yma at godi ymwybyddiaeth am Wynedd a chynyddu nifer yr ymwelwyr i'r sir, yn ogystal â chreu cyfleoedd i fusnesau a gwasanaethau lleol i gyflenwi'r digwyddiadau. Llwyddwyd hefyd i roi cyfle i bobl ifanc a gwirfoddolwyr i weithio neu wirfoddoli yn y digwyddiadau yma. Dyma grynoded o ganlyniadau'r cynllun:

Gwariant uniongyrchol digwyddiadau yn yr economi	£521,293
Nifer a fynychodd y digwyddiadau	110,781
Nifer a gymerodd ran yn y digwyddiadau	13,004
Cwmnïau a gafodd cyflogaeth y tu allan i Wynedd	448
Cwmnïau a gafodd cyflogaeth o Wynedd	504
Nifer o bobl ifanc a gafodd gyfle yn y digwyddiad	2,372
Nifer o wirfoddolwyr a gafodd gyfle yn y digwyddiad	1,552
Swyddi a ddiogelwyd	215
Cyfraniad Cyngor Gwynedd	£41,000
Cyfraniad Llywodraeth Cymru a ddenwyd i gefnogi digwyddiadau	£250,000

Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Hybu Canol Trefi

Blaenoriaeth Gwella I



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae canol trefi bywiog yn gallu cyfrannu'n sylweddol i lewyrch economaidd a chymdeithasol ardaloedd lleol.

Mae “stryd fawr” nifer o drefi Gwynedd angen cefnogaeth i sicrhau eu bod yn ffynnu er mwyn cynnal a chreu gwaith a darparu'r ystod o nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen

ar drigolion ac ymwelwyr. Byddwn, felly, yn parhau i weithio fel Cyngor cyfan i edrych sut allwn ni gefnogi a hwyluso adfywio canol trefi er mwyn iddynt gynnal ystod o wasanaethau i drigolion lleol ac ymwelwyr o fewn amgylchedd fywiog â naws Gymreig.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Mae'r gwaith adfywio canol trefi yn 2019-20 wedi parhau i ganolbwyntio ar y trefi blaenoriaeth. Mae dyfodiad y Bwrdd Adfywio wedi golygu fod arweiniad strategol i'r gwaith adfywio fydd yn gyfrwng effeithiol wrth gynllunio i adfywio canol trefi drwy'r Sir i'r dyfodol.

Mae'r uchafbwyntiau yn 2019-20 yn cynnwys:

Caernarfon:

- Cynnydd sylweddol yn y gwaith adeiladu i drawsnewid Cei Llechi i fod yn Unedau Artisan i grefftwyr lleol
- Dyluniadau manwl i welliannau ffisegol o amgylch y safleoedd strategol a'r Castell yn y dref
- Cefnogaeth barhaus i'r HWB wrth iddynt ddatblygu cynlluniau a chynllunio ar gyfer blwyddyn balot (20/21)
- Cyhoeddwyd 3ydd Adroddiad Meincnodi cadarnhaol a phositif i'r dref. Ymddengys fod hyder gan fusnesau y dref a bod 35% o'r busnesau yn rhagweld y byddai eu trosiant yn cynyddu dros y 12 mis nesaf
- Cydweithio gyda phartneriaid i ddatblygu pecyn marchnata i agor marchnadoedd newydd ac i ymestyn y tymor. Croeso Cymru wedi datgan cefnogaeth ariannol.

Bangor:

- Cydlynnydd Rhaglen Adfywio Bangor wedi ei benodi Mai 2019. Cais am arian refeniw £25,000 i gefnogi ymdrechion adfywio y Ddinas wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru
- Cronfa Buddsoddi mewn Eiddo (£2.16m) wedi ei sefydlu gyda chryn ddiddordeb. 4 cais yn cael ei gymeradwyo i'w cyflwyno i Banel a 37 ymholiad
- Cefnogaeth barhaus i'r Ardal Gwella Busnes aeth drwy gyfnod o newid yn y Bwrdd
- Cefnogi yr Uned Cefnogi Busnes wrth gyfathrebu gyda busnesau yn sgil y tân yn y Stryd Fawr
- Prifgynllun (*masterplan*) drafft, yn edrych ar symudedd a chysylltiadau o fewn y ddinas, wedi ei gwblhau
- Arwain ar yr agenda adfywio ehangach ym Mangor yn enwedig cynlluniau blaenoriaeth megis y Ganolfan Ddigartref, Hwb Iechyd, Nyth (Franwen) ag ati
- Y Cyngor wedi derbyn cynnig o £338,000 gan Lywodraeth Cymru i weithredu cynllun Is-Adeiledd Gwyrdd o fewn y Ddinas. Cynllun yn cael ei weithredu gan YGC.

Harlech

Arwain y Bartneriaeth Adfywio Strategol wrth adnabod cyfleon i ddatblygu cynlluniau adfywio. Gwaith 2019/20 wedi canolbwyntio ar gefnogi Awdurdod y Parc Cenedlaethol i ddymchwel adeilad Gwesty Dewi Sant.

Eraill:

- Cais am gyllideb o £2m ar gyfer cronfa ranbarthol Adeiladau Pwysig wedi ei gymeradwyo. Eiddo addas ar gyfer y gronfa wedi eu hadnabod. Cynnal trafodaethau gyda pherchnogion a darpar berchnogion eiddo amlwg yng Nghaernarfon a Bangor er mwyn datblygu eu cynlluniau
- Cynlluniau Uwchraddio Traethau Baneri Glas a Gwedd 2 Plas Heli wedi eu cwblhau.

Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

**Rhoi Treftadaeth Llechi
Gwynedd ar Waith****Blaenoriaeth Gwella I****Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae nifer o gymunedau mwyaf anghenus Gwynedd yn gyfoethog o ran treftadaeth ac yn gartref i Safleoedd Treftadaeth y Byd presennol neu arfaethedig, megis y cyn ardaloedd llechi traddodiadol.

Yn ystod 2018/19 dewiswyd yr ardaloedd llechi gan Lywodraeth San Steffan fel enwebiad nesaf y DU ar gyfer dynodiad Safle Treftadaeth y Byd UNESCO. Hefyd, sicrhawyd dros £60,000 o arian loteri i gefnogi cymunedau i elwa o'r dynodiad.

I'r dyfodol byddwn yn parhau i weithio i sicrhau statws Safle Treftadaeth y Byd i'r diwydiant llechi yng Ngwynedd. Bydd y gwaith yma'n cynnwys rhaglen o weithgareddau adfywio yn yr ardaloedd hyn fydd yn arwain at gynnydd ym mherchnogaeth trigolion o'u treftadaeth, gwell gwedd a golwg i gymunedau ac yn ansawdd y profiad i dwristiaid.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Mae 2019/20 wedi bod yn flwyddyn dyngedfennol yn natblygiad a gweithredu y cynllun yma. Mae gwaith wedi mynd rhagddi ers i'r cais gael ei gynnwys ar rhestr betrus Safleoedd Treftadaeth y Byd y DU yn 2012 i ymateb i ofynion UNESCO er mwyn paratoi cais llawn, a blynyddoedd o waith wedi cymryd lle cyn 2012 i gael y sail tystiolaeth mewn lle i fedru cychwyn y broses.

Prif uchafbwyntiau'r flwyddyn yw:

- Ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Rheolaeth Tirwedd Llechi; cynhaliwyd sesiynau galw i mewn ar draws y cymunedau llechi, holiadur ar-lein a chyswllt uniongyrchol gyda'r prif rhan-ddeiliaid

- Cyflwyno enwebiad Safle Treftadaeth y Byd i UNESCO ac ymweliad gan Helen Whatley (AS) a David Davies (AS) i'r ardal er mwyn cyhoeddi fod Llywodraeth Prydain wedi cyflwyno'r cais yn ffurfiol
- Gweithgareddau cymunedol trwy'r cynllun LleCHI yn cynnwys creu llysgenhadon ifanc, datblygu cynlluniau celf a dehongli, cefnogi digwyddiadau a perfformiadau lleol a sefydlu grwpiau budd-ddeiliaid lleol i flaenoriaethu gweithgareddau adfywio lleol
- Comisiynu darnau o waith amrywiol er mwyn cynorthwyo gyda datblygiad a rheolaeth y Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig (Canllaw Cynllunio Atodol, Strategaeth Dehongli, Canllaw Marchnata, Adroddiad Cyfleoedd a Bygythiadau i Ddatblygiad, Cynlluniau Rheolaeth Lleol)
- Cynnydd sylweddol yn ein proffil ar-lein trwy cyfrifon Facebook, Twitter ac Instagram, sylw i'r ardal mewn nifer o raglenni radio a theledu, a thrwy'r papurau newydd ac erthyglau ar y we
- Sicrhau cyllid trwy gronfa RCDF 7.1 (£69,844.10) ar gyfer gweithgareddau rheoli'r Safle Treftadaeth y Byd arfaethedig a safleoedd unigol o fewn yr ardal
- Fel rhan o ddigwyddiadau cydnabod 50 mlynedd ers cau Chwarel Dinorwig, bu i ni gydweithio â'r Amgueddfa Lechi i drefnu darlith gan yr Arglwydd Dafydd Wigley am yr ymgyrch i sicrhau iawndal i chwarelwyr a'u teuluoedd oherwydd sgil-ffeithiau llwch ar eu iechyd.

Amcanion Llesiant –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.**
- **Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**
- **Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir**

Elwa ar Dwristiaeth

Blaenoriaeth Gwella I



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Er mai Twristiaeth yw un o brif sectorau economaidd Gwynedd mae ymwelwyr yn ychwanegu'n sylweddol i'r pwysau ar isadeiledd cyrchfannau'r sir; cost sy'n cael ei ysgwyddo'n bennaf gan drigolion Gwynedd.

I'r dyfodol, byddwn yn cydweithio gyda'r diwydiant i ystyried y posibilrwydd o gael ymwelwyr i gyfrannu'n ariannol at gynnal a gwella cyrchfannau Gwynedd a chodi safonau'r sector twristiaeth. Drwy wneud hyn, byddwn yn gwella darpariaeth cyrchfannau'r sir ynghyd â chynyddu safon darpariaeth y diwydiant i ymwelwyr.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Sefydlwyd bwrdd prosiect i asesu sut y gellir ariannu blaenoriaethau twristiaeth sirol i'r dyfodol.

Comisiynwyd gwaith ymchwil annibynnol i graffu'r maes ac amlygu ymarfer da mewn ardaloedd eraill a modelau gweithredu. Cynhaliwyd arolwg ar-lein a gweithdy gyda'r sector. Cyflwynwyd eitemau i'r Tîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Craffu a chynhaliwyd dau weithdy yn ystod Chwefror 2020 gydag Aelodau Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a Bwrdd Prosiect y cynllun er mwyn adrodd ar gynnydd a chynnal trafodaeth er mwyn llunio argymhellion o ran blaenoriaethau twristiaeth 2020 – 2030.

Yn sgil Covid-19, bu oedi yn yr amserlen ond bwriedir datblygu Cynllun Twristiaeth a Rheolaeth Cychfan newydd i Wynedd yn ystod 2020.

Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir

Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu

Blaenoriaeth Gwella I



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae busnesau'r sir yn ymwneud â nifer o Adrannau'r Cyngor neu yn derbyn gwasanaeth ganddynt, gan gynnwys trethi, cynllunio, safonau masnach, rheolaeth adeiladu a chaffael. Drwy fabwysiadu dull gweithredu sy'n rhoi anghenion busnesau yn ganolog, ac yn ei gwneud hi'n haws i fusnesau gysylltu a chydweithio â'r Cyngor, gellid cefnogi ac annog busnesau i sefydlu a thyfu yn y sir. Yn dilyn gwaith ymchwil rydym wedi adnabod enghreifftiau o ymarfer da gan gynnwys rhaglen "Gwell Busnes i Bawb" gan Gyngor Sir Dinbych.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau gyda'r gwaith o adolygu sut mae gwasanaethau'r Cyngor i fusnesau yn cael eu darparu er mwyn ystyried a oes lle i wella ac yn gweithredu ar unrhyw wersi ddaw i'r amlwg i sicrhau fod busnesau yn cael eu cynorthwyo i ffynnu. Byddwn hefyd yn cefnogi datblygu Rhwydwaith Busnes Gogledd Cymru gan gydweithio â phartneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat ar draws y rhanbarth.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

- Cynnal a dadansoddi arolwg barn gan fusnesau ynglŷn â gwasanaethau'r Cyngor.
- Adnabod a cytuno meysydd cychwynnol i wella'r gwasanaeth i fusnesau gan gynnwys y maes Rheoleiddo a gwella ymgysylltiad y Cyngor gyda busnesau
- Cyfranogi at drafodaeth rhanbarthol ynglŷn â gwella'r darpariaeth cefnogaeth busnes ar draws y Gogledd.

Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.

Cynllun Prentisiaethau

Blaenoriaeth Gwella I



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu gweledigaeth genedlaethol ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion datblygu sgiliau hanfodol yng Nghymru a'r economi ehangach, adnabod y meysydd blaenoriaeth a sut y bydd prentisiaethau yn rhan annatod o wireddu hynny.

Mae'r Cyngor eisoes wedi adnabod meysydd addas ar gyfer sefydlu prentisiaethau ac wedi clustnodi cyllid er mwyn gwireddu'r cynlluniau hynny am y ddwy flynedd nesaf. Yn ystod 2019/20 byddwn yn sefydlu Cynllun Prentisiaethau fydd yn cyflogi o leiaf 20 prentis o'r newydd.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Llwyddwyd i benodi 17 prentis yn ystod 2019/20. Yn sgil y ffaith bod canran uwch na'r disgwyl o'r gost cyflogi wedi'i ysgwyddo gan yr adrannau ble lleolir y prentisiaid presennol, bydd yr hyn sy'n weddill o'r gronfa a gymeradwywyd gan y Cyngor yn caniatáu i ni recriwtio tu hwnt i'r 20 a gyllidwyd ar ei gyfer yn wreiddiol.

Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



Blaenoriaeth Gwella

2



Sicrhau fod pob disgybl yn cael y cyfle i gyflawni ei botensial drwy sicrhau fod gennym gyfundrefn addysg gynaliadwy, sy'n darparu cyfleoedd datblygu perthnasol i bawb waeth beth yw eu cefndir neu ymhle y maent yn byw.

**Dalgylch Bangor, Dalgylch y Berwyn
(Y Bala), Dalgylch Treforthyr
(Cricieth), Darpariaeth Ôl-16**

Blaenoriaeth Gwella 2



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Er mwyn i blant a phobl ifanc Gwynedd gael eu haddysgu yn yr amgylchedd dysgu gorau posib rydym yn cynllunio a gwireddu prosiectau arloesol i addasu ysgolion, neu adeiladu ysgolion newydd.

Byddwn yn parhau, neu'n cychwyn gwaith i wella'r ddarpariaeth addysg a'i safonau yn **Nalgylch Bangor, Dalgylch y Berwyn a Dalgylch Trefferthyr**. Byddwn hefyd yn ystyried rhinweddau'r **Ddarpariaeth Ôl-16** presennol ar draws y sir er mwyn gweld sut y bydd yn gallu wynebu cyfleoedd a heriau'r dyfodol.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Ysgol Godre'r Berwyn

Yn dilyn buddsoddiad sylweddol gwerth £10.27 miliwn, agorwyd Ysgol Godre'r Berwyn yn swyddogol ym mis Medi 2019. Mae'r ysgol ardal newydd hon wedi ei lleoli ar gyn safle Ysgol y Berwyn yn y Bala ac yn darparu addysg i ddisgyblion rhwng tair ac 19 oed. Yn ogystal, mae'r campws yn cynnwys llyfrgell gyhoeddus, ynghyd ag adnoddau pwrpasol ar gyfer y celfyddydau sy'n cynnwys stiwdio ddawns a theatr sydd â thaflunydd digidol i ddangos ffilmiau.

Trefferthyr

Mae'r Cyngor wedi penderfynu adeiladu ysgol gynradd newydd yn nalgylch Trefferthyr, Cricieth fel canlyniad i gyflwr gwael yr adeilad presennol. Yn 2019/20 bu inni adnabod safleoedd posib ar gyfer yr ysgol gan gynnal nifer o gyfarfodydd gyda chynrychiolaeth o Ysgol Trefferthyr er mwyn cytuno ar anghenion yr ysgol ac adnabod y lleoliad gorau ar ei chyfer.

Bangor

Rydym wedi adolygu'r ddarpariaeth addysg gynradd ym Mangor, ac mae'r Cabinet wedi cymeradwyo cynllun gwerth £12.7m. Fel rhan o'r cynllun hwn, bydd ysgol newydd i 420 o ddysgwyr yn cael ei hadeiladu ar gyfer Ysgol y Garnedd a bydd safle ac adeilad presennol Ysgol y Faenol yn cael ei addasu ar gyfer 315 o ddysgwyr ac yn cynnwys gofod cymunedol. Yn ystod 2019/20, bu i'r gwaith adeiladu fynd rhagddo yn dda ar safle Ysgol y Garnedd, gyda chontractwyr yn cychwyn ar safle Ysgol y Faenol ym mis Ebrill 2020.

Ôl-16

Mae gwaith maes a oedd yn cynnwys mewnbwn rhan-ddeiliaid allweddol er mwyn ystyried rhinweddau'r gwahanol ddarpariaethau sy'n weithredol ar hyn o bryd, ynghyd â'r cyfleoedd a'r heriau i'r dyfodol, bellach wedi ei gwblhau. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd gyda rhan-ddeiliaid megis penaethiaid ac aelodau etholedig Arfon.

Yn eu cyfarfod ar 10 Mawrth 2020, derbyniwyd caniatâd gan y Cabinet i ddechrau trafodaethau lleol ynglŷn â'r cyfleoedd i wella'r ddarpariaeth ôl-16 yn Arfon. Gobeithir cychwyn trafodaethau ffurfiol yn yr hydref gyda'r penaethiaid uwchradd yn gyntaf, gan ddilyn gyda grŵp ehangach o ran-ddeiliaid.

Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Cryfhau Arweinyddiaeth

Blaenoriaeth Gwella 2



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae angen i ni **Gryfhau Arweinyddiaeth** yn ein hysgolion er mwyn creu yr amgylchiadau gorau i'n dysgwyr gael y profiad dysgu gorau posib. Byddwn yn datblygu cyfeiriad a chynlluniau clir ar gyfer pob haen o arweinyddiaeth fydd eu hangen ar ein cyfundrefn addysg yng Ngwynedd nawr ac i'r dyfodol, gan annog a hyrwyddo dysgu proffesiynol arweinwyr ar bob lefel o fewn ein hysgolion. Yn ogystal, byddwn yn adnabod a thargedu arweinwyr y dyfodol, gan sicrhau eu bod yn dilyn rhaglen briodol o ddysgu proffesiynol.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Bu i'r Adran Addysg fanteisio ar arweiniad oddi wrth gydlynnydd profiadol oedd yn rhan o'r gyfundrefn uwchradd bresennol, gan roi pwyslais arbennig ar sicrhau:

- cyfundrefn sydd wedi ei chynllunio a'i datblygu i sicrhau arweinwyr priodol ar bob lefel.
- cysondeb ar gyfer y profiad a'r cyfleoedd gorau i ddisgyblion Gwynedd
- dulliau effeithiol sy'n datblygu arweinwyr presennol
- fod amodau penodol mewn lle i alluogi arweinwyr i ffynnu

At hyn, bu'r Adran yn cynllunio, mewn cydweithrediad gyda GwE i roi trefniadau hyfforddiant perthnasol mewn lle i gefnogi datblygiad gyrfaedd arweinwyr y dyfodol, ac i hyrwyddo datblygiad proffesiynol arweinwyr presennol ein hysgolion. Fel rhan o waith y prosiect hwn, anelir i adnabod y rhinweddau, ymddygiadau a'r nodweddion sydd eu hangen ar yr unigolion er mwyn bod yn arweinwyr llwyddiannus ac i fedru ymateb i unrhyw newid i'r gyfundrefn yn y dyfodol.

Bydd cynllun cyntaf y prosiect hwn yn mynd i'r afael â phroblemau Arweinyddiaeth, Rheolaeth Ganol a recriwtio i Adrannau Craidd yn Ysgolion Meirionnydd (gan gynnwys Ysgol Eifionydd). Mae'r Adran wedi derbyn nifer o sylwadau a phryderon ynglŷn â materion penodol yn ymwneud â chynllunio'r ddarpariaeth uwchradd yn ardal Meirionnydd. Fel canlyniad, mae'r Adran wedi comisiynu dau unigolyn allanol i gynhyrchu adroddiad ar y cyd sy'n cyflwyno tystiolaeth ar heriau'r ddarpariaeth bresennol yn ysgolion uwchradd Meirionnydd, ynghyd ag adnabod cyfleoedd a datrysiadau cysyniadol ar gyfer ymateb i'r heriau hynny. Mae'r gwaith hwn yn parhau i fynd rhagddo mewn cydweithrediad gyda phenaethiaid ysgolion uwchradd Meirionnydd.

Amcanion Llesiant –

- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Rydym wedi adnabod bod angen i ni **Drawsnewid y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad**, er mwyn sicrhau fod y plant a phobl ifanc sydd ei angen yn derbyn y gefnogaeth fwyaf addas i wireddu eu potensial. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r gynhafiaeth yn y dosbarth a sut mae hyn yn cael ei drefnu, y ddarpariaeth cyn-ysgol, darpariaeth ôl-18 ac Ysgolion Arbennig.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Rydym wedi bod yn paratoi tuag at Ddeddf Anghenion Dysgu a'r Tribiwnlys Addysg Cymru (2018) a fydd yn weithredol o Fedi 2021, ac mae'r gwaith hwnnw'n parhau.

Er mwyn gwella'r ddarpariaeth i blant ifanc ag anghenion ychwanegol gwelwyd newid i'r Gwasanaeth Asesu ac Arsylwi Blynyddoedd Cynnar (ABC). Mae'r Gwasanaeth ABC bellach yn rhan o'r Gwasanaeth Integredig ADYach ac yn cynnig gwasanaeth ymestyn allan newydd yn ogystal â'i ganolfannau. Mae rhaglen hyfforddiant ar waith ar gyfer sicrhau parodrwydd lleoliadau blynyddoedd cynnar i gyfarch gofynion y Ddeddf ADY newydd. Mae 92 o leoliadau wedi derbyn hyfforddiant codi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf ADY a hyfforddiant dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sgiliau llunio proffiliau un dudalen. Mae'r wefan ADYach www.adyach.cymru wedi'i ymestyn i gynnwys adran benodol ar gyfer y blynyddoedd cynnar.

Mae Grŵp Cyswllt Awdurdod/Coleg wedi'i sefydlu i wella trefniadau trosglwyddo rhwng ysgol a choleg, paratoi'n gynnar a sicrhau bod prosesau addas yn eu lle ar gyfer gweithredu o dan Ddeddf ADY newydd. Bellach, y mae bob tîm o fewn y Gwasanaeth Integredig ADYach â map cefnogaeth tîm sydd wedi'i greu ar y cyd gyda'r Coleg i adnabod haenau o gefnogaeth i bobl ifanc Gwynedd wrth iddynt drosglwyddo i'r Coleg.

Ers Medi 2019 mae pob ysgol yng Ngwynedd yn defnyddio system ar-lein - *CDU ar-lein* - i hwyluso'r broses anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r *CDU ar-lein* yn cefnogi cydweithredu rhwng dysgwyr, teuluoedd, ysgolion a gweithwyr proffesiynol, ac yn ddull sy'n llwyr ganolbwyntio ar yr unigolyn wrth lunio Cynllun Datblygu Unigol a chynllunio'r ddarpariaeth, er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Amcanion Llesiant –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.**
- **Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**



Blaenoriaeth Gwella

3



Lleihau anghydraddoldeb o fewn y sir.

Pobl Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith

Blaenoriaeth Gwella 3



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn cynorthwyo mwy o Bobl Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith a all arwain at fuddion o ran iechyd, cyfleoedd bywyd plant a balchder mewn cymunedau, yn ogystal â chynyddu eu henillion. Mae bod y tu allan i'r byd gwaith a diweithdra yn uwch yn Arfon na'r cyfartaledd sirol, ond byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gyfres o weithgareddau fydd yn annog trigolion Gwynedd gyfan i mewn i fyd gwaith.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

- 74 o bobl Gwynedd oedd ymhlith y mwyaf eithriedig o'r llafurlu wedi eu cefnogi i waith.
- Y cynllun Cymunedau am Waith wedi ei ymestyn hyd at 2022/23 i ganiatáu mwy o bobl Gwynedd i dderbyn cymorth.
- Perthynas gref wedi ei sefydlu gyda rhai o brif gyflogwyr Gwynedd yn niwydiant twristiaeth gan gynnwys Hafan y Môr a Zip World i sicrhau cyfleoedd i bobl Gwynedd.
- Ffair Swyddi wedi ei dreialu ar y cyd gyda'r Ganolfan Byd Gwaith gan ddenu 366 o bobl Gwynedd a dros 250 o gyfleoedd gwaith ar gael.

Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Cefnogi Llesiant Pobl

Blaenoriaeth Gwella 3



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Pwrpas y prosiect yw sicrhau bod cefnogaeth ar gael i bobl i gyfarch eu hanghenion Llesiant mewn ffordd hawdd, cydlynys ac sydd ar gael yn lleol. Byddwn yn helpu pobl gyda materion amrywiol megis: anawsterau rhiantu a magu teulu, cael a chynnal cartref, cynnal perthnasau iach, delio gyda chamddefnyddio sylweddau ac alcohol, trais, troseddu ac effeithiau hynny,

byw'n iach ac actif, incwm annigonol a diffyg gwaith, methu aros mewn addysg, diffyg cymwysterau a sgiliau sylfaenol, gofalu, heneiddio, unigrwydd a diffyg cysylltiadau cymdeithasol.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Mae'r Bwrdd Cefnogi Pobl wedi sefydlu'r cyfeiriad ac wedi cadarnhau'r ffrydiau gwaith i'w cyflawni yn ystod y flwyddyn sydd wedi cynnwys :-

- Mapio drysau ffrynt y Cyngor a'r Llwybrau Ataliol Lleol er mwyn gweld sut allwn wella ein trefniadau a darparu cefnogaeth i drigolion mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw
- Dilyn siwrne trigolion drwy ein gwasanaeth i ddeall eu profiadau, a be sy'n bwysig iddyn
- Cysylltu systemau TG y cyngor i adnabod trigolion bregus
- Adolygu ein grantiau ataliol (10 ohonynt) i adnabod
- Dadanosddi trefniadau cefnogi pobl mewn cymuned benodol drwy'r Parth Plant yn Gyntaf, sef Maesgeirchen, ar y cyd gyda teuluoedd a gweithwyr rheng flaen. Treialu dulliau newydd o weithio yn y gymuned honno.

Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Strategaeth Cefnogi Teuluoedd

Blaenoriaeth Gwella 3



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Bydd cynnig cefnogaeth i rai teuluoedd cyn i faterion ddwysau yn hanfodol er mwyn eu helpu i ffynnu ac i leihau'r angen am wasanaethau mwy dwys. Rydym eisoes wedi mapio'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i deuluoedd, ac i'r dyfodol byddwn yn parhau i ddatblygu'r **Strategaeth Cefnogi Teuluoedd** ar y cyd gyda'n partneriaid allweddol, megis y Bwrdd Iechyd, gwasanaethau'r trydydd sector, a chymunedau Gwynedd.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Yn dilyn o'r gwaith mapio rydym wedi cwblhau y gwaith o newid ein trefniadau cyfeirio, adolygu ein darpariaethau, ynghyd â chomisiynu a darparu ymyraethau newydd i ymateb i anghenion a bylchau. Rydym hefyd wedi cychwyn ar sefydlu Cynllun Rhiantu ar draws y Cyngor a'n partneriaid. Mae gwaith y Strategaeth bellach wedi ei drosglwyddo i waith dydd i ddydd yr adran a byddwn yn canolbwyntio ar adnabod a gweithredu ar gyfleon i integreiddio ymhellach gyda Addysg yn rhan o'r agenda Cefnogi Llesiant Pobl.

Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Merched Mewn Arweinyddiaeth

Blaenoriaeth Gwella 3



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn adolygu'r amodau a'r amgylchedd gwaith er mwyn sicrhau ein bod yn flaengar yn annog **Merched Mewn Arweinyddiaeth** ac yn adnabod a cheisio dileu unrhyw rwystrau all fod yn atal merched rhag cyrraedd swyddi arweiniol a rheolaethol o fewn y Cyngor.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Sefydlwyd Grŵp Prosiect sy'n cynnwys aelodaeth o ferched a dynion ar draws y Cyngor, gan gynnwys Aelodau Etholedig.

Trefnwyd gweithdai i reolwyr ac arweinyddion tîm benywaidd a gwrywaidd fel cam cychwynnol er mwyn cyflwyno'r prosiect i'r gweithlu ac er mwyn canfod barn. Defnyddiwyd cynnwys trafodaeth y gweithdai a'r adborth i gyfrannu at lunio cynllun gweithredu. Mae'r cynllun gweithredu wedi'i gytuno arno ac yn cynnwys y prif weithredoedd canlynol:

1. Cyflwyno Rhaglen Datblygu Potensial i ferched yn y Cyngor.
2. Adolygu trefniadau recriwtio a phenodi.
3. Creu fforwm / cyfleoedd i ferched y Cyngor ymgynnull i drafod materion penodol a godwyd yn y gweithdai.

Amcanion Llesiant –

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



Blaenoriaeth Gwella

4



Sicrhau mwy o gyflenwad o dai addas ar gyfer ein trigolion.



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn gweithredu **Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd 2019-24** gan gymryd y camau i sicrhau fod pobl Gwynedd yn gallu canfod cartref addas, nad oes neb yn ddigartref, a bod anghenion ieuchyd a llesiant yn cael eu cyfarch. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y cartrefi hyn yn gyfeillgar i'r amgylchedd ac ein bod yn cynnig gwasanaethau ataliol, di-dor ar lefel leol.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Ers sefydlu'r adran newydd fis Medi 2019, mae'r gwaith wedi cychwyn ar drosi'r Strategaeth hon yn Gynllun Gweithredu Tai, sef cyfres o brosiectau penodol a fydd yn anelu i gynyddu'r cyflenwad tai fforddiadwy a'r opsiynau cartrefu fydd ar gael i bobl Gwynedd. Mae'r prosiectau hyn eisoes wedi cael eu craffu gan y pwyllgor Craffu Gofal ac wedi eu herio'n fwy manwl gan Weithgor o'r Pwyllgor hwnnw. Mae heriau ymateb i Covid-19 ar ddiwedd y flwyddyn wedi golygu bod y gwaith o gwblhau'r Cynllun Gweithredu wedi ei daro ymlaen i 2020/21.

Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



Blaenoriaeth Gwella

5



Sicrhau ein bod yn annog a hyrwyddo gallu pobl Gwynedd i fyw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg.



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn cydweithio â sefydliadau cyhoeddus eraill, drwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, i sicrhau ein bod yn arloesi yn narpariaeth **Y Gymraeg a'r**

Gwasanaethau Cyhoeddus yn y sir. Byddwn hefyd yn annog pobl Gwynedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg wrth ymwneud â'r sefydliadau hynny.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Rydym wedi bod yn gweithio ar ddatblygu defnydd o'r Gymraeg o fewn y Timau Integredig / Timau Adnoddau Cymunedol, sy'n cynnwys staff Cyngor Gwynedd a'r Gwasanaeth Iechyd. Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud yn y maes yma drwy brosiect Arfer, gyda 5 sefydliad cyhoeddus (gan gynnwys Cyngor Gwynedd) yn cymryd rhan mewn gwaith ymchwil er mwyn cynorthwyo i newid arferion ieithyddol mewn timau cymysg eu hiaith.

Amcanion Llesiant –

- [Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.](#)

Busnesau Gwynedd yn Defnyddio'r Gymraeg

Blaenoriaeth Gwella 5



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn annog **Busnesau Gwynedd i Ddefnyddio'r Gymraeg**, ac i weld y budd o gyfathrebu'n ddwyieithog wrth gynnig gwasanaeth. Byddwn yn ystyried sut orau all y Cyngor hyrwyddo hyn a sut fedrwn ni a sefydliadau eraill ddylanwadau fwyaf effeithiol ar ddefnydd busnesau a'u cwsmeriaid o'r Gymraeg.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Er mwyn hybu busnesau i ddefnyddio'r Gymraeg mae'r tîm iaith a chraffu yn monitro cynnydd a datblygiadau sawl prosiect ac yn rhoi mewnbyn a chynghor yn ôl yr angen. Enghraifft o hyn yw cynllun Arfor. Mae Hunaniaith (Menter Iaith Gwynedd) hefyd wedi bod yn cydweithio gyda busnesau er mwyn cynnal a hyrwyddo cystadlaethau addurno ffenestri siop neu helpa drysor sy'n hybu'r Gymraeg. Mae sylw hefyd wedi ei roi i gydweithio ymhellach gyda Swyddog Gymraeg Byd Busnes Gwynedd a Môn.

Amcanion Llesiant –

- [Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.](#)

Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor

Blaenoriaeth Gwella 5



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau i drigolion ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ein bod yn gweithredu'n fewnol drwy gyfrwng y

Gymraeg. Mae'n waith parhaus i **Hybu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor**, a bydd pwyslais y cyfnod nesaf ar weithio gyda gwasanaethau rheng-flaen i ddatblygu sgiliau staff newydd a chyfredol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gynnig pob agwedd ar ein gwasanaethau yn gwbl ddwyieithog.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Llwyddwyd i asesu cyraeddiadau iaith 3,312 o staff yn erbyn y dynodiad iaith ar gyfer eu swyddi. Cadarnhawyd bod 3,070 (92.7%) o'r unigolion hynny yn cyrraedd gofynion iaith ei swydd yn llawn gyda 242 (7.3%) yn cael eu hadnabod fel rhai y byddai'n elwa o hyfforddiant iaith pellach. Trefnwyd yr hyfforddiant ar gyfer nifer helaeth o'r unigolion hyn ac mae enghreifftiau niferus o sut mae'r prosiect wedi llwyddo i gyflawni ei nod o gynorthwyo staff i gyrraedd gofynion eu swyddi a gwella safon eu Cymraeg llafar ac ysgrifenedig. Ymhellach, adolygwyd trefniadau ar gyfer recriwtio a phenodi er mwyn egluro'r gofynion iaith ar gyfer swyddi yn well.

Amcanion Llesiant –

- [Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.](#)

Strategaeth/Siarter Iaith Uwchradd

Blaenoriaeth Gwella 5



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn datblygu ar waith arloesol y Siarter Iaith i ysgolion cynradd drwy ymestyn y gefnogaeth i **Strategaeth Iaith Uwchradd**. Nod y strategaeth yw hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg pobl ifanc o fewn y cwricwlwm ac yn gymdeithasol. Bydd gan bob ysgol uwchradd gynllun gweithredu unigol ac unigryw fydd yn adlewyrchu cyd-destun ieithyddol yr ysgol a'r gymuned o'i hamgylch.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Yn ystod y flwyddyn, sefydlwyd model clwstwr gan GwE ar draws rhanbarth y gogledd ym maes y Gymraeg. Yn sgil y model clwstwr, bu cydweithio rhwng yr ysgolion cynradd ac uwchradd ymhob dalgylch i gyflwyno a gweithredu cynlluniau clwstwr ar gyfer hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymysg pobl ifanc o fewn y cwricwlwm ac yn gymdeithasol.

Cychwynnwyd ar brosiect peilot gydag Ysgol Bro Idris, oedd yn edrych ar arferion defnydd iaith plant wrth drosglwyddo o CA2 i CA3, gan ymweld â hwy yn eu hwythnosau olaf ym mlwyddyn 6 ar y safleoedd cynradd, ac yna ymweld â hwy ar ddiwedd eu hanner tymor cyntaf ar y safle uwchradd. Y bwriad oedd cynnal astudiaeth achos fyddai'n canolbwyntio ar agweddau tuag at iaith wrth iddynt aeddfedu a cheisio adnabod cyfnodau pryd y gwelir newidiadau amlwg yn eu hymagweddau.

Drwy gyfrwng holiadur, sefydlwyd gwaelodlin o ddarpariaeth y Gymraeg ar draws y cwricwlwm ymhob ysgol uwchradd ar gyfer CA3, CA4 a CA5. Yn yr un modd sefydlwyd gwaelodlin o sefyllfa sgiliau iaith o blith gweithwyr yr ysgolion uwchradd, a chychwynnwyd

ar y broses o adnabod yr anghenion hyfforddiant ac unrhyw gefnogaeth angenrheidiol er mwyn cynyddu hyder a sgiliau'r gweithlu yn y Gymraeg.

Amcanion Llesiant –

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.



Blaenoriaeth Gwella

6



Sicrhau fod gennym wasanaethau gofal sy'n helpu pobl i fyw eu bywydau fel y dymunant.

Gwydnwch Cymunedol

Blaenoriaeth Gwella 6



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Cydweithio gyda chymunedau i gynorthwyo pobl i fyw yn annibynnol o fewn eu cymunedau cyn hired ag sy'n bosibl. Roedd gwaith eisoes yn mynd rhagddo er mwyn cynyddu'r opsiynau gofal i bobl o fewn eu cymunedau, gan gysylltu'r rhai sydd angen cymorth gyda gwasanaethau, adeiladu ar gryfderau unigolion, adnabod bylchau sy'n bodoli a thrwy hynny hybu gweithgarwch cymunedol.

Nodwyd ein bwriad i barhau gyda'r gwaith hwn gan geisio gwella ein dealltwriaeth o anghenion ein poblogaeth ar lefel lleol a'r ffordd orau i ymateb i hynny.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Rydym wedi mapio ac adnabod bylchau mewn gwasanaethau a grwpiau ac wedi gweithio i hybu mentrau cymunedol. Mae enghreifftiau'n cynnwys sefydlu Cynllun Trafnidiaeth Gymunedol Dyffryn Nantlle, gwasanaeth Pryd ar Glud Blaenau Ffestiniog, Shed Ddynion Pwllheli a chydweithio ag Antur Waunfawr ar gyfleon i gynnwys pobl hŷn ynysig mewn gweithgareddau yn eu hardal.

Fel rhan o'n hymdrechion i gefnogi unigolion â'u lles meddyliol a hyrwyddo iechyd meddwl positif, lansiwyd ail fersiwn llyfryn 'Edrych ar ôl fy hun' er mwyn rhannu syniadau ymarferol. Rydym hefyd wedi cydweithio gydag Uned Celfyddydau Adran Economi a Chymuned y Cyngor i sefydlu prosiect 'Celfyddydau ar Bresgripsiwn' yma yng Ngwynedd er mwyn hybu effaith positif y celfyddydau ar iechyd meddwl. Cafwyd trafodaethau cychwynnol gyda partneriaid perthnasol ynghylch sut i fynd i'r afael â materion iechyd meddwl a llesiant dynion hefyd, a bwriedir parhau â'r rhain wedi i'r sefyllfa wella'n dilyn argyfwng covid-19.

Ym maes Anableddau Dysgu, mae'r tîm llesiant wedi sefydlu amryw o ddigwyddiadau a grwpiau sy'n helpu cyfarch anghenion llesiant nifer fawr o unigolion o fewn y gwasanaeth. Er enghraifft, ymunodd dros 100 o unigolion o bob cwr o Ogledd Cymru mewn twrnament pêl-droed cerdded, ac roedd y nifer oedd yn mynychu 'Canfod y Gân' yn parhau i dyfu. Mae'r cyfleon hyn yn creu lot o gysylltiadau a ffrindiau newydd, gan hefyd roi cyfle i'r tîm llesiant a'r gweithwyr cymdeithasol adnabod unrhyw fewnbwn pellach sydd ei angen ar yr unigolion.

Mae hi'n hollbwysig fod gwahanol oedrannau a chefnidiroedd yn cyd-fyw a chymysgu yn ein cymunedau ac mae cynllun Pontio Cenedlaethau yn ffordd o sicrhau hyn drwy annog cyddrafod am yr hyn y dymuna bobl weld yn eu hardaloedd, a chynnwys pawb mewn datblygiadau newydd. Mae sawl enghraifft ar waith drwy'r sir lle mae ysgolion a cholegau'n partneriaethu gyda lleoliadau gofal o fewn eu cymunedau (e.e Ysgol Glancegin gyda Chanolfan Ddydd Plas Hedd). Mae'r budd yn amlwg, gyda'r plant yn gweld fod y profiad yn llesol i'w sgiliau cymdeithasol a'r oedolion yn mwynhau teimlo eu cyfraniad i'r gymuned. Gwnaethom hefyd gynhyrchu llawlyfr Pontio'r Cenedlaethau i annog ysgolion i gyfeillio â chartrefi gofal neu gymdeithasau lleol er mwyn gweld yr un buddion.

Yn sgil argyfwng covid-19 a ddaeth i'n taro yn ystod chwarter ola'r flwyddyn, cyfrannodd yr adran at ymdrech y Cyngor i sefydlu llinellau cymorth Covid o fewn y 5 ardal gofal er mwyn cefnogi'r unigolion fwyaf bregus yn ein cymunedau'n ystod cyfnod 'gwarchod' y Llywodraeth. Byddwn yn adrodd ar ganlyniadau'r gwaith yma yn ein hadroddiadau perfformiad yn ystod 2020-21.

Amcanion Llesiant –

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**

Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal

Blaenoriaeth Gwella 6



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Ail-ddylunio ein Gwasanaethau Gofal ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd a phartneriaid trydydd sector er mwyn sicrhau bod gan oedolion sy'n byw yng Ngwynedd fynediad hawdd ac uniongyrchol at wasanaethau sy'n bwysig iddynt.

Roeddem am barhau i drawsffurfio gwasanaethau cymunedol i alluogi mwy o ymatebion cynnar ac ataliol ar lefel lleol. Roeddem hefyd am arbrofi â dulliau newydd o ddarparu pecynnau gofal cartref a chydgyllunio gwasanaethau anableddau dysgu. Roeddem am weld trefniadau gadael yr ysbyty effeithiol sy'n cyd-fynd â'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn, ac roeddem am barhau i fuddsoddi yn ein cartrefi preswyl, a sicrhau gofal addas i unigolion mewn argyfwng iechyd meddwl.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Mae'r tîm Trawsffurfio sy'n gweithio ar draws Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn parhau i ddarparu arweiniad a chefnogaeth i adnabod a

dileu rhwystrau i weithio yn integredig, gyda'r nod o greu un pwynt cyswllt am wybodaeth a chynghor o fewn ardal benodol, a sicrhau mai un person sy'n cydlynu gofal unigolyn.

Rydym wedi bod wrthi'n ehangu'r gwaith o beilota'r ffordd newydd o gomisiynu a darparu gofal cartref ar draws y sir. Mae'r model newydd ar sail is-ardaloedd, a'r bwriad yw y bydd yn sicrhau fod yr holl asiantaethau ac unigolion perthnasol yn dod ynghyd i weithio'n fwy effeithiol yn lleol.

Mae gwaith wedi'i gynnal yn Ysbyty Gwynedd i gryfhau trefniadau dychwelyd adref a byddwn yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd yn ystod argyfwng covid-19 i adeiladu ar y trefniadau dechreuol gan sicrhau bod y model cywir yn cael ei ddatblygu wrth symud ymlaen.

Yn dilyn gwaith i ddatblygu darpariaeth arbenigol dementia o fewn cartrefi mewnol y Cyngor, mae unedau dementia newydd wedi agor yn Nhywyn, Nefyn a Bangor ac mae'r buddsoddiad wedi gwella ansawdd gofal a'r amgylchedd i breswylwyr. Er bod yr amserlen i gwblhau'r uned yn Llan Ffestiniog wedi llithro, mae'r gwaith wedi parhau yn ystod 2019/20 gyda'r nod o agor yn 2020/21. Yn ystod y flwyddyn datblygwyd cynlluniau pellach ar gyfer Dolgellau a'r Bermo a bydd rhain yn cael eu gweithredu yn ystod 2020/21.

Rydym wedi gwneud gwaith i geisio mesur effaith ein hymdrechion yn y Gwasanaeth Anableddau Dysgu lle y bydd ein perthynas ag unigolion yn aml yn un hir dymor. Rydym hefyd wedi datblygu uned gofal ysbaid arbenigol Tan y Marian, Pwllheli. Mae rhaglen waith hanfodol yn mynd rhagddi hefyd i ddatblygu hybiau cymunedol ar draws y sir i gynnig gwaith a chyfleon hyfforddi i unigolion ag anableddau dysgu, gyda siop 'Galwch Acw' a chaffi 'Cegin' bellach ar agor yng Nghaernarfon.

Yn y maes ieuchyd meddwl, rydym wedi bod yn gweithredu'r Strategaeth 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' ac mewn partneriaeth sy'n cael ei harwain gan y Bwrdd Iechyd, mae canolfannau Gallaf I (ICAN) wedi eu sefydlu i gynnig cefnogaeth cynnar i unigolion, yn y gymuned, yn agos at adref.

Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.

Y Gweithlu a Recriwtio o fewn y Maes Gofal

Blaenoriaeth Gwella 6



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae recriwtio i'r maes gofal yn heriol am amryw o resymau. Mae gennym weithlu effeithiol ac ymroddedig, ond mae'n rhaid sicrhau bod gennym ddigon o weithwyr â'r sgiliau angenrheidiol er mwyn ymdopi gyda'r angen cynyddol sy'n debygol o godi yn y dyfodol.

Roedd gwaith eisoes ar y gweill er mwyn ceisio deall beth yw'r broblem yng Ngwynedd o ran recriwtio i'r maes. Dywedom y byddem yn cyhoeddi'r canfyddiadau ac yn ystyried os oes angen gwneud rhywbeth yn wahanol neu'n ychwanegol. Dengys canfyddiadau

cychwynnol yr ymchwil ein bod ar y trywydd cywir o ran ein hymdrechion i ail ddylunio model busnes Gofal Cartref.

Nodwyd fwriad i godi proffil a statws gweithwyr gofal trwy hyrwyddo llwybrau gyrfaol yn y maes ac adolygu ein cynllun prentisiaethau o fewn y Cyngor hefyd, fel bod gyrfa o fewn gwaith gofal cymdeithasol yn ddewis gyrfa gadarnhaol.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Comisiynwyd darn o waith, gan ymgynghori'n eang, i ddeall yr her yn well ym maes gofal cartref. Yn dilyn y darganfyddiadau sefydlwyd Grŵp Recriwtio yng Ngwynedd a lluniwyd rhaglen waith er mwyn adnabod ac ymateb i'r heriau mwyaf. Mae gwaith y Grŵp Recriwtio wedi datblygu yn ystod 2019/20 i gynnwys maes plant a gofal preswyl.

Mae'r Grŵp Recriwtio yn plethu i waith y Grŵp Recriwtio Rhanbarthol a grwpiau gwaith ymgyrch cenedlaethol 'Gofalwn Cymru' er mwyn sicrhau bod dim dyblygu a'n bod yn adeiladu ar ymarfer da ar draws Cymru.

Yn ystod 2019/20 cynlluniwyd i lenwi swydd Cydlynedd Gyrfaedd Gofal Rhanbarthol gyda phenodiad llwyddiannus wedi ei wneud ym Mawrth 2020 a dyddiad cychwyn yn 2020/21. Edrychwn ymlaen i ddatblygu'r swydd ac adeiladu ar ein gwaith o sefydlu strwythurau a pherthnasau gyda'n partneriaid allweddol fel Gyrfa Cymru a DWP.

Rydym hefyd wedi bod yn gwneud gwaith i adolygu Cynllun Prentisiaethau'r cyngor i geisio dylanwadu ar y nifer o brentisiaethau sydd ar gael ym maes gofal. Rydym wedi targedu meysydd lle mae anawsterau penodol yn codi e.e. sgiliau arwain o fewn y maes gofal preswyl ac arbenigedd addas ynghyd â'r gallu i weithio'n y Gymraeg ym maes therapi galwedigaethol.

Dylid cydnabod fod argyfwng covid-19 wedi dod a heriau ychwanegol i'r maes ac i'n staff yn ystod cyfnod diwetha'r flwyddyn. Golyga hyn bod nifer o weithlu'r maes wedi addasu er mwyn ymgymryd â swyddogaethau gwahanol neu weithio mewn ffordd wahanol. Yn ystod 2020-21, byddwn yn ystyried y gwersi a ddysgwyd er mwyn siapio a chryfhau ein gwasanaethau ar gyfer oedolion bregus, gan ganolbwyntio ar gyfarch yr hyn sy'n bwysig a sicrhau cynaliadwyedd ein gwasanaethau yn wyneb argyfwng i'r dyfodol.

Amcanion Llesiant –

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



Blaenoriaeth Gwella

7



Sicrhau fod y Cyngor cyfan yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Ein cyfrifoldeb ni fel Cyngor yw sicrhau, wrth i ni ddarparu ein gwasanaethau, mai anghenion pobl Gwynedd sy'n llywio sut y byddwn yn cynnig y gwasanaeth hynny. Trwy wneud hyn fe ddylem osgoi unrhyw drefniadau gwaith diangen.

Byddwn yn adolygu ein trefniadau gwaith presennol gan herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac ystyried a oes lle i wella. Mae gwaith eisoes wedi ei wneud i hyfforddi penaethiaid, uwch reolwyr a rheolwyr yn egwyddorion **Ffordd Gwynedd**, ac mae nifer o adolygiadau gwasanaeth wedi eu cynnal neu ar waith.

Yn y dyfodol byddwn yn parhau i gynnal hyfforddiant i reolwyr newydd ac yn cefnogi gwasanaethau i gynnal adolygiadau er mwyn sicrhau fod pobl Gwynedd yn ganolog i'w gweithgareddau.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Mae Cynllun Ffordd Gwynedd diwygiedig ar gyfer y cyfnod 2019-22 wedi'i gymeradwyo a'i roi ar waith yn ystod y flwyddyn, tra bod yr hyfforddiant dwys wedi'i ymestyn i arweinwyr tîm yn ogystal â rheolwyr newydd. Ymhellach, mae gweithdai penodol wedi'u darparu ar gyfer cefnogi sawl gwasanaeth i yrru adolygiadau yn eu blaen.



Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Byddwn yn **Datblygu Arweinyddiaeth** trwy fod yn flaengar yn arfogi a miniogi sgiliau arweinwyr ar draws y Cyngor er mwyn cyrraedd y nod o roi pobl Gwynedd yn ganolog. Mae holl Aelodau'r Cabinet wedi datblygu sgiliau arwain fel unigolion ac ar y cyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, tra bod y rhan helaeth o reolwyr y Cyngor wedi cwblhau rhaglen ddatblygu sy'n canolbwyntio ar ymddygiadau arwain.

Byddwn yn parhau i gynnig cyfleon datblygu i Aelodau a rheolwyr gyda'r ffocws o arwain pobl yn hytrach na rheoli pobl yn unig. Yn ogystal bydd y 'Rhwydwaith Rheolwyr' yn cael ei ailsefydlu er mwyn rhoi cyfle i reolwyr ar draws y Cyngor i rannu arfer da a derbyn hyfforddiant.

Pa gynnydd wnaed yn 2019/20?

Cynhaliwyd dwy gyfres o sesiynau'r "Rhwydwaith Rheolwyr" yn ystod 2019/20 gyda threfniadau cadarn ar gyfer parhad y sesiynau hynny i'r dyfodol. Mae'r gwaith yma bellach wedi'i ymgorffori o fewn y prosiect o roi "Ffordd Gwynedd ar waith" ac ni fyddwn yn parhau felly i'w adnabod fel prosiect ar wahân.



Adran Addysg



Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan I, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yw sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael yr un cyfleoedd ac yn derbyn yr addysg a'r profiadau gorau posib.

Mae safonau'r Cyfnod Sylfaen yng Ngwynedd yn gyffredinol dda. Fel y rhagwelwyd yn eang, yn dilyn gweithredu'r Fframwaith Cyfnod Sylfaen newydd, gwelwyd ostyngiad yn y flwyddyn academaidd 2018-19 yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliannau disgwyledig ar hyd a lled Cymru ond roedd y cwmp yn Ngwynedd ychydig mwy na'r cyfartaledd. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) ac ym mhob Maes Dysgu. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r DCS islaw'r cyfartaledd cenedlaethol yn haf 2019 ar ôl bod yn agos i'r cyfartaledd dros y ddwy flynedd flaenorol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi yn glir mai ar gynnydd Gwerth Ychwanegol rhwng y gwaelodlin a diwedd y Cyfnod Sylfaen y dylid canolbwyntio arno wrth arfarnu cyflawniad disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen. Mae cynnydd disgyblion cyfatebol o garfan dosbarthiadau Derbyn 2017 Gwynedd rhwng y gwaelodlin a diwedd y Cyfnod Sylfaen 2019 yn dda. Mae disgwyl i ddisgyblion wneud cynnydd o 3.0 deilliant yn ystod y Cyfnod Sylfaen, gwna ddisgyblion Gwynedd gynnydd o thua 3.6 deilliant ym mhob maes. Mae'r data Gwerth Ychwanegol hwn yn cadarnhau bod ysgolion yr Awdurdod Lleol yn arddangos dull effeithiol a

chyson o gefnogi disgyblion i wneud cynnydd drwy gydol y Cyfnod Sylfaen.

Mae safonau Cyfnod Allweddol 2 yng Ngwynedd yn dda iawn. Mae canlyniadau y Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) ar ddiwedd blwyddyn 6 yn uchel - er yn adlewyrchu'r cwmp bychan a welwyd yn genedlaethol - ac yn parhau yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. O ran y pynciau yn unigol, mae canlyniadau lefelau disgwyledig yn agos iawn i'r cyfartaledd cenedlaethol.

O ran cynnydd Gwerth Ychwanegol rhwng diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae cynnydd disgyblion o garfan Cyfnod Sylfaen 2015 Gwynedd i ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 2019 yn gadarnhaol. Mae disgwyl i ddisgyblion wneud cynnydd o 2 lefel yn ystod Cyfnod Allweddol 2; ac ar gyfartaledd yng Ngwynedd fe wnaeth y disgyblion 2.13 lefel o gynnydd mewn Mathemateg a 2.01 lefel o gynnydd yn Y Gymraeg. Mae'r data Gwerth Ychwanegol hwn yn cadarnhau bod ysgolion yr Awdurdod Lleol yn arddangos dull effeithiol a chyson o gefnogi disgyblion i wneud cynnydd drwy gydol Cyfnod Allweddol 2.

Mae safonau Cyfnod Allweddol 3 yng Ngwynedd yn gadarn dda, gyda pherfformiad y dysgwyr yn y Dangosydd Pwnc Craidd (DPC) yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda gostyngiad o 1.2% o gymharu â pherfformiad 2018 (-1.9% yn genedlaethol). Roedd perfformiad carfan 2019 yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob pwnc craidd ar y lefel ddisgwyledig.

Ar gyfer Cyfnod Allweddol 4, mae'r prif ddangosydd newydd sef y sgôr Capio 9 yn cael ei gyfrifo ar gyfanswm maint naw TGAU (neu gymhwyster cyfatebol cydnabyddedig) gorau pob dysgwr. Roedd perfformiad Gwynedd yn y sgôr Capio 9, 8.1pt yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 353.3pt. Er hynny, roedd ychydig yn is na'r perfformiad disgwyledig o -1.6pt.


Yn 2019, roedd perfformiad yr 14 ysgol yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda pherfformiad 6 ohonynt yn well na'r perfformiad disgwyledig, ac yn achos 5 ohonynt yn sylweddol uwch. Ond mae perfformiad 4 ysgol yn is o'i gymharu â pherfformiad disgwyledig, gyda bylchau mewn perfformiad yn amrywio o -3 pt i - 53.7 pt.

Roedd perfformiad y disgyblion sydd â hawl am brydau ysgol am ddim (PYD) yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 298.3pt mewn 8 ysgol, ond yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn 6 arall. Mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion PYD a dim PYD yn is na'r bwlch cenedlaethol mewn 8 ysgol, ond yn sylweddol uwch mewn dwy. (Dylid cofio bod niferoedd rhai ysgolion yn isel iawn yng Ngwynedd).

Mae Estyn yn parhau i arolygu ein hysgolion, ac mae'r proffil arolygiadau ysgolion cynradd Gwynedd yn rhagorol, gyda darlun mwy cymysg yn yr ysgolion uwchradd. Yn ystod blwyddyn academiaidd 2018/19 bu i Estyn gynnal arolygiad mewn 17 ysgol yng Ngwynedd, dyfarnwyd nad oedd angen unrhyw weithredu dilynol mewn 14 o'r ysgolion a arolygwyd, gyda 2 ysgol wedi ei gosod mewn mesurau arbennig, sef y categori dilyniant mwyaf dwys, a'r llall yn y categori adolygiad Estyn. Mae'r Adran mewn cydweithrediad â GwE yn sicrhau cefnogaeth a her briodol i ysgolion penodol mewn ymateb i'r materion a amlygwyd gan Estyn.


Defnyddir proses a matrices cenedlaethol ar gyfer categoraiddio ysgolion. Mae lliw'r categoraiddio yn nodi lefel y cymorth sydd ei angen ar ysgol - gwyrdd, melyn, melyngoch neu goch (yr ysgolion yn y categori gwyrdd sydd angen y lefel isaf o gymorth, a'r rheini yn y categori coch sydd angen y cymorth mwyaf dwys). Ym mlwyddyn academiaidd 2018-19 roedd 99% o'n hysgolion cynradd a 71% o'n hysgolion uwchradd yn y categorïau gwyrdd neu felyn.

Canran presenoldeb ysgolion cynradd yn y flwyddyn academiaidd:



Mae'r gwasanaeth lles yn cefnogi ysgolion i hyrwyddo presenoldeb, ymddygiad cadarnhaol a chefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd yn profi anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu ddatblygiad cymdeithasol. Roedd presenoldeb dysgwyr yn ysgolion cynradd ac uwchradd Gwynedd yn ystod y flwyddyn academiaidd 2018/19 yn 94.8% sydd yn parhau yn gyson dda.

Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn y flwyddyn academiaidd:



Mae Cyngor Gwynedd yn rhan o Gonsortïwm Addysg ôl-16 Gwynedd a Môn, sy'n gosod cyfeiriad i ddarpariaeth ôl-16 yr ardal.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant



Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan I, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor drwy ddarparu'r gefnogaeth amserol sy'n angenrheidiol i alluogi bobl Gwynedd i fyw eu bywyd fel y maent eisiau ei fyw.


Wrth gwrs, mae'n rhaid cydnabod fod argyfwng Covid-19 wedi ein taro yn ystod chwarter olaf y flwyddyn 2019-20. Mae'r argyfwng yma, yn anochel, wedi dylanwadu ar ein gallu i ddarparu gwasanaethau i Oedolion yng Ngwynedd ac ar y data roeddem yn ganolbwyntio ar ei gasglu yn ystod cyfnod ola'r flwyddyn. Mae'n gwaith cadarnhaol iawn wedi deillio o'r cyfnod yma hefyd, yn benodol mewn perthynas â chefnogi ein cymunedau. Bydd effaith yr argyfwng ar ein gwaith yn cael ei amlygu'n gliriach yn ein hadroddiadau perfformiad yn ystod 2020-21.

Mae perfformiad yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant ar gyfer 2019/20 yn galonogol. Rydym wedi cymryd camau er mwyn datblygu'r berthynas sydd gennym gyda'n partner allweddol yn y maes, sef y Bwrdd Iechyd, yn ogystal â'n partneriaid yn y trydydd sector a thu hwnt. Rydym wedi nodi ers sawl blwyddyn ein bod ar siwrne o drawsffurfio a thra ein bod yn wynebu ambell her ar hyd y daith, rydym ar y cyfan yn gallu sefydlu amcanion sydd wedi eu cytuno ar y cyd â'r unigolion sy'n derbyn y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd yn gwreiddio yn ein gwaith.

Mae'r adran wedi gweld newid enfawr, sy'n seiliedig ar newid sylfaenol yn y ffordd yr ydym i gyd yn gweithio. Yn y **maes pobl hyn ac anableddau corfforol a synhwyrdd**, mae

5 Tîm Lleol wedi eu sefydlu, sy'n cynnwys aelodau o staff y Bwrdd Iechyd, Cyngor Gwynedd a'r drydedd sector. Y bwriad yw y bydd y timau yn gweithio i egwyddorion penodol wrth rannu'r ardaloedd yn *patches* mwy lleol, gan gynnig un person arweiniol i'r unigolyn er mwyn hwyluso eu taith drwy'r gyfundrefn gofal ac iechyd. Mae newid ein dull o weithio'n annog y diwylliant sy'n angenrheidiol i sicrhau bod staff yn naturiol fynd ar ôl "beth sydd yn bwysig" i unigolion fel y prif beth sydd yn gyrru eu penderfyniadau. Rydym yn datblygu mesuryddion i adlewyrchu'r ffordd newydd o weithio. Yn naturiol, mae cydweithio i'r un egwyddorion ar draws sefydliadau a phroffesiynau yn dod a'i heriau. Wrth i ni geisio uno diwylliant, gweithdrefnau, cyllidebau a pholisïau, a datblygu'r isadeiledd a'r dechnoleg i gefnogi ac adlewyrchu hynny, amlygir yr angen i fuddsoddi amser ac adnoddau i wireddu'r weledigaeth.

Rydym wedi adolygu'r modd yr ydym yn adrodd ar fesur pwrpas, gan ganolbwyntio ar asesu a ydym ni wedi cyflawni'r hyn sydd yn bwysig i unigolion. Rydym yn falch o nodi bod 84% o'n achosion wedi eu asesu'n erbyn y mesur hwn bellach ac mae'r darlun yn galonogol, fel y gwelir isod:



Rydym yn ystyried y rhwystrau rhag cyflawni'r hyn sy'n bwysig i rai unigolion yn barhaus gan drafod a chydweithio gyda'r unigolion a'u teuluoedd i geisio dod o hyd i opsiynau amgen sydd yn cyd-fynd â'r hyn sy'n bwysig iddynt.

Mae gwaith yn digwydd yn ogystal i wella profiadau pobl drwy gryfhau gallu ein timau cymunedol i ymateb a rhoi cefnogaeth wrth i bobl drosglwyddo o'r ysbyty i'r gymuned. Mae datblygiad y timau adnoddau cymunedol (TAC), datblygiadau cynlluniau gofal cartref yn ardal Tywyn a Nefyn, yn ogystal ag arbrawf ar Ward Ogwen Ysbyty Gwynedd, wedi gwella'r sefyllfa. Rydym wedi gweld canlyniadau cadarnhaol i'r ymdrechion ond maent wedi amlygu pwysigrwydd ymroddiad bob partner a chydweithio cadarn i sicrhau llwyddiant.

Er enghraifft, yn Ysbyty Gwynedd, treialwyd trefn lle'r oedd ein gwasanaeth gofal cartref yn ymweld â'r unigolion fyddai fel arfer yn derbyn gwasanaeth ganddynt, gan gymryd cyfrifoldeb am dynnu'r claf allan o'r ysbyty a chydlynu'r gofal. Roedd y drefn syml yma'n golygu cysondeb yng ngofal yr unigolyn a ffocws ar yr hyn sy'n bwysig iddynt, gan ddileu'r arfer o dynnu mwy o broffesiynau na sy'n angenrheidiol i mewn. Golyga hyn fod amser arhosiad yn yr ysbyty yn gostwng yn sylweddol a bod y cleifion yn agosach at y penderfyniadau sy'n eu heffeithio nhw.

Mae data Stats Cymru (Gorffennaf 2020) yn amlygu fod nifer yr unigolion sy'n methu eu rhyddhau yn amserol o'r ysbyty oherwydd rhesymau cymdeithasol wedi lleihau'n sylweddol eleni o'i gymharu â'r llynedd, ond dylid nodi oherwydd argyfwng Covid-19 nad oedd data Mawrth 2020 ar gael ac felly fod yr isod yn seiliedig ar ddata 11 mis.

PMA19 - Cyfradd oediad mewn gofal am rhesymau gofal cymdeithasol mesul 1000 o'r poblogaeth 75 a drosodd

Blwyddyn Ariannol	Gwynedd	Niferoedd	Cymru	Gog Cymru	Mae perfformiad y 11 mis yn cyfatebol i ffigwr blynyddol:
2016-2017	3.41	43	2.92	2.44	Ebrill 2019 - Chw 2020
2017-2018	4.99	63	3.62	2.70	
2018-2019	5.23	66	5.09	4.20	
2019-2020	3.17	40	4.91	3.50	3.46

Er y gwelliant, rydym yn parhau i wynebu her i ddarparu gwasanaethau gofal o fewn rhai cymunedau o fewn y Sir, yn benodol rhai ardaloedd gwledig lle mae prinder gofalwyr a phoblogaeth sy'n heneiddio yn golygu pwysau cynyddol ar ein gwasanaethau.

Mae cynnig ymyrraeth ataliol yn gyrru'r gwelliannau yn y **maes Anableddau Dysgu** gyda ffocws ar ddatblygu gwasanaethau cymunedol sydd yn cyfarch yr hyn sy'n bwysig i unigolion. Mae mesurydd perfformiad y gwasanaeth yn dangos perfformiad cadarnhaol gan nodi fod 89% o'n achosion wedi adrodd ein bod wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt, a 9% pellach yn nodi ein bod wedi llwyddo'n rhannol i gyflawni'r hyn sy'n bwysig. Mae materion sy'n ein rhwystro rhag cyflawni'r hyn sy'n bwysig yn bennaf yn ymwneud â lletya a chyfleon gwaith. Rydym wedi sefydlu grwpiau prosiect o amgylch y themâu hyn er mwyn tynnu rhanddeiliaid perthnasol i mewn i'n galluogi i fynd i'r afael â'r materion cyn gynted a phosib.

Rydym yn ceisio rhoi gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i bobl mewn ffordd syml a hygyrch sy'n ein galluogi ni i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Fel soniwyd yn y blaenoriaethau gwella, mae hybiau cymunedol yn cael eu datblygu ar draws y sir i gefnogi a chreu cyfleoedd i unigolion ag Anableddau Dysgu ddatblygu sgiliau fel rhan o'u cymunedau lleol. Mae'r ffocws ar sut allwn ni gefnogi unigolion i edrych ar ôl eu llesiant eu hunain drwy

ddatblygu amryw o gyfleoedd gwahanol ar y cyd gyda nhw.

Rydym wedi bod yn gweithio i foderneiddio **darpariaethau gofal y Cyngor** drwy:

- wella gwasanaeth ein cartrefi preswyl ac ehangu darpariaethau gofal arbenigol sydd ar gael
- edrych mewn i'r opsiynau gofal sydd ar gael er mwyn symud oddi wrth modelau traddodiadol eu natur a chefnogi parhad annibyniaeth oedolion e.e. Tai Gofal Ychwanegol, ac
- ailystyried y ffordd rydym yn darparu gofal cartref er mwyn rhoi mwy o ffocws ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolion.

Mewn perthynas â **Blaenoriaethau Lleol** yr adran, mae cymdeithas dai Adra wedi derbyn y caniatadau perthnasol ar gyfer datblygu Tai Gofal Ychwanegol ym Mhwlheli, a bydd y gwaith ar y safle'n dechrau yn ystod 2020-21. Gyda hyn, byddwn yn rhoi sylw i wella'r ddarpariaeth gofal yn ardal wledig Llŷn i'r dyfodol. Mae gwaith dechreuol ar droed hefyd i ehangu'r ddarpariaeth ym Meirionnydd.

Mae'r gwaith uchod yn derbyn sylw fel rhan o'r prosiect 'Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal'.

Rydym wedi ailgyfeirio adnoddau ar sail dros dro er mwyn cynyddu ein capasiti i gwblhau gwaith **sicrwydd ansawdd** yn fwy rhagweithiol. Rydym wedi parhau i wella ein gwaith drwy gasglu gwybodaeth cynnar, ond serch hynny rydym yn parhau i weld prinder capasiti parhaol i gwblhau'r gwaith ataliol yn llawn.

Mewn cyfnod o 12 mis, mae 437 o **ymholiadau diogelu** wedi eu gwneud, gyda 419 ohonynt wedi eu cwblhau o fewn 7 diwrnod (96%). Mae'r canran yma'n welliant ar

y llynedd ac yn arwydd o berfformiad cadarnhaol yr Hwb Diogelu a sefydlwyd yn ystod 2018/19. Fodd bynnag, er bod 18 ymholiad nad oeddent wedi eu cwblhau o fewn 7 diwrnod, dylid nodi eu bod wedi cael sylw a'r risgiau wedi eu rheoli ymhob achos.

o'r holl atgyfeiriadau
amddiffyn oedolion
sydd wedi eu
cwblhau yn ystod
y flwyddyn,
llwyddwyd i reoli'r
perygl 91% o'r amser



Dylid nodi bod y ffigwr uchod yn cynnwys yr achosion hynny lle y bu i'r unigolion wrthod ymyrraeth (llwyddwyd i reoli'r perygl 97% o'r amser wrth eithrio yr achosion hynny).

Yn ystod 2019/20, daeth yr Adran yn gyfrifol am waith **Diogelwch Cymunedol** y Cyngor. Mae'r gwaith yma'n digwydd mewn partneriaeth ar draws Gwynedd a Môn er mwyn taclo a lleihau trosedd ac anrhefn er budd diogelwch a lles pobl y ddwy sir. Mae cynllun 2019-20 y Bartneriaeth wedi'i gyflawni, a bydd adroddiad ar berfformiad y bartneriaeth yn mynd i bwyllgor craffu ym mis Hydref.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr **Amcanion Llesiant** a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd



Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan I, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.


Mae ymarfer a pherfformiad cyffredinol yn y maes Plant yn ei gyfanrwydd yn gadarn. Bu i Adroddiad Arolygiad Llawn gan Arolygaeth Gofal Cymru ym mis Awst 2018 gadarnhau hynny. Bu iddynt adnabod sawl maes i'w ddatblygu ymhellach, ac rydym dros y flwyddyn ddiwethaf wedi mynd ati i ymateb i'r rheiny drwy'r Strategaeth Cefnogi Teulu a rhaglenni gwaith ein unedau.

Rydym wedi ehangu ar y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth gan ganolbwyntio ar sut mae teuluoedd yn cael mynediad at wybodaeth. Sefydlwyd Hwb gwybodaeth rhithiol (Hwb Teuluoedd Gwynedd), gyda rolau Cysylltwyr Cymunedol hefyd yn rhan o'r gwasanaeth.

Drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth mae teuluoedd yn cael mynediad at gefnogaeth amserol. Mae modd i deuluoedd gael mynediad at amrediad eang o wasanaethau therapiwtig a chefnogol er mwyn diwallu eu hanghenion unigol. Rydym yn parhau i adolygu yr hyn sydd ar gael i deuluoedd ac yn ystod 2019-2020 bu i ni wneud gwaith peilota ar y cyd ag Y Bont a Barnados o amgylch rheoli gwrthdaro mewn teuluoedd, a chefnogi llesiant plant er mwyn cyfarch anghenion lleol.

Rydym yn parhau i gynnal safonau uchel wrth ymateb i gyfeiriadau, a all fod yn rhai diogelu, neu rhai ag angen gofal a chefnogaeth.

Yn yr un modd mae'r Timau Gwaith Cymdeithasol wedi cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth amserol i blant a'u teuluoedd.




Fel rhan o waith dydd i ddydd y timau gweithredol o fewn yr adran, mae'r gweithwyr yn cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth broffesiynol. Yn ogystal â hyn, mae ganddynt yr opsiwn i fynd ar ofyn ymyrraethau mwy arbenigol os yw'n briodol. Mae'r Tîm Trobwynt yn gweithio'n ddwys gyda phlant a theuluoedd bregus, a phlant ar fin mynd i ofal. Maent yn gallu cefnogi y Timau Gwaith Cymdeithasol a theuluoedd gyda materion megis rhiantu, cwnsela, cam-ddefnyddio sylweddau, cyfarfodydd er mwyn tynnu aelodau'r teulu estynedig i mewn, cymedroli, therapi teuluol, cefnogaeth ymdopi gyda phrofiadau plentyndod negyddol (ACE'S). Rydym yn parhau i ddatblygu'r gefnogaeth arbenigol yma yn ddibynnol ar anghenion ac adborth teuluoedd.

Mae llwyddiant cydweithio rhwng y teuluoedd a'r Tîm yn golygu bod nifer o blant wedi gallu aros adref gyda'u teuluoedd, rhai wedi gallu dychwelyd yn ôl adref o ofal maeth a gofal preswyl, ynghyd â sicrhau bod lleoliadau maeth bregus wedi'u sefydlogi yn sylweddol. Er i'r

nifer o blant mewn gofal gynyddu yn ystod cyfnod gweithredu'r tîm, mae'r nifer o blant mewn lleoliadau maeth neu leoliadau preswyl wedi aros yn sefydlog.

Ddiwedd Mawrth 2020 roedd 291 o blant yng ngofal Cyngor Gwynedd. O gymharu'r nifer plant mewn gofal dros gyfnod o 5 mlynedd mae'r cyfanswm wedi cynyddu o 194 i 291, sef cynnydd o bron i 50%. Serch hyn mae'r nifer o blant sydd mewn lleoliadau preswyl wedi aros yn gyson, a phlant mewn lleoliadau maeth wedi lleihau o 74% i 69% o boblogaeth plant mewn gofal.



Mae cynnydd yn y nifer o blant mewn gofal yn parhau i ymwneud â phlant sydd wedi eu lleoli gartref gyda'u rhieni o dan Orchymyn Gofal i'r Cyngor, sydd wedi codi o 27 i 60 dros y 5 mlynedd ddiwethaf.

Mae proffil poblogaeth plant mewn gofal wedi newid; mae cyfartaledd cost lleoliadau preswyl wedi cynyddu, ynghyd â chymhlethdod a dwyster achosion. Mae diffyg argaeledd lleoliadau preswyl mwy arbenigol hefyd yn her enfawr i'r Adran. Mae'r diffyg argaeledd o leoliadau preswyl a'r gost cynyddol sydd ynghlwm â nhw yn fater sydd yn derbyn sylw ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol. Ar lefel ranbarthol, o dan arweiniad Penaethiaid Adrannau Plant y Gogledd, rydym wedi bod yn cydweithio ar sefydlu Tîm Is-Ranbarthol Aml-ddisgyblaethol fyddai'n darparu cefnogaeth ddwys, tymor byr i deuluoedd ag anghenion

dwys a chymhleth. Er i ni ddatblygu achos busnes, cytuno ar y rolau amrywiol ar y cyd gyda'n partneriaid iechyd ac addysg, ynghyd â chychwyn y broses recriwtio, bu rhaid oedi'r cynllun peilot pan gychwynnodd yr argyfwng Coronafirws.

Mae plant a phobl ifanc yn dod i'n gofal o dan amgylchiadau anodd iawn ond rydym yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant yma ag y byddai unrhyw un ar gyfer ei blentyn ei hun. Mae gennym Swyddogion Adolygu Annibynnol sydd yn monitro cynlluniau gofal pob un plentyn a pherson ifanc sydd yn ein gofal, ac maent yn rhoi sicrwydd i ni fel Cyngor bod buddiannau'r plentyn yn cael eu sicrhau drwy gydol eu hamser mewn gofal. Yn ystod 2019-2020 bu i ni adolygu rôl y Swyddogion hyn yn dilyn adborth gan blant a phobl ifanc o'u profiad, ynghyd ag adborth gan yr Arolygiad Llawn. Mae'r swyddogion wedi ymateb i'r hyn sy'n bwysig i blant a phobl ifanc gan addasu eu trefniadau a'u ffordd o weithio.

Yn ôl ein Swyddogion Adolygu Annibynnol mae 94% o adolygiadau yn uchelgeisiol dros y plant sydd mewn gofal



Rhan allweddol o'r gwasanaeth i blant yw'n gallu fel Cyngor i leoli plant gyda rhieni maeth. Rydym yn hynod falch o'n rhieni maeth fel Cyngor ac mae'r Tîm Maethu yn parhau i sicrhau fod gennym ddigon o rieni maeth i ddiwallu anghenion plant sydd yn methu byw adref. Serch hyn mae sicrhau capasiti ac argaeledd rhieni maeth yn her.

Mae clywed a gwrando ar lais y plentyn wedi parhau yn flaenoriaeth i ni yn ystod y flwyddyn diwethaf. Mae'r Panel Rhiant Corfforaethol wedi bod yn gweithio ar gryfhau'r elfen yma o'i

waith fel ei fod yn cadw cyswllt agos gyda'r hyn sy'n bwysig i blant sydd yn ein gofal.

Yn ogystal, mae gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd Uned Ddiogelu a Sicrwydd Ansawdd sydd yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod ein trefniadau diogelu yn gadarn.

Mae'r rhesymau am unrhyw lithriad yn y perfformiad wedi ei herio ac yn ymwneud yn helaeth a salwch aelodau o staff, argaeledd cydweithwyr o gyrff statudol eraill ac argaeledd teuluoedd. Mae'r oedi ar y cyfan yn fychan (dyddiau) ac mae'r oediadau sydd yn hirach wedi eu asesu yn ofalus a ddim wedi golygu ardrawiad annerbyniol ar y plentyn.

Mae'r cynllun arloesol 'Diogelu Plant Effeithiol' yn parhau ar waith. Mae'r canlyniadau cychwynnol yn dangos gwelliant amlwg o ran effeithiolrwydd ein gwaith diogelu gyda gwell ffocws ar newid i gadw plant yn ddiogel. Ein nod fydd rhannu'r hyn a ddysgwyd ar draws y rhanbarth fel model o ymarfer da. Mae'r gwaith yn cael ei gefnogi gan ddatblygiad pecyn ymarfer a deunyddiau dysgu o bell i raeadru'r gwaith i siroedd eraill.

Rydym yn ffodus iawn o'r partneriaethau llwyddiannus sydd gennym gyda'r Bwrdd Iechyd, ysgolion, yr Heddlu a nifer fawr o fudiadau trydydd sector. Yn ystod 2019/20 rydym wedi gweld y gwaith partneriaethol hwnnw yn datblygu yn arbennig felly i gyd-gynhyrchu ymyraethau, a threfniadau ar gyfer atal problemau rhag codi. Rydym wedi cydweithio gyda'r Heddlu ar raglen hyfforddiant uchelgeisiol i'r gweithlu heddlu drwy y Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd; rydym hefyd wedi sefydlu Rhaglen Trawsnewid y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer creu un gyfundrefn integredig ar gyfer gofal, addysg, iechyd a chwarae; ac rydym hefyd wedi arwain

ar sefydlu Llwybr Llesiant Emosiynol i Bobl Ifanc 11-25 oed.

Rydym yn ffodus iawn o'n gweithlu eto eleni. Mae'n staff yn ymroddedig a phrin fu'r trosiant yn ein gweithlu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ar ddiwedd y flwyddyn bu i holl wasanaethau a gweithlu yr Adran fireinio eu hymdrechion tuag at gefnogi plant a theuluoedd drwy argyfwng y Coronafirws. Llwyddodd yr Adran i gadw cyswllt gyda phlant a theuluoedd drwy ymweliadau, galwadau cadw mewn cyswllt a drwy gyfryngau rhithiol. Roedd yr Adran, fwy nag erioed, yn ymdrechu i gefnogi sefydlogrwydd teuluoedd a lleoliadau, a sicrhau pob cefnogaeth posibl i gadw teuluoedd gyda'i gilydd yn ystod y cyfnod heriol hwn. Rydym wedi arwain ar sicrhau cyflenwad bwyd i deuluoedd bregus ac i bobl ifanc sy'n gadael gofal; rydym wedi sicrhau fod nwyddau babi yn cyrraedd teuluoedd Dechrau'n Deg; a chefnogi cynlluniau i greu a darparu Pecynnau Gweithgareddau Celf, Garddio a Sachau Chwarae i gartrefi drwy'r sir. Mae pobl ifanc y sir wedi elwa o fforymau sgwrsio a chymorth ar lein, gweithgareddau cymdeithasol fel creu miwsig, cwis, ffitrwydd a choginio ar lein i gyd yn ymgais i adeiladu gwydnwch a hyrwyddo llesiant mewn cyfnod anodd.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



Adran Economi a Chymuned



Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan I, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.



Datblygu Economi Gwynedd

Mae Covid-19 wedi creu argyfwng economaidd yn 2020. Cyn hyn, roedd economi Gwynedd wedi bod yn perfformio yn gymharol dda ar lefel Cymru ond ddim o'i gymharu â rhanbarthau eraill o Brydain ac Ewrop. Mae lefelau cyflog yng Ngwynedd wedi bod yn llawer is na rhannau eraill o Gymru a gwerth cynhyrchiant busnesau yn isel o'i gymharu ag ardaloedd eraill. Fe wnaeth Cyngor Gwynedd gymryd camau rhagweithiol yn 2019/20 i geisio creu'r amodau fyddai'n ymateb a galluogi busnesau i dyfu a sbarduno twf a hynny mewn cyfnod o ansicrwydd economaidd wrth i Brydain baratoi i adael yr Undeb Ewropeaidd.

Rydym wedi bod yn gweithio i dargedu'r sectorau hynny sy'n talu'n dda trwy greu'r amodau sy'n cefnogi busnesau newydd a thyfu busnesau presennol. Yn ystod 2019/20 fe grëwyd 10 o swyddi gwerth uchel (cyflog £26,5000 neu fwy), ond fe welwyd gostyngiad yn y nifer o gynlluniau gan fusnesau yn cael eu gwireddu o ganlyniad i'r ansicrwydd yn deillio o benderfyniad Prydain i adael yr Undeb Ewropeaidd.

Swyddi gwerth uchel wedi eu creu	
2017/18	20
2018/19	57
2019/20	10

Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid drwy arwain ar brosiect STEM Gogledd (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg, Mathemateg) gan sicrhau £1.9m i gyd-gordio darpariaeth all-gwricwlaidd STEM i ddisgyblion er mwyn sicrhau gweithlu lleol i fanteisio ar ddatblygiadau fydd yn arwain at swyddi gwerth uchel.

Mae lefelau incwm rhent wedi cynyddu wrth weld gofod diwydiannol / menter y Cyngor 96% yn llawn. Mae'r galw am unedau gwag yn parhau ar draws y sir, ac mae diffyg gofod ar gyfer busnesau sydd eisiau ehangu neu symud i'r ardal.

Yn ystod 2019/20 derbyniodd 250 o fusnesau gymorth, o'i gymharu â 213 yn 2018/19 a 394 yn 2017/18.

Fel rhan o'r gwaith i adfywio canol tref Caernarfon er mwyn gwella ansawdd a phrofiad ymwelwyr i'r ardal a gwella gwedd a golwg y dref, cwblhawyd dau gynllun adfywio strategol sef adeilad Rheilffordd Eryri a Chynllun Galeri2.

Mae'r diwydiant twristiaeth yn gyflogwr allweddol yng Ngwynedd. Gyda gwerth economaidd o dros £1biliwn, mae dros 15,000 o bobl yn gweithio yn y maes. Dyma un o'r sectorau sydd wedi derbyn yr ergyd fwyaf yn sgil Covid-19 oherwydd y cyfyngiadau ar fusnesau i adfer yn ddiogel. Yn ystod 2019/20 ymwelodd dros 944,000 â gwefan Eryri Mynyddoedd a Môr – ffigwr sydd ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol – yn rhannol oherwydd Covid-19.

Llwyddwyd i ddenu nawdd gan Croeso Cymru i ariannu gweithgareddau i hyrwyddo Ffordd yr Arfordir y tu allan i'r prif dymor ymwelwyr ar y cyd efo Ceredigion a Phenfro yn ogystal â Ffordd y Gogledd gyda phartneriaid o'r 6 Awdurdod Lleol yn y gogledd – y ddau brosiect dan arweiniad Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau'r Cyngor. Yn ystod y cyfnod fe gwblhawyd arolwg o stoc gwelyau yn y sir er mwyn cyfrifo maint y gwelyau sydd ar gael i ymwelwyr a natur y gwelyau hynny.

Mae'r Adran yn rheoli 301km o arfordir Gwynedd gan ganolbwyntio ar 8 o draethau Baner Las, 4 harbwr a 2 hafan. Mae sylw wedi ei roi yn ystod y flwyddyn i adolygu trefniadau rheoli'r hafan a harbwr i'r dyfodol a rhaglennu gwaith carthu manwl yn Harbwr Pwllheli.



Cefnogi Cymunedau Cryf ac Iach

Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau yn parhau i gynnig cefnogaeth i grwpiau gwirfoddol a mentrau lleol er mwyn ymateb i gyfleoedd ac anghenion lleol. Cefnogwyd 57 o brosiectau cymunedol gyda 26 ohonynt yn datblygu gwasanaeth newydd neu ddiogelu mynediad at wasanaeth yn 2019/20. Cafodd dros £290,000 o gyllid cyfatebol ei fuddsoddi mewn prosiectau Cist Gwynedd.

Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi parhau i sicrhau mynediad trigolion Gwynedd at gefnogaeth, adnoddau a gwybodaeth, gyda dros 340,000 o bobl yn ymweld â Llyfrgelloedd Gwynedd yn ystod y flwyddyn, a 99% o'r defnyddwyr yn adrodd eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth a dderbynnir. Ymatebwyd i dros 13,000 o ymholiadau yn 2019/20 – 68% yn ymholiadau Technoleg Gwybodaeth a sesiynau hyfforddiant digidol. Darparwyd cymorth ar dros 5,000 o achlysuron gydag adnewyddu

cerdyn teithio ar fws yn ystod 2019-20 yn sgil newidiadau i'r drefn gofrestru yng Nghymru. Bu i 1,786 o blant Gwynedd gymryd rhan yn y Sialens Ddarllen Haf yn 2019 a benthycwyd dros 418,000 o eitemau yn ystod y flwyddyn.

Niferoedd yn ymweld â llyfrgelloedd Gwynedd

2017/18	346,567
2018/19	358,904
2019/20	340,392

Mae'r Cyngor yn parhau i gynnal orielau, amgueddfeydd ac archifau yng Ngwynedd, gyda dros 55,000 o ymwelwyr i'r orielau ac amgueddfeydd yn ystod 2019/20. Mynychodd dros 26,000 o bobl sesiynau Celfyddydau Cymunedol Gwynedd. Defnyddiwyd y Gwasanaeth Archifau gan dros 24,000 o bobl yn ystod y flwyddyn – gan gynnwys ymholiadau â'r catalog arlein, ac roedd 92% yn fodlon gyda'r gwasanaeth. Derbyniodd 2,763 o blant Gwynedd sesiynau addysg ac roedd 100% o athrawon yn teimlo bod y sesiynau wedi gwella dealltwriaeth plant o'u hanes a'u treftadaeth.

Mae'r Adran yn gyfrifol am rwydwaith o 12 o Ganolfannau Byw'n Iach ar draws Gwynedd, ond ers Iaf o Ebrill 2019 trosglwyddwyd rheolaeth o'r canolfannau i Gwmni Byw'n Iach Cyf trwy gytundeb. Roedd 90% o gwsmeriaid yn fodlon gyda'r gwasanaeth yn ystod 2019/20.

Mae'r Adran yn trefnu a chynnal amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon o fewn ysgolion, y gymuned ac yn yr awyr agored gan gynnwys sesiynau Teulu Actif, Triathalon, Sboncen a Badminton. Mae cynllun Arweinwyr y Dyfodol wedi profi'n lwyddiant yn ystod 2019/20, gyda nifer yn ennill gwobrau gwirfoddoli yn ystod y flwyddyn.

Mae'r Tîm Cyfeirio i Ymarfer yn cefnogi trigolion Gwynedd i wella cyflwr eu hiechyd, gyda 65% yn adrodd fod ansawdd eu bywyd wedi gwella yn dilyn y gefnogaeth, ac 80% wedi gweld cynnydd yn lefel eu ffitrwydd.

Blaenoriaethau Lleol – Cynllun y Cyngor

Un o'r blaenoriaethau lleol a nodwyd yng Nghynllun y Cyngor ydi'r dyhead i ddenu mwy o swyddi tymor hir sy'n talu cyflog da i ardaloedd Porthmadog, Ffestiniog a Phenllyn, ac mae'r prosiect Creu Swyddi Gwerth Uchel yn datblygu cyfleoedd newydd yn Nhrawsfynydd a Llanbedr fydd yn dod ag elw i'r cymunedau hyn.

Mae gwella cysylltedd gwael ffonau symudol a band eang yn ardal Dolgellau yn un arall o'n blaenoriaethau lleol, ac rydym yn ceisio sicrhau blaenoriaeth i'r sir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau yn y maes drwy ddilyn egwyddorion Gwynedd Ddigidol.

Lansiwyd pecynnau cymorth ariannol newydd yn ystod y flwyddyn ar gyfer busnesau lleol, sef Cronfa Benthyciadau Di-log Penygroes a Bethesda, a'r Gronfa Adnewyddu a Buddsoddiad Eiddo Canol Dinas Bangor sydd yn ymateb i'r blaenoriaethau lleol i adfywio ardaloedd Dyffryn Ogwen, Dyffryn Nantlle a Bangor. Yn ystod y flwyddyn, mae 4 eiddo gwag wedi dod nol i ddefnydd yn dilyn derbyn cymorth.

Yn sgil pryderon ynglŷn â dyfodol y Ganolfan Gymunedol yn Ffestiniog mae'r tîm adfywio wedi cynnal arolwg diweddar ar adeiladau cyhoeddus ar hyd a lled Gwynedd. Dangosodd yr arolwg fod defnydd aneffeithiol yn cael ei wneud o nifer o adeiladau cyhoeddus ym Mlaenau Ffestiniog gan gynnwys y Ganolfan Gymunedol, sy'n adnabod cyfle i rannu adnoddau yn well i'r dyfodol.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.



Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol



Glanhau Strydoedd

Mae cynnal amgylchedd lleol o safon uchel ac edrychiad ein strydoedd a mannau cyhoeddus yn bwysig i drigolion Gwynedd, ac o ran yr amgylchedd lleol mae'n hynod bwysig bod ein strydoedd yn lân a diogel. Mae perfformiad y Mesur o Lendid ac Edrychiad Strydoedd yn 2019/20 yn 73% gan ddangos peth lleihad ar berfformiad diwedd blwyddyn 2018/19 (74.1%). Er hynny, mae'r perfformiad yn parhau ar lefel uwch na chyfartaledd Cymru sydd yn 70.1%. Bydd yr Adran yn ail edrych ar y parthau glanhau yn ystod 2020/2021 gan gyflwyno cylchdeithiau newydd fydd yn cynnwys pwyslais ar ymgyrchoedd a chydweithio gyda chymunedau. Byddwn hefyd yn edrych ar ymestyn biniau ailgylchu ar y stryd.



Mae Cadwch Gymru'n Dacrus yn cynnal arolwg i sefydlu faint o 'ddiffygion' fel sbwriel, chwyn, baw cŵn, gwm cnoi a stympiau sigarêts sydd ar unrhyw

stryd. Yn ôl yr arolwg annibynnol, mae safon glendid ac edrychiad strydoedd Gwynedd yn parhau i fod yn dda ac mae'n debyg bod newid ymddygiad er gwell yn ddiweddar i atal llanast.

Ffyrdd


Mae'n bwysig bod busnesau a thrigolion Gwynedd yn medru symud yn rhwydd a diogel o fewn y sir ac er mwyn sicrhau hyn mae'r Cyngor yn cynnal 2,697 cilomedr o ffyrdd sirol ynghyd â 199 cilomedr o Gefnffyrdd (sef priffyrdd o bwysigrwydd cenedlaethol, ar ran Llywodraeth Cymru). Ar hyn o bryd mae ein priffyrdd yng Ngwynedd, sef ffyrdd Dosbarth A a B, mewn cyflwr da gyda llai na 4% ohonynt yn

ddiffygiol ac angen sylw. Gyda lleihad yn yr arian sydd ar gael i Lywodraeth Leol, mae ein gallu i gynnal y ffyrdd Dosbarth C a Di-ddosbarth i'r un safon yn anoddach.

Oherwydd y pwysau ariannol ar y Cyngor mae'n anorod y bydd pwysau pellach ar y gyllideb cynnal ffyrdd, a bydd hi'n her i atal dirywiad yn safon ein ffyrdd, yn enwedig ffyrdd o lai o flaenoriaeth sef Dosbarth C a Di-ddosbarth.

Tra bod y cyflwr yn sefydlog gyda 14.2% yn ddifffygiol ac angen sylw, mae cryn bwysau ar ein cyllidebau er cadw at y cyflwr sefydlog.

Mae grant cynnal ffyrdd yn ei le ar hyn o bryd ac yn siŵr o fod o gymorth yn cadw'r lefelau cyfredol. Fodd bynnag, gydag effeithiau newid hinsawdd mae cyflwr ein ffyrdd Di-ddosbarth yn dirywio yn gyflym.



Gwastraff



Mae'n hanfodol ymdrin â gwastraff mewn modd cywir os am amddiffyn ein hamgylchedd ac osgoi creu problemau i genedlaethau'r dyfodol.


Erbyn diwedd 2019/20 roedd 64.74% o wastraff cartrefi Gwynedd yn cael ei ailgylchu, ailddefnyddio neu ei gompostio, sy'n gynnydd o 1.44% ers 2018/19. Gan bod y flwyddyn yma yn flwyddyn targed statudol, mae'r adran yn falch o adrodd y bu i ni gyrraedd a phasio y targed statudol o 64%.

Drwy ymroddiad trigolion a busnesau'r sir i leihau ein gorddibyniaeth ar waredu gwastraff i'w dirlenwi, mae'r newid hwn wedi bod yn allweddol i wella ein perfformiad.

Mae busnesau'r sir hefyd wedi cyfrannu at welliant ac erbyn diwedd 2019/20 roedd 49% o wastraff masnachol yn cael ei gompostio neu ailgylchu.


Mae hefyd yn bwysig i bobl Gwynedd bod eu gwastraff yn cael ei gasglu pan rydym yn dweud yr ydym am ei gasglu. Yn ystod 2019/20, gwnaethom gyfanswm o 4,556,708 o gasgliadau gwastraff, gyda 11,344 o gwynion wedi eu derbyn nad oeddem wedi casglu (neu 0.24%). Roedd rhai o'r methiannau yma oherwydd y tywydd garw ac eraill oherwydd diffygion ar ein rhan ni. Er mwyn gwella'r gwasanaeth rydym wedi bod yn adolygu ein harferion gwaith er mwyn gwella'r gwasanaeth sy'n cael ei roi i bobl Gwynedd. Mae'r trefniadau sydd wedi eu gweithredu arnynt yn cadarnhau peth gwelliant o gymharu â ffigyrau 2018/19.

Mae canran y gwastraff trefol a anfonir i dirlenwi yn is ar gyfer 2019/20, sef 16.2% o'i gymharu â 43.33% ar gyfer blwyddyn 2014/15. Gellir priodoli'r gwelliant hwn i'r ailgylchu a'r ffaith fod mwy o wastraff gweddilliol wedi ei drin drwy drefn llosgi ac o ganlyniad ddim wedi'i anfon i dirlenwi.



— Canran y gwastraff trefol a gesglir gan yr Awdurdod Lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio, ailgylchu neu ei gompostio
— Canran lefelau ailgylchu / compostio masnachol

Goleuadau Stryd



Rydym yn parhau i drwsio goleuadau stryd yn brydlon, ac ar gyfartaledd mae'n cymryd dau ddiwrnod a hanner i'w trwsio – ffigwr sydd wedi bod yn eithaf cyson dros y 5 mlynedd diwethaf.

Fel rhan o raglen "buddsoddi i arbed" y Cyngor mae gennym raglen sylweddol i newid goleuadau stryd i dechnoleg LED sydd wedi bod yn weithredol dros y blyneddau diwethaf. Yn ystod 2019/20 newidiwyd 1,730 o unedau golau stryd ac arwyddion i LED ac ers 2015/16, rydym wedi newid dros 12,000 o oleuadau ac arwyddion stryd i dechnoleg LED. Yn sgil y newidiadau yma rhagwelir y byddwn yn arbed £260,000 y flwyddyn yn ogystal â gostyngiad mewn allyriadau carbon (414 Co2). Mae'r gwaith o newid y goleuadau i LED wedi parhau yn ystod y flwyddyn gan arbed amcan o £185,000 yn ogystal â gostyngiad mewn allyriadau carbon (572 Co2).

Toiledau Cyhoeddus

Mae cyfanswm o 62 o doiledau cyhoeddus yn y sir, ynghyd â 35 o doiledau cymunedol sydd ar gael mewn lleoliadau fel caffis, tafarndai ayb ynghyd ag 17 o doiledau cyhoeddus sy'n eiddo i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Fel siroedd ledled Cymru, mae Gwynedd wedi wynebu cyfnod o dorri sylweddol ar gyllidebau sydd wedi golygu'r angen i adnabod arbedion mewn gwariant ar doiledau cyhoeddus dros y blynyddoedd diwethaf. Ond drwy gydweithio gyda chynghorau cymuned a thref a grwpiau cymunedol, rydym wedi gallu cynnal nifer uchel o doiledau at ddefnydd y cyhoedd yma yng Ngwynedd. Fis Mai 2019 fe wnaethom fel Cyngor fabwysiadu Strategaeth Toiledau Cyhoeddus, ac mae hi'n ofyn statudol ar bob awdurdod i wneud hynny.

Blaenoriaethau Lleol

Mewn ymateb i gwynion am flerwch a sbwriel yn cael ei ollwng neu ei golli o gerbydau casglu sbwriel ac ailgylchu oherwydd gwaith ein gweithlu, mae nifer o gamau wedi eu rhoi yn eu lle dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn gwella'r sefyllfa yma. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cerbydau 'Romaquip' yn lle cerbydau 'Kerbside', sy'n golygu nad oes tipio uwchben uchder y cerbydau ac felly'n fwy diogel i'r gweithlu. Mae defnydd o'r cerbydau newydd hefyd yn golygu lleihad yn y nifer o ddeunyddiau sy'n cael eu gollwng o'r cerbydau ac o ganlyniad nad oes deunyddiau yn cael eu cadw yn rhydd wrth symud o eiddo i eiddo sy'n arwain at well trefn wrth wasanaethu'r cartgylchu. Yn ystod 2020/21 byddwn yn parhau i ymateb i bryderon ein trigolion ac yn sicrhau gwelliant yn y sefyllfa drwy ganolbwyntio ar y cerbydau llai.

Parhau mae'r gwaith o newid trefniadau'r cylchdeithiau. Yr ydym eisoes wedi cwblhau'r drefn yn ardal Arfon a Dwyfor gan weld gwellhad yn y trefniadau casglu. Oherwydd cyfyngiadau Covid-19 nid oedd yn bosibl cwblhau'r gwaith yn ardal Meirionnydd. Bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau erbyn mis Chwefror 2021.

Yn ystod 2019/20, rydym wedi parhau i gydweithio ar brosiect Delwedd Bangor sydd yn bartneriaeth sydd wedi ei sefydlu gyda chynrychiolaeth o'r Cyngor Dinas, BID Bangor, Prifysgol Bangor a sawl mudiad arall, ac mae'r gwaith yma yn symud yn ei flaen yn dda. Prif ffocws y grŵp yw gwella delwedd y ddinas. Byddwn yn dysgu o'r gwaith yma ym Mangor ac yna byddwn yn cyflwyno'r gwersi i ardaloedd eraill. Rydym hefyd yn cydweithio â grŵp yn Nyffryn Nantlle er mwyn gwella edrychiad yr ardal. Byddwn yn dysgu o'n profiadau o weithio gyda'r prosiect ym Mangor wrth fwrw ymlaen gyda'r gwaith yma.

Mae'r gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.



Adran Tai ac Eiddo




Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan I, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Sefydlwyd yr adran newydd hon ym mis Medi 2019 ac mae'r gwaith o uno'r Gwasanaeth Eiddo a'r Gwasanaeth Tai wedi mynd rhagddo'n llyfn. Mae strwythur newydd wedi ei gyflwyno yn y Gwasanaeth Tai er mwyn ein galluogi i roi sylw teilwng i'r heriau cynyddol yn y maes tai fforddiadwy i bobl Gwynedd.

Eiddo

Er mwyn ymateb i'r heriau sy'n codi o newid yn yr hinsawdd, a sicrhau fod cymunedau Gwynedd yn cael eu paratoi ar gyfer y dyfodol bu i'r Cyngor fabwysiadu **cynllun rheoli carbon** fis Mai 2010. Mae'r cynllun wedi bod yn fuddsoddiad sylweddol er mwyn gostwng allyriadau carbon gweithgareddau'r Cyngor, yn ogystal â chyfrannu tua'r amcan ehangach o Wynedd garbon isel.

Mae natur cynlluniau o'r fath yn annatod yn cael eu mesur dros gyfnod hir, gyda gwahaniaethau bychan rhwng cyfnodau monitro yn cael effaith gronnus dros dymor ehangach. Ers sefydlu'r waelodlin yn 2005/06, erbyn diwedd 2019 mae allyriadau carbon y Cyngor wedi gostwng 51.2%, gyda gostyngiad o 8.2% pellach yn 2019/20. Mae hyn oll wedi arwain at arbedion ariannol blynyddol o dros £1.2m i'r Cyngor.



Mae'r **Tîm Ynni** hefyd yn gyfrifol am brynu trydan a nwy ar ran holl wasanaethau'r Cyngor a thrwy weithredu egwyddorion Ffordd Gwynedd a mentro gyda dulliau caffael newydd dros y flwyddyn ddiwethaf bu modd iddynt sicrhau gostyngiad o dros £230,000 y flwyddyn yn ein biliau nwy.

Mae'r cyfrifoldeb o sicrhau fod ein holl ysgolion, cartrefi gofal, canolfannau hamdden ayb yn ddiogel i'w defnyddio gan drigolion y sir yn gorwedd gyda'r **Gwasanaeth Eiddo**. Gwelwyd welliant pellach yn ystod 2019/20 yn y trefniadau monitro risgiau tân ac asbestos a chyflwynwyd trefniadau newydd i reoli risgiau radon a chlefyd y lleng filwyr. Roedd hyn yn cynnwys mewnnoli gwaith oedd yn arfer cael ei gyflawni gan ymgynghorwyr allanol sydd wedi arwain at well rheolaeth, a chyflawni'r gwaith oddeutu £30,000 y flwyddyn yn rhatach.

Yn yr un modd, mae parhau i ehangu'r gweithlu cynnal a chadw mewnol wedi arwain at allu cyflawni gwaith yn gynt, gan leihau cyfartaledd nifer dyddiau a gymer i gwblhau gwaith o 7.5 diwrnod yn 2018/19 i 6.9 diwrnod yn 2019/20. Mae hefyd, wrth gwrs, wedi arwain at fodlonrwydd cwsmer uwch.

Mae bodlonrwydd cwsmer y **Tîm Difa Pla** wedi bod yn uchel iawn drwy'r gydol 2019/20 hefyd gyda chanmoliaeth mawr am waith prydlon ac effeithiol. Ar gyfartaledd cafwyd sgôr o 9.7 allan o 10 gan y cwsmeriaid dros y flwyddyn.

Tai

Y brif her yn wynebu'r Gwasanaeth Tai yw ceisio cyfrannu tuag at gynyddu'r cyflenwad tai i bobl leol a'r opsiynau cartrefu sydd ar gael i bobl Gwynedd. Mae'r effaith ar ddigartrefedd o ganlyniad i Covid-19 hefyd yn bryder cynyddol a fydd yn siŵr o waethygu yn ystod 2020/21.

Mae'r tîm **Grantiau a Phrosiectau Tai** wedi gweld llwyddiant ysgubol i'w cynllun 'Grantiau i brynwyr tro cyntaf' a 'Grantiau Tai Gwag' eto eleni. Yn ystod 2019/20, derbyniodd y tîm 114 o geisiadau am y grant hwn, ac eisoes wedi cymeradwyo gwerth £1.9m o grant ar 114 o'r ceisiadau hyn. Bydd yn gymorth i gartrefu bron i 308 o unigolion a theuluoedd.

Mae'r Gwasanaeth Tai wedi bod yn gweithredu er mwyn atal **digartrefedd** ond hefyd yn darparu cefnogaeth i deuluoedd neu unigolion sy'n canfod eu hunain yn ddigartref. Rydym wedi gweld cynnydd o 35% yn y nifer sydd yn cyflwyno yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae'r galw yn parhau yn uwch nag erioed gyda 745 o unigolion wedi derbyn gwasanaeth yn 2019/20. Mae hyn wedi rhoi pwysau aruthrol ar ein hopsiynau cartrefu dros dro ac ar hyn o bryd nid ydym yn gallu ymdopi gyda'r galw o gryn dipyn. Canlyniad hyn yw gorfod gor-ddefnyddio llety gwely a brecwast sydd yn anorfod yn creu gorwariant. Yn ystod 2020/21 byddwn yn ceisio cynyddu'r opsiynau llety dros dro ac yn sicrhau fod cefnogaeth briodol ar gael i'r unigolion bregus hyn hefyd.

Gydag arian grant gan Lywodraeth Cymru, mae'r Gwasanaeth Digartrefedd wedi cyllido prosiect i gyd-gordio gwasanaeth ar gyfer pobl yn gadael carchar. Mae un swyddog yn y tîm yn cymryd cyfrifoldeb am bobl sydd yn dod yn ôl i Wynedd i fyw ar ôl cyfnod yn y carchar a cheisio adnabod a threfnu llety ar eu cyfer i osgoi digartrefedd. Mae'r prosiect wedi datblygu perthynas dda gyda'r carchardai, y Gwasanaeth Prawf a nifer o asiantaethau eraill sydd yn gweithio efo'r unigolion.

Mewn ymateb i'r diffyg eiddo un llofft yn y sir, mae'r Gwasanaeth yn gweithio ar y cyd gyda'r asiantaeth trydydd sector, Cais, i adnabod eiddo ar gyfer pobl sengl fregus yn ardal Bangor. Mae cynllun yn cael ei ddatblygu sydd

yn darparu llety a chefnogaeth ddwys, gyda phwyslais ar ddatblygu sgiliau unigolion i'w galluogi i fyw yn annibynnol.

Datblygiad arall o fewn y maes digartrefedd yw'r prosiect 'cefnogaeth ddwys i bobl sydd yn cysgu allan'. Mae'r Gwasanaeth yn cydweithio gyda Tai Gogledd Cymru, a drwy help grant Llywodraeth Cymru mae swyddog cefnogaeth wedi cael ei benodi i geisio annog pobl i gydweithio, helpu i ddatrys eu problemau a'u cefnogi i symud ymlaen i lety sefydlog. Wrth i'r cyfyngiadau Covid gael eu rhoi mewn grym ar draws y wlad ar ddiwedd mis Mawrth 2019, bu modd i ni ymateb i gais y llywodraeth i geisio cartrefu pawb oedd yn cysgu ar y strydoedd ar fyrder. Rydym wedi gallu cartrefu 29 o unigolion, ond yr her fawr sy'n ein wynebu nawr yw ceisio darparu cartrefi parhaol iddynt gyda'r gefnogaeth angenrheidiol. Mae diffyg mawr yn parhau yn y stoc dai sydd ar gael ar gyfer unigolion bregus sydd ag anghenion cymhleth fel yr unigolion hyn.

I'r perwyl hwn, mae'r Gwasanaeth wedi cychwyn ar ein datblygiad tai cyntaf wrth ddatblygu unedau hyblyg 'pods'. Bydd yr unedau yma yn cynnig cartref gyda chefnogaeth i'r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau sydd yn anodd eu lleoli, a'r bwriad fydd datblygu 4 'pod' ar gyfer 4 unigolyn. Mae'r gwaith wedi cychwyn ar safle a bydd wedi ei gwblhau yn ystod 2020/21. Mae mwy o gynlluniau yn yr arfaeth yn dilyn llwyddaint ceisiadau am arian grant gan y llywodraeth a byddwn yn gallu darparu llety â chefnogaeth o'r newydd ym Mangor, Caernarfon a Dolgellau dros y 18 mis nesa.

Mae'r **Rhaglen Cefnogi Pobl** yn rhoi cymorth i bobl sy'n agored i niwed er mwyn rheoli neu gynnal eu tenantiaeth a byw'n annibynnol. Yn ystod 2019/20 mae'r rhaglen yng Ngwynedd wedi cefnogi 1,956 o bobl i gael mynediad a chynnal tenantiaethau parhaol neu dros dro ac atal digartrefedd. Oherwydd newid

deddfwriaeth ac amodau'r grant cefnogi pobl, ceir mwy o bwyslais nawr ar dargedu atal digartrefedd drwy ymyriadau cynharach a chreadigol. Dros y ddwy flynedd nesaf – hyd at ddiwedd 2021/22 - byddwn yn adolygu'r hyn sy'n cael ei gyflawni gan y grant hwn er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi'r budd gorau posib i bobl Gwynedd, yn enwedig gan fod y Llywodraeth wedi bod yn ystyried cwtogi'r arian fydd ar gael yn y dyfodol.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir




Adran Amgylchedd



Prif feysydd Cyfrifoldeb yr Adran Amgylchedd yw Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Trafnidiaeth a Chefn Gwlad a'r Gwasanaeth Eiddo Corfforaethol

Cynllunio

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn hwyluso a rheoli datblygiadau cynaliadwy er budd cymunedau, yr economi a'r amgylchedd o fewn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd (nad yw'n cynnwys ardal y Parc Cenedlaethol), gyda **83%** o gwsmeriaid y gwasanaeth yn datgan eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth.




O'r rhai sy'n anfodlon mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn nodi anfodlonrwydd gyda'r trefniadau cysylltu gyda'r gwasanaeth, gydag anhawster cyfathrebu yn cael ei nodi yn y sylwadau a dderbyniwyd gan gwsmeriaid hapus yn ogystal â'r rhai anhapus. Bydd y gwasanaeth yn gweithio i wella'r sefyllfa drwy edrych ar a gweithredu ar y rhesymau pam fod cwsmeriaid yn anfodlon yn 2020/21.

Ar gyfartaledd yn 2019/20 roedd ceisiadau cynllunio yn cymryd 62 diwrnod i'w penderfynu o'i gymharu â 57 diwrnod yn 2018/19, gyda cheisiadau oedd yn derbyn penderfyniad Pwyllgor yn cymryd 183 diwrnod ar gyfartaledd (cais hen yn Awst 2019 wedi effeithio ar hyn).

Mae'r perfformiad yn adlewyrchu'r ffaith fod y ceisiadau sydd yn mynd gerbron

Pwyllgor yn tueddu i fod yn geisiadau cymhleth neu gynhennus, ac nid yw'n anarferol i benderfyniadau gael eu gohirio er mwyn rhoi cyfle i dderbyn mwy o wybodaeth neu gynnal trafodaethau.

Mae tai fforddiadwy yn fater sydd yn flaenoriaeth i'r Cyngor, gyda 38% (118 o unedau allan o 311) o'r tai a ganiatawyd trwy'r drefn gynllunio yn 2019/20 yn dai fforddiadwy, naill ai trwy gytundeb 106 neu oherwydd eu bod yn dai a adeiladwyd gan landlord cymdeithasol cofrestredig. Mae'r ffigwr yma'n parhau i fod yn uwch na'r targed sydd wedi ei osod yn y Cynllun Datblygu lleol ar y Cyd. Golyga hyn fod y Gwasanaeth Cynllunio yn cyfrannu yn uniongyrchol tuag at y ddarpariaeth tai fforddiadwy yng Ngwynedd mewn ffordd arwyddocaol. Mae gwybodaeth bellach am ddarpariaeth cartrefi yng Ngwynedd i'w gweld ym mhennod yr Adran Tai ac Eiddo.



Mae'r Gwasanaeth Cynllunio hefyd yn ymdrin â gorfodaeth cynllunio, gan gymryd camau gorfodaeth ar ddatblygiadau sydd heb gael caniatâd cynllunio. Bu i 302 o achosion gorfodaeth gael eu cyflwyno yn 2019/20. Archwiliwyd 179 o'r achosion yma sef 59% ac ar gyfartaledd maent yn cymryd 65 diwrnod i'w harchwilio. Yn ystod y flwyddyn cofnodwyd 71 achos oedd angen camau cywiro, gyda 20% wedi cwblhau camau cywiro a'r 80% arall ar y gweill. Dylid nodi fod y broses o gymryd camau gorfodaeth yn hir oherwydd natur

gofynion ymchwilio, gofynion statudol a phrosesau cyfreithiol, ond bod datrysiad boddhaol i'r achos yn aml yn bwysicach i'r cwsmer na'r amser a gymerwyd i gyflawni hynny.



Gwarchod y Cyhoedd

Mae 99.23% o sefydliadau bwyd Gwynedd yn cydymffurfio'n fras gyda safonau hylendid bwyd, sef 2,070 allan o 2,086 sefydliad.

Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wedi ei chael hi'n anodd iawn dygymod gyda'r nifer o archwiliadau sy'n ofynnol, a bu'n rhaid darganfod adnoddau ychwanegol i glirio'r ôl-groniad archwiliadau sydd wedi datblygu. Ar gyfer 2019/20 mae yna ôl-groniad o 35 archwiliad hylendid bwyd, ynghyd ag ôl-groniad o 130 archwiliad Safonau Bwyd. Yn y sefydliadau bwyd categorïau risg is y mae'r ôl-groniad yma, ond yng Ngorffennaf 2018 penderfynodd y Cabinet i ddyrannu mwy o adnoddau i'r gwasanaeth er mwyn iddynt benodi dau swyddog ychwanegol i fedru ymdopi â'r gwaith. Fodd bynnag, mae'n cymryd amser i ddod yn gymwys yn llawn i gynnal archwiliadau hylendid bwyd, ac felly ni fyddwn yn gweld effaith lawn yr adnoddau ychwanegol am beth amser.

Fel arall fe welir perfformiad calonogol ym maes Gwarchod y Cyhoedd gyda'r holl archwiliadau llygredd awyr a sefydliadau bwyd anifeiliaid yn cael eu harchwilio yn unol â'r rhaglen. Llwyddwyd i ddatrys 459 o droseddau drwy ymyrraeth gan Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn ystod y flwyddyn gyda 70 arall yn aros i'w datrys.

O ran y rhaglen archwilio safleoedd risg uchel iechyd anifeiliaid nid oedd posib cwblhau'r archwiliadau rhaglunedig oherwydd salwch swyddogion a chyfyngiadau pandemig Covid-19.

Traffig a Gwaith Stryd



Yr hyn sy'n bwysig i'r sawl sy'n gofyn am orchmynion traffig yw gweld y gorchymyn yn dod i rym, ac mae'r arfer yr oedd gennym o hysbysebu nifer o geisiadau mewn un pecyn wedi dod i ben gan y byddai'n aml yn bosib i un gorchymyn cynhennus ddal nifer o orchmynion eraill yn ôl. Mae'r newid yma mewn canfyddiad o'r broses wedi arwain at gwtogi'r amser cyfartalog a gymerir i osod Gorchymyn Traffig yn ei le o 519 diwrnod i 297.

Cludiant Cyhoeddus



Mae'r sector trafniadaeth gyhoeddus yng Ngwynedd wedi wynebu cyfnod cythryblus dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r gwasanaeth wedi gorfod ymateb yn gyflym i newidiadau mawr o ran y darparwyr oedd ar gael yn y maes. Erbyn hyn mae'r Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad wedi dechrau ar y gwaith o gynnal arolwg cynhwysfawr o'r rhwydwaith cludiant cyhoeddus. Bydd y Gwasanaeth yn cydweithio gyda Phrifysgol Bangor er mwyn cynllunio rhwydwaith fydd wedi ei seilio ar werth cymdeithasol, yn hytrach na chost a nifer teithwyr. Bydd hefyd yn ystyried dulliau arloesol o gynnig rhwydwaith cludiant cyhoeddus. Disgwylir i'r adolygiad ddod yn weithredol yn Hydref 2020.

Yn y cyfamser mae'r gwasanaeth yn parhau i ymdrin â chwynion a dderbynnir gan y cyhoedd, a chydweithio gyda'r diwydiant i gynnal gwasanaethau sydd yn ateb anghenion Pobl Gwynedd. Mae'r Gwasanaeth yn monitro prydlondeb gwasanaethau bysus, gyda 70% o wasanaethau yn cyrraedd yn brydlon yn 2019/20. O'r gwasanaethau nad oedd yn brydlon, roedd y rhan helaeth wedi cyrraedd o fewn 5 munud i'r amser ar yr amserlen.

Parcio

Cafodd Grŵp Tasg Parcio ei ffurfio tuag at ddiwedd 2019 yn bwrpasol er mwyn rhoi sylw i faterion parcio amrywiol a chyflwyno datrysiadau posibl er mwyn cyfarch bwlch ariannol sydd yn wynebu'r Cyngor a gwella'r trefniadau parcio presennol yn yr un modd. Bu i'r gweithgor roi pwyslais ar bwysigrwydd cynnal adolygiad mewn modd ystyriol a gofalus gan ymdrechu i gyrraedd cydbwysedd priodol rhwng cynhyrchu lefel incwm digonol a blaenoriaethu anghenion trigolion Gwynedd.

Polisi Cynllunio ar y Cyd

Adroddiad Monitro Blyneddol - Cafodd adroddiad ei baratoi a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod 1 Awst 2017 - 31 Mawrth 2019. Mae'r Adroddiad yn adrodd ar berfformiad y Cynllun yn ystod y cyfnod ac yn asesu os yw strategaeth a pholisïau'r Cynllun yn gweithio. Casgliad yr Adroddiad oedd bod y Cynllun y cyflawni'r strategaeth a bod polisïau'r Cynllun yn gweithio, doedd dim tystiolaeth am yr angen i adolygu'r Cynllun yn gynnar.

Canllawiau Cynllunio Atodol - Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn atgyfnerthu gallu'r Cynllun i roi sail gadarn i wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio i'r dyfodol. Mae pedwar CCA wedi cael ei fabwysiadu yn ystod cyfnod 2019/2020: Tai fforddiadwy, Cynnal a chreu cymunedau cynaliadwy, Ymrwymadau cynllunio, Trosi adeiladau ac ail-adeiladu tai yng nghefn gwlad.

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol -

Mae'r gwasanaeth polisi cynllunio yn paratoi ymatebion i ymgynghoriadau polisi cynllunio gan wahanol asiantaethau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol eraill lle bo hynny'n briodol. Ym mis Awst 2019, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC).

Mae'r FfDC yn gynllun datblygu newydd, a'i ddiben yw gosod y cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru o 2020 i 2040. Darparodd y gwasanaeth, gyda mewnbwn gan adrannau a gwasanaethau eraill ar draws y Cyngor, ymateb manwl i'r ymgynghoriad FfDC.

Cefn Gwlad

Yn ystod 2019/20 cwblhaodd y Gwasanaeth Cefn Gwlad gwedd Dysgu o'u Hadolygiad Ffordd Gwynedd. Yn dilyn yr adolygiad hwn, y meysydd allweddol y gweithredwyd arnynt oedd:

- Addasu'r Pwrpas i adlewyrchu'n well prif feysydd gwaith y Gwasanaeth – Mynediad / Bioamrywiaeth / AHNE Llyn.
- Paratoi Pwrpasau newydd ynghyd â mesuryddion perfformiad ar gyfer y meysydd gwaith unigol.
- Monitro effeithlonrwydd a gwelliannau i'r system a ddefnyddir i gofnodi gwaith a galwadau mewn perthynas â hawliau tramwy.
- Adnabod anghenion adnoddau i gwrdd â'r risgiau i'r cyhoedd yn sgil diffyg cyllideb i reoli tiroedd.

Oherwydd pandemig Covid-19, mae'r gwaith hwn wedi arafu ond bydd wedi'i gwblhau yn 2020/21.

Rheolaeth Adeiladu

Mae'r Uned Rheolaeth Adeiladu yn cydweithio gyda'r cyhoedd a phartneriaid er mwyn i'n cymunedau gael adeiladau diogel sydd yn cyd-fynd â'r gofynion technegol diweddaraf. Mae'r Uned yma'n gyfrifol am sicrhau bod gwaith adeiladu yn cwrdd â'r safonau adeiladu. Mae hyn yn bwysig a gwerthfawr i bobl Gwynedd, gan y bydd yn sicrhau bod unrhyw waith adeiladu yn ddiogel ac o'r safon angenrheidiol.

Mae'r Uned Rheolaeth Adeiladu hefyd yn parhau i roi gwasanaeth da i drigolion gyda'r sgôr bodlonrwydd yn parhau'n uchel ac yn gymharol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf. Mewn arolwg boddhad cwsmeriaid yn 2019/20, rhoddwyd sgôr cyfartalog o 9.7 allan o 10 o'i gymharu â 9.6 yn 2018/19. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu'r rheswm am unrhyw anfodlonrwydd.

Un o ddyletswyddau'r Uned Rheolaeth Adeiladu yw prosesu ceisiadau Cynlluniau Llawn. Mae'r Uned yn cynnal asesiad o'r cynlluniau, ac yn cyhoeddi hysbysiadau penderfyniad o fewn ei darged statudol o 5 ac 8 wythnos. Mae'r Uned yn anelu i archwilio'r cynlluniau o fewn 15 diwrnod, gyda'r gwaith penderfyniad ar y cais yn cael ei ryddhau cyn gynted â phosib.


Rheolaeth Categori Corfforaethol

Pwrpas y gwasanaeth hwn yw cydweithio a chefnogi gwasanaethau oddi fewn y Cyngor i wario arian cyhoeddus mewn modd strategol a chywir sydd yn profi gwerth am arian ac annog i gadw'r budd yn lleol.

Yn ystod 2019/20 llwyddodd y tîm i gefnogi gwasanaethau i arbed £165miliwn. Hefyd roedd £78miliwn yn rhagor wedi ei adnabod fel arbedion posib, ac mae ymdrech yn parhau i annog gwasanaethau ar draws y Cyngor i ymuno â'r cytundebau corfforaethol.

Mae'r Tîm yn ymdrechu i gadw'r gwariant yn lleol ble'n bosibl, a ble bo rheolau cyfreithiol yn caniatáu. Cyn penderfynu ar ddull pwrcasu addas, mae trefn safonol wedi'i sefydlu i adnabod os oes marchnad leol gydag awydd a chapasiti i gystadlu am waith gan y Cyngor yn gyntaf. O fewn y categori Corfforaethol roedd 56% o'r gwariant o fewn Gwynedd yn ystod 2019/20.

Gwariant Lleol - Categori Corfforaethol



■ Gwariant Lleol ■ Gwariant tu allan i Wunedd

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein cymunedau
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.




Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)



Mae **Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC)** yn gweithredu'n fasnachol yn y maes peirianyddol ac adeiladu er mwyn sicrhau swyddi o ansawdd uchel o fewn y sir a cheisio creu elw i helpu gyda sefyllfa ariannol y Cyngor.

Ar gyfer 2019/20 llwyddwyd i greu elw oedd £10,725 yn uwch na'r targed a osodwyd ar ein cyfer.



Perfformiad ar faes Dŵr a Llifogydd



Prosiectau 2019 / 2020 - CRMP (Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol Llywodraeth Cymru), cynlluniau bach (Cronfa ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau rheoli risg llifogydd bach uchafswm o £100,000), cynllun asedau (Cynllun gwariant ar asedau'r Cyngor, mae gwariant ar asedau risg llifogydd yn un o elfennau'r cynllun).

Yn yr un modd ag ardaloedd arfordirol eraill yng Nghymru, mae rhai ardaloedd arfordirol yng Ngwynedd ble mae mwy o berygl o lifogydd. Mae'r gwasanaeth yn denu arian grant er mwyn ymgymryd ag astudiaethau neu waith dylunio i ostwng y risg o lifogydd sy'n bodoli yn ardaloedd Gwynedd. Mae'r rhain i gyd yn gymunedau sydd un ai wedi dioddef yn hanesyddol neu ble mae tystiolaeth gref fod newid hinsawdd yn debygol o gynyddu risg yn y dyfodol.

Yn ystod 2019/20 roedd ein prosiectau atal llifogydd yn cynnwys:

- Viaduct Gardens, Abermaw - datblygu opsiynau i ostwng lefel risg llifogydd arfordirol
- Prom Gogleddol, Abermaw - datblygu opsiynau i ostwng lefel risg llifogydd ac erydiad arfordirol
- Bae Hiracl, Bangor - ymchwilio i lefel risg llifogydd arfordirol ynghyd â llifogydd dŵr wyneb
- Afon Gwyrfa - ymchwilio i natur a lefel risg llifogydd yn nalgylch yr Afon Gwyrfa
- Dalgylch Ogwen - paratoi cais busnes manwl i wneud gwelliannau ar hyd y dalgylch sydd am reoli risg dŵr wyneb
- Cwm y Glo - astudiaeth o fesurau o ostwng bygythiad llifogydd yn stad Dolafon yng Nghwm y Glo

Oherwydd y cyfyngiadau pandemig Covid-19, ni llwyddwyd i gwblhau holl brosiectau 2019/20. Fodd bynnag, bydd y prosiectau hyn yn cychwyn neu'n ailgychwyn cyn gynted ag y bydd y cyfyngiadau presennol yn cael eu codi.

Monitro Asedau

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae system newydd i reoli asedau wedi ei ddatblygu ar y cyd â gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor ac yn ein galluogi i storio ein holl ddata asedau, ynghyd â data ynglŷn â digwyddiadau llifogydd i gyd mewn un system. Wrth ddatblygu system yn fewnol, yn lle talu ffi blynyddol i gwmni allanol, mae'r Uned wedi gwneud arbediad a ellir ei ail-fuddsoddi yn y gwaith o gynnal a chadw ein hasedau draenio tir ac arfordirol.

Mae pob ased draenio tir ac arfordirol a gynhelir gan yr Uned bellach wedi'i archwilio ar gyfer 2019/20 gyda chanlyniadau pob arolwg yn cael ei gofnodi ar y system newydd. Bydd y weithdrefn newydd yma yn galluogi'r Uned i ddatblygu cynllun asedau hir dymor. Mae gwaith hefyd i

ymchwilio i unrhyw asedau hanesyddol dan gyfrifoldeb adrannau eraill hefyd yn cael eu hymgorffori i'r drefn yma.

Drwy wneud y newidiadau yma i'n system rheoli asedau, bydd yr Uned yn parhau gyda'r trefniadau i gael system mewn lle sydd yn cyd-fynd gyda gofynion Safonau Prydeinig Rheoli Asedau ISO55001.

Adroddiadau Llifogydd (Section 19)

Rydym yn parhau i gasglu gwybodaeth ynglŷn â lefel risg llifogydd o fewn y sir, ac wedi datblygu mapiau a chronfeydd data penodol ar gyfer y pwrpas yma. Yn ystod 2019/2020 cofnodwyd **23 achos o lifogydd mewnol** a tua **65 o achosion llifogydd** agos neu adroddiadau o drafferthion dŵr wyneb. Yn y cyfnod yma mae'r Cyngor wedi derbyn arweiniad gan yr Asiantaeth Amgylchedd dros 30 o weithiau, fod yna bosiblirwydd o lifogydd.

Rydym yn parhau i gydweithio gyda'r sector gyhoeddus, a chyrrff eraill drwy godi ymwybyddiaeth am beryglon llifogydd ac erydu arfordirol

Rheoleiddio

Yn ystod 2019/2020 rydym wedi prosesu **28 o geisiadau i weithio mewn cyrsiau dŵr** cyffredin dros y sir. Mae'r gwasanaeth ymgynghorol a gynigir yn golygu fod bob cais sydd wedi ei dderbyn o fewn y cyfnod hwn wedi bod yn dderbyniol, gydag ymateb wedi ei ddarparu o fewn **25 diwrnod** ar gyfartaledd, lle caniateir hyd at 2 fis.

Pwrpas y broses caniatâd gweithio mewn cyrsiau dŵr ydi rheoli gweithgareddau penodol a allai gael effaith andwyol ar lifogydd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym hefyd wedi bod yn trafod gofynion yr is-ddeddfau draenio tir newydd gydag amryw o ddatblygwyr er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r oblygiadau ar ddatblygiadau yn y dyfodol. Bydd y broses codi ymwybyddiaeth yma yn parhau i'r dyfodol.

Ers mis Ebrill 2019 rydym wedi rhoi sylwadau ar **160 cais cynllunio**, er mwyn sicrhau fod bygythiad llifogydd ac erydiad arfordirol i ddatblygiadau newydd yn dderbyniol a bod manylion y cais yn cydymffurfio a pholisïau cenedlaethol.

SuDS (systemau draenio sy'n ffafrio defnyddio dulliau mwy naturiol/gwyrdd i ddelio a dŵr wyneb), nifer ceisiadau (a chynghor cyn gwneud cais) yng Ngwynedd ac yn rhanbarthol.

Codi ymwybyddiaeth:

Rydym yn parhau i weithio gydag adrannau cynllunio'r Cyngor a Pharc Cenedlaethol Eryri, er mwyn amlygu'r gofynion i'w ymgeiswyr. Rydym yn gwneud hyn drwy nodyn gwybodaeth wrth i gais cynllunio gael ei gofrestru, ymgynghoriad gyda'r CCS (Corff Cymeradwyo SDC-Systemau Draenio Cynaliadwy) drwy'r Prif Awdurdodau Atal Llifogydd (PAAL) yn ystod asesu'r cais, a nodyn gwybodaeth ar ddiwedd y caniatâd cynllunio.

Rydym yn parhau i ymchwilio i mewn i geisiadau cynllunio sydd angen cais gyda CCS (Corff Cymeradwyo SDC-Systemau Draenio Cynaliadwy) gan gynnwys y rhai sydd heb gysylltu'n uniongyrchol â'r Adran ac rydym yn cydweithio gyda nifer o Benseiri ac Asiantau i godi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth.

Rydym yn defnyddio gwefannau cymdeithasol YGC yn ogystal â'r cyfrifon corfforaethol i raeadru gwybodaeth addysgiadol i gynulleidfâ eang yn electroneg.

Gwasanaeth Cyn-Gais:

Rydym yn parhau i weithredu gwasanaeth di-dâl ble mae datblygwyr neu ymgynghorwyr yn gallu cysylltu â ni am gyngor cyn rhoi cais llawn i mewn. Mae'r gwasanaeth yma wedi bod yn hynod boblogaidd, yn enwedig am fod y gofynion newydd yn berthnasol i bawb. Mae'r cyfarfodydd sydd wedi eu cynnal wedi bod yn bositif, ac wedi eu gwerthfawrogi gan ddatblygwyr gan fod y

mwyafrif wedi amlygu mân broblemau ac felly wedi rhoi cyfle i ddiwygio'r cynlluniau cyn cyflwyno cais ffurfiol.

Mae cynnig y gwasanaeth yma wedi annog perthnasau da ac wedi bod yn ddefnyddiol i'r Cyngor a'r datblygwyr, gyda llawer o ddatblygwyr yn gofyn i'r gwasanaeth barhau, ond y teimlad ydi na all y gwasanaeth barhau yn ddi-dâl. Felly rydym yn y broses o ffurfioli'r drefn cyn-gais gyda threfniant ffi yn ddibynnol ar lefel y gwasanaeth - yn debyg i'r hyn sydd yn cael ei gynnig gan y gwasanaeth Cynllunio. Rydym yn cydweithio yn agos gyda chynghorau gogledd Cymru, ac er mwyn cysondeb rydym yn gobeithio defnyddio'r un strwythur ffioedd. Er hyn, rydym yn awyddus i gynnig polisi 'drws agored' ble gall yr ymgeiswyr drafod y gofynion yn uniongyrchol gyda swyddog, cyn symud ymlaen i wasanaeth cyn-gais ffurfiol os oes angen. Mae buddsoddiad yn yr amser yma o fudd i'r Ymgeisydd ac i'r Cyngor drwy roi tawelwch meddwl i'r ymgeisydd eu bod ar y trywydd cywir, a chyflymu'r broses o wirio'r cais llawn i'r Cyngor.

Rydym am godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth cyn-gais di-dâl tra ei fod dal i fodoli yn ddi-dâl.

Gwaith Rhanbarthol a Chenedlaethol


Mae Cyngor Gwynedd wedi eu penodi gan Gyngor Ynys Môn i brosesu a gwirio eu holl geisiadau SDC (Systemau Draenio Cynaliadwy). Rydym hefyd wedi cael ein comisiynu i wirio holl geisiadau SDC (Systemau Draenio Cynaliadwy) Cyngor Wrecsam.

Rydym yn gweithredu yn rhanbarthol ar draws gogledd Cymru, gan gydweithio gyda Chynghorau Sir Ynys Môn, Conwy, Dinbych, Fflint a Wrecsam.

Mae'r gwaith yma yn cynnwys llunio polisïau a gweithdrefnau a all gael eu defnyddio'n rhanbarthol er mwyn rhannu adnoddau a chael cysondeb yn y ffordd mae'r gofynion yn cael eu gweithredu.

Nifer Ceisiadau

Fel roeddem yn ei ddisgwyl, mae nifer ceisiadau wedi cynyddu bob chwarter yn 2019/20. I'r dyfodol, byddwn yn edrych ar strwythur yr Adran er mwyn sicrhau bydd y gwasanaeth yn cael ei gynnal fel mae'r niferoedd yn cynyddu.



Mae'r gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Gwynedd canlynol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir.



Adran Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth



Mae'r Adran Cyllid yn sicrhau'r gefnogaeth briodol i'r Cyngor wrth reoli, gwarchod a datblygu ei sefyllfa ariannol, yn ogystal â darparu gwasanaethau megis casglu refeniw a thalu budd-daliadau mewn ffordd deg. Mae gwasanaethau Technoleg Gwybodaeth y Cyngor hefyd yn rhan o'r Adran Cyllid ac maent yn cynnig arweiniad a chefnogaeth dechnegol o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo gwerthoedd sylfaenol y Cyngor.

Rheolaeth Ariannol ac Arbedion

Ers 2015 mae cyllideb y Cyngor wedi lleihau, gyda chyfanswm o £32 miliwn o arbedion wedi eu cyflawni dros y 5 mlynedd ddiwethaf. Golyga hynny fod gwaith rheolaeth ariannol a chefnogaeth gyfrifol yr Adran Cyllid yn gaffaeliaid i adrannau'r Cyngor wrth gyflawni i bobl Gwynedd mewn cyfnod ariannol anodd. Trwy reolaeth ariannol gydwybodol, mae'r Adran wedi llwyddo i gynorthwyo'r Cyngor i gadw o fewn ei gyllideb pob blwyddyn rhwng 2015/16 a 2019/20.

Yn yr hinsawdd ariannol lle mae gofyn i'r Cyngor leihau ei gyllidebau bob blwyddyn oherwydd y cyfyngiadau parhaus ar wariant cyhoeddus, yn ogystal ag amcangyfrifon ariannol dibynadwy a chyfrifon cywir a theg, yr Adran Gyllid sy'n gyfrifol am drefniadau cadarn y Cyngor ar gyfer sicrhau fod yr holl adrannau yn gwireddu'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn dangos fod 91% o'r cynlluniau oedd wedi'u rhaglennu i'w cyflawni erbyn diwedd 2019/20 wedi eu gwireddu, sef gwerth £29 miliwn o arbedion. O ran cynlluniau 2019/20 mae 60% o'r £5.4 miliwn o arbedion a gynlluniwyd wedi eu gwireddu yn y flwyddyn gyda 16 cynllun yn llithro a 8 cynllun gyda risgiau o ran cyflawni.

Archwilio Mewnol

Mae gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid ac i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Yn ystod 2019/20 bu i'r gwasanaeth gynnal 49 archwiliad, gyda'r mwyafrif naill ai wedi derbyn dyfarniad lefel sicrwydd 'uchel' neu 'digonol', ond 4 archwiliad wedi derbyn barn 'cyfyngedig'.

Yn ogystal â'r gwaith Archwilio Mewnol o fewn Cyngor Gwynedd mae'r gwasanaeth wedi cynnig gwasanaeth archwilio mewnol i 70 o gynghorau tref a chymuned Gwynedd a Môn. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol iawn gan y cynghorau fu'n cydweithio gyda'r Gwasanaeth, sydd yn ei dro wedi arwain at wahoddiadau i gyflawni'r un rôl eto.

Bu'r Gwasanaeth hefyd yn cynnal archwiliadau mewnol ar ran Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, GwE, a chwmni Byw'n lach.

Pensiynau


Mae'r Gwasanaeth Pensiynau yn gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran dros 40 o gyflogwyr, gan gynnwys cynghorau Gwynedd, Môn a Conwy. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar weithredu'n gywir a phrydlon ar ran ei aelodau. Roedd perfformiad cyffredinol y Gwasanaeth yn sefydlog, gyda gwelliant yn yr amser gymerwyd i anfon llythyrau dyfynbris, ond cynnydd mewn diwrnodau gymerwyd i gydnabod marwolaeth aelod. Bydd y Gwasanaeth yn rhoi sylw i wella hyn yn 2020/21.

Ym mis Ionawr 2020, lansiwyd gwefan hunan wasanaeth, sy'n caniatáu i staff a phensiynwyr ddiweddarau manylion personol, ac amcangyfrif eu pensiwn a lwmp swm wrth ymddeol.

Gwnaed cynnydd sylweddol gyda'r prosiect i-Connect, sydd yn caniatáu i gyflogwyr y Gronfa rannu data yn fisol gyda'r awdurdod gweinyddu, yn hytrach nac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Golygai hyn fod y wybodaeth yn y system pensiynau mor gyfredol â phosib. Yn 2020/21, bwriedir trosglwyddo'r cyflogwr olaf i'r system.

Prosiect arall gyflawnwyd yn 2019/20 oedd prisiant teirblynyddol y Gronfa Bensiwn. Cafwyd canmoliaeth gan yr Actwari fod ansawdd y data o safon uchel. Ar ddiwedd y prisiant, nodwyd gwellhad yn sefyllfa ariannu'r Gronfa - cynnydd o 91% ar 31 Mawrth 2016, i 108% ar 31 Mawrth 2019.


Cynnydd Prisiant Cronfa Bensiwn Gwynedd



Yn sgil yr argyfwng Covid-19, ar 31 Mawrth 2020 roedd gwerth y Gronfa Bensiwn wedi gostwng i £1.94 biliwn, oherwydd cwmp 15.9% ym marchnadoedd ecwiti byd-eang yn chwarter olaf 2019/20. Erbyn 20 Mai 2020 roedd marchnadoedd wedi codi 'nôl, gyda gwerth Cronfa Gwynedd yn ôl i'r lefel yr oedd ar 31 Mawrth 2019 o £2.08 biliwn, ble roedd y Gronfa wedi ei chyllido i lefel o 108%.

Trethi

Yn 2019/20, roedd casgliad Treth Cyngor (h.y. casgliad o fewn y flwyddyn) yn 96.8%, o'i gymharu â 96.6% yn 2018/19 a 97.1% yn 2017/18. Y gyfradd casglu o fewn y flwyddyn yw'r dangosydd perfformiad cenedlaethol, ond dylid nodi fod rhan helaeth o'r arian sy'n ddyledus yn cael ei gasglu yn y pen draw.




Budd-daliadau

Roedd y cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais Budd-dal Tai newydd yn 2019/20 yn 15.68 diwrnod, a'r cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau Budd-dal Tai yn 4.78 diwrnod. Mae hyn yn welliant ar ffigyrau 2018/19 (19.62 & 5.51), ac hefyd yn cymharu'n ffafriol yn erbyn y ffigyrau prosesu cenedlaethol gyhoeddwyd gan y DWP, sef 17 diwrnod (ceisiadau newydd) a 6 diwrnod (newidiadau).

Yn ychwanegol, rydym wedi cynorthwyo 1,737 o deuluoedd trwy gymorth o'r Gronfa Taliadau Tai Dewisol (DHP), sy'n gymorth ychwanegol tuag at dalu rhent. Drwy hyn, rydym wedi gallu cynorthwyo nifer sylweddol o denantiaid Gwynedd i aros yn eu cartref presennol neu i symud i eiddo newydd.

Incwm

Mae'r Gwasanaeth Incwm yn prosesu derbyniadau arian a chasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon. Llwyddodd y gwasanaeth i gasglu 94.98% o'r anfonebau a godwyd gan y Cyngor yn ystod 2019/20, o'i gymharu â 94.64% yn 2018/19. Roedd y gyfradd gasglwyd yn brydlon (h.y. taliad wedi ei dderbyn o fewn y chwarter) yn gyson oddeutu 89% trwy'r flwyddyn. Mae'r Gwasanaeth Incwm yn gweithredu'n sensitif i amgylchiadau pobl trwy gytuno trefniant talu gyda rhai dyledwyr.



Technoleg Gwybodaeth

Mae'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth (TG) yn darparu a chefnogi technoleg o bob math i helpu pobl Gwynedd i gael mynediad rhwydd at wybodaeth a gwasanaethau'r Cyngor, ac i staff weithio'n effeithlon.

Mabwysiadwyd Strategaeth TG yn 2016 ac mae gweithredu'r strategaeth wedi galluogi'r gwasanaeth i ddatblygu ac arloesi wrth ddarparu cefnogaeth i wasanaethau'r Cyngor. Yn sgil argyfwng Covid-19, bydd angen gogwydd gwahanol ar y strategaeth TG newydd a byddwn yn datblygu strategaeth ddigidol i gefnogi adferiad yn ystod ac wedi'r pandemig.

Cyn yr argyfwng, roedd uchafswm o 138 defnyddwyr yn gweithio'n hyblyg drwy VPN. Erbyn 30 Mawrth 2020, bu i'r nifer gynyddu i 1,292 o ddefnyddwyr VPN, gyda'r angen i staff y Cyngor weithio o adref am gyfnod amhenodol. Dosbarthwyd dros 30 pwynt diwifr fel gall staff ddefnyddio'u cyfrifiadur a'u ffôn desg o gartref, gan gynnwys galluogi i Galw Gwynedd weithredu'n llawn o adref yn ystod yr argyfwng. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i barhau i ddarparu gwasanaethau ac ymateb i bobl Gwynedd yn ystod yr argyfwng.

Yn yr un modd, cynorthwywyd nifer sylweddol o staff i llwytho systemau (e-bost ac eraill) ar eu dyfeisiadau personol, gan gynyddu eu hyblygrwydd i weithio o unrhyw le.


Gyda swyddogion ac Aelodau yn gweithio gartref, daeth diwedd disymwth ar gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Roedd ambell swyddog yn defnyddio 'Skype for Business' a

chyflymwyd y gwaith o fudo i 'Microsoft Teams', sydd bellach yn gonglfaen ar gyfer cyswllt a chyfarfodydd swyddogion y Cyngor.

Mae sawl darpariaeth arall wedi'u cyflwyno gan y Gwasanaeth TG yn 2019/20 i alluogi gwasanaethau'r Cyngor i ddefnyddio technoleg yn fwy effeithiol ac effeithlon. Datblygwyd system Rheoli Perthynas a Chwsmeriaid ar gyfer yr Adran Ymgynghoriaeth, sydd nid yn unig yn gwella effeithlonrwydd yr Adran ond hefyd wedi osgoi'r gost o gaffael system allanol. Ymysg gwelliannau i wasanaethau eraill, mae'r prosiect 'Rheoli Incwm Sefydliadau' am arwain at wella effeithlonrwydd o fewn y Gwasanaeth Incwm, yn ogystal â chyflawni arbedion.

Newid amlwg sy'n parhau yw datblygu gwasanaethau ar-lein a hunan-wasanaeth er mwyn cael mynediad at wasanaethau'r Cyngor. Yn ystod 2019/20 cyflwynwyd tocyn cludiant myfyrwyr electronig o fewn 'ap Gwynedd', ac mae ap ar gyfer athrawon llanw yn cael ei ddatblygu.

Un o flaenoriaethau'r Gwasanaeth TG yw sicrhau fod gwefan y Cyngor ar gael i'r cyhoedd, a rhwydwaith y Cyngor ar gael i'r staff. Mae perfformiad y gwasanaeth yn yr agweddau yma wedi bod yn gyson, gyda'r rhwydwaith ar gael 99.99% o'r amser yn 2019/20.



Nid heb waith caled y llwyddwyd i gyrraedd safon 'Aur' yn genedlaethol ar safon a glendid data a geir yng nghofrestr Tir ac Eiddo Gwynedd, a byddwn yn parhau i weithio'n ddiwyd i gadw'r safon yn ystod 2020/21.



Adran Cefnogaeth Gorfforaethol



Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan I, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Cyswllt Cwsmer

Bu 2019/20 eto'n flwyddyn lwyddiannus o ran cynyddu'r nifer o wasanaethau sydd ar gael i drigolion Gwynedd drwy hunanwasanaeth ar-lein. Mae'n bosib i bobl Gwynedd gael mynediad i nifer o wasanaethau ar amser sy'n gyfleus iddynt, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, tra'n cynnig ffordd fwy cost effeithiol o gysylltu â'r Cyngor am wasanaeth.



Gwnewch o ar-lein
Saff, sydyn a hawdd i'w ddefnyddio

Do it online
Safe, quick and easy to use

CYNGOR GWYNEDD www.gwynedd.llyw.cymru

Erbyn hyn, mae trigolion a busnesau Gwynedd yn gallu cysylltu ynghylch 27 o faterion priffyrdd, archebu a thalu am docyn parcio, talu am ginio ysgol, a chreu cyfri hunanwasanaeth ar gyfer busnesau. Am y tro cyntaf eleni, gellir arddangos bod dros 50% o geisiadau am wasanaeth mewn 4 maes yn cael eu cyflwyno ar-lein gydag 84% o'r ceisiadau i adnewyddu tocyn parcio yn cael eu cyflwyno yn y modd hwnnw. Yn ystod 2019/20 mae 9,641 o drigolion wedi agor cyfrif hunanwasanaeth o'r newydd.



Rydym yn darparu gwasanaeth ffôn drwy Galw Gwynedd, ond mae'r perfformiad wedi gostwng o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Amser ateb galwad ffôn yn Galw Gwynedd



Rydym yn ymwybodol bod lle i adennill tir yn y cyswllt hwn ac wedi cytuno ar drefniadau diwygiedig ar gyfer y dyfodol er mwyn gwella'r perfformiad. Un o'r camau a gymerwyd eisoes yw cyflwyno gwasanaeth sgwrs ar-lein ac mae cynllun i ymestyn y ddarpariaeth honno yn fuan. Mae 50% o'r trigolion a gysylltodd â Galw Gwynedd yn rhoi sgôr o 10 allan o 10 am y gwasanaeth gyda chanran uchel o'r rhesymau am sgôr is oherwydd nad oes dilyniant gan wasanaethau unigol i'r cyswllt gwreiddiol.

Cyfathrebu

Mae cynnal deialog ddwyffordd gyda phobl Gwynedd er mwyn i ni rannu gwybodaeth am wasanaethau'r Cyngor, ac i glywed barn ein trigolion, yn flaenoriaeth. Cynhaliwyd 8 ymarferiad i gasglu barn pobl Gwynedd am wahanol wasanaethau yn ystod 2019/20 gyda 2,200 o unigolion yn manteisio ar y cyfleoedd yma i leisio barn. Llwyddwyd hefyd i recriwtio 654 o aelodau i'r Panel Trigolion ar ei newydd wedd. Erbyn Mawrth 2020 roedd 29,500 o unigolion yn derbyn clipiau fideo, delweddau digidol a negeseuon yn ddyddiol drwy gyfrifon Twitter, Facebook ac Instagram y Cyngor. Yn ogystal fe wnaeth gwefan y Cyngor dderbyn 1,925,832 o ymweliadau unigol dros y flwyddyn.

Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau

Llwyddwyd i gynnal perfformiad o fewn y gwasanaeth gyda 93% o gofrestriadau marwolaethau yn cael eu cofrestru o fewn 5 diwrnod sy'n rhagori ar ddisgwyliadau'r Llywodraeth o 90%.

Derbyniwyd adroddiad cadarnhaol iawn ar berfformiad y Gwasanaeth gan y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol ac mae'r gwaith o sefydlu trefniant apwyntiadau ar-lein wedi'i gyflawni gyda'r bwriad o gyflwyno'r ddarpariaeth honno ym misoedd cyntaf 2020/21.

Cefnogi Busnes y Cyngor

Yn ystod 2019/20 mabwysiadwyd Gynllun Cydraddoldeb ar gyfer 2020-24 sydd yn adlewyrchu'r flaenoriaeth y dymuna'r Cyngor ei roi i'r maes yma, ac sy'n adnabod gwaith penodol i ganolbwyntio arno dros gyfnod y Cynllun.


Darperir cefnogaeth i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn sy'n ceisio sicrhau bod darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio er mwyn gwella lles trigolion. Yn dilyn cyhoeddi Cynllun Llesiant mae'r Bwrdd wedi cadarnhau y trefniadau cyflawni ac yn gweithredu ar raglenni gwaith er mwyn cyfrannu tuag at yr amcanion llesiant a'r meysydd blaenoriaeth.

Ymchwil a Gwybodaeth

Rydym yn ymwybodol iawn bod yr wybodaeth sydd ar gadw gennym am bobl ac adnoddau yn ddata sensitif a gwerthfawr.

Bu cynnydd bychan, ond cyson, yn y nifer o ddigwyddiadau gwybodaeth yn ystod y blyneddoddi diwethaf ac mae cynlluniau yn eu lle er mwyn tynnu sylw a phwysleisio pa mor allweddol yw diogelu gwybodaeth ar draws adrannau'r Cyngor.

Nifer digwyddiadau gwybodaeth lle mae gwybodaeth am unigolyn wedi ei ddwyn/colli/mynd i'r cyfeiriad anghywir




Ein blaenoriaeth yw parhau i sicrhau fod pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddiogelu data, gan ail-gynnig hyfforddiant yn ôl yr angen, fel na fydd achosion tebyg yn digwydd i'r dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn mae'r nifer o geisiadau gan unigolion sy'n dymuno gweld gwybodaeth amdanynt eu hunain (ceisiadau diogelu data) wedi cynyddu eto i 66. Er bod cynnydd pellach yn y nifer o geisiadau a dderbynnir, mae'r cyfartaledd amser ar gyfer ymateb i'r geisiadau hyn wedi gostwng o 40 i 28 diwrnod, sy'n cydfynd efo'r gofyn i ateb o fewn yr amserlen ddisgwyliedig sef 1 mis calendr.

Ar ben hynny cafwyd 1,018 o geisiadau rhyddid gwybodaeth yn ystod y flwyddyn. Bu i'r gyfradd ymateb yn brydlon ostwng fodd bynnag ac roedd hynny yn bennaf oherwydd y nifer geisiadau a gyflwynwyd ar gyfer un Gwasanaeth.

Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth - canran atebwyd o fewn 20 diwrnod gwaith ar draws y Cyngor



Bu i swyddogion y Gwasanaeth gymryd rhan flaenllaw yn yr ymdrech lwyddiannus i gael y Swyddfa Ystadegau Gwladol i newid y cwestiwn grŵp ethnig yn holiadur Cyfrifiad 2021 tra bo 'Proffil Ardaloedd Gwynedd', sef teclyn sy'n dal gwybodaeth am ardaloedd bychain ar draws Gwynedd (180 o wahanol ddarnau o wybodaeth) wedi ei ddatblygu gennym i helpu gwasanaethau.

Ymhellach, cwblhawyd arolwg o stoc gwelyau twristiaeth Gwynedd, fydd yn helpu'r Adran Economi i gefnogi'r sector, a chael mwy o adnodd i Wunedd er mwyn ymateb i'r pwysau ar wasanaethau sy'n deillio o bresenoldeb ymwelwyr

Prynu

Yn ychwanegol at y gwaith ar y prosiect Blaenoriaeth Gwella 'Cadw'r Budd yn Lleol' bu'r Gwasanaeth Caffael hefyd yn cydweithio gydag adrannau ar draws y Cyngor er mwyn gosod cytundebau a threfniadau yn eu lle sydd wedi rhoi'r cyfle iddynt arbed arian. Yn ystod 2019/20 mae cyfleoedd wedi eu hadnabod er mwyn arbed cyfanswm o £425,115.

Democratiaeth a laith



Pwrpas y Gwasanaeth Democratiaeth yw cefnogi Cynghorwyr er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau a gweithredu er lles trigolion Gwynedd. Ar gyfer cyfnod

2019/20 bu i'r canran rhaglenni pwyllgorau sy'n cael eu cyhoeddi o fewn yr amserlen (o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod) ostwng i 92% o'i gymharu â 97% yn 2018/19. Mae gwaith gydag awduron adroddiadau yn parhau er mwyn gwella'r perfformiad yma.

Mae safon gwaith yr Uned Gyfieithu yn parhau i gael ei werthfawrogi, gyda 98.5% o'r holiaduron bodlonrwydd a gwblhawyd yn

sgorio'r gwasanaeth cyfieithu ysgrifenedig yn 5 allan o 5. Mae'r prosiect caniatáu mynediad o bell i gyfarfodydd y Cyngor wedi symud yn ei flaen yn sylweddol ar ddiwedd 2019/20 gyda'r rhagolygon y bydd cyfarfodydd ar sail rhithiol yn dod yn fwyfwy cyfarwydd o fewn y Cyngor i'r dyfodol.

Cynhaliwyd ymgyrch i godi proffil a hyrwyddo gwaith "Hunaniaith" (Menter Iaith Gwynedd) ar y cyfryngau cymdeithasol. Sefydlwyd trefniadau o'r newydd ar gyfer Bwrdd Rheoli'r Fenter a threfnwyd ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn ennyn barn y cyhoedd ar yr hyn y gellid ei wneud i hyrwyddo'r Gymraeg yn ein cymunedau.

Adnoddau Dynol

Rydym yn falch iawn bod y newidiadau a wnaethpwyd yn ystod 2018/19 eto wedi golygu bod isafswm cyflog o fewn y Cyngor o fis Ebrill 2020 wedi codi i £9.43 yr awr. Mae hyn yn cymharu ag £8.72 ar gyfer y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r £9.30 yr awr sy'n cael ei gydnabod fel y Gwir Cyflog Byw gan y Sefydliad Cyflog Byw.

Er i ni weld cynnydd yn nifer diwrnodau salwch fesul aelod o staff yn ystod 2019/20 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, rydym yn parhau i fod ymysg y cynghorau sydd â'r lefel isaf o absenoldebau salwch.

Nifer o ddyddiau a gollwyd y pen ar gyfartaledd o ganlyniad i absenoldeb salwch



2015/16	- 8.44
2016/17	- 9.00
2017/18	- 8.72
2018/19	- 9.45
2019/20	- 9.78

Gwasanaeth Cefnogol

Mae'r Gwasanaeth Cefnogol yn darparu cymorth gweinyddol i staff y Cyngor. Mae'r gwaith o gyflwyno system Hunanwasanaeth i staff sydd heb gyfrif TG wedi derbyn blaenoriaeth yn ystod y flwyddyn. Golyga hyn bod gan reolwyr fynediad hwylus at statws DBS staff sydd mewn swyddi rheoledig, bod modd derbyn slip cyflog yn electroneg yn ogystal â derbyn gwybodaeth yn fwy hwylus ac yn gynt nag yn y gorffennol. Bellach mae 71% o staff y Cyngor yn fyw ar y system Hunanwasanaeth gyda gwaith pellach i ymestyn y nifer yma yn ystod 2020/21.

Dysgu a Datblygu'r Sefydliad




Mae'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn cynnig cefnogaeth dysgu a datblygu i staff ac aelodau etholedig y Cyngor. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn arwain ar gynlluniau ar gyfer hyfforddeion a phrentisiaethau yn ogystal a bod yn flaenllaw yn cefnogi diwylliant Ffordd Gwynedd y Cyngor. Cynhaliwyd 80 o weithdai i'r perwyl hwnnw yn ystod y flwyddyn ar ben yr hyfforddiant sy'n ffurfio rhan o'r rhaglen waith blynnyddol

Iechyd, Diogelwch a Llesiant

Mae nifer y damweiniau RIDDOR sydd angen eu hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi gostwng eleni o'i gymharu a'r llynedd, ond roedd ffigwr y llynedd yn sylweddol uwch na'r dair blynedd flaenorol. Un o'r prif resymau am hyn yw'r cynnydd sylweddol sydd wedi bod mewn anafiadau symud a thrin ac mae hyn yn destun hyfforddiant pellach o fewn un Gwasanaeth yn benodol.

Nifer damweiniau RIDDOR sydd wedi eu hadrodd



Er mwyn sicrhau fod ein trefniadau iechyd a diogelwch mor gadarn ag y mae modd iddynt fod, mae'r Uned yn parhau i gynnal rhaglen o archwiliadau ac yn gwneud asesiad o unrhyw wendidau sy'n bodoli o fewn yr adrannau unigol ac yn trafod y gwendidau hynny gyda'r penaeithiaid perthnasol.

Blaenoriaeth Lleol

Roedd edrych ar y posibilrwydd o gydweithio gyda Phartneriaeth Penllyn er mwyn trosglwyddo cyfrifoldeb dros adnoddau o fewn y gymuned er mwyn eu galluogi i ddefnyddio incwm i gynnal gwasanaethau lleol wedi ei adnabod fel blaenoriaeth yn ardal Penllyn. Mae trafodaethau wedi eu cynnal a byddant yn parhau er mwyn ceisio datblygu model amgen ar gyfer trosglwyddo cyfrifoldeb dros yr adnoddau o fewn y gymuned.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'u teuluoedd
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

Gwasanaethau Cyfreithiol

Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn darparu gwasanaeth cyfreithiol cyflawn i holl adrannau'r Cyngor. Er mwyn creu incwm rydym hefyd yn darparu'r gwasanaeth i gleientiaid allanol. Rydym yn derbyn adborth cadarnhaol cyson, gydag arolwg boddhad cwsmeriaid 2019/20 yn dangos bod 86% o gleientiaid yn nodi eu bod yn hollol fodlon (sgôr o 10 allan o 10) gyda'r gwasanaeth a ddarperir. Rydym yn cadw llygaid cyson ar y lefel perfformiad a'r rhesymau am briodoli sgôr is na 10/10 gan ymateb i negeseuon sydd yn deillio o'r data. Mae'r wybodaeth wrth gwrs yn cyfrannu at y drefn ar gyfer rheoli a monitro ein perfformiad.

**Holiadur Bodlonrwydd
Cwsmeriaid
- sgôr 10 allan o 10**



Un ffactor cyffredin y gwyddom amdano yw bod adeiladu gwell dealltwriaeth gyda chleientiaid ynglŷn ag ardrawiad ffactorau megis prosesau cyfreithiol allanol ar amserlenni disgwylidig weithiau yn gyfrwng i esbonio yr hyn sydd yn ymddangos fel oediad ar ran y Gwasanaeth.



Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am gefnogi y Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Cofrestru Etholiadau drwy weinyddu holl etholiadau'r sir a'r Gofrestr Etholwyr. Yn ystod 2019/20 rydym wedi gweinyddu Etholiad Senedd Ewrop a'r Etholiad Senedd DU nad oedd wedi eu

rhaglennu, ynghyd ac is etholiadau Cyngorau Cymuned.

Gan fod Cyngor Gwynedd yn awdurdod lletya ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru bu'r Swyddog Monitro yn cefnogi sefydlu'r Cyd-Bwyllgor a'i drefn llywodraethu ynghyd â gwaith ar y Cynllun Twf yn arwain at arwyddo Penawdau Telerau a pharatoi ar gyfer y camau nesaf.

Fel rhan o waith y Pwyllgor Safonau cychwynnwyd ar raglen o sesiynau hyfforddiant Cod Ymddygiad ar gyfer Cyngorau Tref a Chymuned ar sail darparu hyfforddwr yn hytrach na threfnu cwrs. Fodd bynnag, oherwydd yr argyfwng Covid-19, er cynnal y peilot cyntaf ni fu modd symud y rhaglen ymlaen.

Yn ystod y flwyddyn cychwynnwyd ar y gwaith o baratoi ar gyfer ehangu etholfraint etholiadau Senedd a Llywodraeth Leol yng Nghymru gan sicrhau arian grant gan y Llywodraeth ar gyfer cynllun hyrwyddo.

Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu swyddogaeth statudol yn cefnogi Gwasanaeth Crwner Gogledd Orllewin Cymru. Fel rhan o'r gwaith yna cynhaliwyd proses penodi Crwner Cynorthwyol newydd i'r ardal yn llwyddiannus.



Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd 2019/2020



Tud. 197

Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Mae ymarfer a pherfformiad cyffredinol yn y maes Plant yn ei gyfanrwydd yn gadarn. Bu i Adroddiad Arolygiad Llawn gan Arolygaeth Gofal Cymru ym mis Awst 2018 gadarnhau hynny. Bu iddynt adnabod sawl maes i'w ddatblygu ymhellach, ac rydym dros y flwyddyn ddiwethaf wedi mynd ati i ymateb i'r rheiny drwy'r Strategaeth Cefnogi Teulu a rhaglenni gwaith ein unedau.

Rydym wedi ehangu ar y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth gan ganolbwyntio ar sut mae teuluoedd yn cael mynediad at wybodaeth. Sefydlwyd Hwb gwybodaeth rhithiol (Hwb Teuluoedd Gwynedd), gyda rolau Cysylltwyr Cymunedol hefyd yn rhan o'r gwasanaeth.

Drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth mae teuluoedd yn cael mynediad at gefnogaeth amserol. Mae modd i deuluoedd gael mynediad at amrediad eang o wasanaethau therapiwtig a chefnogol er mwyn diwallu eu hanghenion unigol. Rydym yn parhau i adolygu yr hyn sydd ar gael i deuluoedd ac yn ystod 2019-2020 bu i ni wneud gwaith peilota ar y cyd ag Y Bont a Barnados o amgylch rheoli gwrthdaro mewn teuluoedd, a chefnogi llesiant plant er mwyn cyfarch anghenion lleol.

Rydym yn parhau i gynnal safonau uchel wrth ymateb i gyfeiriadau, a all fod yn rhai diogelu, neu rhai ag angen gofal a chefnogaeth.

Yn yr un modd mae'r Timau Gwaith Cymdeithasol wedi cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth amserol i blant a'u teuluoedd.


80% Canran yr adolygiadau amddiffyn plant wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod 2019/20



Fel rhan o waith dydd i ddydd y timau gweithredol o fewn yr adran, mae'r gweithwyr yn cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth broffesiynol. Yn ogystal â hyn, mae ganddynt yr opsiwn i fynd ar ofyn ymyrraethau mwy arbenigol os yw'n briodol. Mae'r Tîm Trobwynt yn gweithio'n ddwys gyda phlant a theuluoedd bregus, a phlant ar fin mynd i ofal. Maent yn gallu cefnogi y Timau Gwaith Cymdeithasol a theuluoedd gyda materion megis rhiantu, cwnsela, cam-ddefnyddio sylweddau, cyfarfodydd er mwyn tynnu aelodau'r teulu estynedig i mewn, cymedroli, therapi teuluol, cefnogaeth ymdopi gyda phrofiadau plentyndod negyddol (ACE'S). Rydym yn parhau i ddatblygu'r gefnogaeth arbenigol yma yn ddibynnol ar anghenion ac adborth teuluoedd.

Mae llwyddiant cydweithio rhwng y teuluoedd a'r Tîm yn golygu bod nifer o blant wedi gallu aros adref gyda'u teuluoedd, rhai wedi gallu dychwelyd yn ôl adref o ofal maeth a gofal preswyl, ynghyd â sicrhau bod lleoliadau maeth bregus wedi'u sefydlogi yn sylweddol. Er i'r nifer o blant mewn gofal gynyddu yn ystod cyfnod gweithredu'r tîm, mae'r nifer o blant mewn lleoliadau maeth neu leoliadau preswyl wedi aros yn sefydlog.

Ddiwedd Mawrth 2020 roedd 291 o blant yng ngofal Cyngor Gwynedd. O gymharu'r nifer plant mewn gofal dros gyfnod o 5 mlynedd mae'r cyfanswm wedi cynyddu o 194 i 291, sef cynnydd o bron i 50%. Serch hyn mae'r nifer o blant sydd mewn lleoliadau preswyl wedi aros yn gyson, a phlant mewn lleoliadau maeth wedi lleihau o 74% i 69% o boblogaeth plant mewn gofal.



Mae cynnydd yn y nifer o blant mewn gofal yn parhau i ymwneud â phlant sydd wedi eu lleoli gartref gyda'u rhieni o dan Orchymyn Gofal i'r Cyngor, sydd wedi codi o 27 i 60 dros y 5 mlynedd ddiwethaf.

Mae proffil poblogaeth plant mewn gofal wedi newid; mae cyfartaledd cost lleoliadau preswyl wedi cynyddu, ynghyd â chymhlethdod a dwyster achosion. Mae diffyg argaeledd lleoliadau preswyl mwy arbenigol hefyd yn her enfawr i'r Adran. Mae'r diffyg argaeledd o leoliadau preswyl a'r gost cynyddol sydd ynghlwm â nhw yn fater sydd yn derbyn sylw ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol. Ar lefel ranbarthol, o dan arweiniad Penaethiaid Adrannau Plant y Gogledd, rydym wedi bod yn cydweithio ar sefydlu Tim Is-Ranbarthol Aml-ddisgyblaethol fyddai'n darparu cefnogaeth ddwys, tymor byr i deuluoedd ag anghenion dwys a chymhleth. Er i ni ddatblygu achos busnes, cytuno ar y rolau amrywiol ar y cyd gyda'n partneriaid ieuchyd ac addysg, ynghyd â chychwyn y broses recriwtio, bu rhaid oedi'r cynllun peilot pan gychwynnodd yr argyfwng Coronafirws.

Mae plant a phobl ifanc yn dod i'n gofal o dan amgylchiadau anodd iawn ond rydym yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant yma ag y byddai unrhyw un ar gyfer ei blentyn ei hun. Mae gennym Swyddogion Adolygu Annibynnol sydd yn monitro cynlluniau gofal pob un plentyn a pherson ifanc sydd yn ein gofal, ac maent yn rhoi sicrwydd i ni fel Cyngor bod buddiannau'r plentyn yn cael eu sicrhau drwy gydol eu hamser mewn gofal. Yn ystod 2019-2020 bu i ni adolygu rôl y Swyddogion hyn yn dilyn adborth gan blant a phobl ifanc o'u profiad, ynghyd ag adborth gan yr Arolygiad Llawn. Mae'r swyddogion wedi ymateb i'r hyn sy'n bwysig i blant a phobl ifanc gan addasu eu trefniadau a'u ffordd o weithio.

Yn ôl ein Swyddogion Adolygu Annibynnol mae 94% o adolygiadau yn uchelgeisiol dros y plant sydd mewn gofal



Rhan allweddol o'r gwasanaeth i blant yw'n gallu fel Cyngor i leoli plant gyda rhieni maeth. Rydym yn hynod falch o'n rhieni maeth fel Cyngor ac mae'r Tim Maethu yn parhau i sicrhau fod gennym ddigon o rieni maeth i ddiwallu anghenion plant sydd yn methu byw adref. Serch hyn mae sicrhau capasiti ac argaeledd rhieni maeth yn her.

Mae clywed a gwrando ar lais y plentyn wedi parhau yn flaenoriaeth i ni yn ystod y flwyddyn diwethaf. Mae'r Panel Rhiant Corfforaethol wedi bod yn gweithio ar gryfhau'r elfen yma o'i waith fel ei fod yn cadw cyswllt agos gyda'r hyn sy'n bwysig i blant sydd yn ein gofal.

Yn ogystal, mae gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd Uned Ddiogelu a Sicrwydd Ansawdd sydd yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod ein trefniadau diogelu yn gadarn.

Mae'r rhesymau am unrhyw lithriad yn y perfformiad wedi ei herio ac yn ymwneud yn helaeth a salwch aelodau o staff, argaeledd cyd-weithwyr o gyrff statudol eraill ac argaeledd teuluoedd. Mae'r oedi ar y cyfan yn fychan (dyddiau) ac mae'r oediadau sydd yn hirach wedi eu asesu yn ofalus a ddim wedi golygu ardrawiad annerbyniol ar y plentyn.

Mae'r cynllun arloesol 'Diogelu Plant Effeithiol' yn parhau ar waith. Mae'r canlyniadau cychwynnol yn dangos gwelliant amlwg o ran effeithiolrwydd ein gwaith diogelu gyda gwell ffocws ar newid i gadw plant yn ddiogel. Ein nod fydd rhannu'r hyn a ddysgwyd ar draws y rhanbarth fel model o ymarfer da. Mae'r gwaith yn cael ei gefnogi gan ddatblygiad pecyn ymarfer a deunyddiau dysgu o bell i raeadru'r gwaith i siroedd eraill.

Rydym yn ffodus iawn o'r partneriaethau llwyddiannus sydd gennym gyda'r Bwrdd Iechyd, ysgolion, yr Heddlu a nifer fawr o fudiadau trydydd sector. Yn ystod 2019/20 rydym wedi gweld y gwaith partneriaethol hwnnw yn datblygu yn arbennig felly i gyd-gynhyrchu ymyraethau, a threfniadau ar gyfer atal problemau rhag codi. Rydym wedi cydweithio gyda'r Heddlu ar raglen hyfforddiant uchelgeisiol i'r gweithlu heddlu drwy y Rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd; rydym hefyd wedi sefydlu Rhaglen Trawsnewid y Blynnyddoedd Cynnar ar gyfer creu un gyfundrefn integredig ar gyfer gofal, addysg, iechyd a chwarae; ac rydym hefyd wedi arwain ar sefydlu Llwybr Llesiant Emosiynol i Bobl Ifanc 11-25 oed.

Rydym yn ffodus iawn o'n gweithlu eto eleni. Mae'n staff yn ymroddedig a phrin fu'r trosiant yn ein gweithlu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ar ddiwedd y flwyddyn bu i holl wasanaethau a gweithlu yr Adran fireinio eu hymdrechion tuag at gefnogi plant a theuluoedd drwy argyfwng y Coronafirws. Llwyddodd yr Adran

i gadw cyswllt gyda phlant a theuluoedd drwy ymweliadau, galwadau cadw mewn cyswllt a drwy gyfryngau rhithiol. Roedd yr Adran, fwy nag erioed, yn ymdrechu i gefnogi sefydlogrwydd teuluoedd a lleoliadau, a sicrhau pob cefnogaeth posibl i gadw teuluoedd gyda'i gilydd yn ystod y cyfnod heriol hwn. Rydym wedi arwain ar sicrhau cyflenwad bwyd i deuluoedd bregus ac i bobl ifanc sy'n gadael gofal; rydym wedi sicrhau fod nwyddau babi yn cyrraedd teuluoedd Dechrau'n Deg; a chefnogi cynlluniau i greu a darparu Pecynnau Gweithgareddau Celf, Garddio a Sachau Chwarae i gartrefi drwy'r sir. Mae pobl ifanc y sir wedi elwa o fforymau sgwrsio a chymorth ar lein, gweithgareddau cymdeithasol fel creu miwsig, cwis, ffitrwydd a choginio ar lein i gyd yn ymgais i adeiladu gwydnwch a hyrwyddo llesiant mewn cyfnod anodd.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- **Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.**
- **Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.**
- **Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.**

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod y Cabinet

Dyddiad y cyfarfod:	15 Medi 2020
Adroddiad gan:	Dyfrig Siencyn, Arweinydd a Dafydd Meurig, Dirprwy Arweinydd
Swyddog Cyswllt	Dilwyn Williams, Prif Weithredwr
Teitl yr Eitem:	Covid-19 - Adfer

Penderfyniad a geisir

Derbyn y diweddariad ar y gwaith sy'n mynd ymlaen i sefydlogi ac ail adeiladu yn sgil yr argyfwng Covid-19.

Cefndir

1. Er mwyn cynllunio'r hyn oedd angen sylw wrth symud ymlaen o'r argyfwng Covid -19, ym mis Mai, fe wnaeth y Cabinet gomisiynu'r Bwrdd Adfywio a'r Bwrdd Cefnogi Pobl i ystyried y meysydd y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt yn nhermau'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd ar gyfer y cyfnod o sefydlogi ac ail adeiladu sydd o'n blaenau.
2. Gofynnwyd i'r byrddau edrych ar y mater gan eu bod eisoes yn edrych ar newidiadau trawsffurfiol fyddai'n adeiladu ar y gwaith o sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn ar gyfer bobl Gwynedd.
3. Comisiynwyd y Grŵp Rheoli hefyd i ystyried pa faterion gweithrediad corfforaethol sydd angen ystyriaeth yn y tymor byr a'r tymor canolig wrth i ni symud ymlaen at y "normal newydd" ac i adrodd yn ôl i'r Cabinet os cyfyd yr angen am benderfyniad fel yn berthnasol.
4. Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddarau'r Cabinet ar yr hyn sydd wedi digwydd hyd yma. Drwy hyn rhoddir cyfle i'r Cabinet arsylwi ar unrhyw elfen; unrhyw elfen sydd ar goll a/ neu roi cyfarwyddyd perthnasol.
5. Fel rhan o'r trefniadau deddfwriaethol ar gyfer ymateb i argyfwng mae yna Grŵp Cydgordio Adfer Rhanbarthol wedi cael ei sefydlu er mwyn cydgordio ymdrechion y gwahanol asiantaethau cyhoeddus wrth i gymdeithas symud o ymateb i'r argyfwng i fod yn sefydlogi ac ail adeiladu.

6. O dan ymbarél y grŵp hwnnw, fe ofynnwyd i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd edrych ar faterion yn ymwneud ag adfer yr economi ar draws y rhanbarth; ac i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol edrych ar faterion yn ymwneud a gofal ac iechyd.
7. Bydd disgwyl i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd roddi sylw i'r materion hynny sydd yn ymwneud a gwydnwch cymunedol gan dderbyn wrth gwrs fod popeth bron yn rhan annatod o'r gwydnwch hwnnw.
8. Bydd angen sicrhau ein bod mewn sefyllfa i fedru dylanwadu a bwydo mewn ein hanghenion yma yng Ngwynedd i'r ffrydiau gwaith yma.
9. Gyda hyn mewn golwg amlinellir isod yr hyn y mae'r byrddau wedi bod yn ystyried hyd yma.
10. Bwriedir cynnal gweithdy ar y cyd gyda holl aelodau'r Cabinet a Phenaethiaid ar 10 Medi rhag ofn bod rhywbeth wedi disgyn rhwng dwy stôl. Gallwn adrodd ar unrhyw faterion sydd yn codi ar lafar yn y cyfarfod.

Trefniadau Gwaith y Cyngor

11. Yn amlwg, y cam cyntaf mewn unrhyw broses sefydlogi yw sicrhau bod gwasanaethau arferol y Cyngor ar gael cyn gynted ag y bo modd ond wrth ail gychwyn mae yna ddadl gref dros fanteisio ar unrhyw wersi a ddysgwyd yn ystod y cyfnod clo ac ymgorffori hynny wrth ail gychwyn.
12. Cyngor Llywodraeth Cymru o hyd yw y dylai bobl weithio gartref oni bai nad ydynt yn gallu gwneud hynny.
13. Rydym wedi gwneud asesiad o ran pa swyddogion sy'n methu gweithio gartref ond oherwydd gallu technolegol y Cyngor - ychydig iawn o rhain sydd yna mewn gwirionedd, a'r bwriad yw dod a'r swyddogion hynny yn ôl i'r swyddfa. Rydym hefyd wedi adnabod y rhai hynny lle mae angen iddynt ddod 'nôl i'r swyddfa er mwyn gallu adfer unrhyw wasanaeth penodol. Eto, rhagwelwn mai cyfyng iawn yw'r niferoedd yma hefyd.
14. Mae yna gryn dipyn o waith wedi cael ei wneud i sefydlu trefniadau o fewn y swyddfeydd fydd yn eu gwneud mor ddiogel ag sy'n bosibl ond mae hynny yn golygu bod y capasiti o fewn y swyddfeydd yn sylweddol llai. Nid yw hynny am fod yn broblemus o ran y niferoedd yr ydym yn son amdanynt ar hyn o bryd.

15. Rhagwelwn y bydd unrhyw newid ehangach yn ddibynnol ar unrhyw newid ym mholisi'r Llywodraeth, ond gan dderbyn y cyfyngiadau capasiti uchod beth bynnag fydd y polisi.
16. Bydd hyn oll yn digwydd dros y mis neu ddau nesaf gyda golwg ar gael yr holl wasanaethau hynny y mae modd eu hadfer yn ôl ar eu traed. Ar adeg sgwennu'r adroddiad yma, mae'r adrannau yn nodi bod nifer helaeth bellach yn gweithredu fel arfer neu gyda rhai addasiadau i gyfarch y gofynion o ran delio a'r haint gyda'r gweddill yn methu a gweithredu oherwydd y rheolau pellhau cymdeithasol lle nad oes ateb rhwydd ar gyfer dod dros y rhwystyr sylfaenol hwnnw.
17. O ran y trefniadau gwleidyddol, mae yna gyfarfodydd rhithiol o bwyllgorau yn digwydd eisoes gyda'r Cabinet a'r pwyllgorau cynllunio, trwyddedu, pensiynau ac archwilio eisoes yn cwrdd. Dros y bythefnos nesaf bydd Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion y pwyllgorau craffu yn cwrdd gyda'r aelodau cabinet a'r penaethiaid perthnasol er mwyn ystyried rhaglen graffu addasedig ar gyfer y pwyllgorau craffu i'r dyfodol.
18. Mae yna drefniadau ar droed hefyd i gynnal cyfarfod o'r Cyngor yn rhithiol ar 1 Hydref.
19. O ran trefniadau gwaith o fewn y Cyngor, un o'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y cyfnod yw bod modd manteisio ar y dechnoleg er mwyn osgoi teithio i gyfarfodydd sydd yn rhyddhau amser swyddogion ac yn rhoi buddion sylweddol o ran ôl troed carbon y Cyngor a'r ymgais i wneud mwy o ran yr agenda newid hinsawdd. Mae yna brotocol cynnal cyfarfodydd yn cael ei lunio ar gyfer swyddogion ar hyn o bryd a bwriedir creu un cyfochrog ar gyfer aelodau.
20. Yn yr un modd, mae'r profiadau diweddar wedi dangos bod manteision i gael o fod yn ymestyn y cysyniad o weithio gartref yn fwy parhaol i rai. Tra bod yna ddadleuon o blaid ac yn erbyn i'r Cyngor fod yn gwneud hynny, ar y cyfan mae'r glorïan yn pwysu mwy tuag at y ddadl o fod yn fwy hyblyg o ran rhoi dewis i staff, yn arbennig gan fod yna fanteision amlwg wedi cael ei amlygu gan nifer o staff iddynt hwy o ran eu hol troed carbon; eu heffeithiolrwydd a'r balans bywyd / gwaith.
21. Rydym ar hyn o bryd yn llunio fframwaith yn nodi sut y byddai hyn yn edrych gyda golwg ar gynnal arolwg staff i weld a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn gwneud y trefniant o weithio gartref yn un parhaus.
22. Mae angen dipyn o waith ar hyn er mwyn sicrhau bod yr achos dros wneud hynny yn glir a byddwn yn adrodd yn ôl i'r Cabinet ar hyn maes o law.

Bwrdd Adfywio

23. Cyn i'r cyfnod clo ein taro, roedd y Bwrdd Adfywio eisoes yn ymchwilio i'r cysyniad o greu cynllun adfywio ar gyfer yr amrywiol ardaloedd yng Ngwynedd gyda golwg ar greu'r cynlluniau yma drwy sefydlu'r hyn sy'n bwysig i'r gymuned leol.
24. Fel cam cyntaf yn y broses honno, adnabuwyd 13 ardal fel sylfaen ar gyfer creu'r cynlluniau hynny.
25. Y bwriad yw i'r cynlluniau yma adnabod beth sy'n bwysig ynghyd a beth y gellir ei wneud yn ymarferol i weithio ar hynny a phwy sydd am ei gyflawni. Y gobaith yw cael perchnogaeth a gweithrediad lleol ar y materion hynny.
26. Nid yw'r argyfwng wedi newid y dyhead hwnnw ond bellach rydym yn cychwyn o le gwahanol, yn enwedig o ystyried sgil effeithiau economaidd a chymdeithasol fydd yn deillio o'r argyfwng.
27. Fel rhan o'r gwaith yma, ym mis Gorffennaf cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhithiol gydag aelodau'r Cyngor ar gyfer yr ardaloedd unigol er mwyn egluro'r cysyniad. Cymerwyd y cyfle hefyd i ofyn pa bethau y dylai'r Cyngor fod yn ei wneud yn y tymor byr i helpu'r cymunedau i ddechrau ail adeiladu.
28. Roedd yna groesawu cyffredinol i'r cyfeiriad arfaethedig a'r cam nesaf fydd dechrau ar raglen i gynnal y sgysiau perthnasol yn yr amrywiol gymunedau. Bydd yn amhosibl gwneud hyn ar gyfer y 13 ardal yr un pryd, a'r bwriad yw sefydlu rhaglen dreigl i gyflawni hynny. Byddwn yn adrodd ar y rhaglen dreigl yma i'r Bwrdd Rhaglen maes o law.
29. Wrth ystyried y meysydd sydd angen sylw mae'r Bwrdd Adfywio wedi sefydlu amryw o feysydd gwaith sydd wedi amlygu eu hunain fel rhai sydd angen sylw fel a ganlyn ac mae gan bob un maes weithgor o swyddogion yn ymchwilio i weld beth y gellir ei wneud i weithredu yn y meysydd hynny.
30. Y meysydd dan sylw yw –
 - **Cefnogi Busnesau** - hyd yma mae'r gweithgaredd yn y maes yma wedi bod yn canolbwyntio ar rododi cymorth tymor byr i fusnesau drwy sicrhau taliadau i fentrau cymwys i'r Cynllun Grant Busnes Llywodraeth Cymru a delio ag ymholiadau a cheisiadau am Gymorth fel arall gan fusnesau. Mae yna ymgyrch yn cael ei chynnal o dan ymbarél y Bwrdd Uchelgaais Economaidd i gael gwybodaeth am sut y mae Covid-19 wedi effeithio ar fusnesau yng Ngwynedd a rhoi Cymorth

ymarferol i fusnesau wrth iddynt geisio gweithredu a chydymffurfio a'r rheolau sy'n bodoli er mwyn gwneud hynny.

Bydd gwaith nawr yn esblygu i ddadansoddi gwir effeithiau Covid-19 ar fusnesau ac ystyried yr ymyraethau pellach y mae angen i'r Cyngor eu cymryd er mwyn helpu busnesau o fewn y sir.

- **Canol trefi** - eto bu'r ymdrechion hyd yma yn canolbwyntio ar yr ymdrechion tymor byr oedd eu hangen er mwyn gosod strwythur ar ein strydoedd fyddai'n atgoffa pobl i gadw at y rheolau pellhad cymdeithasol ac i gynnig datrysiadau yn y manau hynny lle byddai hynny yn fwy o sialens. Bu ymdrechion hefyd i ymateb i geisiadau lleol i newid trefniadau strydoedd er mwyn ceisio cynorthwyo masnachwyr.

Gan fod gennym gymaint o wahanol fangreoedd a phwysau anarferol niferoedd ymwelwyr yn fwy na fyddem yn eu gweld fel arfer (a'r angen iddynt hwy gadw ar wahân) mae dygymod gyda'r sefyllfa wedi bod yn anodd dros ben. Roedd ardaloedd canol trefi eisoes yn wynebu heriau a chyfnod o newid, ac mae'n debygol y bydd sgil effeithiau Covid-19 yn cyflymu rhai o'r newidiadau hyn. Bydd sylw nawr yn symud i'r weledigaeth tymor canolig o sut y gallwn gefnogi a hwyluso adfywio ein canol trefi unigol a bydd angen ystyried a ydym am greu'r weledigaeth hwnnw fel rhan o'r Cynlluniau Adfywio ardaloedd y nodwyd uchod ynteu trwy ryw drefn arall.

- **Twristiaeth** - Roedd y Cabinet eisoes wedi cychwyn ar waith o gael sgwrs eang er mwyn ceisio diffinio'r hyn a olygir gennym drwy fod eisiau twristiaeth gynaliadwy. Ataliodd y cyfnod clo'r gwaith hwnnw ond mae'r profiadau dros y cyfnod wedi amlygu bod angen bod yn glir beth yr ydym am ei weld yn digwydd yng Ngwynedd i'r dyfodol o ran twristiaeth gynaliadwy. Mae yna waith ar droed i gael barn bobl busnes eu hunain cyn sefydlu'r egwyddorion i'w hystyried gan y Cabinet.
- **Prynu'n Lleol** - Roedd Cynllun Corfforaethol y cyngor eisoes yn nodi ein bod am edrych i sicrhau bod cymaint â phosibl o wariant y Cyngor yn aros yn lleol. Mae'r argyfwng wedi amlygu fod hyn mor bwysig ag erioed os ydym am helpu economi Gwynedd, ac mae yna ail afael a'r gwaith hwnnw bellach wedi cychwyn. Mae'r gweithgor swyddogion hefyd yn ystyried sut y gallwn adeiladu ar y tueddiad a welwyd gan rai yn ystod y cyfnod clo i brynu yn lleol gan geisio plethu hynny gyda'r reality fod nifer wedi symud hefyd i brynu ar lein. Yn y tymor byr felly, bydd ymdrechion pellach i annog a hybu gwariant yn lleol; gyda gwaith fwy i'r tymor canolig yn ystyried cyfloed er datblygu polisiau a gweithdrefnau caffael cynaliadwy'r Cyngor.

Bwrdd Cefnogi Pobl

31. Yn yr un modd mae'r Bwrdd Cefnogi Pobl wedi sefydlu ffrydiau gwaith sydd yn edrych ar y meysydd canlynol –

- **Model penblaen** - un o'r gwersi a ddygwyd yn ystod y cyfnod cloi oedd bod yna lawer o unigolion angen cymorth gyda'u bywydau; bod natur y cymorth hwnnw yn wahanol mewn gwirionedd ym mhob un achos, ac nad oedd bob tro yn disgyn o dan ddiffiniad yr hyn y roedd awdurdodau yn draddodiadol yn ei gyflawni. 'Roedd yna fyddin o wirfoddolwyr wrth gwrs ar gael i'r Cyngor yn ystod y cyfnod i gyflawni gwahanol bethau i unigolion ond o ran trefniadau'r Cyngor, bu i ni roi trefn mewn lle, lle byddai modd i unrhyw un ffonio'r Cyngor a'r cwestiwn cyntaf oedd i geisio darganfod beth oedd problem unigolyn ac yn hytrach na'u cyfeirio yn syth at rywun arall - i geisio datrys y broblem honno yn syth. Rhoddwyd rhyddid llwyr i'r tîm newydd hwn i ymateb fel ag yr oedd angen i ddatrys y materion oedd dan sylw.

Mewn gwirionedd dyma egwyddorion Ffordd Gwynedd ar waith yn ei ffurf hollol bur. Y cwestiwn mawr yw a ddylem barhau gyda threfn o'r fath. Mae yna weithgor yn edrych ar y gwersi mewn dyfnder er mwyn ystyried a ddylem barhau gyda strwythur cyffelyb i'r dyfodol a sut y gallwn wneud hynny, law yn llaw a chefnogi'r ymdrech gymunedol os yn greiddiol iddo

Mae trefniadau cynnig gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth yn rhan o drefniadau yr adran oedolion ac adran blant ac felly bydd rhaid ystyried yn ofalus unrhyw newid o ran ceisio sicrhau bod ein trefniadau yn syml ac yn effeithiol.

- **Digartrefedd** - Dros y cyfnod clo fe dderbyniwyd adnoddau sylweddol gan y Llywodraeth i sicrhau nad oedd yna unrhyw un yn cysgu ar y stryd ac yn sgil y buddsoddiad hwnnw, mae'n deg dweud ein bod wedi taclo digartrefedd bron dros nos drwy daflu adnoddau ato. Mae'n annhebygol iawn y bydd y lefel adnoddau yma yn parhau ac mae gennym nifer o rwystrau strwythurol sydd angen eu datrys os ydym am fedru sicrhau nad ydym yn llithro am yn ôl. Mae'r gwaith yn y maes yma yn datblygu nifer o gynlluniau er mwyn cyfarch hynny.
- **Lles ac Addysg Plant Difreintiedig / Bregus** - Yn amlwg dros y cyfnod clo roedd yna berygl go iawn i les rhai plant a byddai yna risg iddynt ddisgyn ar ei hol hi gyda'u datblygiad addysgol ddisgyn yn bellach fyth ar ei hol hi. Mae'r Adran Addysg yn gweithio gydag ysgolion unigol er mwyn sicrhau fod yna drefn i adnabod a gweithredu i helpu unrhyw un fyddai'n dod o fewn y category yma.

Agwedd arall o'r ffrwd gwaith yma yw ystyried y profiad mae nifer o deuluoedd wedi ei gael o fod yn treulio mwy o amser gyda'i gilydd. Mewn sawl enghraifft mae teuluoedd wedi adrodd bod y cyfnod gyda'i gilydd wedi bod yn bositif a bod perthnasoedd yn well. Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i hyn i weld sut gallwn ymgorffori'r dysgu hyn i'n trefniadau wrth symud ymlaen.

- **Tlodi ariannol** - yn ystod y cyfnod clo gwyddom fod 28% o weithwyr y sir wedi bod ar gynllun "furlough" y Llywodraeth a bod yna gynnydd sylweddol wedi bod yn y rhai sy'n hawlio credyd cynhwysol. Mae gennym gynlluniau ar hyn o bryd sydd yn addasu i ymateb i'r heriau cynyddol o amgylch cyflogaeth ac mae yna waith yn digwydd o fewn y Gweithgor yma i ystyried a oes yna risgiau i'r cynlluniau yma ddod i ben (wrth i grantiau ddod i ben) ac a yw'r cynlluniau sydd gennym yn ateb y gwir angen yn y ffordd orau.

Mae tlodi ariannol hefyd wedi arwain at nifer o aelwydydd yn dibynnu ar ac yn defnyddio cynlluniau a banciau bwyd yn lleol. Rydym yn edrych ar ein cynlluniau presennol i weld os oes cyfleoedd i ddargyfeirio adnoddau i'r maes hwn. Elfen arall o dlodi ariannol yw dibyniaeth nifer fwy o bobl ar fudd-daliadau a mynediad rhwydd i gyngor ariannol felly byddwn gyda'n partneriaid yn edrych ar unrhyw gyfleoedd i ail drefnu ein hunain fel ein bod yn wirioneddol ystyried y materion drwy lygaid y dinesydd, yn hytrach na natur ymyrraeth y swyddogaethau penodol.

- **Gofalwyr di-dâl** - dros y cyfnod clo bydd y baich ar ofalwyr di-dâl wedi bod yn fwy nag erioed. Mae'r gweithgor yn ystyried a oes angen unrhyw weithgaredd pellach ar ran y Cyngor i ymateb i hynny, ac os oes beth ddylid ei wneud.
- **Pobl sy'n cysgodi** - Dros y cyfnod clo, gyda chymorth ymdrechion gwirfoddolwyr, bu'r Cyngor yn llwyddiannus iawn yn sicrhau nad oedd y rhai hynny oedd yn cysgodi ond lle nad oedd ganddynt rwydwaith gefnogol eu hunain, yn cael eu gadael heb Gymorth na bwyd. O'r 16 Awst mae'r "rheolau cysgodi" wedi cael eu meirioli ond nid yw hynny yn golygu bod y garfan yma yn llai bregus. Mae'r gweithgor yn edrych i weld a yw'r unigolion yma yn sydyn yn gallu edrych ar ôl eu hunain ynteu a oes angen rhyw fath o ôl ddarpariaeth.
- **Cynhwysiad Digidol** - un o'r pethau ddigwyddodd dros y cyfnod clo oedd yr aeth popeth bron ar lein. Bu i hyn danlinellu pa mor bwysig yw cynhwysiad digidol ac mae yna amryw o agweddau i hyn - fforddiadwyedd y cyfarpar; yr isadeiledd i fedru cael mynediad a'r sgiliau i'w ddefnyddio. Mae'r grŵp yma yn ystyried a yw ein

trefniadau presennol ar gyfer ymyrryd yn y meysydd yma yn ddigonol ynteu a oes angen bod yn gwneud mwy.

- **Materion cydraddoldeb** – yn amlwg byddwn yn ystyried materion cydraddoldeb fel rhan annatod o bob dim i wneud gyda chefnogi pobl, ond rydym yn awyddus i ystyried os oes unrhyw wersi i'w dysgu o ran sut yr ydym wedi gallu cefnogi pobl gydag anghenion penodol dros y cyfnod clo. Yn benodol rydym am edrych i weld os oes faterion o ran argaeledd gwybodaeth i'n dinasyddion sydd angen sylw pellach.

32. Mae'r uchod yn rhoi blas o'r gweithgaredd sy'n mynd ymlaen i ymateb i'r materion hynny lle rydym o'r farn bod angen ystyried a yw ein hymateb i'r meysydd dan sylw yn ddigonol ynteu a oes angen gwneud mwy.
33. Wrth i'r trafodaethau esblygu, rhagwelaf y bydd y ddau Fwrdd yn ystyried y cynigion hynny gan wneud argymhellion perthnasol i'r Cabinet eu hystyried.

Sylwadau'r Swyddogion Statudol:

Swyddog Monitro

"Mae'r adroddiad yn cyfleu yn eglur y sefyllfa ar hyn o bryd. Mae'r cynlluniau adfer yn cael eu gweithredu o fewn argyfwng sydd yn esblygu. Wrth symud ymlaen gyda'r cynlluniau, bydd rhaid ystyried unrhyw addasiadau i'r rheoliadau a'r ddeddfwriaeth mewn perthynas â'r argyfwng, a bydd angen mewnbwn a chyingor cyfreithiol ar yr adeg yna."

Pennaeth Cyllid

"Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu llawer o'r gweithgaredd i ymateb i'r argyfwng yma, e.e. Grantiau Busnesau, a Digartrefedd. Fodd bynnag, roedd hynny'n arian un-tro am eleni yn unig, a ddim yn cyfarch y cyfan o'r angen. Byddwn yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod dilynol o'r Cabinet yn egluro'r ymhlygiadau cyllidebol anochel. Wrth ystyried cynlluniau adfer a gwella i'r dyfodol, bydd raid i'r Byrddau adnabod yr adnoddau parhaol fydd angen i weithredu yn y meysydd perthnasol".